# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 03/06/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu
Statement: The Programme for Government Annual Report

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Wyddoniaeth Cymru
Statement: Update on Welsh Science

Gwella Gofal Sylfaenol a Chymunedol
Improving Primary and Community Care

Llywodraethu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru
Governance of National Parks and Areas of Outstanding Natural Beauty in Wales

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Diogelwch ar y Ffyrdd

### Road Safety

13:30

## Rebecca Evans
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*1. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)1699(FM)*

*1. How is the Welsh Government working to improve road safety in Wales? OAQ(4)1699(FM)*

13:30

## Carwyn Jones
Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Our 'Road Safety Framework for Wales' sets out the measures that we are taking to improve road safety, and, of course, to reduce the number of people who are killed and seriously injured on Welsh roads.

Mae ein 'Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru' yn nodi'r mesurau yr ydym ni'n eu cymryd i wella diogelwch ar y ffyrdd, ac, wrth gwrs, i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

13:30

## Rebecca Evans
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Following the very worrying news that Wales has the highest rate of teenage drivers who are injured or killed on the roads and that the level is particularly high in Dyfed-Powys, how is the Welsh Government working with partners to ensure that young drivers are able to handle cars on rural roads, where accidents are most severe and most common?

Yn dilyn y newyddion pryderus iawn mai Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o yrwyr yn eu harddegau sy'n cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd a bod y lefel yn arbennig o uchel yn ardal Dyfed-Powys, sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall gyrwyr ifanc yrru ceir yn ddiogel ar ffyrdd gwledig, lle y ceir y damweiniau mwyaf difrifol a lle y maent yn digwydd amlaf?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have established an all-Wales young driver working group to identify the approaches that are needed to reduce the number of young casualties on Welsh roads. In addition, of course, we provide funding for young people—this year, for over 2,000—to receive Pass Plus Cymru training. This provides additional, practical and theoretical training post driving test, to improve skills and driving behaviour, and is a factor when calculating insurance premiums for young people as well. Although, of course, the issue of driving standards is not devolved, nevertheless, we take seriously the issue of ensuring that road safety figures continue to follow the right direction.

Rydym ni wedi sefydlu gweithgor gyrwyr ifanc Cymru gyfan i nodi'r dulliau sydd eu hangen i leihau nifer y bobl ifanc sy'n cael eu hanafu ar ffyrdd Cymru. Yn ogystal, wrth gwrs, rydym ni'n darparu cyllid i bobl ifanc—dros 2,000 eleni—i dderbyn hyfforddiant Pass Plus Cymru. Mae hyn yn darparu hyfforddiant ymarferol a theori ychwanegol ar ôl y prawf gyrru i wella sgiliau ac ymddygiad gyrru, ac mae'n ffactor wrth gyfrifo premiymau yswiriant ar gyfer pobl ifanc hefyd. Er, wrth gwrs, nad yw'r mater o safonau gyrru wedi ei ddatganoli, er hynny, rydym ni'n rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r mater o sicrhau bod y ffigyrau diogelwch ar y ffyrdd yn parhau i fynd i'r cyfeiriad cywir.

Senedd.tv
Fideo Video

13:31 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

First Minister, recent tragic events in Corwen have reiterated the dangers that are faced by our motorcyclists on Welsh roads. In 2012, motorcyclists were 70 times more likely to be killed or seriously injured in a crash than a car driver. However, despite the idea of young adults being at most risk since 1998, it is actually those over the age of 30 who are more likely to be casualties, with men making up approximately 90% overall. Could you advise what you are doing in particular as regards educating and looking at ways to prevent the frequent numbers of deaths that we hear about now on our roads due to motorcycling accidents?

Brif Weinidog, mae digwyddiadau trasig diweddar yng Nghorwen wedi ail-bwysleisio'r peryglon a wynebir gan ein beicwyr modur ar ffyrdd Cymru. Yn 2012, roedd beicwyr modur 70 gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damwain na gyrwyr ceir. Fodd bynnag, er gwaethaf y syniad mai oedolion ifanc sydd fwyaf mewn perygl ers 1998, y rhai dros 30 oed sy'n fwy tebygol o gael eu hanafu mewn gwirionedd, a dynion yw tua 90% ohonynt yn gyffredinol. A allech chi ddweud beth yr ydych chi'n ei wneud yn benodol o ran addysgu ac edrych ar ffyrdd o atal y nifer o farwolaethau aml yr ydym ni'n clywed amdanynt y dyddiau hyn ar ein ffyrdd oherwydd damweiniau beiciau modur?

Senedd.tv
Fideo Video

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are two issues here. First of all, a number of motorcyclists these days are people in middle age and older—they are people who you see on a Sunday, in their expensive kit, and, of course, their polished, expensive motorbikes. Of course, they want to enjoy their motorbikes, but we have noticed that some of the magazines have been saying, 'Come to Wales to open the throttle', and that means that they are speeding. No matter how good you are as a motorcyclist, if you lose control, you have very little protection and you are at risk. So, I think that there is an emphasis here—and we are talking about people who are mature in age—to ensure that people ride safely, and, regarding the magazines, to make sure that they do not promote irresponsible riding.

Ceir dau fater yma. Yn gyntaf oll, mae nifer o feicwyr modur y dyddiau hyn yn bobl canol oed a hŷn—maen nhw'n bobl yr ydych chi'n eu gweld ar ddydd Sul, yn eu dillad drud, ac, wrth gwrs, eu beiciau modur drud yn sgleinio. Wrth gwrs, maen nhw eisiau mwynhau eu beiciau modur, ond rydym ni wedi sylwi bod rhai o'r cylchgronau wedi bod yn dweud, 'Dewch i Gymru i agor y sbardun', ac mae hynny'n golygu eu bod yn goryrru. Waeth pa mor dda ydych chi fel beiciwr modur, os byddwch chi'n colli rheolaeth, prin iawn yw'r amddiffyniad sydd gennych chi ac rydych chi mewn perygl. Felly, rwy'n meddwl bod pwyslais yma—ac rydym ni'n sôn am bobl sy'n aeddfed o ran eu hoedran—ar sicrhau bod pobl yn reidio'n ddiogel, ac, o ran y cylchgronau, i wneud yn siŵr nad ydynt yn hyrwyddo reidio anghyfrifol.

Senedd.tv
Fideo Video

13:33 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Gan gyfeirio at yr un broblem, mae hefyd y ddamwain angheuol ym Mhontblyddyn ac un arall ar yr A470, a phob un yn ymwneud â beiciau modur. Pa drafodaethau y mae'r Llywodraeth wedi eu cael gyda chomisiynwyr yr heddlu i weld a oes modd cynnal ymgyrch i geisio newid arferion rhai o'r gyrwyr hyn?

With reference to a similar problem, there is also the fatal accident in Pontblyddyn and another one on the A470, all of them involving motorcycles. What discussions has the Government had with the police and crime commissioners to see whether a campaign could be established to try to change the habits of some these drivers?

Senedd.tv
Fideo Video

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth call ac yn rhywbeth, rwy'n siŵr, y bydd y Gweinidog yn mo'yn ei ystyried. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni gofio am y rheini sydd wedi cael eu lladd, yn enwedig yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben bod yr heddlu'n ystyried unwaith eto, ac yn gweithio gyda ni fel Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod yr ymgyrch ddiogelwch honno yn sicrhau bod llai o feicwyr yn cael eu lladd yn y blynyddoedd nesaf.

I think that that is something sensible and something, I am sure, that the Minister would want to consider. Of course, we have to remember those who have been killed, especially recently. However, it is very important that the police consider once again, and work with us as a Government, in order to ensure that the safety campaign ensures that fewer motorcyclists are killed over the next years.

13:34 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of your targets is to see a 40% reduction in the number of young people who are killed or seriously injured on our roads by 2020. Could you give us an update as to whether you believe that target will be reached? Would you also agree with me that one reason why young people in rural areas are killed in higher proportions is because, often, there is a lack of public transport alternatives for young people and that, therefore, they have to be driving their cars? What can we do to improve the opportunities for young people in rural areas to access affordable public transport?

Brif Weinidog, un o'ch targedau yw gweld gostyngiad o 40% yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd erbyn 2020. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni o ran ba un a ydych chi'n credu y bydd y targed hwnnw'n cael ei gyrraedd? A fyddech chi hefyd yn cytuno â mi mai un rheswm pam mae pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn cael eu lladd mewn niferoedd uwch yw oherwydd, yn aml, bod diffyg dewisiadau cludiant cyhoeddus eraill i bobl ifanc ac, felly, mae'n rhaid iddyn nhw yrru eu ceir? Beth allwn ni ei wneud i wella'r cyfleoedd i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig gael mynediad at gludiant cyhoeddus fforddiadwy?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

If that were the case, then we would see an increase in accidents across the age groups, not just for young people. We know that the overall rate of casualties on Welsh roads has been falling, and it fell again in 2013. The number of motorcyclists and young persons killed or seriously injured does remain below the 2004-08 average and, indeed, there has been a general trend towards fewer people being injured on the roads over the years in any event. So, I think that the 2020 objective is perfectly reachable. However, what is important is that young people, when they learn to drive and pass their test—even though the test now is far more difficult than the test I tried 30 years ago, I have to say, especially the theory end of it—realise that there is still more to do in terms of learning how to drive and learning road sense. That is what Pass Plus Cymru intends to do, with the added incentive, of course, of providing a potential reduction in what are very hefty insurance premiums.

Pe byddai hynny'n wir, yna byddem yn gweld cynnydd mewn damweiniau ar draws y grwpiau oedran, nid ar gyfer pobl ifanc yn unig. Rydym ni'n gwybod bod cyfradd gyffredinol yr anafiadau ar ffyrdd Cymru wedi bod yn gostwng, a bu gostyngiad unwaith eto yn 2013. Mae nifer y beicwyr modur a'r bobl ifanc sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn parhau i fod yn is na chyfartaledd 2004-08 ac, yn wir, bu tuedd gyffredinol tuag at lai o bobl yn cael eu hanafu ar y ffyrdd dros y blynyddoedd beth bynnag. Felly, rwy'n meddwl bod yr amcan 2020 yn gwbl gyraeddadwy. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw bod pobl ifanc, pan eu bod nhw'n dysgu gyrru a phasio eu prawf—er bod y prawf nawr yn llawer anoddach na'r prawf a sefais i 30 mlynedd yn ôl, mae'n rhaid i mi ddweud, yn enwedig yr agwedd theori arno—sylweddoli bod llawer mwy i'w wneud o hyd o ran dysgu sut i yrru a dysgu synnwyr ffordd. Dyna mae Pass Plus Cymru yn bwriadu ei wneud, gyda'r cymhelliad ychwanegol, wrth gwrs, o ddarparu gostyngiad posibl i'r hyn sy'n bremiymau yswiriant drud iawn.

## Adroddiad Sefydliad yr RAC

## RAC Foundation Report

13:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o adroddiad Sefydliad yr RAC am gyfraddau damweiniau ymysg gyrwyr ifanc? OAQ(4)1691(FM)*

*2. What assessment has the Welsh Government made of the RAC Foundation report on accident rates for young drivers? OAQ(4)1691(FM)*

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I refer the Member to the answer that I have already given. It is an important issue, of course and, in terms of how to encourage young drivers to drive more safely, that has been encapsulated in the previous answer.

Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb yr wyf eisoes wedi ei roi. Mae'n fater pwysig, wrth gwrs, ac, o ran sut i annog gyrwyr ifanc i yrru'n fwy diogel, mae hynny wedi cael ei grynhoi yn yr ateb blaenorol.

13:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your previous answer, which I note, First Minister. You will be aware that the report has shown that, in Gwent, for example, the rate is more than half as high as the United Kingdom average, giving it the second highest casualty rate of anywhere in the United Kingdom, topped sadly only by Dyfed Powys. The United Kingdom Department for Transport has agreed to commission research into how telematics can help change the attitudes and behaviour of learner drivers, undertaking focus groups with parents, young people and employers to get a better understanding of the issues from their perspective. I am sure that you would like to assure the house that you are fully behind a measure of this kind and anything that can be done to reduce these terrible casualties on our roads.

Diolch i chi am eich ateb blaenorol, yr wyf wedi ei nodi, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod yr adroddiad wedi dangos, yng Ngwent, er enghraifft, bod y gyfradd yn fwy na hanner mor uchel â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sy'n golygu mai dyma'r ail nifer uchaf o anafiadau o unrhyw fan yn y Deyrnas Unedig, ac yn anffodus dim ond Dyfed Powys sy'n uwch. Mae Adran Drafnidiaeth y Deyrnas Unedig wedi cytuno i gomisiynu gwaith ymchwil i sut y gall telemateg helpu i newid agweddau ac ymddygiad y rhai sy'n dysgu gyrru, gan gynnal grwpiau ffocws gyda rhieni, pobl ifanc a chyflogwyr i gael dealltwriaeth well o'r problemau o'u safbwynt nhw. Rwy'n siŵr y byddech chi'n hoffi sicrhau'r tŷ eich bod yn cefnogi mesur o'r math hwn yn llawn ac unrhyw beth y gellir ei wneud i leihau'r anafiadau erchyll hyn ar ein ffyrdd.

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I should add that £4 million in capital funding and £2 million in revenue funding has been set aside for road safety in this financial year and that we have prioritised schemes and projects that work to reduce casualties in what are still, unfortunately, high-risk groups.

Wrth gwrs, dylwn ychwanegu bod £4 miliwn o gyllid cyfalaf a £2 filiwn o gyllid refeniw wedi ei neilltuo ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd yn y flwyddyn ariannol hon a'n bod ni wedi blaenoriaethu cynlluniau a phrosiectau sy'n gweithio i leihau nifer yr anafiadau yn yr hyn, sy'n dal i fod, yn anffodus, yn grwpiau risg uchel.

13:36 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Tredegar Comprehensive School in 2009 produced a powerful video outlining the risks and horrendous consequences of texting while driving. The video has now had over 80,000 hits on YouTube. We need to encourage more comprehensive and widespread education of the risks associated with such dangerous driving practices. Do you have any plans to work with local authorities to do this, especially considering that, as my good friend Bill Graham said, Gwent has the second highest rate of accidents among young drivers in any part of the UK?

Brif Weinidog, cynhyrchodd Ysgol Gyfun Tredegar fideo grymus yn 2009 yn amlinellu risgiau a chanlyniadau erchyll o anfon negeseuon testun wrth yrru. Mae'r fideo wedi cael ei wylio dros 80,000 o weithiau ar YouTube erbyn hyn. Mae angen i ni annog addysg fwy cynhwysfawr ac eang o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag arferion gyrru peryglus o'r fath. A oes gennych chi unrhyw gynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i wneud hyn, yn enwedig o ystyried, fel y dywedodd fy ffrind da Bill Graham, mai Gwent sydd â'r ail gyfradd uchaf o ddamweiniau ymhlith gyrwyr ifanc mewn unrhyw ran o'r DU?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We will work with the police in order to reduce the number of accidents. Texting while driving is illegal; it is as simple as that. I cannot imagine anything that would fit more into the category of driving without due care and attention at the very least. It is widely appreciated that making a phone call without a hands free system in the car is illegal. It is clearly the case that more work needs to be done in terms of texting. Although it is not clear how many of these accidents texting has actually caused, it is self-evident in my view that texting is, by its very nature, dangerous while at the wheel of a car.

Oes. Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu er mwyn lleihau nifer y damweiniau. Mae anfon negeseuon testun wrth yrru yn anghyfreithlon; mae mor syml â hynny. Ni allaf ddychmygu unrhyw beth a fyddai'n ffitio'n well i'r categori o yrru heb ofal a sylw dyledus. Gwerthfawrogir yn eang bod gwneud galwad ffôn heb system di-ddwylo yn y car yn anghyfreithlon. Mae'n amlwg yn wir bod angen gwneud mwy o waith o ran anfon negeseuon testun. Er nad yw'n eglur faint o'r damweiniau hyn y mae anfon negeseuon testun wedi eu hachosi mewn gwirionedd, mae'n gwbl amlwg yn fy marn i, bod anfon negeseuon testun, o'i natur, yn beryglus wrth fod y tu ôl i lyw car.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, are there enough intensive care beds in Wales?

Brif Weinidog, a oes digon o welyau gofal dwys yng Nghymru?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, we believe that there are. If you look, for example, at the number of beds per head across Wales, that figure is higher than it is in England.

Oes, rydym ni'n credu bod digon. Os edrychwch chi, er enghraifft, ar nifer y gwelyau fesul pen ar draws Cymru, mae'r ffigur yn uwch nag yn Lloegr.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Regrettably, you will be aware today of news stories that point to 29 patients dying prematurely because of their inability to access cardiac services at the University Hospital of Wales in Cardiff or Morriston Hospital. One of the doctors involved, Dr Paul Morgan, has identified a failure to have enough intensive care beds available here in Wales to address some of the conditions that these patients are presenting with. The 29 patients who died prematurely represent a 70% increase in the number of premature deaths during the previous year. You have clinicians saying that there are not enough intensive care beds available to meet the demand and, this afternoon, we will have a statement from you on the programme for government—there are 490-odd pages of it. It is clear that clinicians are saying that there are not enough intensive care beds here in Wales. Why are you not delivering the goods to meet the demand in terms of addressing these premature deaths?

Yn anffodus, byddwch yn ymwybodol heddiw o straeon newyddion nodi bod 29 o gleifion wedi marw o flaen eu hamser gan na allent gael mynediad at wasanaethau cardiaidd yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd neu Ysbyty Treforys. Mae un o'r meddygon perthnasol, Dr Paul Morgan, wedi nodi methiant o ran bod digon o welyau gofal dwys ar gael yma yng Nghymru i fynd i'r afael â rhai o'r cyflyrau sydd gan y cleifion hyn. Mae'r 29 o gleifion a fu farw o flaen eu hamser yn cynrychioli cynnydd o 70% i nifer y marwolaethau cynamserol yn ystod y flwyddyn cynt. Mae gennych chi glinigwyr sy'n dweud nad oes digon o welyau gofal dwys ar gael i fodloni'r galw ac, y prynhawn yma, byddwn yn cael datganiad gennych chi ar y rhaglen ar gyfer llywodraethu—sy'n tua 490 tudalen. Mae'n amlwg bod clinigwyr yn dweud nad oes digon o welyau gofal dwys yma yng Nghymru. Pam nad ydych chi'n darparu'r hyn sydd ei angen i fodloni'r galw o ran mynd i'r afael â'r marwolaethau cynamserol hyn?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is very difficult to comment on a programme that no-one has seen yet, but I note the comments on the website and the comments of Adam Cairns in terms of what he said about what is being done to reduce the number of people who are on cardiac waiting lists. People do unfortunately pass away across the UK when they are waiting for cardiac operations. That is of no comfort to their loved ones; I understand that. Occasionally, there will be times when people are not able to have that surgery. However, what is clear is that the number of people waiting for cardiac surgery in south Wales has dropped over the last year.

Mae'n anodd iawn gwneud sylwadau ar raglen nad oes unrhyw un wedi ei gweld eto, ond nodaf y sylwadau ar y wefan a sylwadau Adam Cairns o ran yr hyn a ddywedodd ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei wneud i leihau nifer y bobl sydd ar restrau aros cardiaidd. Yn anffodus, mae pobl yn marw ledled y DU pan fyddant yn aros am lawdriniaethau cardiaidd. Nid yw hynny o unrhyw gysur i'w hanwyliaid; rwy'n deall hynny. O bryd i'w gilydd, bydd adegau pan na fydd pobl yn gallu cael y llawdriniaeth honno. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg yw bod nifer y bobl sy'n aros am lawdriniaeth gardiaidd yn ne Cymru wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

That drop has as a contributory factor your accessing treatment across the border in Bristol and Birmingham, I believe, by commissioning capacity in the independent sector. We have no ideological problems on this side of the house—so long as the patient can have treatment free at the point of delivery, we believe that that is a sensible course of action. As I said to you in my second question, clinicians are saying that there are not enough intensive beds available to meet the demand; there has been a 70% increase in premature deaths because of cardiology problems within these two hospitals. Do you believe that the families of people like Ron Jones deserve an apology from you, as First Minister, for not putting the resources into the Welsh NHS, because they are dying prematurely because their conditions cannot be met?

Mae defnyddio triniaeth dros y ffin ym Mryste a Birmingham yn cyfrannu at y gostyngiad hwnnw, rwy'n credu, trwy gomisiynu capasiti yn y sector annibynnol. Nid oes gennym unrhyw broblemau ideolegol ar yr ochr hon i'r tŷ—cyn belled â bod y claf yn gallu cael triniaeth am ddim yn y man darparu, rydym ni'n credu bod honno'n ffordd synhwyrol o weithredu. Fel y dywedais wrthych chi yn fy ail gwestiwn, mae clinigwyr yn dweud nad oes digon o welyau gofal dwys ar gael i fodloni'r galw; bu cynnydd o 70% i farwolaethau cynamserol oherwydd problemau cardioleg yn y ddau ysbyty hyn. A ydych chi'n credu bod teuluoedd pobl fel Ron Jones yn haeddu ymddiheuriad gennych chi, fel Prif Weinidog, am beidio â rhoi'r adnoddau i'r GIG yng Nghymru, oherwydd maen nhw'n marw o flaen eu hamser gan na ellir trin eu cyflyrau?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is very difficult to comment on an individual's case. What we know is that the numbers waiting for cardiac operations are dropping. If it were the case that the numbers were increasing, one might expect to see an increase in the number of people dying. It is not clear where these figures are from; it is not clear how sound they are. I looked at the BBC Wales website, which said that there had been a halving of the number of people waiting for cardiac operations since August last year in Cardiff. The Swansea figures, which made no sense at all and, possibly, had been cut and pasted, said that, in March 2013, there were 323 patients waiting for cardiac operations—an increase of 57 since last year. 2013 is last year, so I am not sure where those figures are from or whether they make any sense at all. There will be occasions when people do, unfortunately, pass away when waiting for cardiac operations—that happens in England, in Scotland and in Wales. What we need to ensure is that the trend towards a reduction in the waiting times and waiting lists for cardiac operations continues. That is exactly what we have done.

Mae'n anodd gwneud sylwadau ar achos unigolyn. Yr hyn a wyddom yw bod y niferoedd sy'n aros am lawdriniaethau cardiaidd yn gostwng. Pe byddai'n wir bod y niferoedd yn cynyddu, byddai rhywun yn disgwyl gweld cynnydd i nifer y bobl sy'n marw. Nid yw'n eglur o ble mae'r ffigurau hyn yn dod; nid yw'n eglur pa mor ddibynadwy ydyn nhw. Edrychais ar wefan BBC Cymru, a ddywedodd bod nifer y bobl sy'n aros am lawdriniaethau cardiaidd ers mis Awst y llynedd yng Nghaerdydd wedi haneru. Roedd ffigurau Abertawe, nad oeddent yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl ac, o bosibl, a oedd wedi cael eu torri a'u gludo, yn dweud, ym mis Mawrth 2013, bod 323 o gleifion yn aros am lawdriniaethau cardiaidd—cynnydd o 57 ers y llynedd. Y llynedd yw 2013, felly nid wyf yn siŵr o ble mae'r ffigurau hynny yn dod na pha un a ydynt yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Bydd achlysuron pan fydd pobl, yn anffodus, yn marw wrth aros am lawdriniaethau cardiaidd—mae hynny'n digwydd yn Lloegr, yn yr Alban ac yng Nghymru. Yr hyn y mae angen i ni ei sicrhau yw bod y duedd tuag at ostyngiad i'r amseroedd aros a'r rhestrau aros ar gyfer llawdriniaethau cardiaidd yn parhau. Dyna'n union yr ydym ni wedi ei wneud.

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, today we have seen very promising early results from new skin cancer drugs, and we can be really proud of the role that Swansea College of Medicine has played in those trials. Could you outline what steps your Government is taking to support clinical trials in Wales?

Brif Weinidog, rydym ni wedi gweld heddiw canlyniadau cynnar addawol iawn o gyffuriau canser y croen newydd, a gallwn fod yn falch dros ben o'r swyddogaeth y mae Coleg Meddygaeth Abertawe wedi ei chyflawni yn y profion hynny. A allech chi amlinellu pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i gefnogi profion clinigol yng Nghymru?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We are very supportive. Melanoma is a disease that is quite close to my heart as it is the illness that took my mother. I know that it is a disease that is exceptionally difficult—or impossible, effectively—to treat once it has spread, so I very much welcome our role in Wales and the work that has been done in terms of providing what appear to be some very good results thus far for two drugs for melanoma. As the leader of the Liberal Democrats will know, we are very fortunate, for example, in the research facilities that we have, particularly in the University Hospital of Wales, which have contributed so much to dealing with an illness that everyone in this Chamber will be familiar with.

Rydym ni'n gefnogol iawn. Mae melanoma yn glefyd sy'n eithaf agos at fy nghalon gan mai dyna'r salwch a achosodd marwolaeth fy mam. Rwy'n gwybod ei fod yn glefyd sy'n eithriadol o anodd—neu'n amhosibl, mewn gwirionedd —ei drin pan ei fod wedi lledaenu, felly rwy'n croesawu'n fawr ein swyddogaeth yng Nghymru a'r gwaith sydd wedi ei wneud o ran darparu'r hyn sy'n ymddangos fel canlyniadau da iawn hyd yma ar gyfer dau gyffur ar gyfer melanoma. Fel y bydd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwybod, rydym ni'n ffodus iawn, er enghraifft, o ran y cyfleusterau ymchwil sydd gennym ni, yn enwedig yn Ysbyty Athrofaol Cymru, sydd wedi cyfrannu cymaint at ymdrin â salwch y bydd pawb yn y Siambr hon yn gyfarwydd ag ef.

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, we know that clinical trials improve the quality of care and outcomes for many patients and that they encourage and motivate the workforce and can help us to retain internationally renowned clinicians within Wales. Will you ensure that the ability to run clinical trials for cancer drugs in Wales will not be jeopardised by clinicians being unable to prescribe treatments regarded as the accepted standard of care? If they cannot do that, it can mean that they cannot take part in a clinical trial.

Brif Weinidog, rydym ni'n gwybod bod profion clinigol yn gwella ansawdd gofal a chanlyniadau i lawer o gleifion a'u bod yn annog ac yn cymell y gweithlu ac y gallant ein helpu i gadw clinigwyr o fri rhyngwladol yng Nghymru. A wnewch chi sicrhau na fydd y gallu i gynnal profion clinigol ar gyfer cyffuriau canser yng Nghymru yn cael ei beryglu gan glinigwyr yn methu â darparu triniaethau a ystyrir fel y safon o ofal a dderbynnir? Os na allant wneud hynny, gall olygu na allant gymryd rhan mewn prawf clinigol.

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

If treatments are the accepted standard of care, they will be approved by the National Institute for Health and Care Excellence and, therefore, I would not expect there to be a difficulty in terms of being able to prescribe those drugs. In terms of clinical trials, of course, they are set up in various different ways. For example, for many, many years, the University Hospital of Wales has been part of the leukaemia trials—for more than 20 years—where, effectively, people arriving at the hospital were immediately part of a trial. That was certainly the case 20 years ago. That has led, of course, to tremendous improvements in the diagnosis and treatment of that illness. I am not aware of there being restrictions on the prescription of a particular drug as part of a clinical trial.

Os bydd triniaethau yn safon o ofal a dderbynnir, byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ac, felly, ni fyddwn yn disgwyl y byddai anhawster o ran gallu darparu'r cyffuriau hynny. O ran profion clinigol, wrth gwrs, maen nhw'n cael eu trefnu mewn nifer o wahanol ffyrdd. Er enghraifft, ers blynyddoedd lawer, mae Ysbyty Prifysgol Cymru wedi bod yn rhan o'r profion lewcemia—ers mwy nag 20 mlynedd—ble, mewn gwirionedd, yr oedd pobl a oedd yn cyrraedd yr ysbyty yn rhan o brawf yn syth. Roedd hynny'n sicr yn wir 20 mlynedd yn ôl. Mae hynny wedi arwain, wrth gwrs, at welliannau aruthrol yn y diagnosis a'r driniaeth o'r salwch hwnnw. Nid wyf yn ymwybodol bod cyfyngiadau ar ddarparu cyffur penodol ar bresgripsiwn yn rhan o brawf clinigol.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Perhaps, First Minister, you would agree to meet with clinicians at Velindre who have concerns about this. You have taken a very strong stance here in the Chamber about Welsh patients not being prevented from accessing up-to-date cancer treatments. In that case, will you look again at the Welsh NHS's decision not to provide SIR-Spheres radiotherapy in Wales and also the inability of the Welsh NHS to commission peritoneal metastases cytoreduction surgery—not drugs, but surgical surgeries and radiotherapy techniques that have been accepted as being successful. Will you look again at those decisions so that Welsh patients have access to both those technologies?

Efallai, Brif Weinidog, y gwnewch chi gytuno i gyfarfod â chlinigwyr yn Felindre sydd â phryderon ynghylch hyn. Rydych chi wedi gwneud safiad cryf iawn yma yn y Siambr am beidio ag atal cleifion yng Nghymru rhag cael mynediad at y triniaethau canser diweddaraf. O gofio hynny, a wnewch chi edrych eto ar benderfyniad y GIG yng Nghymru i beidio â darparu radiotherapi SIR-Spheres yng Nghymru yn ogystal ag anallu'r GIG yng Nghymru i gomisiynu llawdriniaeth sytoleihau metastasisau peritoneol —nid cyffuriau, ond llawdriniaethau llawfeddygol a thechnegau radiotherapi a dderbyniwyd fel rhai llwyddiannus. A wnewch chi edrych eto ar y penderfyniadau hynny fel bod gan gleifion o Gymru fynediad at y ddwy dechnoleg hynny?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think it best that I ask the Minister for Health and Social Services to write to the leader of the Liberal Democrats about those particular procedures. As with all cancer treatments, the difficulty is knowing how effective they will be, because no two people are ever alike in terms of their response to the way that drugs or new treatments are administered. I will certainly ask the Minister for Health and Social Services to write with regard to those specific instances so that she can have the answer.

Rwy’n credu mai gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am y llawdriniaethau penodol hynny fyddai orau. Fel gyda phob triniaeth ar gyfer canser, yr anhawster yw gwybod pa mor effeithiol y byddan nhw, oherwydd nad yw unrhyw ddau unigolyn byth yr un fath â’i gilydd o ran eu hymateb i'r ffordd y darperir cyffuriau neu driniaethau newydd. Byddaf yn sicr yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu ynghylch yr achosion penodol hynny fel y gall hi gael yr ateb.

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the leader of Plaid Cymru.

Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru.

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Both the First Minister and the leader of the Conservatives in Wales took to the radio this morning to proclaim that economic recovery had taken root. Does the First Minister in all honesty believe that people in this country are feeling an economic recovery?

Aeth y Prif Weinidog ac arweinydd y Ceidwadwyr yng Nghymru ar y radio y bore yma i gyhoeddi bod adferiad economaidd wedi dechrau gwreiddio. A yw'r Prif Weinidog wir yn credu bod pobl yn y wlad hon yn teimlo bod adferiad economaidd wedi cychwyn?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that there is some way to go yet, but we know that there has been great success in terms of unemployment figures. Youth employment, Jobs Growth Wales, the fact that more and more people have the skills that they need, modern apprenticeships: all these things come together to ensure that we are laying the foundations for a robust economy in the future. However, of course, we are not in the situation that we were pre 2008.

Credaf fod cryn dipyn o ffordd i fynd eto, ond gwyddom y bu llwyddiant mawr o ran ffigurau diweithdra. Cyflogaeth ieuenctid, Twf Swyddi Cymru, y ffaith bod mwy a mwy o bobl yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt, prentisiaethau modern: mae’r holl bethau hyn yn dod at ei gilydd i sicrhau ein bod yn gosod y sylfeini ar gyfer economi gadarn yn y dyfodol. Fodd bynnag, wrth gwrs, nid ydym yn y sefyllfa yr oeddem ni ynddi cyn 2008.

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is almost as if the First Minister has not spoken to people who are seriously struggling in these difficult economic times. The deputy governor of the Bank of England said a few days ago that, here in Wales, it looks like growth started six to nine months ago, whereas for England, it is more like a year since growth got back to reasonable rates. There is still an element of catch-up here. Does the First Minister agree that growth is lagging behind in Wales? If he does agree, does he take any responsibility for it?

Mae bron fel pe nad yw'r Prif Weinidog wedi siarad â phobl sy'n ei chael hi'n hynod anodd yn yr oes economaidd anodd sydd ohoni. Dywedodd dirprwy lywodraethwr Banc Lloegr ychydig ddiwrnodau yn ôl ei bod yn edrych, yma yng Nghymru, fel bod twf wedi dechrau rhwng chwech a naw mis yn ôl, ond ar gyfer Lloegr, mae'n fwy fel blwyddyn ers i dwf ddychwelyd i gyfraddau rhesymol. Ceir elfen o ddal i fyny yma o hyd. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod twf ar ei hôl hi yng Nghymru? Os yw'n cytuno, a yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb am hynny?

13:46

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

What the deputy governor said is self-evidently wrong. First of all, you cannot compare the whole of England—the north-east of England, London, the south-east—with Wales. However, even with that comparison, our unemployment rate is lower than the rate in England. We have the best job creation scheme for young people in the world, I would argue; I do not see another that is as successful. We see youth unemployment dropping. We need to make sure, of course, that gross valued added continues to rise. We have been hugely successful in attracting investment—Pinewood being at the pinnacle of that. We have worked very hard to rebuild our presence overseas and, of course, to make sure that we bring investment into Wales.

Mae’r hyn a ddywedodd y dirprwy lywodraethwr yn amlwg yn anghywir. Yn gyntaf oll, ni allwch chi gymharu Lloegr gyfan—gogledd-ddwyrain Lloegr, Llundain, y de-ddwyrain—â Chymru. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda’r gymhariaeth honno, mae ein cyfradd diweithdra yn is na'r gyfradd yn Lloegr. Ni sydd â’r cynllun creu swyddi gorau ar gyfer pobl ifanc yn y byd, byddwn yn dadlau; nid wyf yn gweld un arall sydd mor llwyddiannus. Rydym ni’n gweld diweithdra ymhlith pobl ifanc yn gostwng. Mae angen i ni wneud yn siŵr, wrth gwrs, bod gwerth ychwanegol gros yn parhau i godi. Rydym ni wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran denu buddsoddiad—ac mae Pinewood yn flaenllaw yn hynny o beth. Rydym ni wedi gweithio'n galed iawn i ailadeiladu ein presenoldeb dramor ac, wrth gwrs, i wneud yn siŵr ein bod yn dod â buddsoddiad i mewn i Gymru.

That is not to say that the economy is where it was eight or nine years ago. That is clearly not the case, and is true of every country in western Europe and North America. Nevertheless, given the circumstances that we find ourselves in, to be in a position where, for example, unemployment is lower than in England is extraordinary. Usually, Wales was always at the tail end of an economic recovery; this time, we are at the front.

Nid yw hynny'n golygu bod yr economi yn yr un sefyllfa ag yr oedd ynddi wyth neu naw mlynedd yn ôl. Nid dyna’r achos, yn amlwg, ac mae’n wir am bob gwlad yng ngorllewin Ewrop a Gogledd America. Serch hynny, o ystyried yr amgylchiadau rydym ni’n canfod ein hunain ynddynt, i fod mewn sefyllfa lle, er enghraifft, mae diweithdra yn is nag yn Lloegr, yn eithriadol. Fel rheol, roedd Cymru bob amser ar ei hôl hi o ran adferiad economaidd; y tro hwn, rydym ni ar y blaen.

13:47

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Those figures take absolutely no account of the type of jobs that people are in, the number of zero-hour contracts, the low pay and the difficulty that people are finding to make ends meet, even to put food on the table. Llywydd, if we are to reverse this historic underperformance of the Welsh economy and improve living standards here, we must take responsibility as a country, and the First Minister must take responsibility as a First Minister, too. Yesterday, the Scottish Conservatives unveiled proposals for devolution of income tax to Scotland without a lockstep. I know that the First Minister agrees that a lockstep should not apply to Wales. Therefore, will his colleagues in London back Plaid Cymru’s renewed bid to remove the lockstep from the Wales Bill, or will those MPs be backing the London Tory line?

Nid yw’r ffigurau hynny'n rhoi unrhyw ystyriaeth o gwbl i’r math o swyddi y mae pobl yn eu gwneud, nifer y contractau dim oriau, y cyflogau isel a'r anhawster y mae pobl yn ei gael i ddod â dau ben llinyn ynghyd, hyd yn oed i roi bwyd ar y bwrdd. Lywydd, os ydym ni’n mynd i wrthdroi tanberfformiad hanesyddol economi Cymru a gwella safonau byw yma, mae'n rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb fel gwlad, ac mae’n rhaid i'r Prif Weinidog gymryd cyfrifoldeb fel Prif Weinidog, hefyd. Ddoe, cyhoeddodd Ceidwadwyr yr Alban gynigion ar gyfer datganoli treth incwm i'r Alban heb gam clo. Gwn fod y Prif Weinidog yn cytuno na ddylai cam clo fod yn berthnasol i Gymru. Felly, a wnaiff ei gydweithwyr yn Llundain gefnogi cais o'r newydd Plaid Cymru i gael gwared ar y cam clo o Fil Cymru, neu a fydd yr ASau hynny yn cefnogi safbwynt y Torïaid yn Llundain?

13:48

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Is it not amazing that there are two simple answers to the economy as far as Plaid is concerned? One is to tax property, and the other is to tax people. The fact that you have income tax powers does not mean, unless you have explained how you are going to use them, that they will be of any help at all in terms of the economy. Having the power is one thing; using it is another. It is incumbent on Plaid Cymru to explain exactly how it would use those powers for the benefit of the economy. Plaid talks about procurement; what I have seen of its procurement ideas is actually unlawful, under EU law. That is a small item that Plaid has not thought of.

Onid yw'n rhyfeddol bod dau ateb syml i'r economi cyn belled ag y mae Plaid Cymru yn y cwestiwn? Un yw trethu eiddo, a'r llall yw trethu pobl. Nid yw'r ffaith bod gennych chi bwerau treth incwm yn golygu, oni bai eich bod wedi esbonio sut yr ydych chi’n mynd i'w defnyddio, y byddant o unrhyw gymorth o gwbl o ran yr economi. Mae meddu ar y pŵer yn un peth; mae ei ddefnyddio yn rhywbeth arall. Mae'n ddyletswydd ar Blaid Cymru i egluro'n union sut y byddai'n defnyddio'r pwerau hynny er lles yr economi. Mae Plaid yn sôn am gaffael; mae’r hyn yr wyf i wedi ei weld o’i syniadau caffael yn anghyfreithlon mewn gwirionedd, dan gyfraith yr UE. Mae honno'n eitem fechan nad yw Plaid Cymru wedi meddwl amdani.

We are always open to suggestions in terms of how we can upskill our people, and how we can ensure that we create more jobs, but to suggest that Wales is in some way doing exceptionally badly is quite simply wrong. Unemployment, as a fact, is lower than the UK average. That is a fact. We are getting more highly skilled jobs into Wales. Pinewood is an example of that, and there is more interest beyond that as well. These are not rubbish jobs; these are jobs that are sustainable and long term and highly skilled. That is the future direction of the Welsh economy. To try to pretend that somehow everything is very dark is completely wrong. We take the view that we will talk Wales up. We are happy that the Welsh economy is moving in the right direction. There is more work to be done, but the fantasies of Plaid Cymru, which says that the answer to every issue and problem in the Welsh economy is to get the lockstep removed, show how out of touch it is.

Rydym bob amser yn agored i awgrymiadau o ran sut y gallwn uwchsgilio ein pobl, a sut y gallwn sicrhau ein bod yn creu mwy o swyddi, ond mae awgrymu bod Cymru mewn rhyw ffordd yn gwneud yn eithriadol o wael yn gwbl anghywir. Mae diweithdra, mewn ffaith, yn is na chyfartaledd y DU. Mae hynny'n ffaith. Rydym ni'n cael swyddi mwy medrus i mewn i Gymru. Mae Pinewood yn enghraifft o hynny, ac mae mwy o ddiddordeb y tu hwnt i hynny hefyd. Nid swyddi gwael yw'r rhain; mae'r rhain yn swyddi sy'n gynaliadwy a hirdymor ac yn fedrus iawn. Dyna gyfeiriad economi Cymru yn y dyfodol. Mae ceisio esgus rywsut bod popeth yn dywyll iawn yn gwbl anghywir. Rydym ni o'r safbwynt y byddwn yn brolio Cymru. Rydym ni'n hapus bod economi Cymru yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae mwy o waith i'w wneud o hyd, ond mae ffantasïau Plaid Cymru, sy'n dweud mai'r ateb i bob mater a phroblem yn economi Cymru yw cael gwared ar y cam clo, yn dangos cyn lleied y mae'n ei ddeall.

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move back to the questions on the agenda.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar yr agenda nawr.

### Gweithlu Llywodraeth Cymru

### Welsh Government Workforce

13:50 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithlu Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1683(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government workforce? OAQ(4)1683(FM)*

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is a matter for the Permanent Secretary. He has responsibility for that.

Mae hwnnw'n fater i'r Ysgrifennydd Parhaol. Fe sy'n gyfrifol am hynny.

13:50 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You will be aware that many people have expressed concerns about the appointments process for the Welsh Government workforce, particularly given that the former nursing director at the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board has been appointed as a project manager on a fundamental standards of care review. This is the individual who was responsible for the nurses who were at the health board at the time when Professor Andrews deemed there to have been serious failings in patient care at two hospitals within that health board area. We know that 13 nurses have now been suspended as a result of the inquiry into the allegations surrounding falsification of patient records. How can you be assured, as First Minister, that appropriate people are appointed to very important roles in our NHS so that people are not let down by the appointments system through the appointment of individuals like this person? Can you tell us whether you have confidence that this person can fulfil the role that she has been given?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod llawer o bobl wedi mynegi pryderon ynghylch y broses benodi ar gyfer gweithlu Llywodraeth Cymru, yn enwedig o gofio bod cyn-gyfarwyddwr nyrsio Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi cael ei benodi'n rheolwr prosiect ar adolygiad sylfaenol safonau gofal. Dyma'r unigolyn a oedd yn gyfrifol am y nyrsys a oedd yn y bwrdd iechyd ar yr adeg pan roedd yr Athro Andrews o'r farn y bu diffygion difrifol mewn gofal cleifion mewn dau ysbyty yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw. Rydym ni'n gwybod bod 13 o nyrsys wedi eu gwahardd erbyn hyn o ganlyniad i'r ymchwiliad i'r honiadau ynghylch ffugio cofnodion cleifion. Sut allwch chi fod yn sicr, fel Prif Weinidog, bod pobl addas yn cael eu penodi i swyddi pwysig iawn yn ein GIG fel nad yw pobl yn cael eu siomi gan y system benodiadau trwy benodi unigolion fel y person hwn? A allwch chi ddweud wrthym a ydych chi'n hyderus y gall yr unigolyn hwn gyflawni'r swyddogaeth a roddwyd iddi?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, and I draw on what the report prepared by Professor Andrews actually said, namely, that no one individual or group of individuals should be the subject of a witch hunt. It is quite clear from the report itself that she felt that the board certainly was able to take forward the proposals that she took forward. The individual that the Member has mentioned was part of that team. She has now moved on, but there is no reason to suggest that in some way she is not capable of undertaking the job that she has taken on. The reality is that the report made it quite clear that there should not be a vendetta against the staff, and he is pursing that vendetta now in the Chamber.

Ydw, ac rwy'n dilyn yr hyn a ddywedodd yr adroddiad a baratowyd gan yr Athro Andrews mewn gwirionedd, sef na ddylai unrhyw un unigolyn neu grŵp o unigolion fod yn destun erledigaeth. Mae'n gwbl glir o'r adroddiad ei hun ei bod yn teimlo bod y bwrdd yn sicr yn gallu symud ymlaen â'r cynigion a symudwyd ymlaen ganddi hi. Roedd yr unigolyn y mae'r Aelod wedi ei grybwyll yn rhan o'r tîm hwnnw. Mae hi wedi symud ymlaen erbyn hyn, ond nid oes unrhyw reswm i awgrymu mewn rhyw ffordd nad yw'r gallu ganddi i wneud y swydd y'i penodwyd iddi. Y gwir amdani yw bod yr adroddiad wedi ei gwneud yn gwbl eglur na ddylai fod fendeta yn erbyn yr aelodau staff, ac mae ef yn dilyn y fendeta hwnnw nawr yn y Siambr.

13:52 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, gofynnais i bobl ar-lein y bore yma pa fater oedd bwysicaf iddynt, o ran swyddi trwy Lywodraeth Cymru a thrwy'r asiantaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu noddi. Eto, y prif bwynt o bwys i bobl yw contractau sero awr a chontractau lle mae pobl ar gyflogau mor isel nad ydyn nhw'n cael yr un fath o amddiffyniad â phobl eraill—er enghraifft, y bobl hynny sy'n gweithio yn Amgueddfa Cymru sy'n wynebu colli eu cyflogau premiwm am weithio ar benwythnosau. Beth fyddwch chi, fel Prif Weinidog, yn gallu ei wneud i sicrhau bod pobl ar draws Cymru sy'n gweithio i asiantaethau sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru yn cael y sicrwydd y maent yn ei haeddu ar gyfer eu swyddi?

First Minister, I asked people online this morning what issue was most important to them, in terms of Welsh Government jobs and jobs through Welsh Government sponsored agencies. Again, the most important point for people is that of zero-hour contracts and contracts where people are on wages that are so low that they do not have the same kind of protection as other people—for example, those people who work at National Museum Wales who face losing their premium pay for working on weekends. What will you, as First Minister, be able to do to ensure that people across Wales who work for Welsh Government sponsored agencies have the security that they deserve for their jobs?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rydym yn erfyn ar bob corff i ystyried a oes ganddynt bobl sydd mewn sefyllfa lle mae ganddynt gytundeb sero awr. Nid oes neb yn gweithio i Lywodraeth Cymru sydd ar gytundeb sero awr. Rydym wedi edrych ar hwn. Yn ogystal, mae'n rhaid cael deddfwriaeth ar lefel y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd ar y lefel honno hefyd. Felly, nid oes gwahaniaeth ynghylch yr egwyddor rhyngof a'r Aelod, ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod ffordd Gymreig a Phrydeinig i ddelio â hyn.

We expect all bodies to consider whether they have people on zero-hour contracts. No-one working for the Welsh Government has a zero-hour contract. We have looked at this. In addition, there must be UK legislation to ensure that this does not happen at that level either. Therefore, the Member and I agree on the principle, but we must ensure that this is dealt with at a Welsh and British level.

## Iechyd y Cyhoedd

## Public Health

13:53 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru? OAQ(4)1687(FM)*

*4. Will the First Minister outline the Welsh Government's policies to improve public health in Wales? OAQ(4)1687(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

They are to be contained in various documents, particularly in the public health White Paper, which was published on 2 April.

Byddant yn cael eu cynnwys mewn dogfennau amrywiol, ac yn arbennig yn y Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd, a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill.

13:53 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Since the 1990s, the British Medical Association has been saying that health impact assessments should be put on a statutory basis. The Green Paper on the public health Bill referred to health impact assessments and proposed that health boards should have early sight of planning applications accordingly, but there is no reference to health impact assessments in the White Paper. Why is that?

Ers y 1990au, mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi bod yn dweud y dylai asesiadau effaith ar iechyd gael eu rhoi ar sail statudol. Cyfeiriodd y Papur Gwyrdd ar y Bil iechyd y cyhoedd at asesiadau effaith ar iechyd gan gynnig y dylai byrddau iechyd gael golwg gynnar ar geisiadau cynllunio yn unol â hynny, ond nid oes unrhyw gyfeiriad at asesiadau effaith ar iechyd yn y Papur Gwyn. Pam mae hynny?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The issue that he refers to is a planning issue, I would argue. Any kind of impact, whether it is an environmental impact or a health impact, are more properly contained within the planning system and within planning guidance, and that will be the area where consideration will be given to matters such as that.

Byddwn yn dadlau mai mater cynllunio yw'r mater y mae ef yn cyfeirio ato. Mae unrhyw fath o effaith, boed yn effaith amgylcheddol neu'n effaith ar iechyd, yn cael ei chynnwys yn fwy priodol o fewn y system gynllunio ac o fewn canllawiau cynllunio, a dyna fydd y maes lle bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i faterion o'r fath.

13:54 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, un o gyfrifoldebau mwyaf Llywodraeth yw gwarchod iechyd plant. Mae gennych y pwerau i wahardd ysmygu mewn ceir lle mae plant yn bresennol. A ydych yn hyderus bod digon o amser i chi, fel Llywodraeth, ddeddfu i wahardd ysmygu mewn ceir gyda phlant ynddynt, os yw'r dystiolaeth rydych chi'n edrych arni ar hyn o bryd yn cefnogi gwneud hynny ac os oes gennych yr ewyllys i wneud hynny?

First Minister, one of the biggest responsibilities of Government is to protect the health of children. You have the powers to ban smoking in cars where children are present. Are you confident that you, as a Government, have enough time to legislate to ban smoking in cars carrying children, if the evidence that you are currently considering supports doing that and if you have the will to do so?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ydym; os mai dyna mae'r dystiolaeth yn ei ddangos, nid wyf yn gweld bod problem fawr o ran ystyried hwn yn y dyfodol, gan gofio barn mwyafrif yr Aelodau yn y Siambr ynglŷn â'r mater hwn.

Yes; if that is what the evidence shows, I do not see that there is a major problem in looking at this in the future, bearing in mind the views of the majority of Members in the Chamber regarding this issue.

13:55 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae nifer yn credu y collwyd cyfle rhyw bum mlynedd yn ôl pan gadwyd iechyd cyhoeddus o fewn y gwasanaeth iechyd. A ydych yn credu, fel rhan o'r drafodaeth ynglŷn â chomisiwn Williams, y dylid edrych i weld a oes modd inni ailstrwythuro iechyd cyhoeddus a'i symud yn ôl i lywodraeth leol?

First Minister, many believe that an opportunity was lost some five years ago when public health was retained within the health service. Do you believe that, as part of the discussion about the Williams commission, we should look at whether we can restructure public health and move it back to local government?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny wedi cael ei godi. Byddai'n rhaid inni fod yn ofalus iawn i sicrhau bod llywodraeth leol yn gallu delio gydag iechyd cyhoeddus. Ni all wneud hynny ar hyn o bryd, yn fy marn i. Felly, mae'n rhaid sicrhau bod y strwythur yn ei le ac yna ystyried pa bwerau y gellir eu rhoi i lywodraeth leol. Rwyf wedi dweud sawl gwaith, gyda chyrff mwy, ei bod yn deg ystyried faint o bwerau y dylent eu cael yn y dyfodol. Mae hwn yn un peth y gellir ei ystyried unwaith y bydd yr ailstrwythuro wedi cael ei wneud.

That has been raised. We would have to be very careful to ensure that local government was able to deal with public health. It cannot do that at present, in my opinion. Therefore, we must ensure that the structure is in place before we consider what powers can be given to local government. I have said many times that, with larger bodies, it is fair to consider how many powers they should have in the future. This is one thing that can be considered once the restructuring has been done.

**Bioamrywiaeth**

**Biodiversity**

13:56 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i warchod a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1686(FM)*

*5. What is the Welsh Government doing to protect and enhance biodiversity in Wales? OAQ(4)1686(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are developing a nature recovery plan, which defines the actions needed to halt and reverse the decline of biodiversity. The environment Bill will ensure that we have the legislative framework in place to manage our resources in an integrated way.

Rydym ni'n datblygu cynllun adfer natur, sy'n diffinio'r camau gweithredu sydd eu hangen i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Bydd Bil yr amgylchedd yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol gennym ar waith i reoli ein hadnoddau mewn ffordd integredig.

13:56 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, First Minister. Over the last three years, as a member of the Environment and Sustainability Committee, I have visited a large number of impressive projects that both protect and enhance biodiversity across Wales while also enhancing food production, energy production and flood protection, for example. First Minister, can you assure me that the suite of Bills that will be forthcoming over the next two years of this Assembly will protect those initiatives, allow us to have more of them and, in particular, develop a system for paying people who provide such eco services to the people of Wales?

Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. Dros y tair blynedd diwethaf, fel aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, rwyf wedi ymweld â nifer fawr o brosiectau trawiadol sy'n diogelu ac yn gwella bioamrywiaeth ledled Cymru, gan wella cynhyrchiant bwyd, cynhyrchiant ynni a diogelwch rhag llifogydd hefyd, er enghraifft. Brif Weinidog, a allwch chi fy sicrhau y bydd y gyfres o Filiau sydd i'w cyflwyno yn ystod dwy flynedd nesaf y Cynulliad hwn yn diogelu'r mentrau hynny, yn ein galluogi i gael mwy ohonynt ac, yn arbennig, yn datblygu system ar gyfer talu i bobl sy'n darparu eco-wasanaethau o'r fath i bobl Cymru?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. It is bringing together what already exists, to an extent. For example, with the Tir Gofal scheme, farmers are incentivised to ensure that they are able to provide environmental resources, and that will be the case in the future, because we know that pillar 1 payments will decline in the future, and pillar 2 payments are likely to have more emphasis. That means that farmers will be in a position where they will be paid to do things, particularly with regard to the environment. This started off some 10 years ago. The issue then, of course, is how we ensure that, for example, flooding continues to be dealt with, and we have invested heavily in flood protection schemes. We have seen, of course, what has happened in Wales. We had very few incidences of flooding, compared to what happened to the Somerset levels and, indeed, the Thames, despite having the same weather patterns. Therefore, we can go so far in terms of legislation, but the money has to follow, particularly with regard to flood protection.

Gallaf. Mae'n dod â'r hyn sy'n bodoli eisoes at ei gilydd, i raddau. Er enghraifft, gyda chynllun Tir Gofal, caiff ffermwyr eu cymell i sicrhau eu bod yn gallu darparu adnoddau amgylcheddol, a dyna fydd yn digwydd yn y dyfodol, oherwydd gwyddom y bydd taliadau colofn 1 yn gostwng yn y dyfodol, ac mae'n debyg y bydd mwy o bwyslais ar daliadau colofn 2. Mae hynny'n golygu y bydd ffermwyr mewn sefyllfa lle byddant yn cael eu talu i wneud pethau, yn enwedig o ran yr amgylchedd. Dechreuodd hyn tua 10 mlynedd yn ôl. Y broblem wedyn, wrth gwrs, yw sut y byddwn ni'n sicrhau, er enghraifft, ein bod yn parhau i ymdrin â llifogydd, ac rydym ni wedi buddsoddi'n helaeth mewn cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd. Rydym ni wedi gweld, wrth gwrs, yr hyn sydd wedi digwydd yng Nghymru. Prin iawn oedd yr achosion o lifogydd a gawsom, o'i gymharu â'r hyn a ddigwyddodd i wastatiroedd Gwlad yr Haf ac, yn wir, afon Tafwys, er i ni gael yr un patrymau tywydd. Felly, gallwn wneud rhyw gymaint o ran deddfwriaeth, ond mae'n rhaid i'r arian ddilyn, yn enwedig o ran amddiffyn rhag llifogydd.

13:58 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one issue that has arisen in committee is that of data, and particularly baseline data against which progress on biodiversity can be measured. A lot of local records offices hold those data, but it is not clear whether it is Natural Resources Wales or the Welsh Government that is co-ordinating the new data hub. Can you clarify whether it will be done by the Welsh Government or Natural Resources Wales? Will you tell us when that hub will be available, because without those data, we cannot measure progress?

Brif Weinidog, un mater sydd wedi codi yn y pwyllgor yw data, a data llinell sylfaen yn arbennig, y gellir mesur cynnydd ar fioamrywiaeth yn ei erbyn. Mae'r data hwnnw gan lawer o swyddfeydd cofnodion lleol, ond nid yw'n eglur ai Cyfoeth Naturiol Cymru neu Lywodraeth Cymru sy'n cydgysylltu'r canolbwynt data newydd. A allwch chi egluro pa un a fydd hyn yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru? A wnewch chi ddweud wrthym pryd y bydd y canolbwynt hwnnw ar gael, gan na allwn ni fesur cynnydd heb y data hwnnw?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is a Welsh Government information hub. Work is being undertaken at the moment in order to ensure that the hub is as robust as possible and, of course, that it fits in with the nature recovery plan.

Canolbwynt gwybodaeth Llywodraeth Cymru yw hwn. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y canolbwynt mor gadarn â phosibl ac, wrth gwrs, ei fod yn cyd-fynd â'r cynllun adfer natur.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, a wnewch chi gadarnhau ymrwymiad eich Llywodraeth chi i Gymru un blaned ac i sicrhau bod Cymru yn byw o fewn ei therfynau amgylcheddol? Sut mae hynny'n cael ei hadlewyrchu yn eich rhaglen llywodraethu?

First Minister, will you reaffirm your Government's commitment to one planet Wales and to Wales living within its environmental limits? How is that reflected in your governing programme?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Dyma fydd un o nodau Bil cenedlaethau'r dyfodol, ac rwy'n siŵr bod Aelodau yn edrych ymlaen at weld y Bil hwnnw cyn bo hir.

That will be one aim of the future generations Bill, and I am sure that Members are looking forward to seeing that Bill shortly.

Senedd.tv Fideo Video

## Y Sector Adeiladu

## The Construction Sector

13:59 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

*6. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o berfformiad y sector adeiladu yng Nghymru? OAQ(4)1695(FM)*

*6. What assessment has the First Minister made of the performance of the construction sector in Wales? OAQ(4)1695(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The figures published in April show that the construction sector in Wales is outperforming that of the UK. The index of construction for Wales shows a 6.9% increase when comparing the latest four quarters with the previous four quarters, while the UK output increased by 1.1%.

Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Ebrill yn dangos bod y sector adeiladu yng Nghymru yn perfformio'n well na sector y DU. Mae'r mynegai adeiladu ar gyfer Cymru yn dangos cynnydd o 6.9% wrth gymharu'r pedwar chwarter diweddaraf â'r pedwar chwarter blaenorol, tra cynyddodd allbwn y DU o 1.1%.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. I very much welcome the increase. Of course, 16% of the businesses in my constituency are construction businesses, with many job opportunities and apprenticeships. One of the issues that concern me is that we want people to have those jobs and to be able to work safely. The Tory Government has cut £80 million from the Health and Safety Executive and proactive inspections of construction sites have fallen by 35%. While health and safety may not be a devolved matter, the consequences of accidents at work are. Will you consider making representations to ascertain precisely what is planned with regard to the quality of health and safety services within Wales, with a view to making a statement in the near future?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy'n croesawu'r cynnydd yn fawr iawn. Wrth gwrs, mae 16% o'r busnesau yn fy etholaeth i yn fusnesau adeiladu, gyda llawer o gyfleoedd am swyddi a phrentisiaethau. Un o'r materion sy'n peri pryder i mi yw ein bod eisiau i bobl gael y swyddi hynny ac i allu gweithio'n ddiogel. Mae'r Llywodraeth Doriaidd wedi torri £80 miliwn oddi ar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac mae arolygiadau rhagweithiol o safleoedd adeiladu wedi gostwng o 35%. Er nad yw iechyd a diogelwch yn fater datganoledig, mae canlyniadau damweiniau yn y gwaith yn fater felly. A wnewch chi ystyried gwneud sylwadau i ganfod yn union yr hyn a fwriedir o ran ansawdd gwasanaethau iechyd a diogelwch yng Nghymru, gyda'r nod o wneud datganiad yn y dyfodol agos?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We do not know what is in the Queen's Speech, but we know that it is not going to be very long. There may be something in it—we do not know—but we have to wait and see whether there are any proposals this week. Every year, I proudly take part in Workers' Memorial Day, and every year there are people who are injured and killed at work. The answer to that is not to weaken health and safety legislation to enable more people to be killed and injured at work. We have had a proud record over the years in the UK of making sure that people have a very good chance of coming home after they have been to work. Given our industrial history, that is something that we should very much prize. Any suggestion that there should be any deregulation or lack of inspection when it comes to health and safety can only lead to more people being injured and killed. That is something, as a Government, we deplore.

Gwnaf. Nid ydym yn gwybod beth sydd yn Araith y Frenhines, ond rydym ni'n gwybod nad yw'n mynd i fod yn hir iawn. Efallai y bydd rhywbeth ynddi—nid ydym yn gwybod—ond mae'n rhaid i ni aros i weld a oes unrhyw gynigion yr wythnos hon. Bob blwyddyn, rwy'n cymryd rhan gyda balchder yn Niwrnod Coffau'r Gweithwyr, a bob blwyddyn ceir pobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd yn y gwaith. Nid gwanhau deddfwriaeth iechyd a diogelwch fel bod mwy o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu yn y gwaith yw'r ateb i hynny. Mae gennym hanes balch dros y blynyddoedd yn y DU o sicrhau bod gan bobl siawns da iawn o ddod adref ar ôl iddyn nhw fod yn y gwaith. O ystyried ein hanes diwydiannol, mae hynny'n rhywbeth y dylem ei drysori'n fawr iawn. Gall unrhyw awgrym y dylai fod unrhyw ddadreoleiddio neu ddiffyg arolygu pan ddaw i iechyd a diogelwch ddim ond arwain at fwy o bobl yn cael eu hanafu a'u lladd. Mae hynny'n rhywbeth, fel Llywodraeth, yr ydym ni'n gresynu amdano.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:01 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, small construction firms who renew older properties remain at a disadvantage under the Help to Buy-Wales scheme, although the scheme is starting to help larger developers of new properties in my region. However, constituent correspondence suggests that some developers' sales divisions are unclear about the relationship between the scheme, mortgage valuation and various purchase incentives, or are creative with that relationship. Can you outline how your Government is monitoring the correct implementation of the scheme so that it can continue to support improvements in construction in Wales?

Brif Weinidog, mae cwmnïau adeiladu bach sy'n ailwampio adeiladau hŷn yn parhau i fod dan anfantais dan gynllun Cymorth i Brynu Cymru, er bod y cynllun yn dechrau helpu datblygwyr mwy sy'n adeiladu o'r newydd yn fy rhanbarth. Fodd bynnag, mae gohebiaeth etholwyr yn awgrymu bod adrannau gwerthu rhai datblygwyr yn aneglur ynghylch y berthynas rhwng y cynllun, prisio morgeisi a chymhellion prynu amrywiol, neu eu bod yn greadigol o ran y berthynas honno. A allwch chi amlinellu sut mae eich Llywodraeth yn monitro gweithrediad cywir y cynllun fel y gall barhau i gefnogi gwelliannau yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I know that the Minister recently appointed a consultant to examine the issues around the potential for a system of regulation of domestic builders in Wales. In terms of Help to Buy, 105 developers have applied to register with the scheme. Sixty-six of them are currently offering Help to Buy. To date, over 700 applications have been approved for Help to Buy. That shows that the scheme is working, it shows that there is general awareness of the scheme among developers, and it shows that there are first-time buyers who are now able to have a roof over their heads as a result of the action of the Welsh Government.

Gwn fod y Gweinidog wedi penodi ymgynghorydd yn ddiweddar i ystyried y materion ynghylch y potensial ar gyfer system o reoleiddio adeiladwyr domestig yng Nghymru. O ran Cymorth i Brynu, mae 105 o ddatblygwyr wedi gwneud cais i gofrestru gyda'r cynllun. Mae chwe deg chwech ohonynt yn cynnig Cymorth i Brynu ar hyn o bryd. Cymeradwywyd dros 700 o geisiadau ar gyfer Cymorth i Brynu hyd yn hyn. Mae hynny'n dangos bod y cynllun yn gweithio, mae'n dangos bod ymwybyddiaeth gyffredinol o'r cynllun ymhlith datblygwyr, ac mae'n dangos bod prynwyr tro cyntaf sydd bellach yn gallu cael to uwch eu pennau o ganlyniad i gamau Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:02 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, is it true that your Government recently slashed the target for reducing carbon dioxide emissions in building regulations from 40% to 8%, and pushed back the deadline for meeting the European Union target five years later than the rest of the UK? Will you tell us if sustainable development is still your central organising principle?

Brif Weinidog, a yw'n wir bod eich Llywodraeth wedi torri'r targed ar gyfer lleihau allyriadau carbon deuocsid yn y rheoliadau adeiladu o 40% i 8% yn ddiweddar, ac wedi gwthio'r terfyn amser ar gyfer cyrraedd targed yr Undeb Ewropeaidd bum mlynedd yn ddiweddarach na gweddill y DU? A wnewch chi ddweud wrthym ai datblygu cynaliadwy yw eich egwyddor drefniadol ganolog o hyd?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is, but so is ensuring that people have a roof over their heads. This announcement was made by the Minister last year, or indeed the year before that. It is certainly some time ago now when we allowed the sector more time in order to meet the new set of building regulations. Given the situation with regard to the housing market, that was something that we wanted to do at the time, because there was a real danger that we would end up with fewer houses being built because of not giving enough time to developers to adapt to the new regulations. I believe that we have reached a very acceptable compromise that has not compromised our position with regard to sustainable development, but has allowed more houses to be built and more first-time buyers to have a home.

Ie, ond mae sicrhau bod gan bobl do uwch eu pennau yn yr un maes. Gwnaed y cyhoeddiad hwn gan y Gweinidog y llynedd, neu'r flwyddyn cyn hynny mewn gwirionedd. Mae'n sicr gryn amser yn ôl erbyn hyn ers pan ganiatawyd mwy o amser i'r sector fodloni'r gyfres newydd o reoliadau adeiladu. O ystyried y sefyllfa o ran y farchnad dai, roedd hynny'n rhywbeth yr oeddem ni eisiau ei wneud ar y pryd, gan fod perygl gwirioneddol y byddai llai o dai yn cael eu hadeiladu yn y pen draw gan nad oeddem wedi rhoi digon o amser i ddatblygwyr addasu i'r rheoliadau newydd. Rwy'n credu ein bod wedi cyrraedd cyfaddawd derbyniol iawn nad yw wedi amharu ar ein safbwynt o ran datblygu cynaliadwy, ond sydd wedi caniatáu i fwy o dai gael eu hadeiladu ac i fwy o brynwyr tro cyntaf i gael cartref.

Senedd.tv
Fideo Video

14:03 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, figures produced by the Treasury at the end of May indicate that of the 7,300 homes sold under the Help to Buy mortgage guarantee scheme, which is the UK scheme, about 5% were sold in Wales and the majority of which were in south-east Wales. Given that you have just given figures on the Welsh scheme in terms of the 700 homes, can you say how many of those homes were built outside south-east Wales, particularly to the west in the areas where they are needed most? What is the Government doing to try to encourage the use of these schemes to build new homes in areas outside south-east Wales, around the rest of the country?

Brif Weinidog, mae ffigurau a gynhyrchwyd gan y Trysorlys ddiwedd mis Mai yn dangos bod tua 5% o'r 7,300 o gartrefi a werthwyd dan gynllun gwarantu morgais Cymorth i Brynu, sef cynllun y DU, wedi eu gwerthu yng Nghymru ac roedd mwyafrif y rhain yn ne-ddwyrain Cymru. O gofio eich bod newydd roi ffigurau ar gynllun Cymru o ran y 700 o gartrefi hynny, a allwch chi ddweud faint o'r cartrefi hynny gafodd eu hadeiladu y tu allan i dde-ddwyrain Cymru, yn enwedig i'r gorllewin yn yr ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf? Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i geisio annog y defnydd o'r cynlluniau hyn i adeiladu cartrefi newydd mewn ardaloedd y tu allan i dde-ddwyrain Cymru, ar draws gweddill y wlad?

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can say to the Member that around 20% have been built in the north of Wales; it is not the case that they are entirely in the south-east. With regard to the UK Government scheme, 5% is a little more than our population share in terms of the scheme working there. The two schemes dovetail with each other. When I have travelled around Wales, I have seen houses being built all around Wales, not just around Cardiff and not just south of the M4. It is quite clear that the two schemes, in fairness, are having an effect that is not leading to a housing bubble—there is a danger of that in London and the south-east of England—but is certainly having an effect in terms of enabling people to get a home.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod tua 20% wedi cael eu hadeiladu yng ngogledd Cymru; nid yw'n wir eu bod i gyd yn y de-ddwyrain. O ran cynllun Llywodraeth y DU, mae 5% ychydig yn fwy na'n cyfran o'r boblogaeth o ran y cynllun yn gweithio yno. Mae'r ddau gynllun yn gweithio gyda'i gilydd. Pan fy mod wedi teithio o gwmpas Cymru, rwyf wedi gweld tai yn cael eu hadeiladu ym mhob rhan o Gymru, nid yn unig o amgylch Caerdydd ac nid yn unig i'r de o'r M4. Mae'n eithaf amlwg bod y ddau gynllun, a bod yn deg, yn cael effaith nad yw'n arwain at swigen dai—ceir perygl o hynny yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr—ond sy'n sicr yn cael effaith o ran galluogi pobl i gael cartref.

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

First Minister, last week I had the pleasure of hosting the official launch of the south-west Wales shared apprenticeship scheme, otherwise known as Cyfle. With Welsh Government support, in just a few years, the scheme has grown from a local training partnership with Carmarthenshire County Council to become the biggest employer of construction apprentices in the UK. Will the Welsh Government look to recreate this success in other Welsh regions?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf cefais y pleser o gynnal lansiad swyddogol cynllun rhannu prentisiaeth de-orllewin Cymru, a adnabyddir hefyd fel Cyfle. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mewn dim ond ychydig flynyddoedd, mae'r cynllun wedi tyfu o bartneriaeth hyfforddi leol gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i fod y cyflogwr mwyaf o brentisiaid adeiladu yn y DU. A wnaiff Llywodraeth Cymru geisio ail-greu'r llwyddiant hwn mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru?

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have published a shared apprenticeship protocol to guide the development of shared apprenticeship scheme in Wales and we are focusing our support within enterprise zones in order to aid economic growth and jobs. It outlines the need for private sector contributions, for sustainable jobs and the targeted use of shared schemes, to intervene only where we can clearly identify that there is a market failure. I can say that we are currently in discussion to assess the requirements of construction in the north of Wales, but of course it is important that we ensure that shared apprenticeship schemes always add value to the mainstream programmes, rather than create unnecessary competition.

Rydym ni wedi cyhoeddi protocol rhannu prentisiaeth i lywio datblygiad cynllun rhannu prentisiaeth yng Nghymru ac rydym ni'n canolbwyntio ein cefnogaeth o fewn ardaloedd menter er mwyn cynorthwyo twf economaidd a swyddi. Mae'n amlinellu'r angen am gyfraniadau gan y sector preifat, am swyddi cynaliadwy a'r defnydd wedi ei dargedu o gynlluniau ar y cyd, i ymyrryd dim ond lle gallwn nodi'n eglur bod yna fethiant yn y farchnad. Gallaf ddweud ein bod yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd i asesu gofynion adeiladu yng ngogledd Cymru, ond wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod cynlluniau rhannu prentisiaeth bob amser yn ychwanegu gwerth at y rhaglenni prif ffrwd, yn hytrach na chreu cystadleuaeth ddiangen.

### Cyfarfod â Phrif Weinidog yr Alban

### Meeting with the First Minister of Scotland

14:06 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cael ei gyfarfod nesaf â Phrif Weinidog yr Alban? OAQ(4)1682(FM)*

*7. When will the First Minister be having his next meeting with the First Minister of Scotland? OAQ(4)1682(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ar yr awyren ddydd Gwener ar y ffordd i Normandi, byddwn i'n meddwl.

On the plane on Friday on the way to Normandy, I would imagine.

14:06 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, rydym ni'n llawenhau y bydd y Prif Weinidog yn ein cynrychioli ni yn Normandi wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Rwy'n sicr y caiff gyfle i drafod gyda Phrif Weinidog yr Alban ei syniad o sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar gyfer y Deyrnas Unedig, i edrych ar ei dyfodol. A gaf i bwyso arno i geisio perswadio Prif Weinidog yr Alban y dylid sefydlu'r confensiwn yma beth bynnag fydd canlyniad y refferendwm yn yr Alban? Mae'n amlwg i mi, o edrych ar y pleidiau yn San Steffan, eu bod nhw'n cynnig popeth, bron, y mae'r Alban eisiau cyn i'r refferendwm ddigwydd.

Well, we rejoice that the First Minister will be representing us in Normandy and carrying out his duties. I am sure that he will have an opportunity to discuss with the First Minister of Scotland his idea of establishing a constitutional convention for the UK, to look at its future. May I urge him to try to persuade the Scottish First Minister that this convention should be established whatever the result of the referendum in Scotland? It is clear to me, from looking at the parties at Westminster, that they are offering almost everything that Scotland wants before the referendum takes place.

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Pe bawn i'n codi'r mater o gonfensiwn cyfansoddiadol gyda Phrif Weinidog yr Alban ar hyn o bryd, ei ateb, rwy'n siŵr, fyddai, 'Annibyniaeth yw'r ateb i'r Alban'. Felly, efallai nad nawr yw'r amser i godi hwn. Beth bynnag fydd y canlyniad ym mis Medi, bydd rhaid ystyried cyfansoddiad y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod y cyfansoddiad yn fwy cadarn yn y dyfodol.

If I were to raise the matter of a constitutional convention with the First Minister of Scotland at the moment, I am sure that his response would be, 'Well, independence is the answer for Scotland'. Therefore, now is not the time to raise this. Whatever the result may be in September, we will of course have to consider the constitution of the United Kingdom to ensure that the constitution is more robust in future.

14:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, when you meet the First Minister of Scotland—obviously, Scotland is hosting the Commonwealth Games in August and I think it is the intention of the Government to explore the possibility of a bid for Wales to host the Commonwealth Games sometime in the 2020s—do you intend raising the matter of what we can learn in the preparation of such a bid? In particular, what interaction would there be between Government officials if a bid were to go forward, given that they would be the most immediate country to us that had recently hosted the Commonwealth Games?

Brif Weinidog, pan fyddwch chi'n cyfarfod â Phrif Weinidog yr Alban—yn amlwg, mae'r Alban yn cynnal Gemau'r Gymanwlad ym mis Awst ac rwy'n credu mai bwriad y Llywodraeth yw archwilio'r posibilrwydd o wneud cais i Gymru gynnal Gemau'r Gymanwlad rywbryd yn y 2020au—a ydych chi'n bwriadu codi'r mater o'r hyn y gallwn ei ddysgu wrth baratoi cais o'r fath? Yn arbennig, pa rhyngweithio fyddai'n digwydd rhwng swyddogion Llywodraeth pe byddai cais yn cael ei wneud, o gofio mai nhw fyddai'r wlad agosaf atom ni a fyddai wedi cynnal Gemau'r Gymanwlad yn ddiweddar?

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have already discussed the issue informally with him over the past few months. We will have officials examining very closely how the Commonwealth Games are taken forward in Scotland. It is not cheap; it is an expensive project. I would caution Members about that. To host the Commonwealth Games, it needs to be done on the basis of it being a regeneration project, which is what has happened in Glasgow. Nevertheless, we will look to see how things have been done in Glasgow and officials are doing that. It is something that I discuss with officials on a regular basis anyway and, once those games are over, we will assess once more the practicalities of a Welsh bid.

Rwyf eisoes wedi trafod y mater yn anffurfiol gydag ef yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Bydd gennym swyddogion yn edrych yn fanwl iawn ar sut y caiff Gemau'r Gymanwlad eu cynnal yn yr Alban. Nid yw'n rhad; mae'n brosiect drud. Rwyf yn rhybuddio'r Aelodau am hynny. Er mwyn cynnal Gemau'r Gymanwlad, mae angen gwneud hynny ar y sail ei fod yn brosiect adfywio, sef yr hyn sydd wedi digwydd yn Glasgow. Serch hynny, byddwn yn edrych i weld sut mae pethau wedi cael eu gwneud yn Glasgow ac mae swyddogion yn gwneud hynny. Mae'n rhywbeth rwy'n ei drafod gyda swyddogion yn rheolaidd beth bynnag ac, ar ôl i'r gemau hynny ddod i ben, byddwn yn asesu agweddau ymarferol cais gan Gymru unwaith eto.

Senedd.tv Fideo Video

### Gwasanaethau Iechyd yn Sir Benfro

### Health Services in Pembrokeshire

14:08 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(4)1684(FM)*

*8. Will the First Minister outline the Welsh Government's policies for the future of health services in Pembrokeshire? OAQ(4)1684(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r ddogfen 'Law yn Llaw at Iechyd' yn amlinellu ein polisïau ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd drwy Gymru yn gyfan gwbl. Edrychwn wrth gwrs i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i bobl sir Benfro, a gwasanaethau sy'n arwain at y canlyniadau gorau posibl.

The document 'Together for Health' outlines our policies for the future of health services in the whole of Wales. Of course, we expect Hywel Dda Local Health Board to provide services that are safe and sustainable for the people of Pembrokeshire, and services that lead to the best possible outcomes.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Rwy'n siŵr y byddai'n cytuno â mi, er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon uchel a phriodol i sir Benfro, bod yn rhaid sicrhau bod asesiadau cywir yn cymryd lle. Rydych chi fel Llywodraeth wedi penderfynu cau'r uned gofal arbennig i fabanod yn ysbyty Llwynhelyg a hynny, mae'n debyg, heb asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Mae'r rhain wedi'u paratoi ar ffurf drafft yn unig gan y bwrdd iechyd. Yn yr amgylchiadau, a allwch chi ddweud wrthym ni sut mae'ch Llywodraeth chi wedi gwneud y penderfyniad yma heb asesiadau llawn o effaith ar gydraddoldeb? A ydych chi'n fodlon ailystyried ac edrych ar y sefyllfa hon, o ystyried nad oes asesiadau llawn wedi'u paratoi?

I am grateful to the First Minister for that response. I am sure that he would agree with me that, in order to ensure the highest quality and appropriate services for Pembrokeshire, we must ensure that correct assessments take place. You as a Government have decided to close the special care baby unit at Withybush hospital and, it seems, without having an assessment of the impact on equality. These were only prepared in draft form by the health board. In the circumstances, can you tell us how your Government has come to this decision without having full assessments of the impact on equality? Are you willing to reconsider this decision and to review the situation, bearing in mind that full assessments did not take place?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf yn derbyn hynny. Mae hwn yn fater sydd o flaen y llysoedd ar hyn o bryd, felly bach iawn y gallaf ei ddweud amdano. Gallaf ddweud bod ein hymrwymiad i ysbyty Llwynhelyg yn glir. Mae £7.58 miliwn wedi cael ei fuddsoddi er mwyn creu uned dialysis arennol ar y safle yn Withybush. Yr ydym wedi datgan cyllid ynglŷn â'r gronfa technoleg iechyd. Mae hwnnw'n mynd i gael effaith yn ysbyty Llwynhelyg ynglŷn â 'scanners'. Mae £4.7 miliwn wedi cael ei roi i fwrdd iechyd Hywel Dda er mwyn gwella'r adnoddau gwyddoniaeth gwaed yn Llwynhelyg a hefyd yn Ysbyty Tywysog Philip. Wrth gwrs, ar ben hynny mae £2.5 miliwn wedi cael ei roi er mwyn sicrhau adnewyddu'r adnoddau gwyddoniaeth gwaed yn Llwynhelyg ei hun, sy'n rhan o'r ffigur hwnnw. Yr ydym wedi dangos yr ymrwymiad sydd gennym tuag at yr ysbyty, er wrth gwrs mae'n rhaid i ni sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy ac yn saff.

I do not accept that. This matter is before the courts at present, so I cannot say much about it. I can say that our commitment to Withybush hospital is clear. Some £7.58 million has been invested to create a renal dialysis unit on the site in Withybush. We have stated that we will make available funding in relation to the health technology fund, which will have an effect in Withybush hospital in relation to scanners. Some £4.7 million has been given to Hywel Dda health board to improve resources in relation to blood sciences in Withybush and also Prince Philip Hospital. Of course, on top of that £2.5 million has been given to ensure the renewal of blood science services in Withybush itself, which is part of that figure. We have shown the commitment that we have to the hospital, but, of course, we have to ensure that services are sustainable and safe.

14:10 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, how do you respond to concerns raised locally that the Withybush midwife service and A&E have been given reassurances about a future level of paediatric cover that some practitioners feel is not borne out by the proposed paediatric model?

Brif Weinidog, sut ydych chi'n ymateb i bryderon a godwyd yn lleol bod gwasanaeth bydwreigiaeth a damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg wedi cael sicrwydd am lefel y gwasanaeth pediatrig yn y dyfodol y mae rhai ymarferwyr o'r farn nad yw'n adlewyrchu'r model pediatrig arfaethedig?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is clear that there are differences of opinion among paediatricians on the service level that is being proposed. I am aware that there are several clinicians within Withybush who are not happy with the proposals. There are other clinicians in the region who welcome the health board's proposed care models and are enthusiastic about the midwife-led unit at the hospital. As I have said many times in the Chamber, on the basis of the advice that the Minister has received, among other relevant factors, it is clear that there needs to be a change and a change in order to ensure patient safety. At the end of the day, this is what this is all about and the change is supported by a significant number of clinicians.

Mae'n amlwg bod anghytuno rhwng paediatregwyr am lefel y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig. Rwy'n ymwybodol bod nifer o glinigwyr yn Llwynhelyg nad ydynt yn hapus gyda'r cynigion. Ceir clinigwyr eraill yn y rhanbarth sy'n croesawu modelau gofal arfaethedig y bwrdd iechyd ac sy'n frwdfrydig am yr uned a arweinir gan fydwragedd yn yr ysbyty. Fel yr wyf wedi dweud lawer gwaith yn y Siambr, ar sail y cyngor y mae'r Gweinidog wedi ei dderbyn, ymhlith ffactorau perthnasol eraill, mae'n amlwg bod angen newid a hwnnw'n newid er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Yn y pen draw, dyna yw diben hyn i gyd ac mae nifer sylweddol o glinigwyr yn cefnogi'r newid.

14:11 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ond, Brif Weinidog, mae'r gwasanaeth pediatrig ddydd a nos yn rhan annatod o gynnal y gwasanaeth brys a'r adran damweiniau yno. Pam nad yw'r Llywodraeth felly yn ymrwymo i gadw gwasanaeth pediatrig dydd a nos yn ysbyty Llwynhelyg fel rhan o feincnod cenedlaethol?

But, First Minister, the night-and-day paediatric service is an integral part of maintaining the emergency service and the A&E department there. Why is the Government not committing, therefore, to retaining 24-hour paediatrics at Withybush hospital as part of national benchmarking?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n rhaid sicrhau bod beth bynnag sy'n cael ei wneud yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel. Nid oes gobaith cael gwasanaeth lefel 2 yn Llwynhelyg a Chaerfyrddin. Un neu'r llall yw e; dyna'r dewis. Felly, os na fyddai yng Nghaerfyrddin, byddai yn Llwynhelyg ac wedyn byddai pobl Caerfyrddin yn mynegi barn. Mae'n rhaid inni sicrhau bod gennym uned i ddelio â nifer bach, bach o fabis er mwyn sicrhau eu bod yn cael y driniaeth y dylent ei chael cyn gynted ag sy'n bosib, gan y bobl sydd â'r arbenigedd i wneud hynny. Nid yw'n benderfyniad rhwydd—rydym i gyd yn deall hynny o fewn y Llywodraeth—ond mae'n rhywbeth sy'n rhaid ei wneud er mwyn sicrhau bod gwasanaeth ar gael i'r babis sydd angen y gwasanaeth hwnnw ac i sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw yn cael ei roi iddynt gan y bobl sydd â'r arbenigedd iawn i wneud hynny.

We have to ensure that whatever is done is done in a safe manner. There is no way of having a level 2 service in Carmarthen and in Withybush. It is one or the other; that is the choice. So, if it were not in Carmarthen, it would be in Withybush and, then, the people of Carmarthen would be expressing a view. We have to ensure that we have a unit to deal with the very small number of babies concerned to ensure that they receive the treatment they should have as soon as possible from the people who have the specialism to do that. It is not an easy decision—we all understand that within the Government—but it is something that has to be done to ensure that there is a service available for the babies who need that service and to ensure that that service is delivered by the people who have the specialism to do that.

14:13 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you may be aware that there have been concerns expressed about staffing at Tenby surgery. From the end of this month, there will be only three GPs serving a 60,000-plus summer population. However, the good news is that Hywel Dda health board is working with the practice and is apparently on top of that. However, may I ask you to discuss with the Minister for Health and Social Services the need for the health board to find long-term solutions to ensure patient access to health services in the Tenby area?

Brif Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol bod pryderon wedi eu mynegi ynghylch staffio ym meddygfa Dinbych-y-pysgod. O ddiwedd y mis hwn, dim ond tri o feddygon teulu fydd yn gwasanaethu poblogaeth o 60,000 yn ogystal â mwy yn ystod yr haf. Fodd bynnag, y newyddion da yw bod bwrdd iechyd Hywel Dda yn gweithio gyda'r feddygfa ac mae'n ymddangos bod hynny dan reolaeth ganddo. Fodd bynnag, a gaf i ofyn i chi drafod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr angen i'r bwrdd iechyd ddod o hyd i atebion hirdymor er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd yn ardal Dinbych-y-pysgod?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. In the interim, I can say that locum cover has been identified. This will commence at the beginning of June. A nurse practitioner has been employed until the end of August to support the GPs. I know that the health board is working with the practice to ensure that the service level continues in future. So, as far as the summer is concerned, and taking into account the proposals for the minor injuries unit, that is something that will be overcome. However, there is a need—and the health board is doing this—to plan for the longer term level of service provision in the town.

Cewch. Yn y cyfamser, gallaf ddweud bod gwasanaeth locwm wedi ei nodi. Bydd hyn yn cychwyn ddechrau mis Mehefin. Mae ymarferydd nyrsio wedi ei gyflogi tan ddiwedd mis Awst i gefnogi'r meddygon teulu. Gwn fod y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r feddygfa er mwyn sicrhau bod lefel y gwasanaeth yn parhau yn y dyfodol. Felly, cyn belled ag y mae'r haf yn y cwestiwn, a chan gymryd y cynigion ar gyfer yr uned mân-anafiadau i ystyriaeth, mae hynny'n rhywbeth a fydd yn cael ei oresgyn. Fodd bynnag, mae angen—ac mae'r bwrdd iechyd yn gwneud hyn—cynllunio ar gyfer lefel y ddarpariaeth o wasanaethau yn y dref yn y tymor hwy.

### Yr Undeb Ewropeaidd

### The European Union

14:14 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision aros yn rhan o'r UE i Gymru? OAQ(4)1689(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the benefits of Wales remaining a part of the EU? OAQ(4)1689(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It would be a disaster if we left. It provides 150,000 jobs and £260 million to farmers. For any country that has a large manufacturing sector, leaving the EU would see many thousands of jobs leave Wales.

Byddai'n drychineb pe byddem yn gadael. Mae'n darparu 150,000 o swyddi a £260 miliwn i ffermwyr. I unrhyw wlad sydd â sector gweithgynhyrchu mawr, byddai gadael yr UE yn golygu bod miloedd lawer o swyddi yn gadael Cymru.

14:14 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I am very grateful for that response. I think that it is fair to say that the past couple of weeks have not been particularly salutary for those of us across the continent who remain committed to the principles of the European Union and want to ensure that Wales remains best placed to contribute to it as well as to derive maximum benefit from it. Given our shared commitment to Europe's future, it seems to me particularly regrettable that the European Parliament has an office presence in London and in Edinburgh but does not currently have any such facility to support the work of Welsh MEPs. I think that Welsh MEPs across the parties over recent years have worked in a positive pro-Welsh, pro-European mindset. In that context, First Minister, and given that disparity, what can the Welsh Government do to address this deficiency and to support a greater and more intelligent debate about the importance of the European Union, which you often advocate in this Chamber and elsewhere, across the whole of Wales?

Brif Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am yr ymateb yna. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud nad yw'r wythnos neu ddwy ddiwethaf wedi bod yn arbennig o lesol i'r rhai ohonom ni ar draws y cyfandir sy'n dal i fod wedi ymrwymo i egwyddorion yr Undeb Ewropeaidd ac sydd eisiau sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn y sefyllfa orau i gyfrannu ato yn ogystal â chael y budd mwyaf ohono. O ystyried ein hymrwymiad ar y cyd i ddyfodol Ewrop, mae'n ymddangos i mi yn arbennig o anffodus bod gan Senedd Ewrop bresenoldeb swyddfa yn Llundain ac yng Nghaeredin, ond nad oes ganddi unrhyw gyfleuster o'r fath ar hyn o bryd i gefnogi gwaith ASEau Cymru. Rwy'n credu bod ASEau Cymru ar draws y pleidiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gweithio mewn ffordd gadarnhaol â meddylfryd sydd o blaid Cymru ac o blaid Ewrop. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, ac o gofio'r gwahaniaeth hwnnw, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i fynd i'r afael â'r diffyg hwn ac i gefnogi dadl fwy amlwg a mwy deallus am bwysigrwydd yr Undeb Ewropeaidd, yr ydych chi'n aml yn ei hyrwyddo yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill, ar draws Cymru gyfan?

14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the Commission, of course, has an office. Parliament does not. That is something that I am prepared to take up with the new MEPs. I think that it is worth emphasising the points I made earlier about the importance of Wales's access to that large single market. Within the first three questions that I am asked when I go abroad is: how can we access the 500 million strong market of the EU? Anything that interferes with that is bad for Wales; it is bad for our farmers and it is bad for our manufacturers. That said, there is a real need to reform the way in which the structure of the EU operates. My judgment—some may share in it and others may not—is that many people see the European elections as a way of registering a vote, because they do not believe that it matters, because they do not know what the European Parliament does. That is a matter of regret. There is a great deal of work, I think, that needs to be done on the part of the European Parliament, as well as building on the good work of the Commission, to explain to people what the EU actually does. Time and again, people say to me, 'It is all to do with the European Court of Human Rights'. That has nothing to do with the EU; that has as much do to with the EU as UEFA. It just happens to share the title 'European'. However, that does show that there is an enormous amount of work to do in order for people to understand what the EU does.

Wel, mae gan y Comisiwn swyddfa, wrth gwrs. Nid oes gan y Senedd. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n barod i'w godi gyda'r ASEau newydd. Rwy'n meddwl ei bod yn werth pwysleisio'r pwyntiau a wneuthum yn gynharach am bwysigrwydd mynediad Cymru at y farchnad sengl fawr. Ymhlith y tri chwestiwn cyntaf a ofynnir i mi pan fyddaf yn mynd dramor yw: sut y gallwn gael mynediad at farchnad o 500 miliwn o bobl yr UE? Mae unrhyw beth sy'n ymyrryd â hynny yn ddrwg i Gymru; mae'n ddrwg i'n ffermwyr ac mae'n ddrwg i'n gweithgynhyrchwyr. Wedi dweud hynny, mae wir angen diwygio'r ffordd y mae strwythur yr UE yn gweithredu. Fy marn i—efallai y bydd rhai yn ei rhannu ac efallai na fydd eraill—yw bod llawer o bobl yn ystyried yr etholiadau Ewropeaidd fel ffordd o fwrw pleidlais, gan nad ydynt yn credu eu bod yn bwysig, gan nad ydynt yn gwybod beth mae Senedd Ewrop yn ei wneud. Mae hynny'n destun gofid. Rwy'n meddwl bod llawer iawn o waith y mae angen ei wneud ar ran Senedd Ewrop, yn ogystal ag adeiladu ar waith da y Comisiwn, i esbonio i bobl yr hyn y mae'r UE yn ei wneud mewn gwirionedd. Dro ar ôl tro, mae pobl yn dweud wrthyf, 'Mae'r cwbl i'w wneud â Llys Hawliau Dynol Ewrop'. Nid oes gan hynny ddim i'w wneud â'r UE; mae gan hynny gymaint i'w wneud â'r UE ag sydd gan UEFA. Mae'n digwydd rhannu'r teitl 'Ewropeaidd', dyna'r cwbl. Fodd bynnag, mae hynny'n dangos bod llawer iawn o waith i'w wneud er mwyn i bobl ddeall yr hyn y mae'r UE yn ei wneud.

14:16 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

With regard to your remarks, First Minister, would you not then agree that the Conservative policy of having a vote on Europe is the way forward for those on either side to express their view, and then the debate is finished and we can go forward with trying to make things better in Wales?

O ran eich sylwadau, Brif Weinidog, oni fyddech chi'n cytuno felly mai polisi'r Ceidwadwyr o gael pleidlais ar Ewrop yw'r ffordd ymlaen i'r rhai ar y naill ochr a'r llall i fynegi eu barn, ac yna mae'r ddadl ar ben a gallwn fwrw ymlaen â cheisio gwneud pethau'n well yng Nghymru?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I think what you have done is to have three years of utter uncertainty, because I can say to the Member that I have spoken to companies that have been reluctant to come to Wales because of that referendum. It is the uncertainty. They are saying, 'We don't know whether the UK will be in the EU or not, so how can we look at Wales as a place to invest?' That is because of that uncertainty. The same thing applies in Scotland. You cannot on the one hand say that the Scottish referendum is creating uncertainty, but the UK referendum on the EU is not. Of course they are. The two of them are causing uncertainty and that is the nature of things. I do not know what the Prime Minister's position—. Well, I do not know whether he will be Prime Minister in 2017, but I do not know what the position of the UK will be. I do not know what he sees as appropriate reform. Some of the things that I have seen mentioned by the coalition Government would be bad for Wales. Any idea, for example, of transferring common agricultural policy payments to the UK Government would mean that that £260 million will either be skimmed or not given to Wales at all. I would rather that the money came straight from Brussels, thanks, than see it skimmed in London. So, it is not in Wales's interest at all for that to happen. Nor is it in Wales's interests at all for anything to be done that interferes with European structural funds via a filter in Whitehall. That is not something that is in Wales's best interests and it is something that I would resist to the greatest degree.

Wel, rwy'n meddwl mai'r hyn yr ydych chi wedi ei wneud yw cael tair blynedd o ansicrwydd llwyr, oherwydd gallaf ddweud wrth yr Aelod fy mod i wedi siarad â chwmnïau sydd wedi bod yn amharod i ddod i Gymru oherwydd y refferendwm hwnnw. Yr ansicrwydd sy'n gyfrifol. Maen nhw'n dweud, 'Nid ydym yn gwybod a fydd y DU yn yr UE ai peidio, felly sut allwn ni edrych ar Gymru fel lle i fuddsoddi ynddo?' Mae hynny oherwydd yr ansicrwydd hwnnw. Mae'r un peth yn berthnasol yn yr Alban. Ni allwch chi ar y naill law ddweud bod refferendwm yr Alban yn creu ansicrwydd, ond nad yw refferendwm y DU ar yr UE yn gwneud hynny. Wrth gwrs eu bod nhw. Mae'r ddau ohonynt yn achosi ansicrwydd a dyna yw natur pethau. Nid wyf yn gwybod beth yw safbwynt y Prif Weinidog—. Wel, nid wyf yn gwybod a fydd yn Brif Weinidog yn 2017, ond nid wyf yn gwybod beth fydd safbwynt y DU. Nid wyf yn gwybod yr hyn y mae'n ei ystyried yn ddiwygio priodol. Byddai rhai o'r pethau yr wyf wedi eu gweld yn cael eu crybwyll gan y Llywodraeth glymblaid yn ddrwg i Gymru. Byddai unrhyw syniad, er enghraifft, o drosglwyddo taliadau polisi amaethyddol cyffredin i Lywodraeth y DU yn golygu y byddai £260 miliwn naill ai'n cael ei sgimio neu ddim yn cael ei roi i Gymru o gwbl. Byddai'n well gen i i'r arian ddod yn syth o Frwsel, diolch, yn hytrach na'i weld yn cael ei sgimio yn Llundain. Felly, nid yw o fudd i Gymru o gwbl i hynny ddigwydd. Nid yw ychwaith o unrhyw fudd i Gymru i unrhyw beth gael ei wneud sy'n ymyrryd â chronfeydd strwythurol Ewropeaidd trwy hidlydd yn Whitehall. Nid yw hynny'n rhywbeth sydd o fudd i Gymru ac mae'n rhywbeth y byddwn yn ei wrthsefyll i'r eithaf.

14:18 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n cytuno'n llwyr â chi y byddai creu unrhyw ansicrwydd ar hyn o bryd yn gallu bod yn niweidiol iawn i economi Cymru ac yn gallu golygu bod cwmnïau'n anfodlon buddsoddi ac i leoli yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gan eich plaid chi, hefyd, bolisi o ailnegodi'r berthynas ag Ewrop. O ran y darlun ehangach, rydych chi wedi ei gwneud yn glir iawn pa mor bwysig ydyw i Gymru fod o fewn Ewrop. Onid oes lle i ni chwilio am ffyrdd i sicrhau bod pobl Cymru yn deall hynny'n well? Rwy'n derbyn yr hyn yr oeddech yn ei ddweud ynglŷn â'r etholiad arbennig hwn, ond, wedi dweud hynny, mae'n amlwg nad yw'r neges honno wedi cyrraedd pobl Cymru ynghylch pa mor bwysig ydyw i ni fod yng nghanol Ewrop.

First Minister, I agree with you entirely that creating uncertainty at present could be extremely damaging to the Welsh economy and could mean that companies may be unwilling to invest and to locate in Wales. However, your party also has a policy of renegotiating the relationship with Europe. Looking at the bigger picture, you have made it very clear how important it is for Wales to be within the EU. Is there not scope for us to seek means to ensure that people better understand the importance of that? I accept what you say about this particular election, but, having said that, it is clear that that message has not got through to the people of Wales in terms of how important it is that we are at the heart of Europe.

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n hollol iawn, ac mae dyletswydd ar bob un ohonom, ym mhob plaid, i sicrhau bod pobl yn deall yr hyn sy'n digwydd ar y lefel Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar yr Undeb Ewropeaidd hefyd i esbonio'r hyn y mae'n ei wneud, ac i ystyried bod y tueddiad tuag at integreiddio'n fwy wedi lleihau lot wrth edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar draws Ewrop yn gyfan gwbl. Yr eironi, wrth gwrs, yw bod y Deyrnas Unedig wedi dilyn trend Ewropeaidd o ran pleidleisio mewn niferoedd dros blaid sydd yn wrth-Ewropeaidd. Mae hynny wedi digwydd nid dim ond yn y Deyrnas Unedig; digwyddodd yn yr Iwerddon yr wythnos diwethaf. Sinn Féin yn awr yw'r blaid fwyaf nid dim ond ar gyngor Belfast ond ar gyngor Dulyn. Byddai hynny wedi bod yn anhygoel 20 mlynedd yn ôl. Dyna a ddigwyddodd hefyd yn Ffrainc, yn Hwngari ac yng Ngroeg. Roedd yna 'trend' yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop y mae'n rhaid i'r Undeb Ewropeaidd a'r Comisiwn ei ystyried er mwyn sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth pobl Ewrop unwaith eto.

He is entirely correct that there is a duty on all of us, in all of the parties, to ensure that people understand what happens at the European level. However, there is a duty on the European Union as well to explain what it does, and to consider that the tendency towards greater integration has reduced a lot, looking at what is happening across Europe as a whole. The irony, of course, is that the United Kingdom has followed the European trend in terms of voting in numbers for a party that is anti-Europe. That has happened not just in the UK; it happened in Ireland last week. Sinn Féin is now the largest party, not just on Belfast council but on Dublin council as well. That would have been unthinkable 20 years ago. That also happened in France, in Hungary and in Greece. There was a trend in the majority of European countries that the European Union and the Commission has to consider to ensure that it gets the support of the people of Europe once again.

Senedd.tv Fideo Video

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:20

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Nid oes gennyf unrhyw newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:20 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

First, may I call for a statement—I know that this will be developed by my colleagues later—on the flooding of the A55? I will not develop that further now; I will leave that to colleagues.

Yn gyntaf, a gaf i alw am ddatganiad—rwy'n gwybod y bydd hyn yn cael ei ddatblygu gan fy nghydweithwyr yn ddiweddarach—ar lifogydd yr A55? Ni wnaf ddatblygu hynny ymhellach nawr; gadawaf hynny i'm cydweithwyr.

Senedd.tv Fideo Video

Secondly, could I call for a statement on national health service waiting times, particularly in the context of the story of Diana Hannam, published in the 'Daily Post'yesterday? She, a former mayor of Rhyl, chose to go public on this. I have been supporting her. We have received correspondence from the acting chief executive stating that all patients should be treated within 52 weeks from the commencement of the referral to treatment pathway. When I clarified that further, they said that that applies to most areas of surgical and dental services, which happens to include all general surgery, orthopaedics, ear, nose and throat, breast care and very much more, although they are working to reduce that. Mrs Hannam has been waiting for over a year since she first went to a doctor. Her waiting time kicked in, she was told, from last September. However, she is not alone. Only last week, I visited another constituent who had been waiting over 40 weeks, aged 77, in agony. These are human stories. Could we have a response that reflects the reality and advises how the Welsh Government is going to address this, rather than simply passing the buck, once again, to the health board?

Yn ail, a gaf i alw am ddatganiad ar amseroedd aros y gwasanaeth iechyd gwladol, yn enwedig yng nghyd-destun stori Diana Hannam, a gyhoeddwyd yn y 'Daily Post' ddoe? Dewisodd hi, cyn-faer y Rhyl, wneud hyn yn gyhoeddus. Rwyf wedi bod yn ei chefnogi hi. Rydym ni wedi derbyn gohebiaeth gan y prif weithredwr dros dro yn nodi y dylai pob claf gael ei drin o fewn 52 wythnos o ddechrau'r llwybr atgyfeiriad i driniaeth. Pan eglurais hynny ymhellach, dywedasant fod hynny'n berthnasol i'r rhan fwyaf o wasanaethau llawfeddygol a deintyddol, sy'n digwydd cynnwys pob llawdriniaeth gyffredinol, orthopaedeg, clust, trwyn a gwddf, gofal y fron a llawer iawn mwy, er eu bod yn gweithio i leihau hynny. Mae Mrs Hannam wedi bod yn aros ers dros flwyddyn ers iddi fynd at feddyg gyntaf. Fe'i hysbyswyd bod ei hamser aros wedi cychwyn o fis Medi diwethaf. Fodd bynnag, nid yw hi ar ei phen ei hun. Dim ond yr wythnos diwethaf, ymwelais ag etholwr arall a oedd wedi bod yn aros dros 40 wythnos, yn 77 oed, mewn poen ofnadwy. Mae'r rhain yn straeon dynol. A allem ni gael ymateb sy'n adlewyrchu'r realiti ac sy'n cynghori sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â hyn, yn hytrach na dim ond taflu'r baich, unwaith eto, ar y bwrdd iechyd?

14:22

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I obviously cannot comment on individual cases. A great deal of work is being undertaken by health boards right across Wales to ensure that their waiting times are meeting the targets. In relation to the flooding to the A55 last week, you will be aware that those difficulties were due to exceptional localised rain, which fell within a very short space of time and caused a significant amount of debris to block the pipeworks under the road. The incident is being fully investigated to determine the cause and how further incidents can be prevented.

Yn amlwg, ni allaf wneud sylwadau ar achosion unigol. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud gan fyrddau iechyd ledled Cymru i sicrhau bod eu hamseroedd aros yn bodloni'r targedau. O ran y llifogydd ar yr A55 yr wythnos diwethaf, byddwch yn ymwybodol y cafwyd yr anawsterau hynny yn sgil glaw lleol eithriadol, a syrthiodd o fewn cyfnod byr iawn o amser ac a achosodd cryn dipyn o falurion i gau'r pibellau o dan y ffordd. Mae'r digwyddiad yn cael ei ymchwilio'n llawn i benderfynu ar yr achos a sut y gellir atal digwyddiadau pellach.

14:22

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The NSPCC has revealed that, UK-wide, it has to refer more than 5,000 children to social services because of parental neglect and emotional abuse, including being bullied, ignored, and so on. So, I would be keen to have a statement from the Government outlining how the Welsh Government is ensuring that social services are well equipped to recognise and deal with this problem; how it is supporting good parenting across society, because this is not something that is geographical or restricted to one socioeconomic group; and, finally, details on the Welsh Government's approach to the so-called Cinderella law, which would update the criminal offence of child cruelty to include emotional neglect and abuse as well as physical abuse.

Mae'r NSPCC wedi datgelu, ledled y DU, bod yn rhaid iddo gyfeirio mwy na 5,000 o blant at y gwasanaethau cymdeithasol oherwydd esgeulustod rhieni a cham-drin emosiynol, gan gynnwys cael eu bwlio, eu hanwybyddu, ac yn y blaen. Felly, byddwn yn awyddus i gael datganiad gan y Llywodraeth yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu paratoi yn dda i adnabod ac ymdrin â'r broblem hon; sut mae'n cefnogi rhianta da ar draws cymdeithas, oherwydd nid yw hyn yn rhywbeth sy'n ddaearyddol nac wedi ei gyfyngu i un grŵp economaidd-gymdeithasol; ac, yn olaf, manylion ar agwedd Llywodraeth Cymru at gyfraith Cinderella fel y'i gelwir, a fyddai'n diweddaru'r drosedd o greulondeb i blant, sy'n cynnwys esgeulustod a cham-drin emosiynol yn ogystal â cham-drin corfforol.

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Safeguarding children is, obviously, a key priority for the Welsh Government, and we continue to work very closely with statutory and voluntary agencies to help ensure that children are kept safe. You will be aware of the recent Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, which received Royal Assent last month. That will deliver a strong statutory framework to improve the outcomes for children and their families. However, we do not underestimate the impact of neglect on many children around Wales, which is completely unacceptable. We have yet to receive the details of the UK Government's proposals to update the law to include emotional neglect in the definition of child cruelty, but we are fully supportive of the principle of its proposed approach. We recognise too that parenting support is crucial for families and, obviously, we invest significantly in this through programmes such as Flying Start and Families First, whereby we provide a range of parenting interventions, which help parents to cope with demanding situations and then, hopefully, the families can develop resilience.

Mae diogelu plant, yn amlwg, yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, ac rydym ni'n parhau i weithio'n agos iawn gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol er mwyn helpu i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Byddwch yn ymwybodol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Lles (Cymru) 2014 ddiweddar, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol fis diwethaf. Bydd honno'n darparu fframwaith statudol cryf i wella'r canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Fodd bynnag, nid ydym yn bychanu effaith esgeulustod ar lawer o blant ledled Cymru, sydd yn gwbl annerbyniol. Nid ydym wedi derbyn hyd yn hyn manylion cynigion Llywodraeth y DU i ddiweddaru'r gyfraith i gynnwys esgeulustod emosiynol yn y diffiniad o greulondeb i blant, ond rydym ni'n gwbl gefnogol i egwyddor ei ddull arfaethedig. Rydym yn cydnabod hefyd bod cymorth rhianta yn hanfodol i deuluoedd ac, yn amlwg, rydym ni'n buddsoddi'n sylweddol yn hyn trwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, lle'r ydym yn darparu ystod o ymyraethau rhianta, sy'n helpu rhieni i ymdopi â sefyllfaoedd anodd ac yna, gobeithio, gall y teuluoedd ddatblygu gwydnwch.

14:24 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, tybed a fedrem ni gael diweddariad gennych chi ynglŷn â'r trafodaethau rydych chi wedi bod yn eu cael gyda Llywodraeth San Steffan ynglŷn â phensiynau pobl sydd yn gweithio yn y sector tân? Rydw i, ac Aelodau Cynulliad eraill, rwy'n credu, wedi cael e-bost gan aelod o Undeb y Brigadau Tân yn dweud bod 'impasse' gyda'r Gweinidog Brandon Lewis a'i fod yn mynd yn ôl at yr hen sefyllfa gyda'r pensiwn yn hytrach na chymryd syniadau'r FBU gerbron. Felly, tybed a fedrem ni gael ryw fath o ddatganiad gennych er mwyn i ni ddeall beth yn gymwys sydd yn digwydd. Hyd y gwelaf, nid ydynt yn cael y wybodaeth mewn ffordd dryloyw ac agored, a byddwn eisiau deall, ar eu rhan, yr hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

Minister, I wonder whether we could have an update from you in relation to the discussions that you have been having with the Westminster Government in relation to pensions for people working in the fire sector? I, and other Assembly Members, I believe, have received an e-mail from a member of the Fire Brigades Union saying that there is an impasse with the Minister Brandon Lewis and that he is going back to the old situation with the pension rather than taking the ideas of the FBU forward. So, I wonder whether we can have some kind of statement from you so that we can understand what exactly is happening. As far as I can see, they are not receiving the information in a transparent and open manner and I would want to understand, on their behalf, what is happening at present.

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are obviously committed to collective pension arrangements that follow approaches similar to those being taken elsewhere in the UK. We cannot diverge from those because of the way that we are funded from the Treasury. I have corresponded and have met with Brandon Lewis, the fire Minister in the UK Government, regarding pension issues and other issues around the ongoing industrial action. I know that the executive council of the Fire Brigades Union is meeting today. I have urged Brandon Lewis to continue dialogue with the FBU. I would certainly maintain that dialogue with the FBU. I am due to meet it again next week, I think, to ensure that it gets that message of the commitment that we have to public service pensions. I last met with the FBU on 7 May. It certainly thinks a workable solution is there. Again, I met with Brandon Lewis, gave him that message, and I look forward to meeting the FBU again next week.

Rydym ni'n amlwg wedi ymrwymo i drefniadau pensiwn cyfunol sy'n dilyn dulliau tebyg i'r rhai sy'n cael eu dilyn mewn mannau eraill yn y DU. Ni allwn ddargyfeirio oddi wrth y rheini oherwydd y ffordd rydym ni'n cael eu hariannu gan y Trysorlys. Rwyf wedi gohebu ac wedi cyfarfod â Brandon Lewis, y Gweinidog tân yn Llywodraeth y DU, ynghylch materion pensiwn a materion eraill yn ymwneud â'r gweithredu diwydiannol parhaus. Gwn fod cyngor gweithredol Undeb y Brigadau Tân yn cyfarfod heddiw. Rwyf wedi annog Brandon Lewis i barhau deialog gyda'r FBU. Byddwn yn sicr yn cynnal y ddeialog honno gyda'r FBU. Rwyf i fod i gyfarfod ag ef eto yr wythnos nesaf, rwy'n credu, er mwyn sicrhau ei fod yn cael y neges o'r ymrwymiad sydd gennym i bensiynau gwasanaeth cyhoeddus. Cyfarfûm ddiwethaf gyda'r FBU ar 7 Mai. Mae'n sicr yn credu bod ateb ymarferol ar gael. Unwaith eto, cefais gyfarfod â Brandon Lewis, rhoddais y neges iddo, ac edrychaf ymlaen at gyfarfod â'r FBU eto yr wythnos nesaf.

14:26 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, would you ask your colleague the Minister for Economy, Science and Transport to provide a statement on what the Welsh Government is doing to protect the 42 jobs that are under threat at Benson Heating in Knighton? They are much-valued, high-quality manufacturing jobs. My colleague the Member of Parliament and I are urging AmbiRad, the British owners of the company, as well as the new American owners, Nortek, to review and reverse their decision to ensure that those jobs continue in Knighton. They have acknowledged that the workforce is excellent. They are looking to cut costs, however. Having spoken to the person who owns the building, he is prepared to negotiate on rent levels, but we would be really grateful to hear from the Minister what assistance she can gave to retain those jobs at Knighton.

Weinidog, a wnewch chi ofyn i'ch cydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ddarparu datganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu'r 42 o swyddi sydd dan fygythiad yn Benson Heating yn Nhrefyclo? Maen nhw'n swyddi gweithgynhyrchu o ansawdd uchel sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae fy nghydweithiwr yr Aelod Seneddol a minnau yn annog AmbiRad, perchnogion Prydeinig y cwmni, yn ogystal â'r perchnogion newydd o America, Nortek, i adolygu a newid eu penderfyniad er mwyn sicrhau bod y swyddi hynny yn parhau yn Nhrefyclo. Maen nhw wedi cydnabod bod y gweithlu yn rhagorol. Maen nhw'n ceisio torri costau, fodd bynnag. Ar ôl siarad â'r sawl sy'n berchen ar yr adeilad, mae ef yn barod i ddod i gytundeb ar lefelau rhent, ond byddem yn ddiolchgar iawn o glywed gan y Gweinidog pa gymorth y gall hi ei roi i gadw'r swyddi hynny yn Nhrefyclo.

Senedd.tv
Fideo Video

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Minister for Economy, Science and Transport's officials are working very closely with the company to explore all potential options to secure the long-term future of the site and, as you say, the highly-skilled workforce employed there. The Minister will keep Assembly Members informed and update us very shortly.

Mae swyddogion Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gweithio'n agos iawn gyda'r cwmni i archwilio pob opsiwn posibl i sicrhau dyfodol hirdymor y safle ac, fel y dywedwch, y gweithlu hynod fedrus a gyflogir yno. Bydd y Gweinidog yn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a byddwn yn cael mwy o wybodaeth ganddi yn fuan iawn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:27 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Minister, may I call for a statement from the Minister for heritage on funding for military museums in Wales? There has been some concern expressed in north Wales regarding the future of the Royal Welch Fusiliers Museum in Caernarfon, which, apparently, has not had its funding signed off for the current financial year and is having to rely on its reserves. I wonder whether we could have a statement on this matter as soon as possible, please. Also, could we have a statement on access to cancer medicines, and updates from the Minister for Health and Social Services? The Minister will be aware that a number of new drugs have made it onto the cancer drugs fund list and are eligible for funding under the cancer drugs fund in England that are not currently available in Wales. That includes a drug called Abraxane, which is a new drug for the treatment of pancreatic cancer, which, of course, can have a very short survival rate once diagnosis has been made. This drug prolongs life expectancy by a significant margin—something that has not been achieved for many years in terms of the cancer survival rates being pretty static for the past 40 years. So, perhaps we could also have an update on that. Thank you.

Weinidog, a gaf i alw am ddatganiad gan y Gweinidog treftadaeth ar gyllid ar gyfer amgueddfeydd milwrol yng Nghymru? Mynegwyd peth pryder yng ngogledd Cymru ynghylch dyfodol Amgueddfa Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru yng Nghaernarfon, y mae'n debyg nad yw wedi cael cadarnhad o'i chyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ac sy'n gorfod dibynnu ar ei chronfeydd wrth gefn. Tybed a allem ni gael datganiad ar y mater hwn cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda. Hefyd, a allem ni gael datganiad ar fynediad at feddyginiaethau canser, a diweddariadau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod nifer o gyffuriau newydd wedi eu cynnwys ar y rhestr cronfa cyffuriau canser erbyn hyn a'u bod yn gymwys i dderbyn arian dan y gronfa cyffuriau canser yn Lloegr nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys cyffur o'r enw Abraxane, sy'n gyffur newydd ar gyfer trin canser y pancreas, a all, wrth gwrs, fod â chyfradd oroesi fer iawn ar ôl cael diagnosis. Mae'r cyffur hwn yn ymestyn disgwyliad oes cryn dipyn—rhywbeth na gyflawnwyd ers blynyddoedd lawer o ran y ffaith bod cyfraddau goroesi canser wedi bod yn eithaf sefydlog yn ystod y 40 mlynedd diwethaf. Felly, efallai y gallem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny hefyd. Diolch.

Senedd.tv
Fideo Video

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Minister for Culture and Sport and his officials are currently working through the details regarding the funding for the museum to which you referred. You will be aware that, when it comes to drugs, we have our own system in Wales, through the individual patient funding requests system. I am sure that it will look at any new drugs that come forward.

Mae'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon a'i swyddogion wrthi'n gweithio drwy'r manylion o ran y cyllid ar gyfer yr amgueddfa y cyfeiriasoch ati ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol, pan ddaw i gyffuriau, bod gennym ni ein system ein hunain yng Nghymru, drwy'r system ceisiadau am gyllid ar gyfer cleifion unigol. Rwy'n siŵr y bydd yn ystyried unrhyw gyffuriau newydd a ddaw i'r amlwg.

Senedd.tv
Fideo Video

14:29 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could we have a statement about the importance of volunteering to Wales, bearing in mind that this week is Volunteers' Week? Yesterday, I was pleased to attend the fiftieth anniversary of Voluntary Community Service in Cardiff. I know that other Assembly Members will also be supporting it this week. This was the first local volunteering service to be established in Wales, in 1964.

Weinidog, a allwn ni gael datganiad ar bwysigrwydd gwirfoddoli i Gymru, o gofio mai'r wythnos hon yw Wythnos y Gwirfoddolwyr? Ddoe, roeddwn yn falch o fod yn bresennol yn hanner canmlwyddiant Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol yng Nghaerdydd. Gwn y bydd Aelodau Cynulliad eraill hefyd yn cefnogi hyn yr wythnos hon. Hwn oedd y gwasanaeth gwirfoddoli lleol cyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru, ym 1964.

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question, and for highlighting the events that will be taking place, as you say, right across Wales to mark Volunteers' Week 2014. I certainly would like to join you in congratulating VCS Cardiff on its notable anniversary. You will be aware that, in Wales, we have a long tradition of support around volunteering, and I know that the Minister for Communities and Tackling Poverty has had a review of the relationship that we have with the third sector, which was published in January, and we are looking at volunteering policy. I think that, when that has been published, that is probably the best time to have a statement or a debate in the Chamber.

Diolch i chi am y cwestiwn yna, ac am dynnu sylw at y digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal, fel y dywedwch, ar hyd a lled Cymru i ddathlu Wythnos y Gwirfoddolwyr 2014. Yn sicr, hoffwn ymuno â chi i longyfarch VCS Caerdydd ar ei ben-blwydd nodedig. Byddwch yn ymwybodol, yng Nghymru, bod gennym draddodiad maith o gefnogaeth yn ymwneud â gwirfoddoli, a gwn fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cael adolygiad o'r berthynas sydd gennym gyda'r trydydd sector, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr , ac rydym ni'n edrych ar bolisi gwirfoddoli. Rwy'n credu, pan fydd hwnnw wedi ei gyhoeddi, mae'n debyg mai dyna fydd yr amser gorau i gael datganiad neu ddadl yn y Siambr.

14:30 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae datganiad gan y Prif Weinidog ar adroddiad blynyddol ar y rhaglen lywodraethu yn digwydd ymhen ychydig funudau. Mae hon yn ddogfen hirfaith, cannoedd o dudalennau, yn llawn ffeithiau a haeriadau. Pam nad ydy'r ddogfen hon yn cael ei rhyddhau mewn digon o amser inni gael cyfle i'w darllen hi, er mwyn cael trafodaeth ystyrlon, ac a wnewch chi ymrwymo i gael dadl lawn, yn fuan, ar yr adroddiad, wedi inni gael amser i'w ddarllen yn iawn?

A statement by the First Minister on the annual report on the programme for government is to take place in a few minutes' time. It is a very lengthy document, hundreds of pages, full of facts and claims. Why is this document not released in adequate time so that we have an opportunity to read it, in order for us to have a considered debate on it, and will you commit to have a full debate, soon, on this report, once we have had to consider it?

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you say, there will be an oral statement from the First Minister following this business statement.

Fel y dywedwch, bydd datganiad llafar gan y Prif Weinidog yn dilyn y datganiad busnes hwn.

14:30 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I ask the Minister whether we might have a statement from the Minister for Economy, Science and Transport regarding plans for the NATO summit in Wales? We have discussed on a number of occasions the positive economic benefits for Wales, but there are rumours that there will be significant road closures and travel disruption during the period of the summit itself. Local businesses are keen to know when those will be, and how they can make plans for them. I recognise that it is difficult, perhaps, to give very detailed information, but could we please have a statement outlining the timetable by which people will be informed, so that they can make plans to make alternative arrangements?

A gaf i ofyn i'r Gweinidog a allem ni gael datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer uwchgynhadledd NATO yng Nghymru? Rydym ni wedi trafod ar nifer o achlysuron y manteision economaidd cadarnhaol i Gymru, ond ceir sibrydion y bydd achosion sylweddol o gau ffyrdd ac amhariadau teithio yn ystod cyfnod yr uwchgynhadledd ei hun. Mae busnesau lleol yn awyddus i wybod pryd y bydd hynny'n digwydd, a sut y gallant wneud cynlluniau ar ei gyfer. Rwy'n cydnabod ei bod yn anodd, efallai, rhoi gwybodaeth fanwl iawn, ond a allem ni gael datganiad os gwelwch yn dda yn amlinellu'r amserlen ar gyfer hysbysu pobl, fel y gallant wneud cynlluniau i wneud trefniadau eraill?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

As you say, it is very difficult at the current time to give those details. You will be aware that this is a UK Government summit—it happens to be in Wales, and we are very grateful that it is in Wales, and we will certainly be taking advantage of the fact that it is in Wales. However, it is too early to give out those sorts of details.

Fel y dywedwch, mae'n anodd iawn rhoi'r manylion hynny ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol mai uwchgynhadledd Llywodraeth y DU yw hon—mae'n digwydd bod yng Nghymru, ac rydym ni'n ddiolchgar iawn ei bod yng Nghymru, a byddwn yn sicr yn manteisio ar y ffaith ei bod yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i rannu'r mathau hynny o fanylion.

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, you are the lead Minister in this respect, but I am asking this question in your role as the leader of the house. The veterans' card is something that we have promoted on this side of the house, and I know that the previous Minister who had responsibility for the armed services here in Wales commented extensively on the introduction of such a card, and pushed it into working groups that the Government has looking at this across Government. Are you in a position to update Members as to exactly what stage the Government is at in bringing forward the prospect of a veterans' card? On Friday, we have the D-day commemorations, in August, we have the start of the first world war commemorations, and, obviously, people are very conscious of current serving activity coming to an end in Afghanistan. I think that it would be wholly appropriate if we could have confirmation as to whether it is the Government's intention to bring forward such a card, which would benefit living personnel from the armed services.

Weinidog, chi yw'r Gweinidog sy'n arwain yn hyn o beth, ond rwy'n gofyn y cwestiwn hwn yn eich swyddogaeth fel arweinydd y tŷ. Mae cerdyn y cyn-filwyr yn rhywbeth yr ydym ni wedi ei hyrwyddo ar yr ochr hon i'r tŷ, a gwn fod y Gweinidog blaenorol a oedd yn gyfrifol am y gwasanaethau arfog yma yng Nghymru wedi gwneud sylwadau helaeth ar gyflwyno cerdyn o'r fath, a'i wthio i mewn i weithgorau sydd gan y Llywodraeth yn edrych ar hyn ar draws y Llywodraeth. A ydych chi mewn sefyllfa i ddiweddaru'r Aelodau ynghylch ar ba gam yn union y mae'r Llywodraeth o ran cyflwyno'r posibilrwydd o gerdyn i gyn-filwyr? Mae gennym ddigwyddiadau coffau D-day ddydd Gwener, bydd digwyddiadau coffau'r rhyfel byd cyntaf yn dechrau ym mis Awst, ac, yn amlwg, mae pobl yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod gweithgarwch cyfredol y lluoedd arfog yn dod i ben yn Afghanistan. Rwy'n credu y byddai'n gwbl briodol pe gallem ni gael cadarnhad ynghylch a yw'n fwriad gan y Llywodraeth i gyflwyno cerdyn o'r fath, a fyddai o fudd i bersonél o'r gwasanaethau arfog sy'n fyw.

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You will be aware that I was very keen to have a look at this, and I got my expert group to look at having a pilot scheme. The next meeting of the expert group is this month, and, following that, I will be in a position to update Assembly Members.

Byddwch yn ymwybodol fy mod i'n awyddus iawn i gymryd golwg ar hyn, a gofynnais i'm grŵp arbenigol ystyried cynnal cynllun arbrofol. Mae cyfarfod nesaf y grŵp arbenigol y mis hwn, ac, yn dilyn hynny, byddaf mewn sefyllfa i ddiweddaru Aelodau'r Cynulliad.

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Russell George** Bywgraffiad Biography

I would like to ask for a statement regarding a trunk road issue. A significant problem has occurred, over recent weeks, on a stretch of the A483 at Penarth corner near Newtown. A temporary road was put in place some weeks ago, but, over the bank holiday weekend, that temporary road was closed because it threatened to collapse due to heavy rain. Now, with the current traffic issues in Newtown, you can imagine the misery caused to residents, businesses and tourists. I also understand that a wedding took place over that weekend, and that guests were not even able to attend the wedding in Newtown town centre. All of this is unacceptable, especially when it seems that there is very little being done in the way of work actually taking place on that original section of road. I would like to know why the road was temporarily closed, whether it was appropriately designed, who is monitoring the works and, most importantly, when will the works on this important section of trunk road be completed? I would be grateful for a statement from the Minister on that.

Hoffwn ofyn am ddatganiad ar fater yn ymwneud â chefnffordd. Mae problem sylweddol wedi codi, yn ystod yr wythnosau diwethaf, ar ran o'r A483 yng nghornel Penarth ger y Drenewydd. Agorwyd ffordd dros dro rai wythnosau yn ôl, ond, dros benwythnos gŵyl y banc, caewyd y ffordd dros dro honno gan ei bod yn bygwth dymchwel oherwydd glaw trwm. Nawr, gyda'r problemau traffig yn y Drenewydd ar hyn o bryd, gallwch ddychmygu'r diflastod sy'n cael ei achosi i drigolion, busnesau ac ymwelwyr. Rwyf hefyd yn deall y cynhaliwyd priodas dros y penwythnos hwnnw, ac nad oedd gwesteion hyd yn oed yn gallu mynd i'r briodas yng nghanol y Drenewydd. Mae hyn i gyd yn annerbyniol, yn enwedig pan ei bod yn ymddangos mai ychydig iawn o waith sy'n cael ei wneud ar y rhan wreiddiol honno o'r ffordd. Hoffwn wybod pam roedd y ffordd ar gau dros dro, pa un a gafodd ei chynllunio'n briodol, pwy sy'n monitro'r gwaith ac, yn bwysicaf oll, pryd fydd y gwaith ar y darn pwysig hwn o gefnffordd yn cael ei gwblhau? Byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad gan y Gweinidog ar hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You will be aware that the works were being undertaken to replace a culvert under the A483 that had collapsed. They have fallen behind schedule due to problems with the contractor and, unfortunately, they were unable to open up the A483 fully for the bank holiday. However, every effort will be made to minimise the use of temporary traffic lights, and to complete the remaining work after the end of this week, and the scheme should be completed by the end of this month.

Byddwch yn ymwybodol bod y gwaith yn cael ei wneud i ail-adeiladu cwlfert a oedd wedi dymchwel o dan yr A483. Nid ydynt wedi gallu cadw at yr amserlen oherwydd problemau gyda'r contractwr ac, yn anffodus, nid oeddent yn gallu agor yr A483 yn llawn ar gyfer gŵyl y banc. Fodd bynnag, bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i leihau'r defnydd o oleuadau traffig dros dro, ac i gwblhau gweddill y gwaith ar ôl diwedd yr wythnos hon, a dylai'r cynllun fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd y mis hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:34 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, I would like a statement from the Minister for Economy, Science and Transport. I am very grateful for the letter that she wrote to Assembly Members today about her roadside verges for plant life. You will be aware that this is something that I raised last year in response to the action plan for pollinators and the 'State of Nature' report. I would welcome if the Minister, in that statement, could outline what steps she will be taking to encourage local councils to adopt the same view as the Welsh Government in terms of roadside verges and the importance that they can provide in terms of wildlife corridors. Her letter talks about potentially creating new areas with wildlife in them, and, again, it would be useful to know whether those local councils will be able to take advantage of that initiative and put bids in to create those areas.

Weinidog, hoffwn gael datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Rwy'n ddiolchgar iawn am y llythyr a ysgrifennodd at Aelodau'r Cynulliad heddiw am ei hymylon ffyrdd ar gyfer planhigion. Byddwch yn ymwybodol bod hyn yn rhywbeth a godais y llynedd gan ymateb i'r cynllun gweithredu ar gyfer peillwyr a'r adroddiad 'Sefyllfa Byd Natur'. Byddwn yn croesawu pe gallai'r Gweinidog, yn y datganiad hwnnw, amlinellu pa gamau y bydd yn eu cymryd i annog cynghorau lleol i fabwysiadu'r un safbwynt â Llywodraeth Cymru o ran ymylon ffyrdd a'r pwysigrwydd y gallant ei ddarparu o ran coridorau bywyd gwyllt. Mae ei llythyr yn sôn am y posibilrwydd o greu ardaloedd newydd â bywyd gwyllt ynddynt, ac, unwaith eto, byddai'n ddefnyddiol gwybod a fydd y cynghorau lleol hynny yn gallu manteisio ar y fenter honno a chyflwyno ceisiadau i greu'r ardaloedd hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, I think that local authorities will be able to take advantage. This work is in hand and the Minister has updated Assembly Members.

Byddant, rwyf yn credu y bydd awdurdodau lleol yn gallu manteisio arnynt. Mae'r gwaith hwn ar y gweill ac mae'r Gweinidog wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad.

Senedd.tv Fideo Video

14:35

## Datganiad: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu

## Statement: The Programme for Government Annual Report

Senedd.tv Fideo Video

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Hwn yw'r trydydd adroddiad blynyddol ar y rhaglen lywodraethu, sy'n rhoi adroddiad cynhwysfawr o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu er lles pobl ein cenedl. Rydym ni fel Llywodraeth yn sefyll cornel Cymru yn ystod oes anodd iawn i lawer, a byddwn yn parhau i sicrhau'r gwellhad economaidd trwy sicrhau ein bod yn cymryd y penderfyniadau iawn er budd pob dinesydd yng Nghymru. Ein nod yw cael sector cyhoeddus sydd yn effeithiol, sydd yn ddoeth, ac sydd yn weithredol, ac sydd yn gweithredu mwy o wasanaethau, a gwell gwasanaethau, er gwaethaf y ffaith bod gennym gyllidebau mwy tynn.

Ydw, rwyf yn credu y bydd awdurdodau lleol yn gallu manteisio arni. Mae'r gwaith hwn ar y gweill ac mae'r Gweinidog wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad.

On the economy, we are securing the recovery and growing jobs by making Wales a key business destination, while supporting home-grown enterprises and maximizing the impact of European funding. On the NHS, we are modernising and reforming to ensure that every patient receives safe, high-quality care, as close to their homes as possible. On education, we are relentlessly focused on driving up standards and skills, adding rigour and challenge at every level of the system. Social justice is at the heart of everything that we do, firmly based on a belief that no Welsh citizen should be left behind, and that everyone should be able to fulfil their potential.

This is the third programme for government annual report, which provides a comprehensive account of how the Welsh Government is delivering for the people of our nation. The Welsh Government is standing up for the people of Wales during very tough times, and we will continue to ensure economic improvement by ensuring that we make the right decisions in the interests of every Welsh citizen. Our goal is to have a streamlined, efficient public sector, which delivers more and better services, despite tighter budgets.

The annual report is in four parts. First, I have published data and commentaries on 335 outcome indicators and performance measures. Also, for the first time, I am reporting on a subset of indicators that show the state of people's wellbeing in Wales. That fulfils the commitment that I made to publish wellbeing indicators. I have also provided information on progress against 550 Government commitments. These arise largely from our original programme for government in 2011. Finally, I am publishing a progress report that highlights the achievements of this Government over the last period. Taken together, it represents a transparent and comprehensive account of the progress that this Government, and indeed our country, are making. For all those who have made a contribution to public services in Wales, there is much to be proud of and I would like to take this opportunity to thank all the public service workers across Wales who have played their part. It is also to the credit of public service workers across Wales that the national survey shows that people are making a positive assessment of the wide range of public services that they use, despite the pressures of rising demand and the challenging financial environment.

O ran yr economi, rydym yn sicrhau adferiad ac yn tyfu swyddi drwy sicrhau bod Cymru'n gyrchfan busnes allweddol, ac ar yr un pryd yn cefnogi mentrau Cymreig ac yn sicrhau bod cyllid Ewropeaidd yn cael cymaint o effaith â phosibl. O ran y GIG, rydym yn moderneiddio ac yn diwygio er mwyn sicrhau bod pob claf yn cael gofal diogel, o safon uchel, mor agos i'w gartref â phosibl. O ran addysg, rydym yn canolbwyntio'n ddiflino ar wella safonau a sgiliau, ac yn ychwanegu trylwyredd ac yn herio ar bob lefel yn y system. Mae cyfiawnder cymdeithasol wrth galon popeth a wnawn, yn gadarn seiliedig ar y gred na ddylai dim un o ddinasyddion Cymru gael ei adael ar ôl, ac y dylai pawb allu cyflawni eu potensial.

I am also serious and focused about the challenges that we face as well. The people of Wales are right to have high expectations of the services that they receive. I acknowledge that as resources shrink and demand for services goes up, questions will need to be asked about how public services will deliver. It is incumbent on everyone in the Chamber to treat this challenge with the seriousness that it deserves. However, the people of Wales do not deserve to be told that their country is bottom of the pile time after time. To those who wish to talk our country down, I say that the indicators that we are publishing today are clear evidence that the Welsh economy and Welsh public services are moving forward despite tough times.

Mae pedair rhan i'r adroddiad blynyddol. Yn gyntaf, rwyf wedi cyhoeddi data a sylwadau ar 335 o ddangosyddion canlyniadau a mesurau perfformiad. Hefyd, am y tro cyntaf, rwyf yn adrodd ar is-set o ddangosyddion sy'n dangos cyflwr lles pobl yng Nghymru. Mae hynny'n cyflawni'r ymrwymiad a wneuthum i gyhoeddi dangosyddion lles. Rwyf hefyd wedi darparu gwybodaeth am gynnydd yn erbyn 550 o ymrwymiadau'r Llywodraeth. Mae'r rhain yn deillio'n bennaf o'n rhaglen lywodraethu wreiddiol yn 2011. Yn olaf, rwyf yn cyhoeddi adroddiad cynnydd sy'n tynnu sylw at gyflawniadau'r Llywodraeth hon yn ystod y cyfnod diwethaf. Gyda'i gilydd, mae'n rhoi cyfrif tryloyw a chynhwysfawr o'r cynnydd y mae'r Llywodraeth hon, ac yn wir ein gwlad, yn ei wneud. Mae gan bawb sydd wedi cyfrannu at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru lawer i fod yn falch ohono, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i holl weithwyr y gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru sydd wedi chwarae eu rhan. Dylid rhoi diolch hefyd i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru oherwydd bod yr arolwg cenedlaethol yn dangos bod pobl yn gwneud asesiad cadarnhaol o'r ystod eang o wasanaethau cyhoeddus y maent yn eu defnyddio, er gwaethaf pwysau'r galw cynyddol a'r amgylchedd ariannol heriol.

On growth and jobs, the Welsh economy and labour market have grown strongly over the past year, closing the gap in employment with the UK. This programme for government annual report shows that the Welsh Government is using all of the levers at its disposal to create jobs. Our flagship Jobs Growth Wales programme has delivered more than 13,200 job opportunities to date, with well over 9,500 young people—9,978 at the last count, if I remember—taking part, and a significant number going on to secure long-term employment. Our Young Recruits programme continues to be hugely successful, exceeding expectations by supporting well over 5,000 places against a target of 2,000 for this year. The apprenticeship success rate continues to show steady improvement, reaching 86%.

Rwyf hefyd yn canolbwyntio o ddifrif ar yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae'n gwbl deg bod gan bobl Cymru ddisgwyliadau uchel o ran y gwasanaethau y maent yn eu cael. Rwyf yn cydnabod, wrth i adnoddau grebachu a'r galw am wasanaethau gynyddu, y bydd angen gofyn cwestiynau am sut y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni. Mae'n ddyletswydd ar bawb yn y Siambr i drin yr her hon â'r difrifoldeb y mae'n ei haeddu. Fodd bynnag, nid yw pobl Cymru'n haeddu clywed bod eu gwlad ar waelod y pentwr dro ar ôl tro. Wrth y rhai sy'n dymuno bychanu ein gwlad, dywedaf fod y dangosyddion yr ydym yn eu cyhoeddi heddiw'n dystiolaeth glir fod economi Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n symud ymlaen er gwaethaf y cyfnod anodd hwn.

Despite the cuts coming from London, we are putting hundreds of millions of pounds of extra funding into our NHS over the remaining years of this Assembly. This will help ensure that it delivers the highest standards of health and wellbeing, which the people of Wales expect of it. The improvement in the outcomes for cancer and circulatory disease is testament to improving technology, hard-working staff and extra investment making a measurable difference to patients' lives.

O ran twf a swyddi, mae economi Cymru a'r farchnad lafur wedi tyfu'n gryf dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gau'r bwlch cyflogaeth gyda'r DU. Mae adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraethu yn dangos bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael iddi i greu swyddi. Mae ein rhaglen flaenllaw Twf Swyddi Cymru wedi darparu mwy na 13,200 o gyfleoedd gwaith hyd yma, gydag ymhell dros 9,500 o bobl ifanc—9,978 ar y cyfrif diwethaf, os cofiaf—yn cymryd rhan, a nifer sylweddol yn mynd ymlaen i gael cyflogaeth hirdymor. Mae ein rhaglen Recriwtiaid Ifanc yn parhau i fod yn hynod lwyddiannus, gan ragori ar y disgwyliadau drwy gefnogi ymhell dros 5,000 o leoedd yn erbyn targed o 2,000 ar gyfer eleni. Mae cyfradd llwyddiant prentisiaethau'n parhau i wella'n gyson, ac wedi cyrraedd 86%.

On education, the programme for government 2014 shows improvement too. I believe that the Welsh Government's reform programme—and the extra investments, such as that in Schools Challenge Cymru, which accompany these reforms—will support education professionals as they deliver the step change that we want to see. The Welsh Government and its partners are supporting children, families and deprived communities. The continued expansion of the Flying Start programme demonstrates that we are investing in those communities that need our help most. The annual report marks the halfway mark of this administration. It demonstrates that we are on track to keep our promises and to deliver better outcomes for the people of Wales.

Er gwaethaf y toriadau sy'n dod o Lundain, rydym yn rhoi cannoedd o filiynau o bunnoedd yn ychwanegol i'n GIG dros y blynyddoedd sy'n weddill i'r Cynulliad hwn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran iechyd a lles, fel y mae pobl Cymru'n ei ddisgwyl ganddo. Mae'r gwelliant yn y canlyniadau ar gyfer canser a chlefydau cylchrediad yn dangos bod y dechnoleg sy'n gwella, staff sy'n gweithio'n galed a rhagor o fuddsoddi yn gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau cleifion.

14:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the opportunity to respond to the statement that the First Minister has laid before us this afternoon on the programme for government. Obviously, it is a nice, weighty document this time around, and I am grateful to the First Minister for making it available this year before Members heard the statement. As Members recall, last year, the statement was finished before it was made available to Members. So, this shows that the Government is slightly more efficient 12 months on, but that is about the only complimentary comment that you can make about this Government's performance to date. I also note that the document talks about bus services, which is something that, as a regional Member, has occupied my mind considerably. When you correlate the evidence in this document to the data, you will see that it says that the data were taken in 2010. Many of my constituents in the Vale of Glamorgan, in particular, have no bus service at all to access because of the measures that the First Minister's Government has undertaken over the 12 months to withdraw much of the subsidy for those bus routes. I do not think that constituents across Wales will find much favour with some of the information that is contained in this weighty doorstop of a document.

O ran addysg, mae rhaglen lywodraethu 2014 yn dangos gwelliant hefyd. Rwyf yn credu y bydd rhaglen ddiwygio Llywodraeth Cymru—a'r buddsoddiadau ychwanegol, megis yr un yn Her Ysgolion Cymru, sy'n mynd law yn llaw â'r diwygiadau hyn—yn cefnogi gweithwyr addysg proffesiynol wrth iddynt roi ar waith y newid sylweddol yr ydym am ei weld. Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn parhau i ehangu, ac mae hynny'n dangos ein bod yn buddsoddi yn y cymunedau hynny y mae angen ein cymorth fwyaf arnynt. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi hanner ffordd i'r weinyddiaeth hon. Mae'n dangos ein bod ar y trywydd iawn i gadw ein haddewidion ac i sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru.

It is also my intention to focus in my reply on asking questions to the First Minister on the three key areas, if I may: health, education and the economy. Obviously, we could spend a considerable amount of time on that, but today's statement is only down to be debated for an hour. Regarding waiting times, we talked during First Minister's questions about cardiac services and the report that Professor Andrews brought forward on Abertawe Bro Morgannwg's way of running its hospitals. We could have looked at Betsi Cadwaladr in the north as well, and the report that came forward last summer. It is not a rosy picture at all, First Minister. It clearly shows that your Government is not delivering on health outcomes in Wales. Ambulance response times and cancer targets, for example, are constantly being missed. Above all, my colleague to my left and many colleagues across the Chamber are dealing with the closure of hospitals and service downgrades across the whole of Wales. Your document is not giving any comfort at all to the citizens of Wales about the certainty that they require for a fit and proper NHS for the twenty-first century. I note the comments from the First Minister this morning, when he was talking about treatment within the NHS. He said:

Croesawaf y cyfle i ymateb i'r datganiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i osod ger ein bron y prynhawn yma am y rhaglen lywodraethu. Yn amlwg, mae'n ddogfen swmpus braf y tro hwn, ac rwyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am sicrhau ei bod ar gael eleni cyn i'r Aelodau glywed y datganiad. Fel y cofia'r Aelodau, y llynedd, roedd y datganiad wedi dod i ben cyn iddo fod ar gael i'r Aelodau. Felly, mae hyn yn dangos bod y Llywodraeth ychydig yn fwy effeithlon 12 mis yn ddiweddarach, ond efallai mai dyna'r unig sylw canmoliaethus y gallwch ei wneud am berfformiad y Llywodraeth hon hyd yma. Nodaf hefyd fod y ddogfen yn sôn am wasanaethau bysiau, sy'n rhywbeth yr wyf fi, fel Aelod rhanbarthol, wedi bod yn meddwl llawer amdano. Pan fyddwch yn cydweddu'r dystiolaeth yn y ddogfen hon â'r data, fe welwch ei bod yn dweud bod y data wedi'u cymryd yn 2010. Mae llawer o'm hetholwyr i ym Mro Morgannwg, yn benodol, heb wasanaeth bws o gwbl ar gael iddynt oherwydd y mesurau y mae Llywodraeth y Prif Weinidog wedi eu cymryd dros y 12 mis i dynnu'n ôl llawer o'r cymhorthdal ar gyfer y llwybrau bysiau hynny. Nid wyf yn credu y bydd etholwyr ledled Cymru'n gefnogol iawn i rywfaint o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen drom hon.

'I'd rather see people get their treatment elsewhere rather than have to wait.'

Rwyf hefyd yn bwriadu canolbwyntio yn fy ateb ar ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog am y tri maes allweddol, os caf: iechyd, addysg a'r economi. Wrth gwrs, gallem dreulio cryn dipyn o amser ar hynny, ond dim ond awr sydd wedi'i neilltuo i drafod y datganiad heddiw. O ran amseroedd aros, buom yn siarad yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog am wasanaethau cardiaidd a'r adroddiad a gyflwynodd yr Athro Andrews am ffordd Abertawe Bro Morgannwg o redeg ei ysbytai. Gallem fod wedi edrych ar Betsi Cadwaladr yn y gogledd hefyd, ac ar yr adroddiad a gyflwynwyd yr haf diwethaf. Nid yw'n ddarlun da o gwbl, Brif Weinidog. Mae'n dangos yn glir nad yw eich Llywodraeth yn cyflawni'r canlyniadau iechyd yng Nghymru. Mae amseroedd ymateb ambiwlansys a thargedau canser, er enghraifft, yn cael eu methu'n gyson. Yn anad dim, mae fy nghydweithiwr ar fy chwith a llawer o gydweithwyr ar draws y Siambr yn ymdrin â chau ysbytai ac israddio gwasanaethau ledled Cymru gyfan. Nid yw eich dogfen yn rhoi dim cysur o gwbl i ddinasyddion Cymru o ran y sicrwydd sydd ei angen arnynt fod y GIG yn addas ac yn briodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nodaf sylwadau'r Prif Weinidog y bore yma, pan oedd yn siarad am driniaethau o fewn y GIG. Dywedodd:

Hallelujah to that. We agree with that—so long as people can get their treatment, it is of no concern where that treatment is commissioned. First Minister, is that now a change of direction from your Government? Will you start commissioning provision out of the independent sector to get to grips with some of these horrendous waits that are costing people their lives? I also note that, with GP access times, there is a passing reference in the document that accompanies the main document about GP access times. In questions that I have posed to the Minister for Health and Social Services, I note that only 49 surgeries are offering post 6:30 p.m. appointments across Wales, out of 466. Weekend appointments are not even collated by your Government, as the response from the Minister for health indicated to me last week. So, how can we measure one of the key targets that you had in your manifesto? Are you in a position to say whether all surgeries will be in a position to meet that key part of your programme for government?

Byddai'n well gennyf weld pobl yn cael eu trin yn rhywle arall yn hytrach na bod yn rhaid iddynt aros.

On education, we had the debacle about the GCSEs back in January and February, which not only knocked pupils' confidence, but also knocked teachers' confidence. Regarding the Programme for International Student Assessment results that have come through, is the First Minister in a position to confirm whether it is still the ambition of the Government to be in the top 20 of PISA by 2015, as was outlined by the previous Minister for education, or has that ambition now been lost because of the slippage in the delivery of standards? We have heard the chief inspector from Estyn saying that we are going to have to wait at least another four years before we see another significant improvement in education here in Wales. What is the difference between this Government and previous Labour Governments in delivering improvement in education here in Wales? We have heard it time and time again, but when the analysis is put into the education system—independent analysis—your policies are found wanting, and the improvements that we all want to see in the education system here in Wales are sadly lacking because of the lack of direction that you Government is offering.

Haleliwia i hynny. Rydym yn cytuno â hynny—cyhyd ag y gall pobl gael eu trin, nid yw'n bwysig ymhle y caiff y driniaeth honno ei chomisiynu. Brif Weinidog, a yw hynny yn awr yn newid cyfeiriad gan eich Llywodraeth? A wnewch chi ddechrau comisiynu darpariaeth o'r sector annibynnol i fynd i'r afael â rhai o'r amseroedd aros enbyd hyn sy'n costio bywydau? Rwyf hefyd yn nodi, o ran amseroedd mynediad meddygon teulu, fod y ddogfen sy'n mynd law yn llaw â'r brif ddogfen yn cyfeirio wrth fynd heibio at amseroedd mynediad meddygon teulu. Mewn cwestiynau a ofynnais i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rwyf yn nodi mai dim ond 49 o feddygfeydd sy'n cynnig apwyntiadau ar ôl 6:30 y prynhawn ledled Cymru, o blith 466. Nid yw eich Llywodraeth hyd yn oed yn casglu data am apwyntiadau ar benwythnosau, fel y dangosodd ymateb y Gweinidog iechyd imi yr wythnos diwethaf. Felly, sut y gallwn fesur un o'r targedau allweddol a oedd gennych yn eich maniffesto? A ydych mewn sefyllfa i ddweud a fydd pob meddygfa mewn sefyllfa i gyflawni'r rhan allweddol honno o'ch rhaglen lywodraethu?

On the economy, First Minister, I had hoped that I would find some key statistics about jobs created in enterprise zones, for example, which is something that we on this side of the house support. You would have thought that, in such a weighty document, you could turn to a page and find where the jobs are being created, which enterprise zones are pulling ahead, what the new jobs are and which are just the recycled jobs that are relocated. If I look at the Northern Irish Executive's programme for government, or the Scottish programme for government, I can find that type of information out quite easily, I can. I can also find the level of investment that has been attracted in that particular year. Again, your document does not have that, and I would be grateful if the First Minister would indicate whether he is prepared to make that information available clearly and concisely, so that people can measure whether the Government has a successful enterprise project on its hands.

O ran addysg, cawsom y llanastr o ran yr arholiadau TGAU yn ôl ym mis Ionawr a mis Chwefror, a roddodd ergyd nid yn unig i hyder disgyblion, ond hefyd i hyder athrawon. O ran canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr a ddaeth i law, a yw'r Prif Weinidog mewn sefyllfa i gadarnhau a yw'r Llywodraeth yn dal i obeithio bod yn 20 uchaf PISA erbyn 2015, fel yr amlinellodd y Gweinidog addysg blaenorol, ynteu a yw'r uchelgais hwnnw bellach wedi ei golli oherwydd y llithro a fu o ran cyflawni safonau? Rydym wedi clywed prif arolygydd Estyn yn dweud y bydd yn rhaid inni aros o leiaf bedair blynedd arall cyn gweld addysg yma yng Nghymru'n gwella'n sylweddol eto. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y Llywodraeth hon a Llywodraethau Llafur blaenorol o ran sicrhau bod addysg yn gwella yma yng Nghymru? Rydym wedi ei glywed dro ar ôl tro, ond pan gaiff y dadansoddiad ei roi yn y system addysg—dadansoddiad annibynnol—ceir bod eich polisïau'n ddiffygiol, ac nid ydym yn gweld y gwelliannau yr ydym i gyd am eu gweld yn y system addysg yma yng Nghymru oherwydd y diffyg cyfeiriad y mae eich Llywodraeth yn ei gynnig.

On inward investment—

O ran yr economi, Brif Weinidog, roeddwn wedi gobeithio y byddwn yn dod o hyd i rai ystadegau allweddol am swyddi a grëwyd mewn parthau menter, er enghraifft, sy'n rhywbeth yr ydym ni ar yr ochr hon i'r tŷ o'i blaid. Byddech wedi meddwl y gallech, mewn dogfen mor swmpus, droi at dudalen a chael gwybod lle y mae'r swyddi'n cael eu creu, pa barthau menter sy'n achub y blaen, beth yw'r swyddi newydd a pha swyddi sy'n cael eu hailgylchu a'u hail-leoli. Os edrychaf ar raglen lywodraethu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, neu ar raglen lywodraethu'r Alban, gallaf ddod o hyd i'r math hwnnw o wybodaeth yn eithaf rhwydd, gallaf. Gallaf hefyd gael gwybod beth yw lefel y buddsoddi sydd wedi ei ddenu yn y flwyddyn benodol honno. Unwaith eto, nid yw hynny yn eich dogfen chi, a byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Prif Weinidog yn nodi a yw'n fodlon sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael yn glir ac yn gryno, fel y gall pobl fesur a yw prosiect menter y Llywodraeth yn un llwyddiannus.

14:46

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that you have now spoken for longer than the First Minister, so can you bring your questions to a close?

O ran mewnfuddsoddi—

14:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a substantial document.

Rwyf yn meddwl eich bod erbyn hyn wedi siarad yn hwy na'r Prif Weinidog, felly a wnewch chi ddirwyn eich cwestiynau i ben?

14:46

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you bring your questions to a close?

Mae hon yn ddogfen sylweddol.

14:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if you do not want any more questions, then I shall—

A wnewch chi ddirwyn eich cwestiynau i ben?

14:46

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not want you to go off in a huff; I am just saying—[Interruption.]

Wel, os nad oes arnoch eisiau rhagor o gwestiynau, gwnaf—

14:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eleven minutes into a key statement.

Nid wyf am ichi adael dan bwdu; dim ond dweud yr ydwyf —[Torri ar draws.]

14:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the First Minister.

Un munud ar ddeg i mewn i ddatganiad allweddol.

14:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think the leader of the opposition went on for longer than I did in the original statement. Let us see if I can deal with some of his issues.

Galwaf ar y Prif Weinidog.

He is right, of course, about the fact that the statement arrived late last time around. There was an IT problem, and this time the statement has arrived at least a little earlier, in terms of Members being able to read it.

Rwyf yn meddwl bod arweinydd yr wrthblaid wedi siarad yn hwy nag a wnes i yn y datganiad gwreiddiol. Gadewch inni weld a allaf ymdrin â rhai o'i faterion.

I did cast a wry smile when he talked about bus services in his area. I wonder when it was, the last time that he was on a bus. I can tell him I was on a bus three weeks ago. It was the No. 6 bus, actually, from the bay.

Mae'n gywir, wrth gwrs, pan ddywed fod y datganiad wedi cyrraedd yn hwyr y tro diwethaf. Bu problem â TG, a'r tro hwn mae’r datganiad wedi cyrraedd o leiaf ychydig yn gynharach, gan roi cyfle i’r Aelodau ei ddarllen.

14:47 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Saturday it was; the X2.

Rhoddais wên fach gam pan soniodd am wasanaethau bysiau yn ei ardal. Tybed pryd oedd y tro diwethaf iddo ef fod ar fws. Gallaf ddweud wrtho fy mod i ar fws dair wythnos yn ôl. Bws Rhif 6 ydoedd, yn wir, o'r bae. Dydd Sadwrn oedd hi; yr X2.

14:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The X2—well, I will keep an eye out for him, because it goes straight past my house, and if I see him on it, I will let him know.

Yr X2—wel, byddaf yn cadw golwg amdano, oherwydd mae’n mynd yn syth heibio i’m tŷ, ac os gwelaf ef arno, rhoddaf wybod iddo.

As to some of the issues that he raised, such as cardiac services, there is no doubt that the number of people waiting for cardiac operations in south Wales has dropped, and even the 'Week In, Week Out’ figures seemed to show that—even though the figure that it put out for Swansea does not make any sense whatsoever, it is quite clear that it is true at least of Cardiff. Yes, he is right to say that we have historically—and we said this in February—paid for cardiac operations outside of Wales in order for people to receive particularly specialised treatment. We make no apologies for that. It is right—and this is what I said this morning—that where there is the possibility of somebody being treated, particularly for a specialist operation, it is right that they should have that treatment, rather than be in a position where they have to wait a little longer if that treatment was not made available to them. I think that that is a humane way of operating a health service.

O ran rhai o'r materion a gododd, megis gwasanaethau cardiaidd, nid oes amheuaeth nad yw nifer y bobl sy'n aros am lawdriniaethau cardiaidd yn y de wedi gostwng, ac roedd hyd yn oed ffigurau 'Week In, Week Out' fel petaent yn dangos hynny—er nad yw'r ffigur a gyhoeddwyd ganddynt ar gyfer Abertawe’n gwneud dim synnwyr o gwbl, mae'n eithaf amlwg bod hynny’n wir am Gaerdydd o leiaf. Ydy, mae'n gywir wrth ddweud ein bod yn hanesyddol —a dywedasom hyn ym mis Chwefror—wedi talu am lawdriniaethau cardiaidd y tu allan i Gymru er mwyn i bobl gael triniaeth hynod arbenigol. Nid ydym yn ymddiheuro am hynny. Mae'n briodol—a dyma a ddywedais y bore yma—os oes posibilrwydd i bobl gael eu trin, yn enwedig ar gyfer llawdriniaeth arbenigol, mae'n briodol iddynt gael y driniaeth honno, yn hytrach na bod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt aros ychydig yn hwy os nad oedd y driniaeth honno ar gael iddynt. Credaf fod hynny'n ffordd drugarog o weithredu gwasanaeth iechyd.

When it comes to cancer waiting times, things are far better in Wales and they are in England. If you look at England's figures, England's targets are a lot lower for a start, but they cannot even meet those targets, whether it is 31 days or 62 days, Wales's performance for cancer waiting times is better than is the case in England.

O ran amseroedd aros canser, mae pethau'n well o lawer yng Nghymru nag y maent yn Lloegr. Os edrychwch ar ffigurau Lloegr, mae targedau Lloegr yn is o lawer i ddechrau, ond ni allant hyd yn oed gyrraedd y targedau hynny, boed yn 31 diwrnod neu'n 62 diwrnod; mae perfformiad Cymru o ran amseroedd aros canser yn well na pherfformiad Lloegr.

If we look at GP figures, I do not know where he gets those figures from, because I can tell him that when it comes to GP access, 76% of practices are now open for the full daily core hours of 8 a.m. to 4.30 p.m. on Monday or Friday, and that 95% of practices now offer appointments at any time between 5 p.m. and 6.30 p.m. on at least two days per week. That is the figure as far as GP access is concerned. Some 76% of practices offer appointments at any time between 5 p.m. and 6.30 p.m. every weekday, which represents an increase of 14% between 2011 and 2013. We are well on track to deliver what was a core part of our manifesto, and I do not know where he gets his figures from, and it would not be the first occasion that that is true.

Os edrychwn ar ffigurau meddygon teulu, nid wyf yn gwybod o ble y mae'n cael y ffigurau hynny, oherwydd gallaf ddweud wrtho, o ran mynediad at feddyg teulu, fod 76% o feddygfeydd bellach ar agor am yr oriau craidd dyddiol llawn rhwng 8 a.m. a 4.30 p.m. ar ddydd Llun neu ddydd Gwener, a bod 95% o feddygfeydd bellach yn cynnig apwyntiadau ar unrhyw adeg rhwng 5 p.m. a 6.30 p.m. o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos. Dyna'r ffigur ar gyfer mynediad at feddygon teulu. Mae tua 76% o feddygfeydd yn cynnig apwyntiadau unrhyw bryd rhwng 5 p.m. a 6.30 p.m. bob dydd o'r wythnos, sy'n 14% o gynnydd rhwng 2011 a 2013. Rydym yn bendant ar y trywydd iawn i gyflawni'r hyn a oedd yn rhan greiddiol o'n maniffesto, ac nid wyf yn gwybod o ble y mae'n cael ei ffigurau, ac nid hwn fyddai'r tro cyntaf i hynny fod yn wir.

With regard to the issue of PISA, it is a serious matter and schools and local education authorities must treat it seriously. It is a point that I will be making, together with the Minister for education, next week at a conference that we will be holding. He has not given the full story as far as what the chief inspector of schools has said about PISA. She said that there is good progress being made. We have the national literary and numeracy tests in place, of course, and they will certainly move us towards ensuring that we have better results next time around in PISA.

O ran PISA, mae'n fater difrifol a rhaid i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol drin y peth o ddifrif. Mae'n bwynt y byddaf yn ei wneud, ynghyd â'r Gweinidog addysg, yr wythnos nesaf mewn cynhadledd y byddwn yn ei chynnal. Nid yw wedi rhoi'r stori'n llawn am yr hyn a ddywedodd y prif arolygydd ysgolion am PISA. Dywedodd fod cynnydd da'n cael ei wneud. Mae'r profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar waith gennym, wrth gwrs, ac yn sicr byddant yn ein symud tuag at sicrhau y cawn well canlyniadau y tro nesaf yn PISA.

With regard to the economy, all the information has been published about the enterprise zones. We take pride in the fact that the Welsh economy is recovering more quickly than is the case elsewhere in the UK.

O ran yr economi, mae'r holl wybodaeth wedi ei chyhoeddi am y parthau menter. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod adferiad yr economi'n digwydd yn gynt yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU.

14:50 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the most important things about the Government’s programme and the report is how it relates to our constituents. In my constituency of Pontypridd, there is now a 30% increase in apprenticeships, and 91% of apprentices are entering permanent employment within three months. The rate of apprenticeship completions is 86%, which compares with a rate of 72% in England, and Pontypridd has the highest rate at 91%. We have also had a number of important pieces of legislation that have come through the Assembly and have had a direct impact on the quality of life and services within the constituency. There is not time for me to go through all of them but I will just mention, for example, a simple piece of legislation: the food hygiene legislation, which has resulted in a 200% increase in score-5 premises and an 87% increase in score-3 premises. It is simple legislation, using the powers that we have, that has had a dramatic impact. If we look at economic growth in construction—of course, I raised concerns earlier about the health and safety executive—there has been 6.9% growth in Wales compared with a 1.1% growth in construction in the UK. Why is that important to me? It is important because, in my constituency, there are 300 constructions businesses—16% of the total number of businesses are in construction, which is the highest proportion in the whole of Wales. The important point is that a place like Pontypridd, which has traditionally suffered from high unemployment and low business creation, is bucking the UK trend, which I think is a really important development.

Brif Weinidog, un o'r pethau pwysicaf am raglen y Llywodraeth a’r adroddiad yw’r ffordd y mae'n berthnasol i'n hetholwyr. Yn fy etholaeth i, Pontypridd, erbyn hyn mae 30% yn fwy o brentisiaethau, ac mae 91% o brentisiaid yn sicrhau cyflogaeth barhaol o fewn tri mis. 86% yw cyfradd cwblhau prentisiaethau, sy'n cymharu â chyfradd o 72% yn Lloegr, a Phontypridd sydd â'r gyfradd uchaf, sef 91%. Hefyd, mae nifer o ddarnau pwysig o ddeddfwriaeth wedi dod drwy'r Cynulliad ac wedi cael effaith uniongyrchol ar ansawdd bywyd a gwasanaethau o fewn yr etholaeth. Nid oes amser imi i fynd drwy bob un ohonynt, ond rwyf am sôn, er enghraifft, am ddarn syml o ddeddfwriaeth: y ddeddfwriaeth hylendid bwyd, sydd wedi arwain at 200% yn fwy o safleoedd â sgôr o 5 ac 87% yn fwy o safleoedd â sgôr o 3. Mae'n ddeddfwriaeth syml, sy’n defnyddio'r pwerau sydd gennym, ac sydd wedi cael effaith ddramatig. Os edrychwn ar dwf economaidd ym maes adeiladu—wrth gwrs, mynegais bryderon yn gynharach am yr awdurdod gweithredol iechyd a diogelwch—bu twf o 6.9% yng Nghymru o'i gymharu â thwf o 1.1% mewn adeiladu yn y DU. Pam y mae hynny’n bwysig i mi? Mae'n bwysig oherwydd, yn fy etholaeth i, mae 300 o fusnesau adeiladu—mae 16% o’r holl fusnesau ym maes adeiladu, sef y gyfran uchaf yng Nghymru gyfan. Y pwynt pwysig yw bod lle fel Pontypridd, sydd yn draddodiadol wedi dioddef diweithdra uchel a chyfradd isel o greu busnesau, yn mynd yn groes i'r duedd yn y DU, ac rwyf yn meddwl bod hynny’n ddatblygiad pwysig iawn.

We cannot, of course, exclude what happens within Wales from what happens within the UK context, and, whereas we can use our powers to benefit the people of Wales to the best of the powers that we have, we cannot ignore some of the legislation, or lack of legislation, that is now going through in the United Kingdom. For example, there is now a paralysed and moribund UK Government with what is likely to be the smallest legislative programme since the second world war. With this Government, quite frankly, if it were not for legislation, we would be having a general election now. First Minister, what impacts on people within Wales and has consequences that impact on how the Welsh Government responds to socioeconomic circumstances within Wales is the things that are not being legislated on in the United Kingdom. There is no abolition of the bedroom tax. I heard the Liberal Democrats on the ‘Sharp End’ the other night and, of course, they did not mention the bedroom tax at all.

Ni allwn, wrth gwrs, wahanu’n llwyr yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru oddi wrth yr hyn sy'n digwydd yng nghyd-destun y DU, ac, er y gallwn ddefnyddio ein pwerau er budd pobl Cymru hyd eithaf y pwerau sydd gennym, ni allwn anwybyddu rhywfaint o'r ddeddfwriaeth, neu’r diffyg deddfwriaeth, sydd yn awr yn mynd drwodd yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, mae gennym yn awr Lywodraeth y DU sydd wedi’i pharlysu ac yn farwaidd, â'r rhaglen ddeddfwriaethol leiaf ers yr ail ryfel byd, mae’n debyg. Gyda'r Llywodraeth hon, a dweud y gwir, oni bai am ddeddfwriaeth, byddem yn cael etholiad cyffredinol yn awr. Brif Weinidog, yr hyn sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru ac sy’n arwain at ganlyniadau sy'n effeithio ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru’n ymateb i amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru yw'r pethau nad ydynt yn destun deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig. Nid yw’r dreth ystafell wely’n cael ei diddymu. Clywais y Democratiaid Rhyddfrydol ar y 'Sharp End' y noson o'r blaen ac, wrth gwrs, ni soniasant am y dreth ystafell wely o gwbl.

14:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mick Antoniw, this is questions on the First Minister’s statement.

Mick Antoniw, cyfle i ofyn cwestiynau am ddatganiad y Prif Weinidog yw hwn.

14:53 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On the report, First Minister, do you consider that there is an impact, and importance, on the gap in UK legislation in the way that it affects the Welsh Government programme, particularly the failure to have any abolition of zero-hour contracts and issues to do with a living wage?

O ran yr adroddiad, Brif Weinidog, a ydych yn ystyried bod effaith, a phwysigrwydd, i’r bwlch yn neddfwriaeth y DU yn y ffordd y mae'n effeithio ar raglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig y methiant i ddiddymu contractau dim oriau a materion yn ymwneud â chyflog byw?

14:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I do not know what the Queen's Speech will say, but I do not think that Parliament will be over-taxed in terms of its work over the course of the next year. What we do see, of course, in Westminster, is a Government that has completely run out of steam and unity. It is very difficult to describe it as one Government any more, rather than competing factions within the same Government. I do not expect to see anything in the legislative programme at the UK-level that helps with fairness, social justice or the creation of opportunities for our people. We can be proud of what we have done in Wales with apprenticeships, with the Young Recruits programme and with Jobs Growth Wales , and with all that they have done the ensure that our young people get the opportunities that they deserve, However, in many ways it is difficult to answer what the Member has asked. We do not know what will be in the Queen's Speech. I do not think that it will take up an enormous amount of time in analysis in the Queen's Speech but I do not think that we can expect from the current UK Government any move towards the abolition of zero-hours contracts or, indeed, any socially progressive legislation.

Nid wyf yn gwybod beth y bydd Araith y Frenhines yn ei ddweud, ond nid wyf yn credu y caiff y Senedd ei llethu o ran ei gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf. Yr hyn yr ydym yn ei weld, wrth gwrs, yn San Steffan, yw Llywodraeth sydd wedi colli stêm ac undod yn llwyr. Mae'n anodd iawn ei disgrifio fel un Llywodraeth mwyach, yn hytrach na charfanau sy'n cystadlu o fewn yr un Llywodraeth. Nid wyf yn disgwyl gweld dim byd yn y rhaglen ddeddfwriaethol ar lefel y DU sy'n helpu o ran tegwch, cyfiawnder cymdeithasol na chreu cyfleoedd i'n pobl. Gallwn fod yn falch o'r hyn yr ydym wedi ei wneud yng Nghymru gyda phrentisiaethau, gyda'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc a chyda Twf Swyddi Cymru, a chyda phopeth y maent wedi'i wneud i sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael y cyfleoedd y maent yn eu haeddu. Fodd bynnag, mewn sawl ffordd mae'n anodd ateb yr hyn y mae'r Aelod wedi'i ofyn. Nid ydym yn gwybod beth fydd yn Araith y Frenhines. Nid wyf yn credu y bydd yn cymryd llawer iawn o amser i ddadansoddi Araith y Frenhines, ond nid wyf yn meddwl y gallwn ddisgwyl unrhyw symudiad gan Lywodraeth bresennol y DU tuag at ddiddymu contractau dim oriau nac, yn wir, unrhyw ddeddfwriaeth gymdeithasol flaengar.

14:54 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the First Minister for his statement this afternoon and for the effort in getting the document to us slightly earlier than previously. I think that Mick Antoniw is important in one regard: what is important is to ensure that this document has some relevance to the people of Wales in how it gives a picture of the kind of public services they are receiving. That would be greatly enhanced, I am sure—because none of them are going to have the document that we have—if they were able to access that information online. I note from looking at the Welsh Government's programme for government website that many of the indicators are at least 12 months out of date. There is not a rolling programme of updates, and I am sure that everyone with an interest would appreciate more up-to-date and comprehensive information on the Welsh Government's website. I am sure, now that this document has been published, that the First Minister will be able to commit to ensuring that the online information will be updated.

Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma ac am yr ymdrech i gyflwyno'r ddogfen inni ychydig yn gynharach nag o'r blaen. Credaf fod Mick Antoniw yn bwysig mewn un ffordd: yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod y ddogfen hon yn berthnasol i bobl Cymru o ran y darlun y mae'n ei roi o'r math o wasanaethau cyhoeddus y maent yn eu derbyn. Byddai hynny'n well o lawer, rwyf yn siŵr—oherwydd ni fydd gan yr un ohonynt y ddogfen sydd gennym ni—pe baent yn gallu cael y wybodaeth honno ar-lein. Nodaf o edrych ar wefan rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru fod nifer o'r dangosyddion o leiaf 12 mis ar ei hôl hi. Nid oes rhaglen dreigl o ddiweddariadau, ac rwyf yn siŵr y byddai pawb sydd â diddordeb yn gwerthfawrogi gwybodaeth fwy diweddar a chynhwysfawr ar wefan Llywodraeth Cymru. Rwyf yn siŵr, yn awr bod y ddogfen hon wedi ei chyhoeddi, y bydd y Prif Weinidog yn gallu ymrwymo i sicrhau y caiff y wybodaeth ar-lein ei diweddaru.

Presiding Officer, I will turn first to the issue of education. The First Minister in his statement said that the programme for government demonstrated that there were improvements, and the First Minister made great play, and not for the first time, of the fact that the benchmark for this was that he was educated in what he described as a shed and that Welsh children no longer have to endure that. I welcome very much the fact that there are schools that have been rebuilt, but could the First Minister give an update on where we are in ensuring that all children are educated in twenty-first century schools—schools that are fit for purpose? If he is unsure whether such places exist, could I ask him whether he would visit my local high school, which is in desperate need of being, let us face it, knocked down and rebuilt? I am sure that the staff there would be very pleased to see him and hear about what plans his Government has to ensure that all children have a school that is fit for purpose.

Lywydd, trof yn gyntaf at addysg. Dywedodd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad fod y rhaglen lywodraethu'n dangos gwelliannau, a gwnaeth y Prif Weinidog fôr a mynydd, ac nid am y tro cyntaf, o'r ffaith mai'r meincnod ar gyfer hyn oedd ei fod wedi cael ei addysg yn yr hyn a ddisgrifiodd fel sièd ac nad oes rhaid i blant Cymru oddef hynny mwyach. Rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith bod ysgolion wedi cael eu hailadeiladu, ond a wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ble yr ydym o ran sicrhau bod pob un o'n plant yn cael eu haddysgu mewn ysgolion unfed ganrif ar hugain—ysgolion sy'n addas at eu diben? Os nad yw'n siŵr a oes lleoedd o'r fath yn bodoli, a gaf fi ofyn iddo a wnaiff ymweld â'm hysgol uwchradd leol, y mae angen dybryd, a dweud y gwir, ei tharo i lawr a'i hailadeiladu? Rwyf yn siŵr y byddai'r staff yno'n falch iawn o'i weld ac o glywed pa gynlluniau sydd gan ei Lywodraeth i sicrhau bod gan bob plentyn ysgol sy'n addas at ei diben.

Estyn’s latest annual report, published in January, said that standards of education in Wales have not improved in the main. I wonder how the First Minister reconciles his narrative in his document with that of the chief inspector of schools, who, just a number of months ago, was able to make that statement. She went on to say that

Roedd adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn dweud nad yw safonau addysg yng Nghymru wedi gwella ar y cyfan. Tybed sut y mae'r Prif Weinidog yn cysoni ei naratif yn ei ddogfen yntau ag un y prif arolygydd ysgolion, a wnaeth y datganiad hwnnw ddim ond rai misoedd yn ôl. Aeth yn ei blaen i ddweud

‘We have been using the same framework in inspections over the last three years and I had hoped to see improvements in performance by now. It is disappointing that excellent schools remain in a small minority and that so many secondary schools are in need of follow-up inspections.’

'Rydym wedi bod yn defnyddio'r un fframwaith mewn arolygiadau dros y tair blynedd diwethaf ac roeddwn wedi gobeithio gweld gwelliannau mewn perfformiad erbyn hyn. Mae'n destun siom bod ysgolion rhagorol yn parhau i fod yn lleiafrif bach a bod angen arolygiadau dilynol ar gynifer o ysgolion uwchradd.’

I wonder whether the First Minister could give us any indication of when he expects to see the number of secondary schools that are classed as unsatisfactory beginning to drop. Actually, the trend is that the number of schools in that category is increasing. The Minister says that the new resources being put into education will make a difference, and the Minister is setting great store by the Wales Schools Challenge programme as a vehicle for driving improvements. Is the First Minister confident that we have sufficient leadership skills in the Welsh education system for a model that relies on those skills being transferred? Do we have enough capacity in the system? That is, do we have enough people within the system to be able to make that model work successfully? I think there are some doubts in the education community about whether that is the case.

Tybed a allai'r Prif Weinidog roi syniad inni o ba bryd y mae'n disgwyl gweld nifer yr ysgolion uwchradd sy'n cael eu hystyried yn anfoddhaol yn dechrau gostwng. Mewn gwirionedd, y duedd yw bod nifer yr ysgolion yn y categori hwnnw ar gynnydd. Mae’r Gweinidog yn dweud y bydd yr adnoddau newydd sy’n cael eu rhoi i mewn i addysg yn gwneud gwahaniaeth, ac mae'r Gweinidog yn rhoi pwys mawr ar raglen Her Ysgolion Cymru fel cyfrwng i sbarduno gwelliannau. A yw'r Prif Weinidog yn hyderus bod gennym sgiliau arwain digonol yn system addysg Cymru ar gyfer model sy'n dibynnu ar drosglwyddo’r sgiliau hynny? A oes gennym ddigon o allu yn y system? Hynny yw, a oes gennym ddigon o bobl yn y system i allu gwneud i’r model hwnnw weithio’n llwyddiannus? Rwyf yn credu bod rhai amheuon yn y gymuned addysg ai dyna’r sefyllfa.

If I can move to the issue of the health service, Presiding Officer, the First Minister says that hundreds of millions of pounds are being put into the health service. They are, and I recognise that. When does the First Minister anticipate that the results in terms of waiting times for elective surgery, waiting times for ambulances and waiting times for diagnostics will reflect the amount of investment he has said in the statement is going into these areas? Again, if you look at the programme for government, there are a number of indicators where the First Minister said there would be improvements, and, actually, the travel is in the right direction. Money going in is good, but we have to get outcomes for those resources across the piece in the NHS, not just picking selectively some of the indicators. We need improvement across the piece.

Os caf droi at y gwasanaeth iechyd, Lywydd, mae’r Prif Weinidog yn dweud bod cannoedd o filiynau o bunnoedd yn cael eu rhoi i mewn i’r gwasanaeth iechyd. Mae hynny’n wir, ac rwyf yn cydnabod hynny. Pryd y mae'r Prif Weinidog yn rhagweld y bydd y canlyniadau o ran amseroedd aros am lawdriniaethau dewisol, amseroedd aros am ambiwlansys ac amseroedd aros am wasanaethau diagnosteg yn adlewyrchu swm y buddsoddiad y mae wedi dweud yn y datganiad ei fod yn mynd i'r meysydd hyn? Unwaith eto, os edrychwch ar y rhaglen lywodraethu, mae nifer o ddangosyddion lle dywedodd y Prif Weinidog y byddai gwelliannau, ac, mewn gwirionedd, maent yn symud i’r cyfeiriad cywir. Mae’n dda o beth bod arian yn mynd i mewn, ond rhaid inni gael canlyniadau ar gyfer yr adnoddau hynny drwyddi draw yn y GIG, nid dim ond dewis a dethol rhai o'r dangosyddion. Mae angen i bethau wella drwyddi draw.

14:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the leader of the Liberal Democrats for her questions. One of the reasons why I came into politics is because of what I saw in the education system in the 1980s. There was nothing wrong with the teaching. We had good teachers in school, but I went to a school where, in one of the classrooms, the floor had come away from the wall and there was a plant growing up the inside of the wall. There was no money to replace it. If windows were smashed, they stayed smashed, or they were boarded up. In the school library, there was nothing younger than 30 years old. We did have 'Paris Match' and 'Soviet Weekly', but there is a limit to how much you can get out of looking at people talking about the five-year plan for growing wheat in the Ukraine at that time. We had nothing. We did not have the resources that schools have now. One of the things that drove me into politics was to make sure that that never happened again. I am proud of the twenty-first century schools programme. I am proud of the fact that we see comprehensive schools—which, 12 years ago, people thought we would never build—and primary schools being built.

Diolch i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei chwestiynau. Un o'r rhesymau pam y deuthum i fyd gwleidyddiaeth yw'r hyn a welais yn y system addysg yn yr 1980au. Nid oedd dim byd o'i le â'r addysgu. Roedd gennym athrawon da yn yr ysgol, ond fe es i i ysgol lle roedd llawr un o'r ystafelloedd dosbarth wedi dod oddi wrth y wal ac roedd planhigyn yn tyfu i fyny'r tu mewn i'r wal. Nid oedd dim arian i roi llawr newydd yn ei le. Pe bai ffenestri'n torri, byddent yn aros wedi torri, neu'n cael eu cau ag estyll. Yn llyfrgell yr ysgol, nid oedd dim byd iau na 30 mlwydd oed. Roedd gennym 'Paris Match' a 'Soviet Weekly', ond mae terfyn ar yr hyn y gallwch ei gael o edrych ar bobl yn siarad am y cynllun pum mlynedd ar gyfer tyfu gwenith yn yr Wcráin ar y pryd. Nid oedd gennym ddim. Nid oedd gennym yr adnoddau sydd gan ysgolion heddiw. Un o'r pethau a'm gyrrodd i mewn i wleidyddiaeth oedd gwneud yn siŵr na fyddai hynny byth yn digwydd eto. Rwyf yn falch o'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rwyf yn falch o'r ffaith ein bod yn gweld ysgolion cyfun—na fyddai pobl, 12 mlynedd yn ôl, yn meddwl y byddem byth yn eu hadeiladu—ac ysgolion cynradd yn cael eu hadeiladu.

In terms of Brecon, it is a matter for Powys, as the LEA, to put in a bid to the capital programme. I do not know whether a bid is being made or what the progress of it is. However, I have seen some excellent examples. The last comprehensive school that I went to was St Teilo's Church in Wales High School in Cardiff, which has a fantastic new building. Coleg Cymunedol y Dderwen, which is just outside of my constituency, and others across Wales are example of where there has been fantastic investment in facilities as far as school students are concerned.

O ran Aberhonddu, Powys yw'r AALl, a'u lle hwy felly yw cyflwyno cais i'r rhaglen gyfalaf. Nid wyf yn gwybod a oes cais yn cael ei wneud na beth yw ei hynt. Fodd bynnag, rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau rhagorol. Yr ysgol gyfun ddiwethaf imi fynd iddi oedd Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Teilo yng Nghaerdydd, sydd wedi cael adeilad newydd gwych. Mae Coleg Cymunedol y Dderwen, sydd ychydig y tu allan i fy etholaeth i, ac eraill ledled Cymru'n enghraifft o fuddsoddi rhagorol mewn cyfleusterau o safbwynt disgyblion ysgol.

A question that she asked that I thought was particularly pertinent was: am I certain that there is consistent leadership across Wales, in terms of delivery of education? The answer to that is 'no'. The reason for that is I do not think that we have it across all local authorities. If we have six local education authorities in special measures, no-one can argue that there is the right level of consistency, in terms of delivery, in local education authorities. That is why the Williams commission has published its report for future consideration by the Assembly. However, where we have authorities—Wales's only Conservative-run local authority is one of them—that are in special measures, nobody can be satisfied with that situation, and that has to change. Until that structure is dealt with, I could not be fully confident that the consistent level of leadership is there.

Un cwestiwn a ofynnwyd ganddi ac yr oeddwn yn meddwl ei fod yn arbennig o berthnasol oedd: a wyf yn sicr bod arweinyddiaeth gyson ledled Cymru, o ran darparu addysg? Yr ateb i hynny yw 'nac ydw'. Y rheswm am hynny yw nad wyf yn credu fod hynny gennym ledled pob awdurdod lleol. Os oes gennym chwe awdurdod addysg lleol yn wynebu mesurau arbennig, ni all neb ddadlau bod gennym lefel briodol o gysondeb, o ran darparu, mewn awdurdodau addysg lleol. Dyna pam y mae comisiwn Williams wedi cyhoeddi ei adroddiad i'r Cynulliad ei ystyried yn y dyfodol. Fodd bynnag, tra bo gennym awdurdodau—mae'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cael ei redeg gan y Ceidwadwyr yn un ohonynt—sy'n wynebu mesurau arbennig, ni all neb fod yn fodlon â'r sefyllfa honno, a rhaid i hynny newid. Hyd nes yr ymdrinnir â'r strwythur hwnnw, ni allaf fod yn gwbl hyderus bod y lefel gyson o arweinyddiaeth yno.

Nevertheless, in order to improve things in the interim we have Schools Challenge Cymru. That has identified the schools that are not doing as well as we would want them to. It has given them money in addition to the pupil deprivation grant, and that will help us to ensure greater consistency. We have some very good schools, some very good leadership and some very good teachers in Wales. What we do not have is the right level of consistency across the board, and that is what Schools Challenge Wales is designed to help to do.

Serch hynny, er mwyn gwella pethau yn y cyfamser mae gennym Her Ysgolion Cymru. Mae wedi nodi'r ysgolion nad ydynt yn gwneud cystal ag yr hoffem iddynt ei wneud. Mae wedi rhoi arian iddynt ar ben y grant amddifadedd disgyblion, a bydd hynny o gymorth inni i sicrhau mwy o gysondeb. Mae gennym rai ysgolion da iawn, rhai arweinwyr da iawn a rhai athrawon da iawn yng Nghymru. Yr hyn nad oes gennym yw'r lefel briodol o gysondeb drwyddi draw, a dyna'r hyn y bwriedir i Her Ysgolion Cymru ein helpu i'w wneud.

With regard to what the chief inspector of schools said, much of it was very positive. There are some issues that we need to examine, but she was certainly saying that much is now on track, as far as the Welsh education system is concerned.

O ran yr hyn a ddywedodd y prif arolygydd ysgolion, roedd llawer ohono'n gadarnhaol iawn. Mae rhai materion y mae angen inni eu hystyried, ond roedd yn sicr yn dweud bod llawer o hyn yn awr ar y trywydd iawn, o safbwynt system addysg Cymru.

With health, we would expect to see improvements in the course of this financial year. In terms of diagnostics, we have to say it in terms of ambulance waiting times. We have seen improvements with regard to, for example, cancer waiting times, and that consistency needs to be achieved across the board. It is absolutely crucial that all local health boards understand that now they have, or soon will have, the ability to budget for three years instead of one, the people of Wales will expect them to deliver the services that they wish consistently across the whole of Wales. However, I have to say, in relation to what the Conservatives have said, that it is not good enough on the one hand to say that we need to see improvements in the health service and then block every single potential change that is proposed. There have to be changes. [Interruption.] I am not talking about the leader of the Liberal Democrats; I am talking about the Conservatives at this point. There has to be change in the health service in order for there to be proper, safe and sustainable services across Wales. I know that the leader of the Liberal Democrats shares the view that that is the common aim, but when looking at health and education across Wales over the course of the past year, it is my strong belief that we have put in place all that we need to do to ensure that services continue to improve.

O ran iechyd, byddem yn disgwyl gweld gwelliannau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. O ran diagnosteg, rhaid inni ddweud hynny o ran amseroedd aros am ambiwlansys. Rydym wedi gweld gwelliannau, er enghraifft o ran amseroedd aros canser, ac mae angen sicrhau'r cysondeb hwnnw ym mhob maes. Mae'n gwbl hanfodol bod pob bwrdd iechyd lleol yn deall, gan eu bod bellach wedi cael, neu ar fin cael, y gallu i gyllidebu dros dair blynedd yn lle un, y bydd pobl Cymru'n disgwyl iddynt ddarparu'r gwasanaethau y maent am eu cael yn gyson ledled Cymru gyfan. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud, ynglŷn â'r hyn y mae'r Ceidwadwyr wedi'i ddweud, nad yw'n ddigon da dweud ar y naill law fod angen inni weld gwelliannau yn y gwasanaeth iechyd ac yna rwystro pob un newid posibl a gynigir. Rhaid gwneud newidiadau. [Torri ar draws.] Nid wyf yn sôn am arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol; rwyf yn sôn am y Ceidwadwyr ar hyn o bryd. Rhaid newid y gwasanaeth iechyd er mwyn sicrhau gwasanaethau priodol, diogel a chynaliadwy ledled Cymru. Gwn fod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhannu'r farn mai dyna'r nod cyffredin, ond wrth edrych ar iechyd ac addysg ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf yn credu'n gryf ein bod wedi rhoi ar waith y cyfan y mae angen inni ei wneud er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i wella.

With education, school buildings are now vastly superior to what existed to when I was in school under the administration of Margaret Thatcher. We have funding in place. We have national literacy and numeracy tests. We have helped the schools that need the help the most. We have not channelled money into free schools and deprived schools of the money that they need. That is exactly what has happened under the Conservative administration in England. That is not something that we will do in Wales.

O ran addysg, mae adeiladau ysgolion yn awr yn well o lawer na'r hyn a oedd yn bodoli pan oeddwn i yn yr ysgol o dan weinyddiaeth Margaret Thatcher. Mae gennym arian. Mae gennym brofion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Rydym wedi helpu'r ysgolion y mae angen cymorth fwyaf arnynt. Nid ydym wedi sianelu arian i ysgolion am ddim na chymryd arian sydd ei angen ar ysgolion oddi arnynt. Dyna'n union sydd wedi digwydd o dan y weinyddiaeth Geidwadol yn Lloegr. Nid yw hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei wneud yng Nghymru.

15:03

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The report of the commission on public service, governance and delivery, the Williams commission, states that the programme for government should constitute the apex of the performance management framework in Wales, but

Mae adroddiad y comisiwn ar wasanaethau cyhoeddus, llywodraethu a darparu, comisiwn Williams, yn datgan y dylai'r rhaglen lywodraethu fod ar frig y fframwaith rheoli perfformiad yng Nghymru, ond

'At present it does not do so well enough'.

Ar hyn o bryd, nid yw'n gwneud hynny'n ddigon da.

Does this not, then, require a change of direction?

Onid yw hyn, felly, yn golygu bod angen newid cyfeiriad?

In my response to last year's annual report, I raised four areas of concern: health, education, the health of the Welsh language and infrastructure. On infrastructure, there has been progress, insofar as the Minister for Finance announced investment using what Plaid Cymru referred to as the 'build for Wales' model in our previous manifesto. I welcome the announcement that was made recently, although we know that specific infrastructure projects, such as the Valleys lines electrification and the M4 around Newport, remain subject to debate. It would be useful to know when we can have more detail about those projects and what projects we might expect to see in other parts of the country, too.

Yn fy ymateb i adroddiad blynyddol y llynedd, codais bedwar mater a oedd yn peri pryder: iechyd, addysg, iechyd y Gymraeg a seilwaith. O ran seilwaith, gwelwyd cynnydd, i'r graddau y cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid fuddsoddiad gan ddefnyddio'r hyn y cyfeiriodd Plaid Cymru ato fel y model 'adeiladu i Gymru' yn ein maniffesto blaenorol. Rwyf yn croesawu'r cyhoeddiad a wnaethpwyd yn ddiweddar, er ein bod yn gwybod bod prosiectau seilwaith penodol, megis trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r M4 o amgylch Casnewydd, yn parhau i fod yn destun dadl. Byddai'n ddefnyddiol gwybod pryd y cawn fwy o fanylion am y prosiectau hynny a pha brosiectau y gallwn ddisgwyl eu gweld mewn rhannau eraill o'r wlad, hefyd.

With regard to health, education and the Welsh language, progress is disappointing.

O ran iechyd, addysg a'r Gymraeg, mae'r cynnydd yn siomedig.

Brif Weinidog, y llynedd, pan godais yr angen i weithredu ar yr iaith Gymraeg, dywedoch mai'r Gynhadledd Fawr oedd y cam cyntaf i ymateb i'r her sy'n wynebu'r iaith. Heddiw, flwyddyn a hanner ers y cyfrifiad, dywedoch ar y radio eich bod yn dal i geisio dod o hyd i'r atebion o ran polisi. Rydych wedi cael hen ddigon o amser. Pam nad yw'r Bil cynllunio drafft yn sôn am y Gymraeg? Pam nad yw'r Gymraeg fel ail iaith yn cael ei hystyried yn yr adolygiad o'r cwricwlwm? Y llynedd, addawoch gyhoeddi asesiad o effaith holl wariant Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg. A allwch chi ddweud wrthym pryd y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi?

First Minister, last year, when I raised the need to act on the language, you said that the 'Cynhadledd Fawr' was the first step to respond to the challenge facing the language. Today, a year and a half since the census, you said on the radio that you are still trying to find the answers in terms of policy. You have had ample time. Why does the draft planning Bill not talk about the Welsh language? Why is Welsh as a second language not considered in the review of the curriculum? Last year, you promised to publish an assessment of the impact of all Welsh Government expenditure on the Welsh language. Can you tell us when that will be published?

On education, in April, we had the Organisation for Economic Co-operation and Development's report, which, once again, did not make for easy reading and, today, the head of Estyn is reported as saying that an improvement in the PISA rankings can only realistically be expected in 2018. That would represent the Welsh Government failing to meet its target of achieving a top 20 placement in December 2016. We know that the education of today shapes the economy of tomorrow, and I am sure that my concerns will be shared about the economic impact of, in the First Minister's words, our taking our eyes off the ball. Is that still a target, or is that a target that will be dropped?

O ran addysg, ym mis Ebrill, cawsom adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a oedd, unwaith eto, yn ddarllen anodd, a heddiw, nodwyd bod pennaeth Estyn wedi dweud nad yw'n realistig disgwyl gwelliant yn y safleoedd PISA tan 2018. Byddai hynny'n golygu y byddai Llywodraeth Cymru'n methu â chyflawni ei tharged o sicrhau lle yn yr 20 uchaf ym mis Rhagfyr 2016. Gwyddom fod addysg heddiw'n llunio economi yfory, ac rwyf yn siŵr y bydd eraill yn rhannu fy mhryderon am effaith economaidd y ffordd y cymerasom ein llygaid oddi ar y bêl, yng ngeiriau'r Prif Weinidog. A yw hynny'n dal i fod yn darged, ynteu ai targed yw a gaiff ei anghofio?

I would like to address the welcome fact that unemployment in Wales has returned to its position below the UK average. I know that the First Minister recognises this, and it is positive, but outside a recession, is it not normal for Welsh unemployment to be lower than the UK rate as a whole? Current employment figures are showing the normal trend for the Welsh economy, and nothing beyond that. The number of young people claiming jobseeker's allowance for over a year has more than quadrupled since the current Welsh Government took office—rising from 870 to 3,120. Fewer than half of those who begin the six-month Jobs Growth Wales programme complete it and find employment. How will we ensure that more people can find employment at the end of that six-month programme? Outside Jobs Growth Wales, how will that situation be improved?

Hoffwn ymdrin â'r ffaith galonogol fod diweithdra yng Nghymru wedi dychwelyd i'w safle yn is na chyfartaledd y DU. Gwn fod y Prif Weinidog yn cydnabod hyn, ac mae'n gadarnhaol, ond y tu allan i ddirwasgiad, onid yw'n arferol i ddiweithdra yng Nghymru fod yn is na chyfradd y DU yn ei chyfanrwydd? Mae'r ffigurau cyflogaeth diweddaraf yn dangos y duedd arferol ar gyfer economi Cymru, a dim byd y tu hwnt i hynny. Mae nifer y bobl ifanc sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith ers dros flwyddyn wedi cynyddu mwy na phedair gwaith ers i Lywodraeth bresennol Cymru ddod i rym—mae wedi codi o 870 i 3,120. Mae llai na hanner y rhai sy'n dechrau rhaglen chwe mis Twf Swyddi Cymru'n ei chwblhau ac yn cael gwaith. Sut y gallwn sicrhau y gall mwy o bobl ddod o hyd i gyflogaeth ar ddiwedd y rhaglen chwe mis? Y tu hwnt i Dwf Swyddi Cymru, sut y caiff y sefyllfa honno ei gwella?

This country has all the raw materials needed to deliver high-quality public services and a strong, sustainable economy. That outcome is not being realised and today's annual report really does confirm the need for a change in direction.

Mae gan y wlad hon yr holl ddeunyddiau crai sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel ac economi gref, gynaliadwy. Nid yw'r canlyniad hwnnw'n cael ei wireddu ac mae adroddiad blynyddol heddiw mewn gwirionedd yn cadarnhau bod angen newid cyfeiriad.

15:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, let us turn to infrastructure. She will know, of course, that we are awaiting the go-ahead in terms of being able to borrow with regard to the road project around Newport and the M4. With regard to the Valleys lines, that is still under discussion. We have all heard what the Prime Minister has said regarding the fact that the UK Government—he said—was going to pay for the Valleys lines. You should bear in mind that the rail budget is not devolved and we do not hold a budget for railways. If, however, the UK Government wanted to reconsider the devolution of the railways and transfer the budget, then that is another issue that can be discussed when the time comes.

Wel, gadewch inni droi at seilwaith. Bydd hi'n gwybod, wrth gwrs, ein bod yn aros am y golau gwyrdd o ran gallu benthyca ar gyfer y prosiect ffyrdd o gwmpas Casnewydd a'r M4. O ran rheilffyrdd y Cymoedd, maent yn dal i fod yn destun trafod. Rydym i gyd wedi clywed yr hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud ynghylch y ffaith bod Llywodraeth y DU—fel y dywedodd—yn mynd i dalu am reilffyrdd y Cymoedd. Cofiwch nad yw'r gyllideb rheilffyrdd wedi'i datganoli ac nad oes gennym gyllideb ar gyfer rheilffyrdd. Fodd bynnag, pe bai Llywodraeth y DU yn dymuno ailystyried datganoli'r rheilffyrdd a throsglwyddo'r gyllideb, mae hwnnw'n fater arall y gellid ei drafod pan ddaw'r amser.

Ynglŷn â'r iaith Gymraeg, yr hyn a ddywedais y bore yma yw bod rhai pobl yn meddwl bod atebion rhwydd i ddatrys y sefyllfa. Bydd datganiad polisi yn cael ei wneud ymhen pythefnos ac mae'r gwaith o ran y safonau yn parhau. Nid yw'n wir i ddweud na fydd y Gymraeg fel ail iaith yn cael ei hystyried. Mae adolygiad wedi ei wneud o'r Gymraeg fel ail iaith, ac rwyf wedi dweud yn y Siambr nad ydym yn creu siaradwyr Cymraeg hyderus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'n rhaid newid y system er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd yn y dyfodol. Felly, nid yw'n wir i ddweud nad oes dim byd wedi ei wneud ynglŷn â hynny.

On the language, what I said this morning is that some people think that there are easy fixes to this situation. A policy statement will be made in a fortnight and the work on standards is continuing. It is not true to say that Welsh as a second language will not be considered. A review has been undertaken of Welsh as a second language, and I have said in this Chamber that we are not creating confident Welsh speakers in English-medium schools. We must change the system to ensure that that happens in the future. Therefore, it is not true to say that nothing has been done about that.

O ran yr iaith Gymraeg, mae'r Llywodraeth wedi bod yn gefnogol o'r iaith. Mae'n un peth i ddweud y dylid cynnwys yr iaith Gymraeg ar wyneb y Bil cynllunio, ond beth fyddai hynny'n ei olygu oni fyddai rhywbeth ymarferol yn digwydd o ganlyniad? Nid yw hynny'n golygu dim byd. Mae'n rhaid sicrhau beth y byddai hynny'n ei olygu yn ymarferol er mwyn bod o les i'r iaith. Ni fyddai ei roi yno ac anghofio amdano yn ddigonol, yn amlwg. Felly, mae'n rhaid ystyried sut y gallai hynny gael ei ystyried yn fanwl.

In terms of the language, the Government has been supportive of the language. It is one thing to say that the Welsh language should be included on the face of the planning Bill, but what would that mean without any resulting practical steps? That does not mean anything. We must ensure that that would mean that practical steps were taken to benefit the language. It would not be enough to include it there and then to forget about it, obviously. Therefore, we must consider how that could be considered in detail.

In terms of education, PISA is still there as a target. Next week, Huw and I will be emphasising the importance of PISA to schools. Increasingly, the Welsh education system and teachers are being judged on PISA results. It is imperative that all in the system take them with the seriousness that they deserve, and that is a point that I will be making very clearly next week. They are not the be-all and end-all, but that is what we are judged on; therefore it is important that we ensure that our peformance improves in the short-term, particularly, and over the long-term definitely.

O ran addysg, mae PISA yn dal i fod yno fel targed. Yr wythnos nesaf, bydd Huw a minnau'n pwysleisio pwysigrwydd PISA i ysgolion. Yn gynyddol, mae system addysg ac athrawon Cymru'n cael eu barnu ar sail canlyniadau PISA. Mae'n hollbwysig bod pawb yn y system yn eu hystyried â'r difrifoldeb y maent yn ei haeddu, ac mae hynny'n bwynt y byddaf yn ei wneud yn glir iawn yr wythnos nesaf. Nid dyna yw diwedd y gân, ond dyna'r hyn yr ydym yn cael ein barnu arno; felly mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod ein perfformiad yn gwella yn y tymor byr, yn enwedig, a thros y tymor hir yn bendant.

I was struck by the phrase that the leader of Plaid Cymru used in terms of unemployment, as to whether it is 'normal' for unemployment to be this low, as if we should be returning to normal times where unemployment should be higher than the UK average. That is the implication of what she was saying. I am quite happy with this new normality, to be honest, where unemployment in Wales is lower than the UK average.

Fe'm trawyd gan yr ymadrodd a ddefnyddiodd arweinydd Plaid Cymru am ddiweithdra, o ran a yw'n 'normal' bod diweithdra mor isel â hyn, fel pe dylasem ddychwelyd i'r dyddiau arferol lle dylai diweithdra fod yn uwch na chyfartaledd y DU. Dyna oblygiad yr hyn yr oedd yn ei ddweud. Rwyf yn ddigon hapus â'r normalrwydd newydd hwn, a dweud y gwir, lle mae diweithdra yng Nghymru'n is na chyfartaledd y DU.

Then she chooses finally to attack Jobs Growth Wales. Of all the programmes that we have created, this is the one that has been the most successful. If you look, for example, at the UK Government's youth guarantee programme, 6% of the money has been spent in two years. That has been the success rate of that programme. In our programme, 81% of the young people who complete the six-month opportunity move into employment, apprenticeship or further learning. We are way ahead of the target; it has performed far better than we had dared hope. Let us not forget that this was put in place because of the removal of the Future Jobs Fund by the Conservative and Lib Dem Government. I invite the leader of Plaid Cymru to go to businesses, as I did yesterday, visiting Hydratech in Swansea, to see the 10 young people who received an opportunity for a job or further training because of Jobs Growth Wales. That is replicated across the whole of Wales. I expect there to be criticism from parties in this Chamber, but I am surprised that Plaid Cymru has chosen to attack a programme that is, in terms of job creation, the envy of Europe.

Yna, yn olaf, mae hi'n dewis ymosod ar Dwf Swyddi Cymru. O'r holl raglenni yr ydym wedi'u creu, dyma'r un sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus. Os edrychwch, er enghraifft, ar raglen gwarant ieuenctid Llywodraeth y DU, mae 6% o'r arian wedi ei wario mewn dwy flynedd. Dyna fu cyfradd llwyddiant y rhaglen honno. Yn ein rhaglen ni, mae 81% o'r bobl ifanc sy'n cwblhau'r cyfle chwe mis yn symud i mewn i gyflogaeth, prentisiaeth neu ddysgu pellach. Rydym ymhell ar y blaen o ran y targed; mae wedi perfformio'n well o lawer nag yr oeddem yn meiddio ei obeithio. Gadewch inni beidio ag anghofio bod hyn wedi cael ei roi ar waith oherwydd bod Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cael gwared ar y Gronfa Swyddi'r Dyfodol. Rwyf yn gwahodd arweinydd Plaid Cymru i fynd i weld busnesau, fel y gwneuthum innau ddoe, pan fûm yn ymweld â Hydratech yn Abertawe, i weld y 10 o bobl ifanc a gafodd gyfle i gael swydd neu hyfforddiant pellach oherwydd Twf Swyddi Cymru. Mae hynny'n digwydd ym mhob cwr o Gymru. Rwyf yn disgwyl beirniadaeth gan bleidiau yn y Siambr hon, ond rwyf yn synnu bod Plaid Cymru wedi dewis ymosod ar raglen sydd, o ran creu swyddi, yn destun eiddigedd drwy Ewrop gyfan.

15:12

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I still have a very long list of speakers, so I ask Members to come to questions.

Mae gennyf restr hir iawn o siaradwyr o hyd, felly gofynnaf i'r Aelodau ddod at eu cwestiynau.

15:12

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, today you have laid out how you believe the Welsh Government has performed against the programme for government agenda, that laid down the road map for this Government during this term in 2011. Despite having no realistic targets, let us turn to some of the key headlines of the Welsh Government over the past year.

Brif Weinidog, heddiw rydych wedi amlinellu sut yr ydych yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi perfformio yn erbyn agenda'r rhaglen lywodraethu, a osododd fap ffordd i'r Llywodraeth hon yn ystod y tymor hwn yn 2011. Er nad oes targedau realistig, gadewch inni droi at rai o benawdau allweddol Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Regarding the health situation in Wales, we have seen tragic headlines week after week, poor performance, cancelled and delayed operations and treatment and poor response in ambulance waiting times. Only yesterday, and despite repeated claims that things are improving in Wales, embarrassing headlines showed that over a fifth of all Welsh patients are waiting more than 26 weeks for treatment, compared with just 2% in Scotland, and that the Welsh Government is significantly below its own target for patient waiting times. The shocking findings recently of the Andrews review into care at hospitals within the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board sadly show that it joins the list of health boards that are really struggling to get to grips with the constant cuts to the health budget. Putting money in on an ad hoc basis is too little, too late. You accept the points of that report, yet rule out a pan-Wales Keogh-style inquiry. We ask ourselves: 'Why?'

O ran sefyllfa iechyd yng Nghymru, rydym wedi gweld penawdau trasig wythnos ar ôl wythnos, perfformiad gwael, llawdriniaethau a thriniaethau'n cael eu canslo a'u gohirio ac ymateb gwael o ran amseroedd aros am ambiwlansys. Ddoe ddiwethaf, er gwaethaf honiadau dro ar ôl tro bod pethau'n gwella yng Nghymru, dangosodd penawdau annifyr fod dros un rhan o bump o holl gleifion Cymru'n aros mwy na 26 wythnos am driniaeth, o gymharu â dim ond 2% yn yr Alban, a bod Llywodraeth Cymru'n cyflawni'n sylweddol is na'i tharged ar gyfer amseroedd aros cleifion. Mae canfyddiadau enbyd diweddar adolygiad Andrews i ofal mewn ysbytai ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn anffodus yn dangos ei fod yn ymuno â rhestr o fyrddau iechyd sy'n ei chael yn wirioneddol anodd ymdopi â'r toriadau cyson i'r gyllideb iechyd. Mae rhoi arian i mewn ar sail ad hoc yn rhy ychydig, yn rhy hwyr. Rydych yn derbyn pwyntiau'r adroddiad hwnnw, ond yn diystyru ymchwiliad tebyg i ymchwiliad Keogh i Gymru gyfan. Gofynnwn i ni ein hunain: 'Pam?'

In education, we quite often tell you how you are getting it wrong. In procurement, despite the national procurement framework, we know that you are not delivering value for money. These are pretty serious failings. However, rather than taking responsibility for these, all you do is blame everyone else, even the statistical identifiers themselves—

Ym maes addysg, rydym yn eithaf aml yn dweud wrthych sut yr ydych yn gwneud pethau'n anghywir. Ym maes caffael, er gwaethaf y fframwaith caffael cenedlaethol, gwyddom nad ydych yn darparu gwerth am arian. Mae'r rhain yn fethiannau eithaf difrifol. Fodd bynnag, yn hytrach na chymryd cyfrifoldeb am y rhain, y cwbl yr ydych yn ei wneud yw beio pawb arall, hyd yn oed y dynodwyr ystadegol eu hunain—

15:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I make a point? You have been speaking for two and a half minutes. Can you come to some serious questions to the First Minister please?

A gaf fi wneud pwynt? Rydych yn siarad ers dwy funud a hanner. A wnewch chi ofyn cwestiynau difrifol i'r Prif Weinidog os gwelwch yn dda?

15:14 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Is it not the case, First Minister, that this year's programme for government annual report is simply another page in 15 years of Welsh Labour failure? Is it not the case that you are simply in denial?

Onid yw'n wir, Brif Weinidog, nad yw adroddiad blynyddol rhaglen lywodraethu eleni'n ddim ond tudalen arall mewn 15 mlynedd o fethiant ar ran Llafur Cymru? Onid yw'n wir nad ydych am gyfaddef hyn i chi eich hun?

15:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

'No' is the answer to the question. I remind the Member of several salient facts about her own party. She criticises us, as is her democratic right to do in this Chamber—thankfully we have this Chamber now, despite those who opposed it in the 1990s. She says that there are tragic headlines every week in the health service; that is not the case. She talks about the Professor Andrews review; that has been dealt with. She talks about constant cuts in the health service; that, again, flies entirely against what has been announced over the past few weeks. Let us examine her party's policies, shall we? On education, they were tweeting two days ago that the answer to education was grammar schools—a fragmentation of the education system that would see lots of new buildings built, it would seem, trying to reorganise a system that last existed in my part of the world 40 years ago. That is the answer: grammar schools. I know that they are chasing UKIP votes, but they do not have to follow UKIP policy in quite the same way. The people of Wales expect to see something a bit more substantial than that when it comes to education policy from the party opposite.

'Nac ydy' yw'r ateb i'r cwestiwn. Hoffwn atgoffa'r Aelod o nifer o ffeithiau perthnasol am ei phlaid ei hun. Mae hi'n ein beirniadu ni, fel y mae ganddi hawl ddemocrataidd i'w wneud yn y Siambr hon—diolch byth fod gennym y Siambr hon yn awr, er gwaethaf y rhai a oedd yn ei gwrthwynebu yn yr 1990au. Mae hi'n dweud bod penawdau trasig bob wythnos yn y gwasanaeth iechyd; nid yw hynny'n wir. Mae hi'n sôn am adolygiad yr Athro Andrews; mae hynny wedi cael sylw. Mae hi'n sôn am doriadau cyson yn y gwasanaeth iechyd; mae hynny, unwaith eto, yn gwbl groes i'r hyn a gyhoeddwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gadewch inni archwilio polisïau ei phlaid hi. O ran addysg, roeddent yn trydar ddeuddydd yn ôl mai'r ateb i addysg oedd ysgolion gramadeg—darnio'r system addysg mewn modd a fyddai'n golygu codi llawer o adeiladau newydd, mae'n ymddangos, a cheisio ad-drefnu system a oedd yn bodoli ddiwethaf yn fy rhan i o'r byd 40 mlynedd yn ôl. Dyna'r ateb: ysgolion gramadeg. Rwyf yn gwybod eu bod yn ceisio cipio pleidleisiau UKIP, ond nid oes raid iddynt ddilyn polisi UKIP yn union yr un ffordd. Mae pobl Cymru'n disgwyl gweld rhywbeth ychydig yn fwy sylweddol na hynny ym mholisi addysg y blaid gyferbyn.

Let us look at what would have happened. Let us imagine for a second what would have happened if the Conservatives had been in power running Wales. There would have been a 30% cut in economy spending, a 20% cut in education spending, a 12% cut in local government spending and a 12% cut in housing spending. What we would have seen is an enormous package of cuts across the board. We would have seen the council tax spiral or local government services lost and we would have seen very little money spent on promoting Wales abroad at a time when it needs to be promoted. There would be no Jobs Growth Wales, there would be no programme to attract investment from abroad, there would be no Young Recruits programme and there would be no apprenticeship programmes. There would be no money for education. They talk about education, but they would be slashing teachers all over the place. They would be closing schools and taking money away from the classroom. I know that it embarrasses them; I know their alternative budget was one page of A4 and I know they wish they had not done it, but they have shown the people of Wales that they are exactly what they have been for the last 30 years: a party that cuts. They are a party that cuts services for those who need them most, a party that cuts education, a party that has no real interest in health and a party that would send the council tax up by 20% or more. The difference is that the people of Wales have a party committed to fairness, justice and opportunity. They do not have a party running Wales that wants to cut spending and destroy the services that so many vulnerable people rely on.

Gadewch inni edrych ar yr hyn a fyddai wedi digwydd. Gadewch inni ddychmygu am eiliad beth fyddai wedi digwydd pe bai'r Ceidwadwyr wedi bod mewn grym yng Nghymru. Byddai gwariant yr economi wedi ei dorri 30%, gwariant addysg wedi ei dorri 20%, gwariant llywodraeth leol wedi ei dorri 12% a gwariant tai wedi ei dorri 12%. Byddem wedi gweld pecyn enfawr o doriadau ym mhob maes. Byddem wedi gweld y dreth gyngor yn codi a chodi neu byddem wedi colli gwasanaethau llywodraeth leol, ac ychydig iawn o arian y byddem wedi'i weld yn cael ei wario ar hyrwyddo Cymru dramor ar adeg pan fo angen ei hyrwyddo. Ni fyddai Twf Swyddi Cymru, ni fyddai rhaglen i ddenu buddsoddiadau o dramor, ni fyddai rhaglen Recriwtiaid Ifanc ac ni fyddai rhaglenni prentisiaethau. Ni fyddai arian ar gyfer addysg. Maent yn sôn am addysg, ond byddent yn torri athrawon ym mhobman. Byddent yn cau ysgolion ac yn cymryd arian oddi wrth yr ystafell ddosbarth. Gwn fod hyn yn peri embaras iddynt; rwyf yn gwybod mai un dudalen A4 oedd eu cyllideb amgen ac rwyf yn gwybod eu bod yn dymuno na fyddent wedi gwneud hynny, ond maent wedi dangos i bobl Cymru eu bod yn union yr un fath ag y maent wedi bod dros y 30 mlynedd diwethaf: plaid sy'n torri. Maent yn blaid sy'n torri gwasanaethau i'r bobl sydd eu hangen fwyaf, yn blaid sy'n torri addysg, yn blaid sydd heb ddim diddordeb gwirioneddol mewn iechyd ac yn blaid a fyddai'n anfon y dreth gyngor i fyny 20% neu fwy. Y gwahaniaeth yw bod gan bobl Cymru blaid sydd wedi ymrwymo i degwch, cyfiawnder a chyfle. Nid oes ganddynt blaid mewn grym yng Nghymru sydd am leihau gwariant a dinistrio'r gwasanaethau y mae cynifer o bobl agored i niwed yn dibynnu arnynt.

15:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am sure that Elin Jones will be asking direct questions to the First Minister on the report, as we are here today.

Rwyf yn siŵr y bydd Elin Jones yn gofyn cwestiynau uniongyrchol i'r Prif Weinidog am yr adroddiad, gan ein bod yma heddiw.

15:17

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae'r gwasanaeth iechyd yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru, nid awdurdod lleol na Llywodraeth San Steffan. A gaf ofyn i chi felly, fel pennaeth y Llywodraeth, sut ydych chi'n esbonio perfformiad sydd wedi gwaethygu dros 12 mis o ran y targedau rydych chi wedi'u gosod eich hun? Yn fyr, mae cynnydd wedi bod yng nghanran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am driniaeth, o 16% i 23.5%; o ran y rhai sy'n aros dros 36 wythnos, bu cynnydd o 3,000 o bobl i 9,000 o bobl; ac o ran profion diagnostig, mae cynnydd o 20% wedi bod yn y nifer sy'n aros dros wyth wythnos. Nid cymharu â Lloegr na'r Alban na chreu rhyw 'league table' yr ydw i'n ei wneud fan hyn, ond cymharu eich perfformiad gyda'ch perfformiad chi eich hun 12 mis yn ôl. Felly, rwy'n gofyn ichi sut ydych chi'n medru esbonio'r dirywiad perfformiad yn y gwasanaeth iechyd yng nghyd-destun eich targedau chi eich hun. Er mwyn medru cymryd camau i wella perfformiad dros y 12 mis nesaf, mae angen ichi fedru esbonio'r dirywiad perfformiad dros y 12 mis diwethaf.

Thank you, Presiding Officer. First Minister, the health service is entirely within the control of the Welsh Government; it is not local authorities or the Westminster Government that control it. May I ask you therefore, as the head of Government, how you explain performance that has deteriorated over 12 months in terms of the targets that you have set yourself? Briefly, there has been an increase in the percentage of patients waiting over 26 weeks for treatment, from 16% to 23.5%; in terms of those waiting over 36 weeks, there has been an increase of 3,000 people to 9,000 people; and in terms of diagnostic tests, there has been a 20% increase in the number of people waiting more than eight weeks. I am not comparing with England or Scotland or creating any sort of league table, but comparing your performance with your own performance 12 months ago. Therefore, I am asking you how you can explain the decline in the performance levels in the health service in the context of your own targets. In order to take steps to improve performance over the next 12 months, you need to be able to explain the decline in performance figures over the last 12 months.

15:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n wir i ddweud bod hwn yn rhywbeth sydd o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, ac mae'n wir i ddweud nad yw Llywodraeth Cymru'n gyfforddus gyda phopeth sydd yn yr adroddiad. Mae'r cwestiwn yn hollol deg. Yr ateb yw hwn: mae'r galw am wasanaethau iechyd wedi codi dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n rhaid inni sicrhau ein bod ni'n cyrraedd yr her er mwyn gweld bod y ffigurau hynny yn cwympo dros y flwyddyn nesaf. Mae'n wir i ddweud bod rhai rhannau o'r adroddiad y byddwn ni eisiau eu gweld yn well nag ydynt. Ynglŷn â'r hyn y mae'r Gweinidog iechyd wedi'i ddatgan, i ddelio â rhai problemau ynglŷn â'r niferoedd yn y gwasanaeth iechyd, rydyn ni'n hyderus y bydd y niferoedd hynny yn cwympo ac y bydd, er enghraifft, nifer yr ambiwlansys sy'n cyrraedd o fewn wyth munud yn cynyddu yn y dyfodol ac y bydd llai o bobl yn aros yn y dyfodol am rai triniaethau. Yn achos canser, er enghraifft, mae pethau wedi gwella. Gyda rhai mathau o driniaeth, mae pethau wedi mynd, yn ein barn ni fel Llywodraeth, yn y ffordd anghywir. Yr her nawr yw sicrhau bod pethau'n symud yn y ffordd gywir dros y flwyddyn nesaf, a dyna pam mae'r adroddiad yn hollbwysig—er mwyn i ni fod yn gallu mesur ein hunain fel Llywodraeth er mwyn sicrhau bod pethau yn gwella. Ond, mae'r Gweinidog ei hun wrth gwrs wedi ystyried beth yw'r problemau sydd wedi codi dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rwy'n hyderus iawn y bydd y problemau hynny yn cael eu datrys.

It is true to say that this is something that is under the control of the Welsh Government, and it is true to say that everything in the report does not make comfortable reading for the Welsh Government. The question is entirely fair. The response is this: the demand for health services has increased over the past year and we have to ensure that we meet the challenge head on to ensure that those figures fall over the coming year. It is true to say that there are some parts of the report that we would want to see being better than they are. In relation to what the Minister for health has stated, to deal with some problems in relation to the numbers in the health service, we are confident that those numbers will fall and that, for example, the number of ambulances that will arrive within eight minutes will increase in the future and that fewer people will be waiting in the future for some treatments. In the case of cancer, for example, things have improved. With some kinds of treatment, things have gone, we believe as a Government, in the wrong direction. The challenge now is to ensure that things move in the right direction over the coming year, and that is why the report is crucially important—so that we can measure ourselves as a Government to see how things can improve. However, the Minister himself has considered what the problems are that have arisen over the past year, and I am very confident that they will be solved.

15:20 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, no matter how much gloating you do about the national health service in this very weighty report, the reality is that all we have seen under this Government are cuts, closures and cancellations in our national health service. We have seen patients waiting longer for treatment. We have seen a situation where our ambulance service now only responds to roughly half of those people that it should respond to within the waiting time targets. We have seen report after report about governance failures within the national health service and about a lack of dignity and care and respect for patients in our hospitals. We have had reports from the Older People's Commissioner for Wales and, indeed, from Professor Andrews recently as well.

Brif Weinidog, waeth faint yr ydych yn brolio am y gwasanaeth iechyd gwladol yn yr adroddiad swmpus iawn hwn, y gwir yw mai'r cwbl yr ydym wedi'i weld dan y Llywodraeth hon yw toriadau, cau a chanslo yn ein gwasanaeth iechyd gwladol. Rydym wedi gweld cleifion yn aros yn hwy am driniaethau. Rydym wedi gweld sefyllfa lle nad yw ein gwasanaeth ambiwlans yn awr ond yn ymateb i tua hanner y bobl hynny y dylai ymateb iddynt o fewn y targedau amseroedd aros. Rydym wedi gweld adroddiad ar ôl adroddiad am fethiannau o ran llywodraethu o fewn y gwasanaeth iechyd gwladol ac am ddiffyg urddas a gofal a pharch i gleifion yn ein hysbytai. Rydym wedi cael adroddiadau gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac, yn wir, gan yr Athro Andrews yn ddiweddar hefyd.

May I ask you, First Minister: when are we going to see the improvements that you have promised? When are we going to see the manifesto commitments that you made actually fulfilled? There is the manifesto commitment, for example, that you would institute annual health checks led by GPs, practice nurses, pharmacists and other health professionals to everyone over the age of 50. Do you know what? It is a promise that you have broken and failed to deliver to date. You promised to offer care with dignity and respect. It is a promise that has been broken for those people in ABMU who suffered at the hands of the poor patient care in those two hospitals that were the subject of Professor Andrews' report. When are we going to see the improvements in ambulance response times that you have promised time and time again from that very lectern in this Chamber? We have not seen them yet, and I doubt that we will see quick progress being made in the near future either.

A gaf fi ofyn ichi, Brif Weinidog: pryd yr ydym yn mynd i weld y gwelliannau yr ydych wedi'u haddo? Pryd ydym ni'n mynd i weld yr ymrwymiadau a wnaethoch yn eich maniffesto yn cael eu gwireddu? Mae ymrwymiad yn y maniffesto, er enghraifft, y byddech yn cychwyn archwiliadau iechyd blynyddol dan arweiniad meddygon teulu, nyrsys practis, fferyllwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i bawb dros 50 oed. Wyddoch chi beth? Mae'n addewid yr ydych wedi'i thorri ac wedi methu â'i chadw hyd yma. Roeddech yn addo cynnig gofal ag urddas a pharch. Mae'n addewid sydd wedi cael ei thorri i'r bobl hynny yn PABM a ddioddefodd y gofal gwael i gleifion yn y ddau ysbyty yr oedd adroddiad yr Athro Andrews yn ymdrin â hwy. Pryd ydym ni'n mynd i weld y gwelliannau o ran amseroedd ymateb ambiwlansys yr ydych wedi eu haddo dro ar ôl tro o'r union ddarllenfa honno yn y Siambr hon? Nid ydym wedi eu gweld eto, ac rwyf yn amau na welwn gynnydd cyflym yn y dyfodol agos ychwaith.

Can you tell us, on GP access—because you seem to rubbish the figures that were provided by the leader of the opposition earlier—. Just let me put on record the fact your Minister for health, responsible for measuring progress against your commitment on weekend access to GP appointments has said this: the access statistics that you collate do not include the number of GP surgeries that offer weekend appointments. That is the answer that your Minister for health gave, an answer that you should be aware of, particularly in view of this statement today. We know that only 49 out of 466 GP surgeries offer appointments in the evenings after 6.30 p.m.. For most working families, that sort of access is essential. Forty-nine out of 466. If you think that that progress is good enough, you have got a lot of explaining to people to do in the run-up to the general election next year. When are we going to see the promises—[Interruption.] If the people—[Interruption.] If the people of Wales cannot rely—[Interruption.] If the people of Wales cannot rely on a Labour Government here in Wales to deliver on the promises that you made in a manifesto, how on earth can anybody else rely on promises made by other Labour Party politicians?

A allwch ddweud wrthym, ynglŷn â mynediad at feddygon teulu—oherwydd mae'n ymddangos eich bod wedi diystyru'r ffigurau a ddarparwyd gan arweinydd yr wrthblaid yn gynharach—. Gadewch imi roi ar gofnod y ffaith bod eich Gweinidog iechyd, sy'n gyfrifol am fesur cynnydd yn erbyn eich ymrwymiad ar apwyntiadau meddygon teulu ar benwythnosau, wedi dweud hyn: nid yw'r ystadegau mynediad yr ydych yn eu casglu'n cynnwys nifer y meddygfeydd sy'n cynnig apwyntiadau ar benwythnosau. Dyna'r ateb a roddodd eich Gweinidog iechyd, ateb y dylech fod yn ymwybodol ohono, yn enwedig ac ystyried y datganiad hwn heddiw. Gwyddom mai dim ond 49 o blith 466 o feddygfeydd teulu sy'n cynnig apwyntiadau gyda'r nos ar ôl 6.30 p.m. I'r rhan fwyaf o deuluoedd sy'n gweithio, mae'r math hwnnw o fynediad yn hanfodol. Pedwar deg naw o blith 466. Os ydych yn credu bod y cynnydd hwnnw'n ddigon da, mae gennych lawer o waith egluro i'w wneud i bobl yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf. Pryd ydym ni'n mynd i weld yr addewidion—[Torri ar draws.] Os na all pobl—[Torri ar draws.] Os na all pobl Cymru ddibynnu—[Torri ar draws.] Os na all pobl Cymru ddibynnu ar Lywodraeth Lafur yma yng Nghymru i wireddu'r addewidion a wnaethoch mewn maniffesto, sut ar y ddaear y gall neb arall ddibynnu ar addewidion a wneir gan wleidyddion eraill y Blaid Lafur?

15:23

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member seems to think that whatever happens in here is entirely designed as a dry run for the general election. There are those of us who are sufficiently committed to devolution to see 2016 as the important election as far as this Assembly is concerned, and we do not see this place as some kind of dress rehearsal for the general election next year. He gives away, of course, what his party thinks about what happens in Wales. It is all to do with what happens in next year's general election and not about delivering services to the people of Wales and the election in 2016. He talks about GP access. GP access has improved mightily, as I have already mentioned in terms of the figures that I have given him. On and on he goes about the health service. We can argue this all afternoon, but let me just put three things to him. First of all, why is it then, on the surveys that we have seen, the Welsh Government is more popular than his UK Government? Why is it that the vast majority of people in Wales are content with their health and education services? If what he says is actually true, if there were an iota of truth or credibility in that, those figures would not be borne out as they are. The reality is that we recognise—unlike his party because, in England, it is all about blaming someone else if there is a problem in the health service—. In Wales, we recognise the problems. We say, 'Yes, there are problems' and we say, 'We will deal with those problems' and we are open about those problems. That is why the people of Wales trust us. They would no more trust the Tories with the NHS in Wales than they trust the Tories to run a submarine across the Atlantic.

Mae'n ymddangos bod yr Aelod yn credu mai'r bwriad yw i beth bynnag sy'n digwydd yma fod yn ymarfer ar gyfer yr etholiad cyffredinol. Mae rhai ohonom wedi ymrwymo'n ddigonol i ddatganoli i weld mai 2016 yw'r etholiad pwysig o safbwynt y Cynulliad hwn, ac nid ydym yn gweld y lle hwn fel rhyw fath o ymarfer gwisgoedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf. Mae'n datgelu, wrth gwrs, yr hyn y mae ei blaid yn ei feddwl am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Mae a wnelo popeth â'r hyn a fydd yn digwydd yn etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf, ac nid â darparu gwasanaethau i bobl Cymru a'r etholiad yn 2016. Mae'n sôn am fynediad at feddygon teulu. Mae mynediad at feddygon teulu wedi gwella'n aruthrol, fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud o ran y ffigurau yr wyf wedi'u rhoi iddo. Mae'n rhygnu ymlaen am y gwasanaeth iechyd. Gallwn ddadlau am hyn drwy'r prynhawn, ond gadewch imi ddweud tri pheth wrtho. Yn gyntaf oll, pam, felly, yn yr arolygon yr ydym wedi'u gweld, y mae Llywodraeth Cymru'n fwy poblogaidd na'i Lywodraeth y DU? Pam y mae'r mwyafrif llethol o bobl yng Nghymru'n fodlon ar eu gwasanaethau iechyd ac addysg? Pe bai'r hyn a ddywed mewn gwirionedd yn wir, pe bai iot o wirionedd neu hygrededd yn hynny, ni fyddai'r ffigurau hynny fel y maent. Y gwir amdani yw ein bod yn cydnabod—yn wahanol i'w blaid ef, oherwydd, yn Lloegr, os oes problem yn y gwasanaeth iechyd mae'n fater o feio rhywun arall—. Yng Nghymru, rydym yn cydnabod y problemau. Rydym yn dweud, 'Oes, mae problemau' ac rydym yn dweud, 'Byddwn yn ymdrin â'r problemau hynny' ac rydym yn agored am y problemau hynny. Dyna pam y mae pobl Cymru'n ymddiried ynom. Ni fyddent yn ymddiried y GIG yng Nghymru i'r Torïaid ddim mwy nag y byddent yn ymddiried yn y Torïaid i yrru llong danfor ar draws yr Iwerydd.

15:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Submarines. I do not know where submarines came from, but there we are. I call Simon Thomas.

Llongau tanfor. Nid wyf yn gwybod o ble y daeth llongau tanfor, ond dyna ni. Galwaf Simon Thomas.

15:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Hoffwn i ddychwelyd at rhaglen y Llywodraeth hon a dal y Prif Weinidog i gyfrif am ei raglen yntau. Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi dweud ei fod am lynu at y targed o gyrraedd yr 20 uchaf yng nghynghrair PISA, ond hoffwn atgoffa'r Prif Weinidog nad yw hynny yn y rhaglen lywodraethu. Nid yw'n darged yn y rhaglen lywodraethu o gwbl i wneud hynny. Hoffwn ei wahodd i ailystyried hynny, fel rwyf wedi'i wneud gyda'r Gweinidog addysg. Yn hytrach na mynd am safle; cer am y cyfrif; cer am y 'grades'; cer am y 580 ac uwch sy'n dangos bod Cymru ar ei ffordd i wella'i system addysg. Dyna'r gwir fath o gymryd tymheredd y mae PISA yn ei wneud a dyna beth mae Ann Keane yn awgrymu yn ei chyfweliad heddiw yn y 'Western Mail'. Mae hi'n awgrymu y dylem ailystyried hynny a gweld cynnydd dros gyfnod, yn hytrach na gosod targed anghymesur. Felly, rwy'n gofyn i'r Llywodraeth i gilio yn ôl o'r targed, heb yn sicr i Blaid Cymru ei beirniadu am hynny, ac yn lle hynny gosod targed mwy ystyrlon ar gyfer yr holl system addysg.

Thank you, Presiding Officer. I would like to return to this Government's programme and hold the First Minister to account for his own programme. The First Minister has already said that he wishes to stick to the target of reaching the top 20 in the PISA results league, but I would like to remind the First Minister that that is not included in the programme for government. It is not a target contained therein at all. I would like to invite him to reconsider that, as I have done with the Minister of education. Rather than aiming for a particular position; look at the count; look at the grades; look at the 580 and above that will show that Wales is on the road to improving its education system. That is the kind of temperature testing that PISA does and that is what Ann Keane suggests in her interview in the 'Western Mail' today. She suggests that we should reconsider that and see progress over time, rather than setting a disproportionate target. Therefore, I am asking the Government to retreat from that target, without Plaid Cymru criticising it for that, and instead to set a more considered target for the whole education system.

Yr ail gwestiwn rwyf eisiau ei ofyn i'r Llywodraeth yw pam mae'r Llywodraeth wedi canfod ei hun mewn sefyllfa lle mae'n adolygu'r cwricwlwm ar ôl adolygu'r cymwysterau a'r arholiadau. Rwy'n meddwl bod honno'n ffordd anffodus, a dweud y gwir, o gynllunio system addysg, ac mae'n awgrymu ei bod yn cael ei gyrru gan brosesau allanol yn hytrach na strategaeth greiddiol y Llywodraeth. Os edrychwch chi eto ar eich rhaglen lywodraethu, fe welwch nad felly y gwnaethoch esbonio'r broses hon o'r cychwyn o gwbl. Rwy'n awgrymu i chi nad ydych wedi cydlynu'r ffordd fwyaf call o edrych ar y system addysg gan eich bod yn gwneud y cwricwlwm yn awr ar ôl gosod mewn lle yr arholiadau creiddiol—mathemateg, Saesneg a Chymraeg—sydd eisoes yn eu lle. Bydd y cwricwlwm yn dilyn y cymwysterau ac mae rhywbeth rhyfedd gyda'r system honno. A oes modd i chi gyflymu, gwella neu o leiaf bod yn fwy clir yn y rhaglen lywodraethu o ran sut mae'r ddau beth yn mynd i gydweithio gyda'i gilydd yn yr hanner nesaf? Fel rydych chi newydd ein hatgoffa ni, rydych chi hanner ffordd drwy'r Llywodraeth hon.

The second question I want to ask of the Government is why has the Government found itself in a situation where it is reviewing the curriculum after reviewing the qualifications and examinations. I think that that is an unfortunate way of planning an education system, and it suggests that it is being driven by external processes rather than the core Government strategy. If you look again at your programme for government, you will see that that is not how you explained this process at the outset. I suggest to you that you have not co-ordinated the most sensible way of looking at the education system as you are looking at the curriculum now having already put in place the core examinations for mathematics, English and Welsh. The curriculum will follow the qualifications and there is something strange with that approach. Could you speed up, improve or at least be clearer in the programme for government in terms of how those two things are going to dovetail in the next half of your term of Government? As you have just reminded us, you are half way through it.

Dyma'r pwynt olaf rwyf eisiau ei godi gyda'r Prif Weinidog ynglŷn â'i adroddiad. Yn yr adroddiad llawn, mae gennych chi 10 nod rwyf i wedi'u canfod sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, ac sy'n amrywio o drosglwyddiad iaith a iaith y tu fas i'r ysgol i berthynas yr iaith â chartrefi fforddiadwy, ac, wrth gwrs, cynyddu'r nifer sy'n siarad y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'n siomedig iawn nad yw'r adroddiad cryno yn cyfeirio at y rhain o gwbl. Rwy'n meddwl nad oes cyfeiriad at y rhain achos nid oes cynnydd wedi bod. Nid oes unrhyw ddatblygiad polisi, nac atebion polisi wedi'u cynnig, fel y dywedodd Leanne Wood, er gwaethaf y ffaith eich bod wedi cynnal y Gynhadledd Fawr. Da chi, os nad ydych chi'n barod i'w ddweud heddiw, dewch yn glou gyda'r atebion polisi hyn sydd mor bwysig i ddyfodol yr iaith Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Cymry Cymraeg yn erfyn ac yn disgwyl ar Lywodraeth Cymru i wneud un peth drostynt, a hynny yw rhoi'r camau yn eu lle sy'n mynd i gadw'r iaith yn iaith fyw gymunedol i ni heddiw.

This is the final point that I want to raise with the First Minister on his report. In the full report, you have 10 objectives that I have discovered that relate to the Welsh language, and they range from language transfer and language outside school to the relationship between the language and affordable homes, and, of course, increasing the number of people who speak the Welsh language more generally. It is very disappointing that the summary report makes no reference to these whatsoever. I think that it does not refer to these because there has been no progress. There has been no policy development and there have been no policy solutions put forward, as Leanne Wood said, despite the fact that you did stage the 'Cynhadledd Fawr'. I urge you, if you are not willing to say it today, to bring these policy solutions forward swiftly as they are so important to the future of the Welsh language in Wales. The Welsh speakers of Wales are expecting the Welsh Government to do one thing for them, and that is to put the steps in place that will protect the language as a living language for us today.

15:28

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ynglŷn â PISA, nid wyf yn mynd i newid y sefyllfa heddiw ynglŷn â PISA. Mae'n bwysig dros ben bod targedau ac rwy'n erfyn gweld gwellhad. Mae'n wir i ddweud nad yw pethau'n gallu newid dros nos ond, yn fy marn i, mae'r hyn sydd gennym yn awr yn mynd i sicrhau gwellhad yn y dyfodol.

In relation to PISA, I am not going to change the situation today in relation to PISA. It is important that we have targets and I expect to see improvement. It is true to say that things cannot happen overnight but, in my opinion, what we have now is going to ensure improvement in the future.

Ynglŷn â'r cwricwlwm, wrth gwrs, nid oedd neb wedi meddwl y byddai Lloegr yn tynnu mas o'r system gyffredinol a oedd mewn lle rhwng Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Felly, mae pethau wedi gorfod cael eu newid o achos hynny, ynglŷn â'r cwricwlwm ac ynglŷn â chymwysterau, er mwyn sicrhau bod gennym system yng Nghymru sy'n system gadarn. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn ystyried cymwysterau newydd ac yn sicrhau, ar fwy neu lai'r un pryd, ein bod yn ystyried y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid felly oedd yr amserlen y byddwn ni wedi ei dewis ar ddechrau'r broses. Mae'n rhaid gwneud hwn er mwyn sicrhau bod gennym system mewn lle.

In relation to the curriculum, of course, no-one had thought that England would withdraw from the general system that was in place between England, Wales and Northern Ireland. So, things have had to be changed as a result of that, in relation to the curriculum and qualifications, in order to ensure that we have a system in Wales is a robust system. It is very important that we consider new qualifications and ensure, almost simultaneously, that we consider the curriculum. However, that is not the timetable that we would have chosen at the beginning of the process. We have to do this to ensure that we have a system in place.

Rwy'n mo'yn gwneud datganiad ynglŷn â'r iaith yn ystod yr wythnosau nesaf. Roeddwn i'n mo'yn sicrhau bod y datganiad yn rhywbeth cadarn a chynhwysfawr. Nid oeddwn am ddod yn ôl i'r Siambr a gwneud datganiad nad oedd yn datgan unrhyw beth. I wneud hynny, mae lot fawr o waith wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y datganiad ei hun yn un cynhwysfawr. Rwy'n hyderus y bydd yn cael ei ystyried yn y ffordd honno. Mae ffyrdd eraill i ystyried sefyllfa'r iaith Gymraeg, yn enwedig y system gynllunio. Mae gennym TAN 20. Nid yw hynny i ddweud mai dyna yw diwedd y gân ynglŷn â gallu'r system gynllunio i helpu'r iaith Gymraeg, ond mae'n bwysig dros ben ein bod yn ystyried ffyrdd ymarferol i wneud hynny, a sicrhau nad ydym mewn sefyllfa lle mae rhywbeth yn cael ei ddweud a bod dim byd yn digwydd ar ôl hynny. Felly, fe fydd datganiad, ac fe fydd yn dod yn ystod yr wythnosau nesaf, ac rwy'n hyderus y bydd y datganiad hwnnw yn un a fydd yn gwneud datganiadau sydd o les i'r iaith.

I want to make a statement in relation to the Welsh language in the coming weeks. I wanted to ensure that the statement was something that was robust and comprehensive. I did not want to come back to the Chamber and make a statement that stated nothing. To do that, a great deal of work has been done to ensure that the statement itself is a comprehensive one. I am confident that it will be considered that manner. There are other ways to consider the situation of the Welsh language, especially in the planning system. We have TAN 20. That is not to say that that is the end of the matter in relation to the ability of the planning system to help the Welsh language, but it is very important that we consider practical ways of doing that, and ensure that we are not in a situation where something is being said and nothing happens afterwards. So, there will be a statement, and it will be forthcoming in the coming weeks, and I am confident that that statement will be one that makes statements that are of benefit to the Welsh language.

15:30 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Various Members have already spoken about concerns to do with education, so I will not repeat their questions. However, I was very struck, First Minister, by your earlier comment that your Government is pursuing a relentless drive on education standards, and, obviously, I listened to your responses to other Members. The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 has been in place for about a year now, and you will know from complaints in your own constituency that the local authorities failed at the first hurdle, namely compliance with the code that was issued under that Act, which tells them how to consult on school closures. Now, with that in mind, as well as the reference that others have made to Estyn's comments on disappointing standards, what evidence can you provide that this legislation has raised standards in schools, improved leadership in schools—Kirsty Williams mentioned that—and in local authorities, and simplified school reorganisation?

Mae amryw o Aelodau eisoes wedi sôn am bryderon yn ymwneud ag addysg, felly nid wyf am ailadrodd eu cwestiynau. Fodd bynnag, fe'm trawyd yn gryf, Brif Weinidog, gan eich sylw cynharach fod eich Llywodraeth yn cynnal ymgyrch ddiflino ar safonau addysg, ac, wrth gwrs, gwrandewais ar eich ymatebion i Aelodau eraill. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar waith ers tua blwyddyn bellach, a byddwch yn gwybod o glywed cwynion yn eich etholaeth eich hun fod yr awdurdodau lleol wedi methu ar y cam cyntaf, sef cydymffurfio â'r cod a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf, sy'n dweud wrthynt sut i ymgynghori ar gau ysgolion. Yn awr, o gofio hynny, yn ogystal â'r cyfeiriadau y mae eraill wedi'u gwneud at sylwadau Estyn am safonau siomedig, pa dystiolaeth y gallwch ei rhoi bod y ddeddfwriaeth hon wedi codi safonau mewn ysgolion, wedi gwella arweinyddiaeth mewn ysgolion—soniodd Kirsty Williams am hynny—ac mewn awdurdodau lleol, ac wedi symleiddio ad-drefnu ysgolion?

With just under half of our pupils demonstrating poor numeracy skills, obviously we all welcome the renewed focus on literacy and numeracy in teachers' training and practice. However, it is not clear to me from the report today that teachers' training courses really cover issues such as pupils' behaviour and mental health. With so many children excluded for behavioural problems presenting with additional learning needs, we have a succession of reports and policy announcements over many years now, but still very little achievement on this agenda. So, why has your Government continued to miss this opportunity, in this year's programme for government, to do something useful on that?

Gydag ychydig yn llai na hanner ein disgyblion yn dangos sgiliau rhifedd gwael, yn amlwg rydym i gyd yn croesawu'r ffocws o'r newydd ar lythrennedd a rhifedd mewn hyfforddiant ac ymarfer i athrawon. Fodd bynnag, nid yw'n glir i mi o'r adroddiad heddiw fod cyrsiau hyfforddi athrawon yn rhoi llawer o sylw i faterion megis ymddygiad disgyblion ac iechyd meddwl. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan lawer o'r plant sydd wedi'u gwahardd am broblemau ymddygiad, ac mae gennym gyfres o adroddiadau a chyhoeddiadau polisi dros flynyddoedd lawer yn awr, ond ychydig iawn a gyflawnwyd o hyd ar yr agenda hon. Felly, pam y mae eich Llywodraeth yn parhau i golli'r cyfle hwn, yn rhaglen lywodraethu eleni, i wneud rhywbeth defnyddiol am hynny?

I for one am not particularly saddened by your announcement of the loss of the short course GCSE Welsh as a second language. However, what can you tell us about your pilot projects in the 11 primary schools, with pupils from years three and four being introduced to Welsh across the curriculum, as a language skill rather than a subject? What can you use from that pilot to introduce children to modern foreign languages, perhaps, at that early stage, because Wales certainly needs the edge in language skills in order to attract inward investment and to sell Wales to the world?

Nid wyf fi, beth bynnag, yn arbennig o drist o'ch clywed yn cyhoeddi y byddwn yn colli'r cwrs byr TGAU Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, beth allwch chi ei ddweud wrthym am eich prosiectau peilot yn yr 11 o ysgolion cynradd, lle caiff disgyblion o flynyddoedd tri a phedwar eu cyflwyno i'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm, fel sgìl iaith yn hytrach na phwnc? Beth allwch chi ei ddefnyddio o'r cynllun peilot hwnnw i gyflwyno plant i ieithoedd tramor modern, efallai, yn y cyfnod cynnar hwnnw, oherwydd yn sicr y mae ar Gymru angen y fantais o ran sgiliau iaith er mwyn denu mewnfuddsoddi ac er mwyn gwerthu Cymru i'r byd?

I ddod i ben, rwy'n falch bod rhywbeth yn digwydd, o'r diwedd, o gwmpas 'tranche' cyntaf y safonau Cymraeg. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod pryderon Leanne Wood am y diffyg llwyddiannau sy'n deillio o'r Gynhadledd Fawr. Er enghraifft, ble mae'r ymrwymiad i gyflwyno sgiliau iaith Gymraeg drwy Dechrau'n Deg, yn enwedig gan eich bod wedi ymrwymo i ddyblu'r rhaglen, heb dystiolaeth gref yn yr adroddiad gwerthusiad cenedlaethol? A gaf ofyn hefyd i chi yn bersonol, fel pencampwr iaith Gymraeg y Llywodraeth, a ydych yn cefnogi'r syniad o gyflwyno'r egwyddor o sylw priodol i'r iaith Gymraeg i awdurdod cynllunio? Rwyf wedi clywed eich ymateb i bobl eraill yma, ond, yn bersonol, beth ydych chi'n ei feddwl?

To conclude, I am pleased that something is happening, at last, in relation to the first tranche of the Welsh language standards. However, I recognise Leanne Wood's concerns about the lack of progress following the 'Cynhadledd Fawr'. For example, where is the commitment to introduce Welsh language skills through Flying Start, particularly as you have committed to doubling the programme, without strong evidence in the national evaluation report? May I also ask you personally, as the champion of the Welsh language in Government, whether you support the concept of introducing the principle of appropriate consideration of the Welsh language as part of the planning process? I have heard your response to others here, but, personally, what do you think?

15:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Ynglŷn â'r system gynllunio, mae'n bwysig dros ben bod unrhyw beth sy'n cael ei ystyried yn ymarferol. Nid oes pwynt cael rhywbeth sydd yn egwyddor os nad oes dim byd yn digwydd o achos hynny. Felly, mae'n bwysig dros ben bod y system gynllunio'n cael ei hystyried mewn ffordd lle mae pethau ymarferol, gweithredol yn gallu cael eu gwneud dros yr iaith Gymraeg, ac nid dim ond dodi rhywbeth mewn fel rhyw fath o 'token'. Mae'n rhaid sicrhau bod hynny'n arwain at rywbeth arall. Dyna, felly, yw'r ddadl, wrth gwrs—sicrhau ein bod yn ystyried ym mha ffordd y gall hynny gael ei wneud, a beth yw'r ffyrdd ymarferol ymlaen.

In relation to the planning system, it is very important that anything that is considered is practicable. There is no point having something in principle if nothing happens as a result of that. So, it is very important that the planning system is considered in such a way that practical actions can be taken on the Welsh language, not just putting something in place as a sort of token gesture. We have to ensure that it leads to something else. That is the debate, of course—ensuring that we consider in what way that can be done, and what the practical ways forward are.

In terms of the issue of school closures, I am not aware of an issue in my own constituency, I must say, with regard to school closures. However, with regard to schools reorganisation, the Act is clear. It has not been in place for a long time yet, so it will have some time to have its fullest effect.

O ran cau ysgolion, nid wyf yn ymwybodol bod problem yn fy etholaeth i, rhaid imi ddweud, o ran cau ysgolion. Fodd bynnag, o ran ad-drefnu ysgolion, mae'r Ddeddf yn glir. Nid yw wedi bod ar waith am yn hir, felly caiff rywfaint o amser i gael ei heffaith yn llawn.

In terms of teacher training, we would expect institutions, of course, to be able to provide the fullest level of teacher training to make sure that teachers are able to deal, particularly, with behaviour issues—that is a fundamental part of teaching.

O ran hyfforddi athrawon, byddem yn disgwyl i sefydliadau, wrth gwrs, allu darparu'r lefel lawnaf o hyfforddiant i athrawon er mwyn sicrhau bod athrawon yn gallu ymdrin, yn arbennig, â materion ymddygiad—mae hynny'n rhan hanfodol o addysgu.

In terms of the ongoing pilot projects, they are, of course, ongoing. We will see what the result of those projects actually is before considering what the way forward is.

O ran y prosiectau peilot parhaus, maent, wrth gwrs, yn parhau. Cawn weld beth yw canlyniad y prosiectau hynny mewn gwirionedd cyn ystyried beth yw'r ffordd ymlaen.

She makes, I think, a fair point on modern foreign languages. I agree with her that this is something that we need to look at, and the introduction of an MFL at an earlier age. However, of course, room has to be found in the curriculum, and that is the challenge—where do you find room in the curriculum in order for a modern foreign language to be introduced at a young age, and then to be continued through past the age of 14 as well, past key stage 3? That is important to make sure that we produce the linguists that we will need in the future.

Mae'n gwneud pwynt teg, yn fy marn i, am ieithoedd tramor modern. Rwyf yn cytuno â hi fod hyn yn rhywbeth y mae angen inni edrych arno, a chyflwyno ieithoedd tramor modern yn gynharach. Fodd bynnag, wrth gwrs, rhaid dod o hyd i le yn y cwricwlwm, a dyna'r her—ble mae dod o hyd i le yn y cwricwlwm i gyflwyno iaith dramor fodern i blant ifanc, ac yna i barhau â hi heibio i 14 oed yn ogystal, heibio i gyfnod allweddol 3? Mae hynny'n bwysig er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cynhyrchu'r ieithwyr y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol.

15:35 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You state that social justice is at the heart of everything that you do, but housing is at the heart of social justice and you failed in your statement today to refer specifically to that, although I know that there is reference on the Welsh Government website. How will you finally deliver a housing recovery programme? The number of social homes for rent increased in the 1990s, but fell from the beginning of devolution in 1999—not from 2010, or some miraculous political date in the diary. The number of social homes for rent fell by 29,000 in the first three Assembly terms, and, in the four years since the 2008-09 recession, barely 3,000 new social homes to rent have been built compared to 10,000 in the four years following the previous recession in the early 1990s in Wales. I also note that the National House Building Council figures show that Wales, not only last year, but in the first quarter of this year, was the only part of the UK to see house building going backwards. I welcome the Welsh Government implementation of Help to Buy, which it did only because the Government made funding conditional on using it for that purpose, and I also welcome the fact that builders tell me that this is driving development now and will reflect in future figures. However, that is not a strategy on its own and it is only a short-term stimulus. So, I call for your comment on the need to tackle what is still described by the sector as a crisis.

Dywedwch fod cyfiawnder cymdeithasol wrth galon popeth yr ydych yn ei wneud, ond mae tai wrth galon cyfiawnder cymdeithasol ac rydych wedi methu yn eich datganiad heddiw â chyfeirio'n benodol at hynny, er bod cyfeiriad, rwyf yn gwybod, ar wefan Llywodraeth Cymru. Sut y byddwch yn y pen draw'n cyflwyno rhaglen adfer tai? Cynyddodd nifer y cartrefi cymdeithasol ar rent yn yr 1990au, ond gwelwyd gostyngiad o ddechrau datganoli ym 1999—nid o 2010, neu ryw ddyddiad gwleidyddol gwyrthiol yn y dyddiadur. Gostyngodd nifer y cartrefi cymdeithasol ar rent 29,000 yn nhri thymor cyntaf y Cynulliad, ac, yn y pedair blynedd ers dirwasgiad 2008-09, prin bod 3,000 o gartrefi cymdeithasol newydd i'w rhentu wedi eu hadeiladu o gymharu â 10,000 yn y pedair blynedd yn dilyn y dirwasgiad blaenorol yn yr 1990au cynnar yng Nghymru. Nodaf hefyd fod ffigurau'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol yn dangos mai Cymru, nid yn unig y llynedd, ond yn chwarter cyntaf eleni, oedd yr unig ran o'r DU i weld adeiladu tai'n mynd tuag yn ôl. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n rhoi Cymorth i Brynu ar waith, er mai dim ond am fod y Llywodraeth wedi gwneud y cyllid yn amodol ar ei ddefnyddio at y diben hwnnw y gwnaeth hynny, ac rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod adeiladwyr yn dweud wrthyf fod hyn yn sbarduno datblygu yn awr ac y caiff ei adlewyrchu yn ffigurau'r dyfodol. Fodd bynnag, nid yw hynny ar ei ben ei hun yn strategaeth a dim ond ysgogiad tymor byr ydyw. Felly, galwaf am eich sylwadau am yr angen i ymdrin â'r hyn y mae'r sector yn dal i'w ddisgrifio fel argyfwng.

Secondly and finally, if I may, you refer to Jobs Growth Wales delivering 13,200 opportunities. I wonder whether we could have greater clarification now, or in a further statement in writing, or verbally to Members. We know that 25% of those opportunities were not filled. In previous published figures from the Welsh Government, 21% had left early and destination figures had been recycled so that one job opportunity could result in both an early leaver and a completed six-month opportunity.

Yn ail ac yn olaf, os caf, rydych yn dweud bod Twf Swyddi Cymru wedi darparu 13,200 o gyfleoedd. Tybed a allem gael mwy o eglurhad yn awr, neu mewn datganiad ysgrifenedig pellach, neu ar lafar i'r Aelodau. Gwyddom na chafodd 25% o'r cyfleoedd hynny eu llenwi. Mewn ffigurau blaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd 21% wedi gadael yn gynnar ac roedd ffigurau cyrchfannau wedi eu hailgylchu fel y gallai un cyfle gwaith arwain at ymadael yn gynnar ac at gwblhau cyfle chwe mis.

15:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

As I mentioned, Jobs Growth Wales is without peer as a job creation scheme for young people. I have seen the results of it in many parts of Wales and the reason why it is successful is because we talked to business first and asked, 'What sort of scheme would help you?' Businesses were saying to me and to others, 'What we need, really, is a way to take people on and train them. We haven't got the time or the money to do it, but we would be able to employ them.' That is why, of course, the success rate in terms of employment is so high, because what we are doing is providing a service to businesses that enables them to grow, but also enables them to take on board young people who are enthusiastic to work for them.

Fel y soniais, mae Twf Swyddi Cymru yn gynllun creu swyddi heb ei ail i bobl ifanc. Rwyf wedi gweld ei ganlyniadau mewn sawl rhan o Gymru a'r rheswm pam y mae'n llwyddiannus yw oherwydd ein bod wedi siarad â busnesau'n gyntaf a gofyn, 'Pa fath o gynllun a fyddai'n eich helpu chi?' Roedd busnesau'n dweud wrthyf fi ac wrth eraill, 'Yr hyn sydd ei angen arnom, mewn gwirionedd, yw ffordd o dderbyn pobl a'u hyfforddi. Nid oes gennym amser nac arian i wneud hynny, ond byddem yn gallu eu cyflogi.' Dyna, wrth gwrs, pam y mae'r gyfradd llwyddiant ar gyfer cyflogaeth mor uchel, oherwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud yw darparu gwasanaeth i fusnesau sy'n eu galluogi i dyfu, ond hefyd yn eu galluogi i dderbyn pobl ifanc frwdfrydig i weithio iddynt.

In terms of housing, I can say that, during 2011-12 and 2012-13, a total of 4,474 affordable units were delivered across Wales, which is 60% of the previous target. That target has now been increased to 10,000 for this term of Government, and a housing supply pact has been agreed with Community Housing Cymru in order to deliver. It is also true to say that we know that Help to Buy has boosted the housing industry and has supported the construction of 5,000 new homes in Wales. That means that there are more and more people who will now be able to have a roof over their heads because of that scheme. There are 135 completions already in place, with a further 576 applications for finance received. As I mentioned earlier, 66 developers have already been accepted into the scheme. It shows that it is widely supported by the construction industry and we know that construction figures have improved well beyond the UK average over the course of the last year. We also know that young people are benefitting from Help to Buy, as well as the programme of social housing that is already in place, as evidenced by the fact that we have not just kept the target that we originally intended of 7,500, but increased it to 10,000, such is our confidence in terms of being able to deliver.

O ran tai, gallaf ddweud, yn ystod 2011-12 a 2012-13, fod cyfanswm o 4,474 o unedau fforddiadwy wedi eu darparu ledled Cymru, sef 60% o'r targed blaenorol. Mae'r targed hwnnw bellach wedi codi i 10,000 ar gyfer tymor y Llywodraeth hwn, a chytunwyd ar gytundeb cyflenwad tai â Chartrefi Cymunedol Cymru er mwyn cyflawni. Mae hefyd yn wir dweud ein bod yn gwybod bod Cymorth i Brynu wedi rhoi hwb i'r diwydiant tai ac wedi cynorthwyo'r gwaith o adeiladu 5,000 o gartrefi newydd yng Nghymru. Mae hynny'n golygu bod mwy a mwy o bobl a fydd yn awr yn gallu cael to uwch eu pennau, oherwydd y cynllun hwnnw. Mae 135 eisoes wedi'u cwblhau, a chafwyd 576 o geisiadau eraill am gyllid. Fel y soniais eisoes, mae 66 o ddatblygwyr eisoes wedi eu derbyn i'r cynllun. Mae'n dangos bod llawer o gefnogaeth iddo yn y diwydiant adeiladu ac rydym yn gwybod bod ffigurau adeiladu wedi gwella ymhell y tu hwnt i gyfartaledd y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd yn gwybod bod pobl ifanc yn elwa o'r cynllun Cymorth i Brynu, yn ogystal â'r rhaglen tai cymdeithasol sydd eisoes ar waith, fel y dengys y ffaith ein bod nid yn unig wedi cadw'r targed gwreiddiol o 7,500, ond wedi ei godi i 10,000; dyna pa mor hyderus yr ydym y gallwn gyflawni.

15:39

## Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Wyddoniaeth Cymru

## Statement: Update on Welsh Science

Senedd.tv
Fideo Video

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

There have been a number of significant developments in science across Wales since I last updated Members. I was heartened to read the independent report on research in Wales. Jointly commissioned by the Welsh Government, with Higher Education Wales and the Higher Education Funding Council for Wales, and published in February, it followed internationally recognised standards of assessment. It paints an encouraging picture of Wales's comparative performance. With 0.14% of the world's scientists, we produce 0.30% of published articles and, most impressively, 0.70% of the most highly cited publications. So, scientists in Wales are active, efficient, and in many cases, world-leading.

Bu nifer o ddatblygiadau sylweddol ym maes gwyddoniaeth ar draws Cymru ers y tro diwethaf imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Roedd yn galonogol darllen yr adroddiad annibynnol ar waith ymchwil yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, gydag Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Chwefror, ac roedd yn dilyn safonau asesu oedd yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol. Mae'n peintio darlun calonogol o berfformiad cymharol Cymru. Gyda 0.14% o wyddonwyr y byd, rydym yn cynhyrchu 0.30% o erthyglau a gyhoeddwyd ac, yn fwyaf trawiadol, 0.70% o'r cyhoeddiadau sy'n cael eu dyfynnu fwyaf. Felly, mae gwyddonwyr yng Nghymru yn weithgar, yn effeithlon, ac mewn llawer o achosion, yn arwain y byd.

They are keen too on translating their science into potential impacts on society through commercialisation. This is demonstrated by the fact that they produce 0.86% of publications associated with patents and are the most efficient of the UK nations in creating business start-ups and spin-outs from research.

Maent yn awyddus hefyd i drosi eu gwyddoniaeth yn effeithiau posibl ar gymdeithas drwy gynhyrchu syniadau masnachol ohonynt. Dangosir hyn gan y ffaith eu bod yn cynhyrchu 0.86% o gyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â phatentau ac mai nhw yw'r mwyaf effeithlon o blith gwledydd y DU o ran cychwyn busnesau newydd a chwmnïau deillio yn sgil gwaith ymchwil.

The report also shows that scientists in Wales are outward-looking. Sixty per cent of Wales's science is collaborative in nature. Indeed, some of our best papers come from major international collaborations, in which Welsh scientists lead or have a strong role. So, the picture of Welsh science, in practice, is a positive one.

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos bod gwyddonwyr yng Nghymru yn edrych tuag allan. Mae chwe deg y cant o wyddoniaeth Cymru yn gydweithredol o ran natur. Yn wir, mae rhai o'n papurau gorau yn deillio o gydweithrediadau rhyngwladol o bwys, lle mae gwyddonwyr o Gymru yn arwain neu â rôl gref. Felly, mae'r darlun o wyddoniaeth yng Nghymru, yn ymarferol, yn un cadarnhaol.

However, what this and other reports, including Professor Robin Williams's 2013 paper on research, show is that we have too few scientists in Wales. Consequently, our 'Science for Wales' strategy focuses on increasing the numbers of scientists working in Wales and also on creating the environment for those already here to succeed and grow in future. We are already having an impact on these targets. The report gives Wales a field-weighted citation impact figure, meaning that it is adjusted for different types of research, that is 58% above the world average. Wales is clearly a good place to do high-impact research.

Fodd bynnag, mae hwn ac adroddiadau eraill, gan gynnwys papur yr Athro Robin Williams ar ymchwil yn 2013, yn dangos yw bod gennym rhy ychydig o wyddonwyr yng Nghymru. O ganlyniad, mae ein strategaeth 'Gwyddoniaeth i Gymru' yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y gwyddonwyr sy'n gweithio yng Nghymru a hefyd ar greu'r amgylchedd priodol fel y gall y rhai sydd eisoes yma lwyddo a thyfu yn y dyfodol. Rydym eisoes yn cael effaith ar y targedau hyn. Mae'r adroddiad yn rhoi ffigur effaith ar gyfer Cymru wedi'i bwysoli yn y maes, sy'n golygu ei fod yn cael ei addasu ar gyfer gwahanol fathau o ymchwil, ac mae'r ffigur hwnnw 58% yn uwch na chyfartaledd y byd. Mae Cymru'n amlwg yn lle da i wneud gwaith ymchwil sy'n cael llawer o effaith.

In the last year, we have secured three recognised world-class academics in Professors Barde, Durrant and Barron through the Sêr Cymru programme. I reported on these appointments in my written statement of 14 February and referred to the three national research networks in each of the 'grand challenge' areas that 'Science for Wales' identified. I am pleased to say that we have appointed talented directors for these networks, with Professors Chris McGuigan and Malcolm Mason jointly leading on life sciences and health; Professor David Thomas for the low carbon environment and energy; and Professor Javier Bonet for advanced materials and manufacturing. The Sêr Cymru appointments and the research networks' directors have the central aim of significantly increasing our research capacity and gaining greater success in securing the competitively awarded funding that we need to expand research portfolios in our universities and elsewhere. We are currently considering how best to support and develop these positive moves, especially how to make the best use of the funding opportunities afforded by Europe through Horizon 2020 and structural funds and by the UK through the Technology Strategy Board.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sicrhau tri academydd o safon fyd-eang yn yr Athrawon Barde, Durrant a Barron drwy'r rhaglen Sêr Cymru. Cyflwynais adroddiad ar y penodiadau hyn yn fy natganiad ysgrifenedig ar 14 Chwefror a chyfeiriais at y tri rhwydwaith ymchwil cenedlaethol ym mhob un o'r 'heriau mawr' a nodwyd yn 'Gwyddoniaeth i Gymru'. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi penodi cyfarwyddwyr talentog ar gyfer y rhwydweithiau hyn, gyda'r Athrawon Chris McGuigan a Malcolm Mason yn arwain ar y cyd ar y gwyddorau bywyd ac iechyd; Yr Athro David Thomas ar gyfer yr amgylchedd carbon isel ac ynni; a'r Athro Javier Bonet ar gyfer deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch. Nod canolog penodiadau Sêr Cymru a chyfarwyddwyr y rhwydweithiau ymchwil yw cynyddu ein gallu ymchwil yn sylweddol a sicrhau mwy o lwyddiant wrth ennill cyllid a ddyfernir yn gystadleuol gan fod ei angen arnom i ehangu portffolios ymchwil yn ein prifysgolion ac mewn mannau eraill. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y ffordd orau o gefnogi a datblygu'r camau cadarnhaol hyn, yn enwedig sut i wneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd ariannu a gynigir gan Ewrop drwy Horizon 2020 a chronfeydd strwythurol a chan y DU drwy'r Bwrdd Strategaeth Technoleg.

It is important that we foster a strong ambition for science in Wales, and we are taking active steps to ensure that Wales benefits from a variety of opportunities and investments, such as the Launchpad programme, the small business research initiative, and work with the current and future Catapult centres. I will soon be appointing a chair and vice-chairman for our new innovation advisory council, who will be assisting me in forming the new council, which will provide advice on innovation and oversee our 'Innovation Wales' actions. Publication of this and the formation of an advisory group effectively conclude the actions on innovation contained in 'Science for Wales'.

Mae'n bwysig ein bod yn meithrin uchelgais cryf ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru, ac rydym yn cymryd camau gweithredol i sicrhau bod Cymru yn elwa o amrywiaeth o gyfleoedd a buddsoddiadau, megis y rhaglen Launchpad, y fenter ymchwil busnesau bach, a gwaith gyda chanolfannau presennol Catapult a rhai'r dyfodol. Yn fuan, byddaf yn penodi cadeirydd ac is-gadeirydd ar ein cyngor cynghorol ar arloesi newydd. Byddant yn fy nghynorthwyo i ffurfio'r cyngor newydd, a fydd yn rhoi cyngor ar arloesi ac yn goruchwylio ein gweithredoedd 'Arloesi Cymru'. Mae cyhoeddi hwn a ffurfio grŵp cynghorol i bob pwrpas yn dod â'r camau gweithredu ar arloesi a gynhwysir yn 'Gwyddoniaeth i Gymru' i ben.

We have specific concerns about a number of issues relating to women in science. Full and continued participation in science by women is of vital importance to our research and economic interests; we simply cannot do without half of our talent pool. There is, at present, an unacceptable attrition rate, whereby talented females—academics and other researchers—are not progressing to long-term careers in research. Not enough are reaching the senior levels in university research and governance and other leadership roles in science. There is also a problem that girls are not progressing to study science subjects post the age of 16, particularly physics. The figure for girls studying physics at A-level is consistently low—some 18% of the cohort—yet those female candidates who do progress to physics A-level do better than their male counterparts on average. So, we need to increase the number of women coming into science. We have to focus on the problem with determination, encouraging and widening opportunities for women, and we need to facilitate access to the best learning, research and development to ensure their success.

Mae gennym bryderon penodol am nifer o faterion yn ymwneud â menywod mewn gwyddoniaeth. Mae'n hanfodol bwysig i'n gwaith ymchwil a'n buddiannau economaidd bod menywod yn cymryd rhan lawn a pharhaus mewn gwyddoniaeth; ni allwn wneud heb hanner ein cronfa dalent. Mae cyfradd y menywod talentog—academyddion ac ymchwilwyr eraill—nad ydynt yn symud ymlaen i yrfaoedd tymor hir mewn ymchwil yn annerbyniol. Nid oes digon yn cyrraedd y lefelau uwch mewn ymchwil prifysgol ac ym maes llywodraethu a rolau arweinyddiaeth eraill mewn gwyddoniaeth. Mae problem hefyd nad yw merched yn mynd ymlaen i astudio pynciau gwyddonol ar ôl 16 oed, yn enwedig ffiseg. Mae'r ffigur ar gyfer merched sy'n astudio ffiseg Safon Uwch yn gyson isel—tua 18% o'r garfan—eto mae'r merched hynny sy'n symud ymlaen i Safon Uwch ffiseg yn gwneud yn well na'r bechgyn sy'n gyfoedion iddynt, ar gyfartaledd. Felly, mae angen inni gynyddu nifer y menywod sy'n dod i mewn i wyddoniaeth. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar y broblem gyda phenderfyniad, gan annog ac ehangu cyfleoedd i ferched, ac mae angen eu cynorthwyo i allu manteisio ar yr addysg, ymchwil a datblygiad gorau er mwyn sicrhau eu llwyddiant.

I am pleased to announce today that the chief scientific adviser will set up a task-and-finish group of influential and senior women in science. It will address the issues and develop approaches to resolve them. Further details on the group will be forthcoming in due course. Professor Williams has also been working with the Daphne Jackson Trust, which has achieved over 90% success in re-establishing researchers after a career break. As part of our strategic actions to promote STEM education and engagement, the National Science Academy has funded a number of activities that give girls an experience of science and engineering, seeking to persuade them that further study and a career in these stimulating and well-paid fields might be something that they would choose.

Rwy'n falch o gyhoeddi heddiw y bydd y prif gynghorydd gwyddonol yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen o fenywod dylanwadol ac uwch ym maes gwyddoniaeth. Bydd yn mynd i'r afael â'r problemau ac yn datblygu dulliau i'w datrys. Bydd mwy o fanylion ar y grŵp yn dod i law gyda hyn. Mae'r Athro Williams hefyd wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Daphne Jackson, sydd wedi cael cyfradd llwyddiant o dros 90% wrth ailsefydlu ymchwilwyr ar ôl seibiant yn eu gyrfa. Fel rhan o'n camau gweithredu strategol i hyrwyddo addysg mewn pynciau STEM ac ymgysylltiad â nhw, mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi ariannu nifer o weithgareddau sy'n rhoi profiad o wyddoniaeth a pheirianneg i ferched, gan geisio eu darbwyllo y gallai rhagor o astudiaeth a gyrfa yn y meysydd ysgogol hyn sy'n talu'n dda fod yn rhywbeth y byddent yn ei ddewis.

There are also a number of employer-led initiatives run by businesses such as GE and Airbus, striving to achieve the same ends. Resulting from its autumn 2012 grant scheme, up to the end of June 2013, the NSA provided 491 STEM engagement activities, attended by over 35,000 students, as well as 38 continuing professional development events, attended by 193 STEM teachers.

Mae busnesau megis GE ac Airbus hefyd yn rhedeg nifer o fentrau a arweinir gan gyflogwyr, sy'n ymdrechu i gyflawni'r un nodau. Yn deillio o'i gynllun grant yn yr hydref 2012, hyd at ddiwedd mis Mehefin 2013, darparodd yr Academi Wyddonol Genedlaethol 491 gweithgaredd ymgysylltu STEM, a fynychwyd gan dros 35,000 o fyfyrwyr, yn ogystal â 38 o ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus, a fynychwyd gan 193 o athrawon STEM.

The chief scientific adviser and my officials are working closely with those in the Department for Education and Skills, as work progresses towards a new curriculum and qualifications in science and more widely.

Mae'r prif gynghorydd gwyddonol a'm swyddogion yn gweithio'n agos â swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau, wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen tuag at gwricwlwm a chymwysterau newydd mewn gwyddoniaeth ac yn ehangach.

We stated in 'Science for Wales' that we wanted to

Rydym yn nodi yn 'Gwyddoniaeth i Gymru' ein bod yn awyddus i

'ensure that our curricula for STEM subjects are in the vanguard of modern, challenging curricula for the students of Wales.'

'sicrhau bod ein cwricwla ar gyfer pynciau STEM ar flaen y gad drwy gynnig cwricwla modern a heriol i fyfyrwyr yng Nghymru.'

Professor Donaldson has been appointed to lead the independent curriculum and assessment review, which is covering STEM subjects. I look forward to having sight of his proposals for making this a reality towards the end of the year. Professor Julie Williams has also acted to bring together a number of our Welsh Government scientific and technical staff to discuss areas of mutual interest. She has also fostered strong links with Sir Mark Walport, the UK Government's chief scientific adviser, and his support department, the Government Office for Science, as well as Professor Anne Glover, chief scientific adviser to the EU Commission and its President. Professor Williams is putting together a network of expert advice that she can access readily for scientific matters of concern, for both horizon scanning and emergencies.

Mae'r Athro Donaldson wedi cael ei benodi i arwain yr adolygiad annibynnol ar gwricwlwm ac asesiad, gan gwmpasu pynciau STEM. Rwy'n edrych ymlaen at weld ei gynigion ar gyfer gwneud hyn yn realiti tuag at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Athro Julie Williams hefyd wedi gweithredu i ddwyn ynghyd nifer o staff gwyddonol a thechnegol Llywodraeth Cymru i drafod meysydd o ddiddordeb cyffredin. Mae hi hefyd wedi meithrin cysylltiadau cryf gyda Syr Mark Walport, prif gynghorydd gwyddonol Llywodraeth y DU, a'i adran gymorth, Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Gwyddoniaeth, yn ogystal â'r Athro Anne Glover, y prif gynghorydd gwyddonol i Gomisiwn yr UE a'i Lywydd. Mae'r Athro Williams yn llunio rhwydwaith o gyngor arbenigol sydd ar gael iddi ar gyfer materion gwyddonol sy'n peri pryder, ar gyfer sganio gorwel ac argyfyngau.

Excellence in science has a direct effect on the economy, for example by creating new jobs. On average every established researcher creates two jobs at any one time. The economy also benefits through the discovery of new medicines, technologies and new approaches to addressing major problems, like climate change.

Mae rhagoriaeth mewn gwyddoniaeth yn cael effaith uniongyrchol ar yr economi, er enghraifft trwy greu swyddi newydd. Ar gyfartaledd mae pob ymchwilydd a sefydlwyd yn creu dwy swydd ar unrhyw un adeg. Mae'r economi hefyd yn elwa trwy ddarganfod meddyginiaethau a thechnolegau newydd a dulliau newydd o fynd i'r afael â phroblemau mawr, fel newid yn yr hinsawdd.

Finally, I can announce that the annual report on 'Science for Wales' will be published on our website on Monday 9 June, providing more detail on our programmes and progress towards our strategic aims.

Yn olaf, gallaf gyhoeddi y bydd yr adroddiad blynyddol ar 'Gwyddoniaeth i Gymru' yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ddydd Llun 9 Mehefin. Bydd yn rhoi mwy o fanylion am ein rhaglenni ac am yr hyn a gyflawnwyd o ran ein hamcanion strategol.

15:46

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am most grateful to the Minister for her statement today. I wonder whether I might just begin by referring to the passing of Professor Colin Pillinger, who I had the privilege to host when giving a presentation to the Assembly some nine years ago on the Beagle 2 mission. Professor Pillinger studied at Swansea university and, of course, it was Aberystwyth university that was responsible for the robotic arm sample retrieval system used on the Beagle 2 spacecraft. I am sure that his pioneering spirit and desire for scientific innovation will always be retained by our scientific community in Wales.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Tybed a allaf ddechrau trwy gyfeirio at farwolaeth yr Athro Colin Pillinger, y cefais y fraint o'i groesawu wrth iddo roi cyflwyniad i'r Cynulliad tua naw mlynedd yn ôl ar daith y Beagle 2. Astudiodd yr Athro Pillinger yn y brifysgol yn Abertawe ac, wrth gwrs, prifysgol Aberystwyth oedd yn gyfrifol am y system braich robotig ar gyfer casglu samplau a ddefnyddiwyd ar y llong ofod Beagle 2. Rwy'n siŵr y bydd ein cymuned wyddonol yng Nghymru bob amser yn parhau â'i ysbryd arloesol a'i awydd am arloesi gwyddonol.

The Minister has, as always, correctly identified that Wales has developed a global reputation for producing world-renowned scientists, together with innovative research and development. This is reflected in Welsh research being increasingly referenced in patent applications. Sadly, however, Wales produces a low number of patents in both absolute and relative terms, which is, sadly, well below the level of the United Kingdom. We need to understand that Wales is a mobile and international research community, which suggests that Wales is an attractive region for high-quality researchers to relocate. However, it is vital that we recognise that a substantial percentage of our research base is transitory, with often short stays of fewer than two years.

Mae'r Gweinidog, fel bob amser, wedi nodi'n gywir bod Cymru wedi datblygu enw da byd-eang am gynhyrchu gwyddonwyr byd-enwog, ynghyd â gwaith ymchwil a datblygu arloesol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu n y ffaith y cyfeirir fwyfwy at ymchwil o Gymru mewn ceisiadau patent. Yn anffodus, fodd bynnag, mae Cymru'n cynhyrchu nifer isel o batentau mewn termau absoliwt a chymharol, a hynny, yn anffodus, yn llawer is na lefel y Deyrnas Unedig. Mae angen i ni ddeall bod Cymru yn gymuned ymchwil symudol a rhyngwladol, sy'n awgrymu bod Cymru yn lle deniadol i ymchwilwyr o ansawdd uchel symud iddo. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod bod canran sylweddol o'n sylfaen ymchwil yn fyrhoedlog, a bydd yn aros am gyfnodau byr, yn aml o lai na dwy flynedd.

The Minister's statement touches on some of the excellent, innovative and ambitious schemes that she has put in place in terms of the Launchpad programme, the small business research initiative and Catapult centres. I suppose, in some ways, I should not chide the Minister, but I wish that she had given just a little explanation here on the wonderful work being done by the Enterprise and Business Committee exactly on the points that she makes in this statement. They really coincide remarkably well. We have looked, in particular, at exactly the remarks that she made, particularly by guiding girl students into science subjects. We have received some really excellent evidence. The report, when it is published, not even dwelling on that evidence, will make some very substantial recommendations, which I believe that the Minister has already indicated, within this statement today, that she will look at, with interest, and hopefully take forward.

Mae datganiad y Gweinidog yn cyffwrdd ar rai o'r cynlluniau rhagorol, arloesol ac uchelgeisiol y mae hi wedi'u rhoi ar waith o ran y rhaglen Launchpad, y fenter ymchwil busnesau bach a chanolfannau Catapult. Mae'n debyg, mewn rhai ffyrdd, na ddylwn geryddu'r Gweinidog, ond byddai'n dda pe byddai hi wedi rhoi dim ond ychydig o eglurhad yma ar y gwaith ardderchog y mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn ei wneud ar yr union bwyntiau y mae'n eu gwneud yn y datganiad hwn. Maent wir yn cyd-fynd yn hynod o dda. Rydym wedi edrych, yn arbennig, ar yr union sylwadau a wnaeth, yn enwedig o ran arwain merched i astudio pynciau gwyddoniaeth. Rydym wedi derbyn peth tystiolaeth gwirioneddol wych. Mae'r adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, heb hyd yn oed ymhelaethu ar y dystiolaeth honno, yn gwneud rhai argymhellion arwyddocaol iawn. Credaf fod y Gweinidog eisoes wedi nodi, yn y datganiad hwn heddiw, y bydd yn edrych arnynt, â diddordeb, ac yn eu datblygu gobeithio.

The expansion of the science block, as it were, within Wales is to be greatly welcomed. The Minister has shown that she really does intend to make this a cornerstone of her policy. In terms of trying to recruit people generally into science subjects, I recently had the privilege of addressing the Royal Society of Chemistry and I touched there upon what will now be a modern Harrison prize. I think that we ought to forget that Harrison took a great deal of time to actually achieve the money for his prize in achieving the chronometer, which enabled the effective establishment of longitude. However, it gives the idea that people can come forward with an idea to solve some of the six pressing problems that face the world. They do not have to be scientists to do so, but if they were able to take advantage of what the Minister proposed today, they certainly would be achieving a great deal for Wales and for humanity generally.

Mae ehangu'r bloc gwyddoniaeth, fel petai, yng Nghymru i'w groesawu'n fawr. Mae'r Gweinidog wedi dangos ei bod yn wir yn bwriadu gwneud hyn yn un o gonglfeini ei pholisi. O ran ceisio recriwtio pobl yn gyffredinol mewn pynciau gwyddonol, cefais y fraint yn ddiweddar o gyfarch y Gymdeithas Gemeg Frenhinol a soniais yno am yr hyn a fydd yn wobr Harrison fodern. Rwy'n meddwl y dylem anghofio bod Harrison wedi cymryd llawer iawn o amser mewn gwirionedd i gael yr arian ar gyfer ei wobr am gyflawni'r cronomedr, a arweiniodd i bob pwrpas at sefydlu hydred. Fodd bynnag, mae'n rhoi syniad y gall pobl ddod ymlaen gyda syniad i ddatrys rhai o'r chwe phroblem ddybryd sy'n wynebu'r byd. Nid oes rhaid iddynt fod yn wyddonwyr i wneud hynny, ond pe byddent yn gallu manteisio ar yr hyn a gynigiodd y Gweinidog heddiw, byddent yn sicr yn cyflawni llawer iawn i Gymru ac i ddynoliaeth yn gyffredinol.

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

15:49

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I begin by saying how much I am looking forward to the report of the committee. I think that there is a general consensus across the Chamber about the importance of science to the economic wellbeing of Wales and the importance of developing a very strategic science policy in the context of Wales. I, like William, believe that it is incredibly important that we target the missing element within the population who do not go into science: girls and women. It is very important that we ensure that they understand what good quality careers there are, and how they can lead the world in the development of some of their interests and dreams. Some of this is about dreams, achieving them and what we can achieve. That is important to recognise.

Hoffwn ddechrau trwy ddweud cymaint yr wyf yn edrych ymlaen at adroddiad y pwyllgor. Credaf fod consensws cyffredinol ar draws y Siambr ynglŷn â phwysigrwydd gwyddoniaeth i les economaidd Cymru a phwysigrwydd datblygu polisi gwyddoniaeth strategol iawn yng nghyd-destun Cymru. Rwyf innau, fel William, yn credu ei bod yn eithriadol o bwysig ein bod yn targedu'r elfen goll yn y boblogaeth nad ydynt yn mynd i mewn i wyddoniaeth: merched a menywod. Mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau eu bod yn deall cymaint o yrfaoedd o ansawdd da sydd ar gael, a sut y gallant arwain y byd wrth ddatblygu rhai o'u diddordebau a'u breuddwydion. Mae rhywfaint o hyn yn ymwneud â breuddwydion, eu cyflawni a'r hyn y gallwn ei gyflawni. Mae'n bwysig cydnabod hynny.

I also concur very much with your comments about the distinguished professor. Of course, he will be a great loss. I remember—it must have been about nine years ago—when you hosted that event.

Rwyf hefyd yn cytuno yn llwyr â'ch sylwadau am yr athro nodedig. Wrth gwrs, bydd yn golled fawr. Rwy'n cofio—mae'n rhaid ei bod tua naw mlynedd yn ôl—pan oeddech yn cynnal y digwyddiad hwnnw.

In terms of what we publish, we have been quite pleased with the findings on the quality of the research that we publish, and that we punch above our weight. We are also very pleased about our international collaborations because we are a small nation. We have to look at collaborations, even outside the UK. We have to look further afield, to other international centres of excellence, so that we can take the work forward. However, the work that we are doing now under the guidance of the current chief scientific adviser and the previous one has a real focus, not only within my own department, which links to the economy, but also within the Department for Education and Skills. Importantly, the dialogue with higher education and the schools sector is also integral to the development of this particular policy agenda, which is important to all of our futures. I listed climate change, and there are so many other areas that we need to look at, such as resistance to antibiotics and the change happening there. It is about how we can encourage the best brains to look at some of these issues.

O ran yr hyn yr ydym yn ei gyhoeddi, rydym wedi bod yn eithaf hapus gyda'r canfyddiadau o ran ansawdd yr ymchwil a gyhoeddwn, a'n bod yn gwneud yn well na'r disgwyl o ystyried ein maint. Rydym hefyd yn falch iawn am ein cydweithrediadau rhyngwladol oherwydd ein bod yn genedl fach. Mae'n rhaid inni edrych ar gydweithio, hyd yn oed y tu allan i'r DU. Mae'n rhaid inni edrych ymhellach i ffwrdd, i ganolfannau rhagoriaeth rhyngwladol eraill, fel y gallwn symud y gwaith yn ei flaen. Fodd bynnag, mae gan y gwaith yr ydym yn ei wneud yn awr o dan arweiniad y prif gynghorydd gwyddonol presennol a'r un blaenorol ffocws go iawn, nid yn unig o fewn fy adran fy hun, sy'n cysylltu â'r economi, ond hefyd o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau. Yn bwysig, mae'r ddeialog gydag addysg uwch a'r sector ysgolion hefyd yn hanfodol wrth ddatblygu'r agenda polisi benodol hon, sy'n bwysig i ddyfodol pob un ohonom. Nodais newid yn yr hinsawdd, ac mae cymaint o feysydd eraill y mae angen inni edrych arnynt, fel ymwrthedd i wrthfiotigau a'r newid sy'n digwydd yno. Mae'n ymwneud â sut y gallwn annog y bobl fwyaf deallus i edrych ar rai o'r materion hyn.

15:51

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I congratulate the Minister on the strides that have been made in science. I am very pleased that she is making such a determined effort to tackle the under-representation of women in science, and about all of the points that she makes in the statement. Does she agree that science should be made attractive at a very early age—in fact, when children are toddlers—so that they can get to understand the wonder of science? Does she agree that children should be given as many opportunities as possible to visit places like Techniquest, for example, so that they grow up with a knowledge of science, and so that this will play out later on and perhaps help address the issue of girls dropping out of science?

Rwy'n llongyfarch y Gweinidog ar y camau sydd wedi cael eu gwneud ym maes gwyddoniaeth. Rwy'n falch iawn ei bod yn gwneud y fath ymdrech benderfynol i fynd i'r afael â'r ffaith nad yw menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ym maes gwyddoniaeth, ac am yr holl bwyntiau y mae'n eu gwneud yn y datganiad. A yw'n cytuno y dylid gwneud gwyddoniaeth yn ddeniadol ar oedran cynnar iawn —mewn gwirionedd, pan fo plant yn fach iawn—er mwyn iddynt ddod i ddeall rhyfeddod gwyddoniaeth? A yw'n cytuno y dylai plant gael cymaint o gyfleoedd â phosibl i ymweld â lleoedd fel Techniquest, er enghraifft, fel eu bod yn tyfu i fyny gyda gwybodaeth am wyddoniaeth, ac fel y bydd hyn yn dwyn ffrwyth yn nes ymlaen ac efallai yn helpu i fynd i'r afael â'r ffaith bod merched yn rhoi'r gorau i wyddoniaeth?

Looking at the Elsevier report, there are some very positive points there, and William Graham has gone through most of them. It also says that there is collaboration between the academics and industry, but that this could be improved and extended. Does the Minister have any comments on that? William Graham also mentioned the transitory research base, which is a very important development in Wales. Does she have any other ideas about how we can encourage people to come? They stay a short time—two years—but it is very important for the development of science in Wales.

O edrych ar adroddiad Elsevier, mae rhai pwyntiau cadarnhaol iawn yno, ac mae William Graham wedi mynd trwy'r rhan fwyaf ohonynt. Mae'r adroddiad hefyd yn dweud bod cydweithio rhwng academyddion a diwydiant, ond y gellid gwella ac ymestyn hyn. A oes gan y Gweinidog unrhyw sylwadau ar hynny? Hefyd soniodd William Graham am y sylfaen ymchwil fyrhoedlog, sy'n ddatblygiad pwysig iawn yng Nghymru. A oes ganddi unrhyw syniadau eraill ynghylch sut y gallwn annog pobl i ddod? Maent yn aros am amser byr—dwy flynedd—ond mae'n bwysig iawn ar gyfer datblygu gwyddoniaeth yng Nghymru.

15:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will start with the last point first. The Sêr Cymru programme, with the encouragement of international professors—who also bring their researchers and other people who are also attracted—is the start of ensuring that research is really grounded within Wales and Welsh higher education. I have had the opportunity of meeting the three individuals. They have been very pleased about the response that they have had in Wales. They have settled in Wales, and they are looking forward to working long-term in Wales, and that is something important that we need to recognise. Once we get these individuals and they sell their story about coming to Wales, it will help with grounding the research. Also, we have to be a lot smarter in ensuring that those who have good ideas that emanate from Welsh universities stay here: what more we could do to encourage them to stay, and how can we help them to link into companies, which is a very important point, so that they have the intelligence to produce the product? How is that manufactured, and what links come in to companies? We are doing a substantial amount of work in that area. We will all see, with the work that we have done with life sciences in attracting companies, graduates and people who are interested, that this is a good start for some of those areas.

Rwyf am ddechrau â'r pwynt olaf yn gyntaf. Y rhaglen Sêr Cymru, gydag anogaeth athrawon rhyngwladol—sydd hefyd yn dod â'u hymchwilwyr a phobl eraill sy'n cael eu denu hefyd—yw man cychwyn sicrhau bod gan waith ymchwil sail gadarn mewn gwirionedd o fewn Cymru ac addysg uwch Cymru. Rwyf wedi cael y cyfle i gyfarfod y tri unigolyn. Maent wedi bod yn falch iawn ynglŷn â'r ymateb y maent wedi'i gael yng Nghymru. Maent wedi ymgartrefu yng Nghymru, ac maent yn edrych ymlaen at weithio yn y tymor hir yng Nghymru, ac mae hynny'n rhywbeth pwysig y mae angen inni ei gydnabod. Unwaith y byddwn yn cael yr unigolion hyn a'u bod yn gwerthu eu stori am ddod i Gymru, bydd yn helpu i roi sylfaen i waith ymchwil. Hefyd, mae'n rhaid i ni fod yn llawer callach o ran sicrhau bod pobl â syniadau da sy'n deillio o brifysgolion Cymru yn aros yma: beth yn rhagor allwn ni ei wneud i'w hannog i aros, a sut y gallwn eu helpu i sefydlu cysylltiadau â chwmnïau, sy'n bwynt pwysig iawn, fel bod ganddynt y wybodaeth i gynhyrchu'r cynnyrch? Sut mae gwneud hynny, a pha gysylltiadau sy'n cael eu sefydlu â chwmnïau? Rydym yn gwneud llawer o waith yn y maes hwnnw. Byddwn i gyd yn gweld, gyda'r gwaith yr ydym wedi'i wneud gyda gwyddorau bywyd o ran denu cwmnïau, graddedigion a phobl sydd â budd, fod hyn yn ddechrau da ar gyfer rhai o'r meysydd hynny.

The report made for good reading in some parts. There are other things that we have to learn from the report that I think are particularly important. I was very much taken with the issue that you raised about the fact that the younger you are, the better you are at understanding what science is. If you make bread, you add yeast. There are all sorts of things that can be done in a relatively simple manner through the system to encourage people to understand things. I know that my colleague the Minister for education is very keen on the science curriculum within Wales, and what we can do not only at secondary level but at primary level to ensure also that science is seen to be fun. It is about finding out about things and doing things. It is not about just looking at a book or looking at a screen; it is something practical, and I think that that is one of the points that I will ask the chief scientific adviser to have a look at, because I know that she is very interested in early-stage engagement with young children.

Roedd yr adroddiad yn bleser ei ddarllen mewn rhai rhannau. Mae yna bethau eraill sy'n arbennig o bwysig, yn fy marn i, y mae'n rhaid inni eu dysgu o'r adroddiad. Hoffais yn fawr y mater a godwyd gennych ynglŷn â pho ieuengaf yr ydych chi, y gorau y byddwch yn y deall beth yw gwyddoniaeth. Os ydych yn gwneud bara, byddwch yn ychwanegu burum. Mae pob math o bethau y gellir eu gwneud mewn modd cymharol syml drwy'r system er mwyn annog pobl i ddeall pethau. Gwn fod fy nghydweithiwr, y Gweinidog addysg yn frwdfrydig iawn dros y cwricwlwm gwyddoniaeth yng Nghymru, a'r hyn y gallwn ei wneud, nid yn unig ar lefel uwchradd, ond ar lefel gynradd i sicrhau hefyd y gwelir gwyddoniaeth fel rhywbeth sy'n hwyl. Mae'n ymwneud â darganfod am bethau a gwneud pethau. Nid yw'n ymwneud â dim ond edrych ar lyfr neu edrych ar sgrin; mae'n rhywbeth ymarferol, ac rwy'n meddwl mai dyna un o'r pwyntiau y byddaf yn gofyn i'r prif gynghorydd gwyddonol gael golwg arno, gan fy mod yn gwybod bod ganddi ddiddordeb mawr mewn ymgysylltu'n gynnar â phlant ifanc.

15:55 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad. Mae'n amlwg bod y cyswllt rhwng gwaith ymchwil gwyddonol a llwyddiant economaidd yn gwbl allweddol os yw Cymru'n mynd i fwrw ymlaen a dod yn llwyddiannus yn economaidd yn y dyfodol, ac roedd yn dda gallu dathlu gwyddoniaeth yn y Cynulliad ychydig wythnosau yn ôl a gweld brwdfrydedd yr addysgwyr a ddaeth yma'r diwrnod hwnnw.

I thank the Minister for the statement. It is clear that the link between scientific research and economic success is entirely crucial if Wales is to make progress and become economically successful in the future, and it was good to celebrate science in the Assembly a few weeks ago and to see the enthusiasm of the educators who came here that day.

Mae'n dda hefyd i allu dathlu llwyddiant yr ymchwil sy'n digwydd yng Nghymru, fel sydd wedi cael ei nodi yn barod, ond rydym yn dal yn fyr o darged y Llywodraeth i ennill cyfran deg o gyllid ymchwil y Deyrnas Unedig yma yng Nghymru. Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod gan y Gweinidog beth sy'n cael ei wneud i sicrhau ein bod yn dod yn fwy llwyddiannus yn y dyfodol. Da hefyd yw nodi'r cydweithio rhyngwladol sy'n profi'n llwyddiannus yn ein prifysgolion, a bod hynny'n dod â llwyddiant i wyddonwyr a'r prifysgolion eu hunain.

It is also good to be able to celebrate the success of the research that is taking place in Wales, as has already been noted, but we are still short of the Government's target to gain a fair share of UK research funding here in Wales. I would be grateful to hear from the Minister what is being done to ensure that we become more successful in the future. It is also good to note the international collaboration that has proved successful in our universities, and that that brings success to scientists and to the universities themselves.

O ran y cwestiynau, mi fyddwn yn hoffi gofyn hyn i'r Llywodraeth: sut y mae'r Gweinidog yn annog prifysgolion i wella eu perfformiad yn y maes? Sut, hefyd, y mae troi mwy o'r ymchwil da sy'n digwydd yn fusnesau 'entrepreneurial'? Yn hynny o beth, mi fyddwn yn gwerthfawrogi cael rhagor o ystadegau am lwyddiant rhaglenni—er enghraifft, y rhaglen 'life science' y bu'n cyfeirio ati. Byddwn yn hoffi gweld mwy o ystadegau ynglŷn â faint o fusnesau sydd wedi cael eu sefydlu ac i ba raddau y mae'r rheini yn cyflogi.

With regard to questions, I would like to ask the Government this: how is the Minister encouraging universities to improve their performance in this area? Also, how can we turn more of the good research that is happening into entrepreneurial businesses? In that regard, I would appreciate having more statistics on the success of programmes—for example, the life science programme that she referred to. I would like to see more statistics about the number of businesses that have been established and to what extent they employ people.

O ran annog pobl ifanc, wrth gwrs, mae problem arbennig, fel y mae'n nodi yn ei datganiad, ynglŷn â merched yn dod i wyddoniaeth. Pa gefnogaeth y gall y Llywodraeth ei rhoi i gynlluniau i annog mwy o bobl ifanc i gymryd pynciau gwyddonol ar gyfer lefel A ac wedyn i wneud yr hyn yr oedd hi'n sôn amdano, sef mwynhau'r pynciau hynny a gweld y maes fel un y gellir ymhyfrydu a chael sbort ynddo, yn ogystal â chreu gyrfa ohono? Mae toriadau wedi bod yn rhai o'r rhaglenni hynny sy'n annog cystadlaethau mewn ysgolion, ac mi fyddwn yn hoffi gwybod pa gefnogaeth y mae'r Llywodraeth am ei rhoi i'r dyfodol er mwyn creu'r sefyllfaoedd hynny lle mae pobl ifanc yn gallu bod yn greadigol wrth astudio eu pynciau gwyddonol.

In terms of encouraging young people, of course, there is a particular problem, as she notes in her statement, regarding attracting women to science. What support can the Government give to plans to encourage more young people to take science subjects at A-level and then to do what she mentioned, namely to enjoy those subjects and see this whole area as one that they can enjoy and have fun with, as well as an area that they can make a career of? There have been cuts in some of those programmes that encourage competitions in schools, and I would like to know what support the Government is to give in future in order to create those situations where young people can be creative in studying science subjects.

15:58

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that it is very important that we continue to work with the universities and encourage them to improve the issues that you have raised. I think that there is awareness now, particularly with the vice-chancellors and in the departments, about the importance of their links to industry and the importance that they have in developing the Welsh economy, while at the same time using the talents of their students and their postgraduates. I think that we are seeing real progress in that area in the level of dialogue, and given the interest that has been taken across the sector, it is important to recognise that this has to be focused across all our higher education institutions, as it cannot be a function that comes directly out of Cardiff. We have to involve an awful lot of people.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i weithio gyda'r prifysgolion a'u hannog i wella'r materion yr ydych wedi'u codi. Rwy'n meddwl bod ymwybyddiaeth yn awr, yn enwedig ymhlith yr is-gangellorion ac yn yr adrannau, ynglŷn â phwysigrwydd eu cysylltiadau â diwydiant a pha mor bwysig yw hynny o ran datblygu economi Cymru, yn ogystal â defnyddio doniau eu myfyrwyr a'u hôl-raddedigion. Rwy'n meddwl ein bod yn gweld lefel y ddeialog yn symud ymlaen go iawn yn y maes hwnnw, ac o ystyried y diddordeb sydd wedi cael ei ddangos ar draws y sector, mae'n bwysig cydnabod bod yn rhaid canolbwyntio ar hyn ar draws ein holl sefydliadau addysg uwch, gan na all fod yn swyddogaeth sy'n dod yn uniongyrchol o Gaerdydd. Mae'n rhaid inni gynnwys llawer iawn o bobl.

It is very interesting, when we have been looking at some of the issues to do with science, to see the success of universities outside south Wales in terms of being able to look at what projects they can develop in the future. I would also say that, in terms of the research, about it going into entrepreneurs and looking at what spin-offs there are, I will give consideration, if I may, when I perhaps update the Assembly in the autumn, to what is going on with science, as I shall be looking for some statistics around this that might be of help to Members. I shall ask my statisticians and my officials to look at what we could give to you as really solid examples of how some of these issues are working.

Mae'n ddiddorol iawn, wrth edrych ar rai o'r materion yn ymwneud â gwyddoniaeth, gweld llwyddiant prifysgolion y tu allan i dde Cymru o ran gallu edrych ar ba brosiectau y gallant eu datblygu yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn dweud, o ran yr ymchwil, a'i drosglwyddo i entrepreneuriaid ac edrych ar beth ddaw yn ei sgil, byddaf yn rhoi ystyriaeth, os caf fi, pan fyddaf efallai yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad yn yr hydref, i beth sy'n digwydd gyda gwyddoniaeth, gan y byddaf yn chwilio am rai ystadegau ynglŷn â hyn a allai fod o gymorth i'r Aelodau. Byddaf yn gofyn i fy ystadegwyr a'm swyddogion edrych ar yr hyn y gallem ei roi i chi fel enghreifftiau gwirioneddol gadarn o sut y mae rhai o'r materion hyn yn gweithio.

Like everyone else, you have raised the issue of women and girls in science, and there is a real issue here. Spearhead science Wales helps to retain scientists and engineers who might presently drop out from research careers in science, many of them women. It does work in that area, but I actually think that we have to look at it almost before that area, to get the enthusiasm for these subjects at a very early stage, perhaps at school, and I know that my colleague the Minister for education is looking at this issue across the piece. He is looking at options to support science delivery in education as well, with regard to what more can be done currently.

Fel pawb arall, rydych wedi codi mater menywod a merched mewn gwyddoniaeth, ac mae problem go iawn yma. Mae Spearhead Science Cymru yn helpu i gadw gwyddonwyr a pheirianwyr a allai adael gyrfaoedd ymchwil mewn gwyddoniaeth ar hyn o bryd, ac mae llawer ohonynt yn fenywod. Mae'n gwneud gwaith yn y maes hwnnw, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid inni edrych ar y mater bron cyn y maes hwnnw, er mwyn meithrin brwdfrydedd am y pynciau hyn yn gynnar iawn, efallai yn yr ysgol, a gwn fod fy nghydweithiwr, y Gweinidog addysg yn edrych ar y mater hwn yn ei gyfanrwydd. Mae'n edrych ar opsiynau i gefnogi'r broses o gyflwyno gwyddoniaeth mewn addysg yn ogystal, o ran beth arall y gellir ei wneud ar hyn o bryd.

15:59 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank the Minister for this statement. I am always glad to hear the success of Wales's scientific community praised. I am very proud that many of those most eminent scientists are based in my own region. However, I would very much agree, Minister, with the assessment in your statement that we have too few scientists here in Wales. Clearly, the future of the Welsh economy is to compete on the basis on innovation, not cost, and for that to be realised we need to ensure that we are developing those scientific skills at all levels across the economy and not just relying on the very top level to filter through.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad hwn. Rwyf bob amser yn falch o glywed am ganmol llwyddiant cymuned wyddonol Cymru. Rwy'n falch iawn bod llawer o'r gwyddonwyr mwyaf blaenllaw wedi'u lleoli yn fy rhanbarth i. Fodd bynnag, byddwn yn cytuno'n bendant, Weinidog, gyda'r asesiad yn eich datganiad bod gennym rhy ychydig o wyddonwyr yma yng Nghymru. Yn amlwg, dyfodol economi Cymru yw cystadlu ar sail arloesi, nid cost, ac er mwyn gwireddu hynny mae angen inni sicrhau ein bod yn datblygu'r sgiliau gwyddonol hynny ar bob lefel ar draws yr economi ac nid dim ond dibynnu ar i'r lefel uchaf hidlo drwyddo.

I have been very pleased to see Sêr Cymru successfully attracting some very exciting research stars to Wales but, obviously, unlike actual stars, research stars cannot exist in a vacuum. For those research stars to become embedded in academia in Wales they need a supportive research environment. That is in terms not just of facilities, but of people and of ensuring that there is a sustainable pipeline of people to provide the research stars of the future and for those research starts to be home grown. Perhaps you can tell me what the Welsh Government is doing to ensure that there are opportunities for the next generation of researchers to stay here in Wales, given that we know that there are currently more graduates from Welsh universities at work in England than there are at work in Wales. For example, can you tell me what studentships and post-doctoral opportunities are being created as a result of Sêr Cymru? Can you also tell me how the delivery of taught post-graduate courses are being matched to those research stars, especially, perhaps, where institutions do not necessarily have a strong history in that particular area of research previous to a Sêr Cymru appointment? Certainly in my own degree, it was very inspiring for me when I was studying at Cardiff to be taught by some very famous, world-renowned experts. If we are bringing those people in to teach scientific disciplines, can you tell me what input you are expecting Sêr Cymru appointees to have into undergraduate teaching? Will undergraduates in Wales have the opportunity to be inspired by these incredible people?

Rwyf wedi bod yn falch iawn gweld Sêr Cymru yn llwyddo i ddenu sêr ymchwil cyffrous iawn i Gymru, ond, yn amlwg, yn wahanol i sêr go iawn, ni all sêr ymchwil fodoli mewn gwagle. Er mwyn i'r sêr ymchwil hynny ddod yn rhan annatod o'r byd academaidd yng Nghymru mae angen amgylchedd ymchwil cefnogol arnynt. Mae hynny'n cynnwys pobl yn ogystal â chyfleusterau, a sicrhau bod yna llinell gynaliadwy o bobl i ddarparu sêr ymchwil y dyfodol ac i'r sêr ymchwil hynny fod yn rhai cartref. Efallai y gallwch ddweud wrthyf beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod cyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr aros yma yng Nghymru, o gofio ein bod yn gwybod ar hyn o bryd bod mwy o raddedigion o brifysgolion Cymru mewn gwaith yn Lloegr nag sydd mewn gwaith yng Nghymru. Er enghraifft, a allwch ddweud wrthyf pa ysgoloriaethau a chyfleoedd ôl-ddoethurol sy'n cael eu creu o ganlyniad i Sêr Cymru? A allwch chi hefyd ddweud wrthyf sut y mae cyflwyniad cyrsiau ôl-raddedig a addysgir yn cael eu cyfateb i'r sêr ymchwil hynny, yn arbennig, efallai, lle nad oes gan sefydliadau o reidrwydd hanes cryf yn y maes ymchwil penodol cyn penodiad Sêr Cymru? Yn sicr yn fy ngradd fy hun, roedd yn fy ysbrydoli fi yn fawr iawn pan oeddwn yn astudio yng Nghaerdydd i gael fy nysgu gan rai arbenigwyr enwog, mawr eu clod. Os ydym yn dod â'r bobl hynny i mewn i addysgu disgyblaethau gwyddonol, a allwch chi ddweud wrthyf pa gyfraniad ydych chi'n disgwyl i'r bobl a benodwyd yn sgil Sêr Cymru ei wneud o ran addysgu israddedigion? A fydd israddedigion yng Nghymru yn cael y cyfle i gael eu hysbrydoli gan y bobl anhygoel hyn?

Moving on to some other issues that you raised, the Science for Wales strategy outlines actions to encourage children and young people to enjoy science and pursue it further in their lives. You discussed in your statement getting younger women into science and, of course, we all recognise the importance of that and of trying to balance the cohort, but the size of the cohort as a whole is not currently big enough. That is something that you have not addressed in your statement. Can you tell me what actions you are taking to encourage young men to go into science or the cohort as a whole? Can you also tell me what actions the National Science Academy is undertaking to make this happen?

Gan symud ymlaen at rai materion eraill a godwyd gennych, mae strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru yn amlinellu camau gweithredu i annog plant a phobl ifanc i fwynhau gwyddoniaeth a'i dilyn ymhellach yn eu bywydau. Yn eich datganiad rydych wedi trafod cael menywod iau i mewn i wyddoniaeth ac, wrth gwrs, rydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd hynny a cheisio cael cydbwysedd yn y garfan, ond nid yw maint y garfan yn gyffredinol ar hyn o bryd yn ddigon mawr. Mae hynny'n rhywbeth nad ydych wedi mynd i'r afael ag ef yn eich datganiad. A allwch chi ddweud wrthyf pa gamau yr ydych yn eu cymryd i annog dynion ifanc i fynd i mewn i wyddoniaeth neu'r garfan yn ei chyfanrwydd? A allwch chi hefyd ddweud wrthyf pa gamau y mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn eu cymryd i wneud i hyn ddigwydd?

I want to ask you a couple of specific questions about the National Science Academy, if I may. You will be aware, as you have said, that the Enterprise and Business Committee is undertaking an inquiry in this area at the moment. Last month, some people gave evidence to our committee that showed us how confused the work of the National Science Academy has become. One of the NSA hubs—one of the delivery arms—told us that it had never been told what a hub would actually do and that it had never been given any strategic objectives. I find that, frankly, astonishing, because if they do not know what they are supposed to be doing, how on earth can anyone else? Can you tell us whether the National Science Academy has a fully iterated strategy? Is that published somewhere? Has it shared that strategy with stakeholders like the people tasked with delivering it, such as the hubs? Can you tell me what its specific and measurable strategic objectives are?

Rwyf am ofyn un neu ddau o gwestiynau penodol i chi am yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, os caf. Byddwch yn ymwybodol, fel yr ydych wedi dweud, bod y Pwyllgor Menter a Busnes yn cynnal ymchwiliad yn y maes hwn ar hyn o bryd. Y mis diwethaf, rhoddodd rhai pobl dystiolaeth i'n pwyllgor oedd yn dangos i ni pa mor ddryslyd y mae gwaith yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi mynd. Dywedodd un o ganolfannau'r Academi wrthym —un o'r canghennau cyflwyno—nad oedd erioed wedi cael gwybod beth fyddai canolfan yn ei wneud ac nad yw erioed wedi derbyn unrhyw amcanion strategol. Rwy'n ystyried bod hynny, dweud y gwir, yn rhyfeddol, oherwydd os nad ydynt hwy'n gwybod beth y maent i fod i'w wneud, sut ar y ddaear y gall unrhyw un arall? A allwch ddweud wrthym a oes gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol strategaeth wedi'i datgan yn llawn? A yw wedi ei chyhoeddi yn rhywle? A yw wedi rhannu'r strategaeth honno gyda rhanddeiliaid fel y bobl sydd â'r dasg o'i gyflawni, megis y canolfannau? A allwch chi ddweud wrthyf beth yw ei amcanion strategol penodol a mesuradwy?

The funding of programmes is obviously an important role for the National Science Academy but, as the Minister will be aware, we have had complaints from applicants that they did not know what the judging criteria were and that they did not have very full feedback after they had made unsuccessful applications. May I ask you whether you will make an undertaking to publish clear criteria so that potential applicants can understand what they are being judged against? It appears, from an outsider's perspective, that the National Science Academy really lacks the strategic direction that will allow many science educators and communicators to coalesce around it. We are really lucky in Wales in that we have world-leading communicators like Techniquest, Wendy Sadler's Science Made Simple, and Chris North from 'The Sky at Night'. We are not making the most of those opportunities because there is so much confusion about the strategy.

Un rôl bwysig i'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn amlwg yw ariannu rhaglenni, ond, fel y bydd y Gweinidog yn ymwybodol, rydym wedi cael cwynion gan ymgeiswyr nad oeddent yn gwybod beth oedd y meini prawf beirniadu ac nac oeddent wedi cael adborth llawn iawn ar ôl iddynt wneud ceisiadau aflwyddiannus. A gaf i ofyn ichi a fyddwch yn gwneud ymrwymiad i gyhoeddi meini prawf clir fel y gall ymgeiswyr ddeall yr hyn y maent yn cael eu barnu yn ei erbyn? Mae'n ymddangos, o safbwynt rhywun o'r tu allan, nad oes gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol y cyfeiriad strategol a fydd yn caniatáu i lawer o addysgwyr a chyfathrebwyr ym maes gwyddoniaeth gyfuno o'i amgylch mewn gwirionedd. Rydym yn wirioneddol ffodus yng Nghymru fod gennym gyfathrebwyr blaenllaw fel Techniquest, Science Made Simple Wendy Sadler a Chris North o 'The Sky at Night'. Nid ydym yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny oherwydd bod cymaint o ddryswch ynglŷn â'r strategaeth.

16:04 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is interesting that you raise these issues about the strategy, because Professor Williams is about to undertake a review of the NSA in the coming months to look at the potential for a more focused approach and a more focused use of its resources, which I believe will deal with some of the issues that might be emerging in evidence to you as a committee, and which Professor Williams has already identified herself, and which will give an opportunity to have clarity and transparency in terms of role and functions. I think that we can look forward to receiving that within the next few months, and I will be more than happy to share with Members any revisions that will be made in terms of the approach that we will be taking in relation to the NSA in the coming months. I hope that that is helpful to the Member, because I think she has raised issues that have already been raised in other areas for discussion, and that will ensure that the review takes place sooner rather than later.

Mae'n ddiddorol eich bod yn codi'r materion hyn am y strategaeth, gan fod yr Athro Williams ar fin cynnal adolygiad o'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn y misoedd nesaf i edrych ar y potensial i roi mwy o ffocws i'r dull gwaith a'r defnydd o'i adnoddau. Rwy'n credu y bydd hyn yn ymdrin â rhai o'r materion a allai fod yn dod i'r amlwg yn dystiolaeth i chi fel pwyllgor, ac y mae'r Athro Williams eisoes wedi'u nodi ei hun, a bydd yn rhoi cyfle i sicrhau bod ei rôl a'i swyddogaethau'n eglur a thryloyw. Rwy'n meddwl y gallwn edrych ymlaen at dderbyn hwnnw o fewn yr ychydig fisoedd nesaf, a byddaf yn fwy na pharod i rannu gyda'r Aelodau unrhyw ddiwygiadau a fydd yn cael eu gwneud o ran ein dull gwaith mewn cysylltiad â'r Academi yn y misoedd i ddod. Rwy'n gobeithio bod hynny'n ddefnyddiol i'r Aelod, gan fy mod yn credu ei bod wedi codi materion sydd eisoes wedi'u codi mewn mannau eraill ar gyfer trafodaeth, a fydd yn sicrhau bod yr adolygiad yn digwydd yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.

In terms of some of the other issues that you raised with me, I think there is an issue about how we attract more people into science across the piece; it is not just women into science, percentage-wise. It is actually an issue as to how we must make science exciting to the wider population and especially to children in primary and secondary schools. That is an issue that, I know, my colleague the Minister for Education and Skills has given a lot of thought to—how we actually start to deal with these issues, which are key in terms of a modern economy.

O ran rhai o'r materion eraill a godwyd gyda mi, rwy'n credu bod problem ynghylch sut yr ydym yn denu mwy o bobl i wyddoniaeth yn gyffredinol; nid mater o gael menywod yn unig i mewn i wyddoniaeth, o ran canran. Mewn gwirionedd mae'n broblem o ran sut y mae'n rhaid inni wneud gwyddoniaeth yn gyffrous i'r boblogaeth ehangach ac yn arbennig i blant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Rwyf yn gwybod bod fy nghydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, wedi rhoi llawer o ystyriaeth i'r mater hwnnw—sut yr ydym mewn gwirionedd yn dechrau delio â'r materion hyn, sy'n allweddol yn nhermau economi fodern.

In terms of how we deal with other issues, we have the Sêr Cymru national research networks now, and we have funded each network with some £7 million over five years—about £21.3 million in total. The three national research networks are currently pulling together the existing Welsh scientific research into a collaborative and interdisciplinary group, and this will create a critical mass that will help to deal with some of the issues that you raise. Each network director has been appointed for their significant experience. I have outlined their names. The life sciences one is led by Chris McGuigan, and the focus is on drug discovery and development. In the low-carbon one, we are looking at the provision of food and energy production, and, in advanced manufacturing, we are looking at a whole range of other areas. However, these networks exist to ensure that the best come in, in terms of PhD students and researchers. Of course, there is bound to be a role in the long run linking the stars of Sêr Cymru with how they teach, how they attract and how they deal with particular issues. This is an ongoing policy development in this area that is led by the chief scientific adviser, and I will of course report back in due course about the review of the NSA.

O ran sut yr ydym yn ymdrin â materion eraill, mae gennym y rhwydweithiau ymchwil cenedlaethol Sêr Cymru nawr, ac rydym wedi darparu £7 miliwn ar gyfer pob rhwydwaith dros bum mlynedd—cyfanswm o tua £21.3 miliwn. Ar hyn o bryd mae'r tri rhwydwaith ymchwil cenedlaethol yn dwyn ymchwil wyddonol bresennol Cymru at ei gilydd i greu grŵp cydweithredol a rhyngddisgyblaethol, a bydd hyn yn creu màs critigol a fydd yn helpu i ymdrin â rhai o'r materion yr ydych yn eu codi. Mae pob cyfarwyddwr rhwydwaith wedi ei benodi oherwydd ei brofiad sylweddol. Rwyf wedi amlinellu eu henwau. Mae'r un gwyddorau bywyd yn cael ei arwain gan Chris McGuigan, ac mae'r pwyslais ar ddarganfod a datblygu cyffuriau. Yn yr un carbon isel, rydym yn edrych ar y gynhyrchu bwyd ac ynni, ac, mewn gweithgynhyrchu uwch, rydym yn edrych ar ystod eang o feysydd eraill. Fodd bynnag, mae'r rhwydweithiau hyn yn bodoli er mwyn sicrhau ein bod yn denu'r goreuon, o ran myfyrwyr PhD ac ymchwilwyr. Wrth gwrs, yn sicr fe fydd rôl yn y tymor hir sy'n cysylltu sêr Sêr Cymru â sut y maent yn addysgu, sut maent yn denu a sut y maent yn ymdrin â materion penodol. Mae hwn yn ddatblygiad polisi parhaus yn y maes hwn sy'n cael ei arwain gan y prif gynghorydd gwyddonol, a byddaf wrth gwrs yn rhoi adroddiad maes o law am adolygiad yr Academi Wyddonol Genedlaethol.

16:07 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful for the statement today, and I am particularly pleased with the publication of the Elsevier report, which I think has a great deal to welcome in it, especially in terms of recognising our strong research output and the increasing quality of our research. Close working between academia and industry can reap enormous rewards. While the report found that there is some evidence of knowledge exchange between academia and industry in Wales, cross-sector flows of people remain limited. The report found that, although this kind of collaboration is not frequent, when it does happen it has a high impact. How does the Welsh Government intend to further support and promote knowledge exchange between academia and industry in future, particularly in terms of developing the kind of cross-sector flows of people that the report looks at?

Rwy’n ddiolchgar am y datganiad heddiw, ac rwy’n arbennig o falch bod adroddiad Elsevier wedi’i gyhoeddi. Rwy’n credu bod llawer iawn i'w groesawu ynddo, yn enwedig o ran cydnabod ein gwaith ymchwil cryf ac ansawdd cynyddol ein hymchwil. Gellir sicrhau manteision enfawr trwy i’r byd academaidd a diwydiant weithio’n agos gyda’i gilydd. Er bod yr adroddiad wedi canfod bod rhywfaint o dystiolaeth o gyfnewid gwybodaeth rhwng y byd academaidd a diwydiant yng Nghymru, mae llif traws-sector o bobl yn parhau i fod yn gyfyngedig. Canfu'r adroddiad nad yw’r math hwn o gydweithredu yn digwydd yn aml, ond ei fod yn cael effaith fawr pan fydd yn digwydd. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi a hyrwyddo ymhellach y broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng y byd academaidd a diwydiant yn y dyfodol, yn enwedig o ran datblygu’r math o lifoedd traws-sector o bobl y mae’r adroddiad yn edrych arnynt?

My questions on research ability and women and girls have, I think, all been asked by other Members, so my final point is this: for the first time, Wales now has its own base of comprehensive bibliometric evidence relating to research performance. How does the Welsh Government intend to carry out further research to measure progress against this new benchmark? Do you have any specific targets for progress relating to the various factors discussed in the report?

Rwy’n meddwl bod Aelodau eraill wedi gofyn fy nghwestiynau ar allu ymchwil a menywod a merched wedi, felly fy mhwynt olaf yw hyn: am y tro cyntaf, mae gan Gymru ei sylfaen ei hun o dystiolaeth fibliometrig gynhwysfawr sy'n ymwneud â pherfformiad ymchwil. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal rhagor o ymchwil i fesur yr hyn a gyflawnir o’i gymharu â’r meincnod newydd hwn? A oes gennych unrhyw dargedau penodol yn ymwneud â'r ffactorau amrywiol a drafodwyd yn yr adroddiad?

16:08 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do not have any targets that I can share with Members today; that is a subject of further discussion. However, I think that the point you make about the link between academia and how those issues also go into industry is very important. We are obviously very supportive of the Alacrity programme that is run, which takes young graduates and gives them ideas on intellectual property, and helps them to create products. That moves on from university and then into industry. We think we have a lot more work to do in that area. We also need to do a lot more in the field of innovation in how we take these things forward. I very much hope that the innovation advisory council for Wales, when it comes into place, will start to tackle some of these issues, which are crucial to the development of the economy.

Nid oes gennyf unrhyw dargedau y gallaf eu rhannu gydag Aelodau heddiw; mae hynny’n destun rhagor o drafodaeth. Fodd bynnag, credaf fod y pwynt a wnewch am y cysylltiad rhwng y byd academaidd a sut mae’r materion hynny hefyd yn trosglwyddo i fyd diwydiant yn bwysig iawn. Rydym yn amlwg yn gefnogol iawn o'r rhaglen Alacrity sy'n cael ei rhedeg, sy'n cymryd graddedigion ifanc ac yn rhoi syniadau iddynt ar eiddo deallusol, ac yn eu helpu i greu cynhyrchion. Mae hynny’n symud ymlaen o brifysgol ac yna i ddiwydiant. Rydym yn credu bod gennym lawer mwy o waith i'w wneud yn y maes hwnnw. Mae angen hefyd inni wneud llawer mwy ym maes arloesi yn y ffordd yr ydym yn datblygu’r pethau hyn. Rwy’n gobeithio’n fawr iawn y bydd cyngor cynghorol Cymru ar arloesi, pan fydd wedi’i sefydlu, yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, sy'n hanfodol i ddatblygiad yr economi.

16:09 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I, too, very much welcome your statement today. Science is a key part of your portfolio and I would welcome more statements in relation to science here in Wales. I would like to pick up on the point that Eluned Parrot made about embedding science right from the bottom up, and the danger that this might be a top-down initiative and not a bottom-up initiative. I wondered whether you had talked with your colleague the Minister for education about the opportunities that there are for teachers to go out to CERN. I know that this was raised by a number of Assembly Members previously, where there are summer training programmes available for teachers at CERN, and the information that is in the public domain would indicate that there are no state school teachers from Wales who have been on that programme, and it seems that a small amount of funding could result in a big win, if teachers were supported to do continuing educational professional development out there.

Weinidog, rwyf innau, hefyd, yn croesawu'n fawr eich datganiad heddiw. Mae Gwyddoniaeth yn rhan allweddol o'ch portffolio a byddwn yn croesawu mwy o ddatganiadau mewn cysylltiad â gwyddoniaeth yma yng Nghymru. Hoffwn gyfeirio at y pwynt a wnaeth Eluned Parrot am ymwreiddio gwyddoniaeth o'r gwaelod i fyny, a'r perygl y gallai hon fod yn fenter o'r brig i lawr ac nid menter o'r gwaelod i fyny. Tybed a ydych wedi siarad â'ch cydweithiwr, y Gweinidog addysg am y cyfleoedd sydd yna i athrawon i fynd allan i CERN? Gwn fod nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi codi hyn o'r blaen, lle mae rhaglenni hyfforddi haf ar gael i athrawon yn CERN, ac mae'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn awgrymu nad oes unrhyw athrawon ysgolion y wladwriaeth o Gymru sydd wedi bod ar y rhaglen honno, ac mae'n ymddangos y gallai swm bach o arian arwain at fuddugoliaeth fawr, pe byddai athrawon yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus addysgol allan yno.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:09.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:09.*

**Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

In terms of physics, I know, Minister, that you are aware that there is a particular problem with physics teaching. For example, in my region, in Wrexham, not a single girl has taken physics A-level in the last five years—not one. Even here in south Wales, in Merthyr Tydfil, for example, only five girls have taken physics A-levels. Therefore, in relation to physics A-level, what specific steps are you taking to ensure that there is a greater take-up, particularly given the fact that failing to take that A-level cuts off further university study in those subjects? Finally, are you looking —

O ran ffiseg, rwy'n gwybod, Weinidog, eich bod yn ymwybodol bod problem benodol o ran addysgu ffiseg. Er enghraifft, yn fy rhanbarth i, yn Wrecsam, nid oes yr un ferch wedi sefyll ffiseg Safon Uwch yn y pum mlynedd diwethaf—dim un. Hyd yn oed yma yn y de, ym Merthyr Tudful, er enghraifft, dim ond pump o ferched sydd wedi sefyll ffiseg Safon Uwch. Felly, o safbwynt ffiseg Safon Uwch, pa gamau penodol yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod mwy o ferched yn astudio'r pwnc hwnnw, yn enwedig o ystyried na allant fynd ymlaen i astudio'r pynciau hynny yn y brifysgol os nad ydynt yn sefyll y Safon Uwch hwnnw? Yn olaf, a ydych yn edrych—

16:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is no 'finally', as I have two other Members to call. I call on the Minister to reply.

Nid oes 'yn olaf', gan fod gennyf ddau Aelod arall i alw arnynt. Galwaf ar y Gweinidog i ateb.

16:11 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important to recognise that there are issues particularly with physics. We have to look at the work that Professor Graham Donaldson is doing, looking at the assessment of the curriculum. He will be looking at key stage 3, in terms of how we develop it. It is important that we take this work forward, and that is being undertaken by my colleague the Minister for education, and he will be making decisions about any learning opportunities in CERN, not me.

Mae'n bwysig cydnabod bod problemau yn enwedig gyda ffiseg. Mae'n rhaid inni edrych ar y gwaith y mae'r Athro Graham Donaldson yn ei wneud, gan edrych ar yr asesiad o'r cwricwlwm. Bydd yn edrych ar gyfnod allweddol 3, o ran sut yr ydym yn ei ddatblygu. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu'r gwaith hwn, ac mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog addysg, yn gwneud hynny ac ef fydd yn gwneud penderfyniadau am unrhyw gyfleoedd dysgu yn CERN, nid fi.

16:11 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Much of what I wanted to say in praise of this statement has already been said. Therefore, I will limit myself to saying that I hope that you will draw the attention of Professor Julie Williams's working group to why there is such an attrition of women out of science once we have them in, even though we do not have the numbers in in the first place. I hope that you will draw her and her group's attention to all the research on unconscious bias, which was brought up in my short debate, which Rebecca Evans mentioned in the first place, and for which there is a wealth of research on why women do not stay in male dominated professions and what we can do about it. Here in Wales, in such a small nation, we could innovate on this front.

Mae llawer o'r hyn yr oeddwn am ei ddweud i ganmol y datganiad hwn eisoes wedi cael ei ddweud. Felly, byddaf yn cyfyngu fy hun i ddweud fy mod yn gobeithio y byddwch yn tynnu sylw gweithgor yr Athro Julie Williams at pam y mae menywod yn gadael gwyddoniaeth wedi i ni eu denu i'r maes, er nad oes gennym y rhifau yn y lle cyntaf. Rwy'n gobeithio y byddwch yn tynnu ei sylw hi a'i grŵp at yr holl ymchwil ar ragfarn anymwybodol, a gafodd ei godi yn fy nadl fer, ac a grybwyllwyd gan Rebecca Evans yn y lle cyntaf. Mae yna gyfoeth o waith ymchwil yn ystyried pam nad yw menywod yn aros mewn proffesiynau lle mae gan ddynion y lle blaenllaw a beth allwn ni ei wneud am y peth. Yma yng Nghymru, mewn cenedl mor fach, gallem arloesi yn y maes hwn.

16:12 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of unconscious bias, I have already had a discussion with various individuals to look at whether we should do some further work in this area, and that would be not just within science. However, it is interesting sometimes to see the response of male colleagues in academia towards women, particularly in science. They are prepared to shout at them and bully them. It is incredible that someone of the same status could behave like that, but it is such, some days, in politics as well.

O ran rhagfarn anymwybodol, rwyf eisoes wedi cael trafodaeth gyda gwahanol unigolion i edrych a ddylem wneud rhagor o waith yn y maes hwn, ac nid ym maes gwyddoniaeth yn unig y byddai hynny. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol weithiau gweld ymateb cydweithwyr sy'n ddynion yn y byd academaidd tuag at fenywod, yn enwedig mewn gwyddoniaeth. Maent yn barod i weiddi arnynt a'u bwlio. Mae'n anhygoel y gallai rhywun o'r un statws ymddwyn felly, ond felly y mae hi, rai dyddiau, mewn gwleidyddiaeth yn ogystal.

16:13 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf am sôn am lawer o'r hyn sydd gen i wedi'i nodi fan hyn, dim ond i ddweud fy mod yn croesawu'r adroddiad yn fawr. Fodd bynnag, un o'r pethau yr wyf am sôn amdano yw'r busnes sydd wedi digwydd—bûm i a David Rees ym Mhrifysgol Caerdydd wythnos diwethaf, a bûm ym Mhrifysgol Abertawe cyn hynny—o ran y cydweithio rhwng prifysgolion yng Nghymru a dros y môr. Rwy'n credu bod hynny yn hollbwysig. Roeddwn yn falch o weld bod Rhodri Morgan a phrifathro Prifysgol Abertawe yn Nhecsas yr wythnos diwethaf yn ceisio adeiladu ar y pethau hynny.

I will not talk about much of what I have written here, just to say that I very much welcome the report. However, one of the things that I want to talk about is what has happened in terms of the collaboration between universities in Wales and abroad—David Rees and I were at Cardiff University last week, and I visited Swansea University prior to that. I think that that is crucial. I was pleased to see that Rhodri Morgan and the vice-chancellor of Swansea University were in Texas last week seeking to build on those things.

Fodd bynnag, y peth mwyaf pwysig yr wyf eisiau ei ddweud yw bod angen mwy o bwyslais ar y prifysgolion yn cydweithio ag athrawon ar bob lefel, gan annog sgiliau. Rydym yn sôn am ferched ddim yn gwneud ffiseg. Hanner can mlynedd yn ôl, fe ddigwyddodd yr un peth: nid oedd merched yn gwneud ffiseg lefel A. Felly, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar TGAU hefyd, achos mae ambell ysgol yn cynnig gwyddoniaeth ddwbl ac, os ydych yn cynnig gwyddoniaeth ddwbl ac nid cemeg, ffiseg a bywydeg, mae'n anoddach ichi wneud lefel A. Hefyd, pan euthum i adran beirianneg ym Mhrifysgol Caergrawnt, os oeddech chi am wneud peirianneg, roedd yn gofyn am fathemateg, mathemateg bellach a ffiseg. Os edrychwch chi ar y ffigurau yng Nghymru ynghylch faint o blant sy'n gwneud mathemateg ddwbl, maen nhw'n isel iawn. Felly, Weinidog, rwy'n gobeithio y gallwch ofyn i'r bobl sy'n gweithio ar eich rhan i edrych ar y ddau beth hynny, sef beth sy'n digwydd gyda TGAU cyn belled â bod merched yn y cwestiwn, a beth sy'n digwydd gyda lefel A cyn belled â bod mathemateg yn y cwestiwn.

However, the most important thing that I want to say is that we need a greater focus on universities working with teachers at all levels, encouraging skills. We are talking about girls not doing physics. Fifty years ago, the same thing happened: there were no girls doing physics at A-level. Therefore, it is important that we also look at GCSE, because some schools offer double science and, if you offer double science rather than chemistry, physics and biology, it is harder for you to do an A-level. Also, when I went to an engineering department at Cambridge University, if you wanted to do engineering, you were asked for mathematics, further mathematics and physics. If you look at the figures in Wales on how many children study double maths, they are very low. Therefore, Minister, I hope that you can ask the people who work for you to look at both of those things—what happens with GCSE as far as women are concerned, and what happens with A-levels as far as mathematics are concerned.

16:14 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can assure you that the problems are well understood within Government and among the people who work across Government, from the chief scientific adviser to senior officials in Huw Lewis's department, namely education. I am extremely concerned that, in this century, with regard to the skills that we require to be available in the economy, we are not utilising the total resources of Wales to get the best in terms of what we can produce for Wales. If we continually ignore a certain percentage of our population so that they do not make progress, these problems will continue. However, I can assure Members that, when I report back in the autumn—if I am allowed to do so, Deputy Presiding Officer—on science, I will address more fully some of the issues that have been raised by Members today. However, it might be also be helpful, if Members wished me to do so, bearing in mind the level of interest in this matter, and I would be delighted to do so, if I were to ask the chief scientific adviser whether she is prepared to brief Members on some of the work that has been going on in these areas. Perhaps she could do so towards the end of this term. I believe that it would be very helpful to hear, from such a distinguished academic, some of the answers to those questions.

Gallaf eich sicrhau bod dealltwriaeth dda o'r problemau o fewn y Llywodraeth ac ymhlith y bobl sy'n gweithio ar draws y Llywodraeth, o'r prif gynghorydd gwyddonol i uwch swyddogion yn adran Huw Lewis, sef addysg. Rwy'n bryderus iawn nad ydym, yn y ganrif hon, o ran y sgiliau y mae angen iddynt fod ar gael yn yr economi, yn defnyddio holl adnoddau Cymru er mwyn cael y gorau o ran yr hyn y gallwn ei gynhyrchu ar gyfer Cymru. Os byddwn yn dal i anwybyddu canran benodol o'n poblogaeth fel nad ydynt yn symud yn eu blaenau, bydd y problemau hyn yn parhau. Fodd bynnag, gallaf sicrhau Aelodau y byddaf yn mynd i'r afael yn llawnach â rhai o'r materion sydd wedi'u codi gan Aelodau heddiw pan fyddaf yn rhoi adroddiad eto ar wyddoniaeth yn yr hydref—os caniateir imi wneud hynny, Ddirprwy Lywydd. Fodd bynnag, gallai fod yn help, pe byddai'r Aelodau'n dymuno imi wneud hynny, gan gadw mewn cof lefel y diddordeb yn y mater hwn, a byddwn yn falch iawn i wneud hynny, pe bawn yn gofyn i'r prif gynghorydd gwyddonol a yw hi'n fodlon briffio'r Aelodau ar rywfaint o'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd yn y meysydd hyn. Efallai y gallai hi wneud hynny tua diwedd y tymor hwn. Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol iawn clywed, gan academydd mor nodedig, rai o'r atebion i'r cwestiynau hynny.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

## Gwella Gofal Sylfaenol a Chymunedol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Paul Davies, a gwelliant 6 yn enw Elin Jones.*

## Improving Primary and Community Care

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, amendments 3, 4 and 5 in the name of Paul Davies, and amendment 6 in the name of Elin Jones.*

16:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Social Services to move the motion—Gwenda Thomas.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Gwenda Thomas.

Cynnig NDM5515 Lesley Griffiths

Motion NDM5515 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella a pharhau i integreiddio gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Notes the actions taken by the Welsh Government to improve and further integrate primary, community and social care in Wales.

16:16 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Mae'r sylw ar y gwasanaeth iechyd yn dueddol o fod ar ysbytai yn aml iawn, er mai cyswllt cyntaf a rheolaidd y rhan fwyaf o bobl yw elfennau gofal sylfaenol a chymunedol y gwasanaeth. Mae pobl yn aml yn cyfeirio at 'fy meddyg teulu' a 'fy neintydd', ac mae llawer o weithwyr proffesiynol eraill yn bodoli, fel nyrsys practis, nyrsys ardal, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, fferyllwyr, optometryddion, podiatryddion a ffisiotherapyddion. Gyda'i gilydd, nhw sy'n cynnig cryn dipyn o'r continwwm hybu iechyd, atal clefydau, diagnosis, triniaeth, rheoli clefydau, adsefydlu a gofal lliniarol drwy gydol bywyd pob person yng Nghymru. Yn yr un modd, amrywiaeth anferthol o bobl sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion pobl am ofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol a swyddogion rheoli gofal, therapyddion galwedigaethol, staff canolfannau dydd, staff cartrefi gofal, staff gofal yn y cartref, gofalwyr mabwysiadu a maethu, gofalwyr lleoliadau oedolion ac eraill.

Comments on the health service frequently tend to be on hospitals, although the first and regular contact for most people is primary and community care. People often refer to 'my GP' and 'my dentist', and there are many other professionals, such as practice nurses, district nurses, midwives and health visitors, pharmacists, optometrists, podiatrists and physiotherapists. Together, they offer a great deal of the continuum of health promotion, disease prevention, diagnosis, treatment, disease control, rehabilitation and palliative care throughout the life of every person in Wales. Similarly, there is an enormous diversity of people responsible for meeting the needs of people for social care. These include social workers and care management officers, occupational therapists, day centre staff, care home staff, home care staff, adoption and fostering carers, adult centre staff and others.

People want more control over their care and support as they know what they need and what is right for them. People, particularly older people, tell us that they would rather not to go to hospital and would prefer to receive their care and support at home, or in a community setting.

Mae pobl eisiau mwy o reolaeth dros eu gofal a'u cymorth gan eu bod yn gwybod beth maent ei angen a beth sy'n iawn iddyn nhw. Mae pobl, yn enwedig pobl hŷn, yn dweud wrthym y byddai'n well ganddynt beidio â mynd i'r ysbyty ac y byddai'n well ganddynt dderbyn eu gofal a chymorth yn y cartref, neu mewn lleoliad cymunedol.

We support the amendment by Paul Davies on investment in primary care. The Welsh Government's policy, through prudent healthcare, is to focus on prevention and early intervention and a move from over-dependency on statutory services. Our aim is to shift resources towards multi-disciplinary primary and community care teams, working closely with social care, to meet people's needs at, or close to, home.

Rydym yn cefnogi'r gwelliant gan Paul Davies ar fuddsoddi mewn gofal sylfaenol. Polisi Llywodraeth Cymru, trwy ofal iechyd doeth, yw canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar a symud oddi wrth orddibyniaeth ar wasanaethau statudol. Ein nod yw symud adnoddau tuag at dimau gofal sylfaenol a chymunedol amlddisgyblaethol, gan weithio'n agos gyda gofal cymdeithasol, er mwyn diwallu anghenion pobl yn eu cartref, neu'n agos ato.

We support the amendment by Paul Davies in relation to GP recruitment, but reject the amendment by Elin Jones. Welsh Government is taking action through its national programmes to promote Wales as an attractive place to work and live. There are also specific discussions taking place in relation to GP recruitment. We are also looking at how we can deliver new models of integrated care.

Rydym yn cefnogi'r gwelliant gan Paul Davies o safbwynt recriwtio meddygon teulu, ond yn gwrthod y gwelliant gan Elin Jones. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau drwy ei rhaglenni cenedlaethol i hyrwyddo Cymru fel lle deniadol i fyw a gweithio ynddo. Mae trafodaethau penodol ar y gweill hefyd o safbwynt recriwtio meddygon teulu. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn ddarparu modelau newydd o ofal integredig.

We already have some excellent examples of integrated working across Wales. The integrated family support service model has been one of our flagship intervention models, and I have heard first hand from families how this has transformed their lives. We also have models such as the Wyn campaign run by Cardiff and Vale University Local Health Board, which focuses on promoting a model of self-care for older people to enable them to regain and retain independence. There is also the use of virtual wards in Hywel Dda, helping to prevent unnecessary admissions to hospital. The Minister for Health and Social Services and I issued a joint written statement in July last year, setting out our intent to integrate health and social care services. In December, we published guidance on integrated assessment, care and review for older people. We have also published the delivering local healthcare plan and the integration framework for older people with complex needs. Local partners have developed statements of intent, setting out how they will work together to deliver integrated services for older people.

Mae gennym eisoes rai enghreifftiau gwych o weithio integredig ar draws Cymru. Mae'r model gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd wedi bod yn un o'n modelau ymyrryd blaenllaw, ac rwyf wedi clywed yn uniongyrchol gan deuluoedd sut y mae hyn wedi trawsnewid eu bywydau. Mae gennym hefyd fodelau megis yr ymgyrch Wyn sy'n cael ei rhedeg gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo model hunanofal ar gyfer pobl hŷn i'w galluogi i ddod yn annibynnol ac aros felly. Ceir hefyd y defnydd o wardiau rhithwir yn Hywel Dda, sy'n helpu i atal pobl rhag cael eu derbyn yn ddiangen i'r ysbyty. Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau ddatganiad ysgrifenedig ar y cyd ym mis Gorffennaf y llynedd, yn nodi ein bwriad i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd canllawiau ar asesiadau, gofal ac adolygiadau integredig ar gyfer pobl hŷn. Rydym hefyd wedi cyhoeddi cynllun cyflwyno gofal iechyd lleol a'r fframwaith integreiddio ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth. Mae partneriaid lleol wedi datblygu datganiadau o fwriad, gan nodi sut y byddant yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn.

We welcome the proposed amendment by Aled Roberts on the establishment of the intermediate care fund, which was a key part of the Welsh Government's 2014-15 budget agreement with Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats. This £50 million fund, which includes £5 million from the regional collaboration fund, is investing in services to support older people to maintain their independence and remain in their own home. It will help avoid unnecessary hospital and residential care admissions, and prevent delayed discharges from hospital.

Rydym yn croesawu'r gwelliant a gynigiwyd gan Aled Roberts ar sefydlu'r gronfa gofal canolraddol, a oedd yn rhan allweddol o gytundeb cyllideb 2014-15 Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'r gronfa £50 miliwn hon, sy'n cynnwys £5 miliwn o'r gronfa cydweithredu rhanbarthol, yn buddsoddi mewn gwasanaethau i gynorthwyo pobl hŷn i barhau'n annibynnol ac i aros yn eu cartrefi eu hunain. Bydd yn helpu i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty a gofal preswyl yn ddiangen, ac yn atal achosion o oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty.

Modern technology offers huge opportunities to deliver services differently, and the Welsh Government's health technology fund of £9.5 million for 2014-15 is supporting a range of schemes and initiatives to deliver more care closer to home.

Mae technoleg fodern yn cynnig cyfleoedd enfawr i gyflwyno gwasanaethau mewn ffordd wahanol, ac mae cronfa technoleg iechyd Llywodraeth Cymru o £9.5 miliwn ar gyfer 2014-15 yn cefnogi amrywiaeth o gynlluniau a mentrau i gyflwyno mwy o ofal yn agosach at y cartref.

We oppose the proposed amendment by Paul Davies in relation to the NHS budget. We have announced an additional £570 million over the next three years to ensure that the NHS in Wales is able to maintain delivery of services. This represents an increase of 1%.

Rydym yn gwrthwynebu'r gwelliant a gynigiwyd gan Paul Davies ynglŷn â chyllideb y GIG. Rydym wedi cyhoeddi swm ychwanegol o £570 miliwn dros y tair blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn gallu parhau i gyflwyno gwasanaethau. Mae hyn yn gynnydd o 1%.

We have recently seen the successful passage of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. This will transform the way that services are developed and delivered. Greater collaboration, partnership and integration are a fundamental component of this Act. The Act aims to improve wellbeing outcomes for each individual according to their specific needs. Members will be aware of the findings, notably of the Leonard Cheshire Disability group and the Kingsmill review, into the prevalence of 15-minute care visits in England. We must focus on the quality of care provided to the individual, not simply the amount of time. This is why we oppose the amendment by Aled Roberts on this issue.

Rydym wedi gweld hynt llwyddiannus Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddiweddar. Bydd hon yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu datblygu a'u cyflwyno. Mae mwy o gydweithredu, partneriaeth ac integreiddio yn elfen sylfaenol o'r Ddeddf hon. Nod y Ddeddf yw gwella canlyniadau lles ar gyfer pob unigolyn yn unol â'i anghenion penodol. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r canfyddiadau, yn enwedig canfyddiadau grŵp Leonard Cheshire Disability ac adolygiad Kingsmill, i ba mor gyffredin yw ymweliadau gofal 15 munud yn Lloegr. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar ansawdd y gofal a ddarperir i'r unigolyn, nid dim ond yr amser. Dyma pam yr ydym yn gwrthwynebu'r gwelliant gan Aled Roberts ar y mater hwn.

Next year, I will be bringing to the National Assembly an inspection and regulation Bill. This will ensure our regulatory regime not only focuses on services being compliant, but also their quality. It will establish a national institute of care and support. This body will have the power to co-ordinate and lead improvement in care and support, and will be a major step in our commitment to more professionalised and higher quality services.

Y flwyddyn nesaf, byddaf yn dod â Bil rheoleiddio ac arolygu gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hwn yn sicrhau bod ein cyfundrefn reoleiddio yn canolbwyntio ar ansawdd y gwasanaethau, yn ogystal ag ar sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Bydd yn sefydlu sefydliad cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth. Bydd gan y corff y pŵer i gyd-drefnu ac arwain gwelliant mewn gofal a chymorth, a bydd hwn yn gam mawr yn ein hymrwymiad i sicrhau gwasanaethau mwy proffesiynol ac o ansawdd uwch.

I do not underestimate the challenges we face to improve and further integrate primary, community and social care. I can confirm that the Welsh Government remains committed to ensuring that this is delivered. If all partners work together, I believe that this can be achieved.

Nid wyf yn bychanu'r heriau yr ydym yn eu hwynebu er mwyn gwella ac integreiddio gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol ymhellach. Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Os bydd yr holl bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, rwy'n credu y gellir cyflawni hyn.

16:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the six amendments to the motion. I call on Kirsty Williams to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r cyllid ychwanegol y cytunwyd arno gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol yng nghyllideb 2014/15.*

*Welcomes the additional funding agreed by the Welsh Liberal Democrats, Plaid Cymru and the Welsh Government for the Intermediate Care Fund in the 2014/15 budget.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi pleidleisio yn erbyn gwelliannau i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a fyddai wedi rhoi terfyn ar yr arfer rheolaidd o slotiau gofal 15 munud ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i roi terfyn ar yr arfer hwn.*

*Regrets that the Welsh Government voted against amendments to the Social Services and Well-being Bill that would have ended the regular practice of 15 minute care slots and calls on the Welsh Government to take action to end this practice.*

16:22

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1 and 2.

Cynigiaf welliannau 1 a 2.

As Liberal Democrats, we believe very much in the core principle that care should be delivered as close to people's homes as is clinically safe. The primary care setting and services delivered by local authorities via social services departments should be the very foundations on which the rest of the NHS is built. We believe that because that is what constituents tell me that that is what they want. They want to receive their care in a community setting that they are comfortable with, feel safe and secure in, often with care delivered by people with whom they have had lifelong relationships and who themselves are part of a community. Not only is it good news for patients, it can also be a more cost-effective way of spending the resources that we have within the NHS and the care sector.

Fel Democratiaid Rhyddfrydol, rydym yn credu'n gryf yn yr egwyddor graidd y dylai gofal gael ei gyflwyno mor agos at gartrefi pobl ag sy'n ddiogel yn glinigol. Dylai'r lleoliad a'r gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy adrannau gwasanaethau cymdeithasol fod yr union sylfeini y mae'r gweddill y GIG yn cael ei adeiladu arnynt. Rydym yn credu hynny oherwydd mai dyna'r hyn y mae etholwyr yn dweud wrthyf y mae arnynt ei eisiau. Maent yn awyddus i dderbyn eu gofal mewn lleoliad yn y gymuned lle maent yn gyfforddus, yn teimlo'n ddiogel a sicr, gan dderbyn gofal yn aml gan bobl y maent wedi cael perthynas gydol oes â nhw ac sydd eu hunain yn rhan o gymuned. Mae'n newyddion da i gleifion, ond gall hefyd fod yn ffordd fwy cost-effeithiol o wario'r adnoddau sydd gennym o fewn y GIG a'r sector gofal.

However, we need to acknowledge that the continuation of the services is dependent on recruiting and retaining personnel within those services. I will be supporting the amendments that draw our attention to the concerns about the recruitment and retention of GPs. Some of those retention and recruitment issues are particularly acute in some of our rural areas, where practices can advertise for month after month and receive no suitable applications. Of course, GPs cannot work in isolation; their ability to do their job is heavily influenced by the right numbers of community-based nurses, as well as other community-based staff.

Fodd bynnag, mae angen inni gydnabod bod parhad y gwasanaethau yn dibynnu ar recriwtio a chadw personél o fewn y gwasanaethau hynny. Byddaf yn cefnogi'r gwelliannau sy'n tynnu ein sylw at y pryderon ynghylch recriwtio a chadw meddygon teulu. Mae rhai o'r materion cadw a recriwtio hynny'n arbennig o ddifrifol mewn rhai o'n hardaloedd gwledig, lle y gall practisau hysbysebu am fis ar ôl mis a pheidio â derbyn unrhyw geisiadau addas. Wrth gwrs, ni all meddygon teulu weithio ar eu pennau eu hunain; mae eu gallu i wneud eu gwaith yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan y nifer cywir o nyrsys yn y gymuned, yn ogystal â staff eraill yn y gymuned.

The other crucial thing about primary and community care is that it cannot be a 9 a.m. to 5 p.m., five-day-a-week service. I would urge the Welsh Government to take steps to ensure that these services are available in a timely fashion, outside of normal working hours, and are as available on the weekend as they are in the middle of the week. Only by doing that are we going to see the demands that are being placed on our A&E departments beginning to fall.

Y peth hanfodol arall am ofal sylfaenol a chymunedol yw na all fod yn wasanaeth 9:00 a.m. tan 5.00 p.m., bum diwrnod yr wythnos. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau i sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael mewn modd amserol, y tu allan i oriau gwaith arferol, ac ar gael yr un fath ar y penwythnos ag y maent yng nghanol yr wythnos. Dim ond drwy wneud hynny yr ydym yn mynd i weld y galw ar ein hadrannau damweiniau ac achosion brys yn dechrau gostwng.

I was really pleased to see, over the weekend, the comments by the new director of the NHS in England about the issue of community-based care and the role of community and smaller hospitals. I hope that the new director of the NHS in Wales will make a similar statement and recognise what my constituents have known for many years, which is that community hospitals have a crucial role to play in modern healthcare.

Roeddwn yn falch iawn o weld, dros y penwythnos, y sylwadau gan gyfarwyddwr newydd y GIG yn Lloegr ynglŷn â gofal yn y gymuned a rôl y gymuned ac ysbytai llai. Rwy'n gobeithio y bydd cyfarwyddwr newydd y GIG yng Nghymru yn gwneud datganiad tebyg a chydnabod yr hyn mae fy etholwyr wedi ei wybod ers blynyddoedd lawer, sef bod gan ysbytai cymunedol ran hanfodol i'w chwarae ym maes gofal iechyd modern.

Amendment 1 focuses on the establishment of the intermediate care fund. The projects that have been announced are projects that will, indeed, make a huge difference to those people able to avail themselves of them, as well as having a wider impact on the NHS. I think that it is absolutely right that we focus on service delivery, rather than on costly, bureaucratic and time-consuming structural changes between health and social care, which are incredibly complex. What we need to do is not focus on structures, but use what powers and resources we have to drive collaboration without getting involved in another reorganisation.

Mae gwelliant 1 yn canolbwyntio ar sefydlu'r gronfa gofal canolraddol. Mae'r prosiectau sydd wedi cael eu cyhoeddi yn brosiectau a fydd, yn wir, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r bobl hynny sy'n gallu manteisio arnynt, yn ogystal â chael effaith ehangach ar y GIG. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl iawn ein bod yn canolbwyntio ar y modd o gyflwyno gwasanaeth, yn hytrach nag ar newidiadau strwythurol costus, biwrocrataidd anhygoel o gymhleth a fyddai'n cymryd llawer o amser rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Beth sydd angen inni ei wneud yw peidio â chanolbwyntio ar strwythurau, ond defnyddio pa bynnag bwerau ac adnoddau sydd gennym i sbarduno cydweithrediad heb ddechrau ar broses ad-drefnu arall.

If I could turn to 15-minute care slots, the Deputy Minister has once again reiterated that it is not the time that is important, but the quality of the care. My fundamental belief, Deputy Minister, is that it is nigh on impossible to give good-quality care in a house visit that only lasts 15 minutes. You cannot separate the two. It is not only me that believes it; it is not only campaigning organisations like Leonard Cheshire Disability; it is not only the staff who have to do this and the recipients of the care. It is Ed Miliband, who has said that he is going to end the scandal of 15-minute care and clock-watching care. He said that, should the Labour Party win the next general election, he is going to get rid of it. You have an opportunity to get rid of it right now. We can take an important step forward. I am not saying that, in some circumstances, if it is simply a case of watching someone take medication, it cannot be done in 15 minutes. However, let us face it: there are very few care packages that are just about watching someone take their medication. It is about the most intimate details of a person's life: washing, dressing and eating food. It cannot be done in 15 minutes and we cannot say that good-quality care can be delivered in those time slots. We need to end them now. Let us lead the way. Let us put pressure on the Westminster Government to do it now and lead the way.

Os gallaf droi at slotiau gofal 15 munud, mae'r Dirprwy Weinidog unwaith eto wedi ailddatgan nad yr amser sy'n bwysig, ond ansawdd y gofal. Fy nghred sylfaenol, Ddirprwy Weinidog, yw ei bod bron yn amhosibl rhoi gofal o ansawdd da mewn ymweliad tŷ o ddim ond 15 munud. Ni allwch wahanu'r ddau beth. Nid fi yn unig sy'n credu hynny; nid yn unig sefydliadau ymgyrchu fel Leonard Cheshire Disability; nid dim ond y staff sy'n gorfod gwneud hyn a'r bobl sy'n derbyn y gofal. Ond Ed Miliband, sydd wedi dweud ei fod yn mynd i roi terfyn ar y sgandal gofal 15 munud a gofal sy'n gwylio'r cloc. Dywedodd ei fod yn mynd i gael gwared ar hyn, pe byddai'r Blaid Lafur yn ennill yr etholiad cyffredinol nesaf. Mae gennych gyfle i gael gwared arno yn awr. Gallwn gymryd cam pwysig ymlaen. Nid wyf yn dweud na ellir rhoi gofal mewn 15 munud mewn rhai amgylchiadau, os yw'n fater syml o wylio rhywun yn cymryd meddyginiaeth. Fodd bynnag, gadewch inni wynebu'r peth: ychydig iawn o becynnau gofal sy'n ymwneud â gwylio rhywun yn cymryd ei feddyginiaeth yn unig. Mae'n ymwneud â manylion mwyaf personol bywyd person: ymolchi, gwisgo a bwyta. Ni ellir ei wneud mewn 15 munud ac ni allwn ddweud bod modd cyflwyno gofal o ansawdd da yn y slotiau amser hynny. Mae angen inni roi terfyn arnynt yn awr. Gadewch i ni arwain y ffordd. Gadewch inni roi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i'w wneud yn awr ac arwain y ffordd.

16:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Darren Millar to move amendments 3, 4 and 5 tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 3, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pryderon Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu ynghylch yr angen am fuddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, sef yr hyn a nodir yn eu hymgyrch Patients First: Back General Practice.*

*Notes the concerns of the Royal College of GPs regarding the need for additional investment in primary care services as highlighted by their Put Patients First: Back General Practice campaign.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella trefniadau cynllunio'r gweithlu gofal sylfaenol ac i weithredu ar frys i roi sylw i'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio meddygon teulu ledled Cymru.*

*Calls upon the Welsh Government to improve primary care workforce planning arrangements and take urgent action to address GP recruitment challenges across Wales.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith y bydd toriadau termau real Llywodraeth Cymru i gyllideb y GIG yn ei gwneud yn fwy anodd sicrhau gwelliannau ac integreiddio gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a gofal cymdeithasol ymhellach yng Nghymru.*

*Regrets that the Welsh Government's real terms NHS budget cuts will make it more difficult to achieve improvements and further integration of primary and community and social care in Wales.*

16:28 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 3, 4 and 5.

Cynigiaf welliannau 3, 4 a 5.

I am very pleased to be taking part in this debate. I think that it is a very timely debate. I know that I, for one, have been concerned about what appears to be quite a significant looming recruitment crisis in the GP workforce, certainly in north Wales, in and around my constituency, with patients having to wait two, three or even four weeks in order to access a non-urgent appointment with their GP. It is symptomatic of quite a deep problem that we have with GP workforce issues at the moment here in Wales. I was very pleased to hear that the Welsh Government will be accepting our amendment on the need to plan more effectively and take action to address workforce challenges for GPs, because I think that it is absolutely essential that we get to the root of the problems and address them. There is no doubt in my mind that everybody in this Chamber would agree that we need to have a more integrated approach to care, particularly health and social care, but also primary and intermediate care. Unless we have a more integrated approach, that is going to mean less value for money for taxpayers and probably worse experiences for patients and service users.

Rwy'n falch iawn o gael cymryd rhan yn y ddadl hon. Rwy'n meddwl ei bod yn ddadl amserol iawn. Rwy'n gwybod fy mod i, yn un, wedi bod yn pryderu am argyfwng recriwtio ar y gorwel sy'n ymddangos yn un eithaf sylweddol o ran y gweithlu meddygon teulu, yn sicr yn y gogledd, yn fy etholaeth i ac o gwmpas, gyda chleifion yn gorfod aros dwy, tair neu hyd yn oed bedair wythnos er mwyn cael apwyntiad heb fod yn un brys gyda'u meddyg teulu. Mae'n symptom o broblem eithaf dofn sydd gennym o ran y gweithlu meddygon teulu ar hyn o bryd yma yng Nghymru. Roeddwn yn falch iawn o glywed y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ein gwelliant ar yr angen i gynllunio'n fwy effeithiol a chymryd camau i fynd i'r afael â heriau gweithlu ar gyfer meddygon teulu, gan fy mod yn credu ei bod yn gwbl hanfodol inni fynd at wraidd y problemau ac yn mynd i'r afael â hwy. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl y byddai pawb yn y Siambr hon yn cytuno bod angen inni gael dull gweithredu mwy integredig o ran gofal, yn enwedig o ran iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd o ran gofal sylfaenol a chanolraddol. Oni bai fod gennym ddull gwaith mwy integredig, byddwn yn cynnig llai o werth am arian i drethdalwyr a phrofiadau gwaeth yn ôl pob tebyg ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

I said that this was a timely debate; it is particularly timely given that, today, I had a meeting with the British Medical Association regarding GP workforce pressures. Everybody in the Chamber will be aware of the Royal College of General Practitioners' current campaign, 'Putting Patients First', which calls for an increased share of investment to be focused on primary care, rather than on secondary or tertiary care. Nobody is arguing that we should take money away from our hospitals, but I think that we need to re-emphasise, if you like, the important role that primary care has in preventing people from needing to access secondary and tertiary care. If that means a rebalancing within the NHS budgets, that is something that should be carefully considered. So, I am very pleased again that the Welsh Government has taken note of that campaign and I look forward to seeing and hearing a little bit more about the response of the Welsh Government to it.

Dywedais fod hon yn ddadl amserol; mae'n arbennig o amserol o ystyried y cefais gyfarfod, heddiw, gyda Chymdeithas Feddygol Prydain ynghylch y pwysau ar weithlu meddygon teulu. Bydd pawb yn y Siambr yn ymwybodol o ymgyrch bresennol Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, 'Rhoi Cleifion yn Gyntaf', sy'n galw am ganolbwyntio cyfran uwch o'r buddsoddiad ar ofal sylfaenol, yn hytrach nag ar ofal eilaidd neu drydyddol. Nid oes neb yn dadlau y dylem gymryd arian oddi wrth ein hysbytai, ond credaf fod angen i ni ailbwysleisio, os mynnwch chi, y rôl bwysig sydd gan ofal sylfaenol o ran atal pobl rhag bod angen defnyddio gofal eilaidd a thrydyddol. Os yw hynny'n golygu ailgydbwyso o fewn cyllidebau'r GIG, mae hynny'n rhywbeth y dylid ei ystyried yn ofalus. Felly, rwy'n falch iawn unwaith eto bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd sylw o'r ymgyrch honno ac edrychaf ymlaen at weld a chlywed ychydig mwy am ymateb Llywodraeth Cymru iddi.

The Deputy Minister for Social Services made reference to older people. Of course, we know that, very often, it is older people who end up in hospital and it is older people who are using intensive social services. I was very taken with Age UK Cornwall’s pathfinder project, which allowed for some joint working between the third sector, GPs, the NHS and social services on an invest-to-save basis and which integrated those services. The pilot programme was tested with around 100 patients across two GP practices. Two personal independence co-ordinators and a team of trained volunteers were recruited and it actually delivered significant savings. There was a 30% reduction in acute admissions to hospital and about £4.40 was saved for every single pound that was invested in the scheme. I think that it is that sort of innovation and good practice that has been proven to work that we need to be quick adopters of Wales. Let us face it, it is easier for us to adopt a change in Wales with a smaller number of health boards and being a small country with good communications than it is elsewhere in the United Kingdom.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol gyfeiriad at bobl hŷn. Wrth gwrs, rydym yn gwybod mai pobl hŷn, yn aml iawn, sy'n gorfod mynd i'r ysbyty ac mai pobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol dwys. Gwnaeth prosiect braenaru Age UK Cernyw argraff arnaf i, prosiect a oedd yn caniatáu ar gyfer rhywfaint o weithio ar y cyd rhwng y trydydd sector, meddygon teulu, y GIG a gwasanaethau cymdeithasol ar sail buddsoddi i arbed ac a oedd yn integreiddio’r gwasanaethau hynny. Cafodd y rhaglen beilot ei phrofi gyda thua 100 o gleifion ar draws dau bractis meddygon teulu. Cafodd dau gydgysylltydd annibyniaeth bersonol a thîm o wirfoddolwyr hyfforddedig eu recriwtio ac arbedwyd swm sylweddol o arian. Gwelwyd 30% o ostyngiad mewn derbyniadau acíwt i'r ysbyty a chafodd tua £4.40 ei arbed ar gyfer pob punt a fuddsoddwyd yn y cynllun. Rwy’n meddwl mai dyna’r math o arloesedd ac arfer da y profwyd ei fod yn gweithio y mae angen inni ei fabwysiadu’n gyflym yng Nghymru. Gadewch inni wynebu'r gwir, mae'n haws inni fabwysiadu newid yng Nghymru a ninnau’n wlad fach â nifer llai o fyrddau iechyd a threfniadau cyfathrebu da, nag y mae mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

I just want to touch a little bit more on the GP recruitment crisis, if I may. I have a little bit of time left. What the GPs who were talking to us today were saying was that there is an immediate crisis that is going to require some short-term action to address it and there is some longer term action that needs to be put in place as well. I wonder, Deputy Minister—you may not be able to answer this, but, certainly, if it is possible to give some information it would be really helpful—. I know that there was a Work for Wales campaign that embarked upon bringing clinicians into Wales from overseas, and indeed from other parts of the UK, in order to plug some of the recruitment challenges we have in the Welsh NHS. However, it would be good to know what the outcome of that has been because certainly GPs across Wales are not feeling the benefit of that campaign. They have suggested to us today that there needs to be a Wales-wide campaign and an overseas campaign to recruit more GPs into Wales and then a fast-tracking of those GPs who come from overseas in order to help them to overcome the obstacles and barriers that are put in the way by the current system. Even experienced GPs and experienced clinicians face these barriers and difficulties in coming to work in Wales. In the longer term, the problems appear to be more acute in north Wales and west Wales. I am not sure whether it is just rurality that is an issue. Certainly, there are problems in Wrexham that we were told about today, for example. That is certainly not a rural area, but we do know that certain parts of Wales face more pressures, and I just wonder whether the training rotations that the deanery operates on an all-Wales basis rather than on a north-west/north Wales basis might be something that ought to be considered.

Rwyf eisiau sôn ychydig mwy am yr argyfwng o ran recriwtio meddygon teulu, os caf. Mae gennyf ychydig o amser ar ôl. Yr hyn yr oedd y meddygon teulu a oedd yn siarad gyda ni heddiw yn ei ddweud oedd bod argyfwng uniongyrchol y bydd angen rhywfaint o weithredu tymor byr i roi sylw iddo a bod rhai camau tymor hir y mae angen eu rhoi ar waith hefyd. Tybed, Ddirprwy Weinidog—efallai na fyddwch yn gallu ateb hyn, ond, yn sicr, os yw'n bosibl rhoi rhywfaint o wybodaeth byddai'n ddefnyddiol iawn—. Gwn y cafwyd yr ymgyrch Gweithio dros Gymru a ddechreuodd ddod â chlinigwyr i Gymru o dramor, ac yn wir o rannau eraill o'r DU, er mwyn ymateb i rai o'r heriau recriwtio sydd gennym yn y GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'n dda cael gwybod beth fu canlyniad hynny oherwydd yn sicr nid yw meddygon teulu ar draws Cymru yn teimlo budd yr ymgyrch honno. Maent wedi awgrymu i ni heddiw bod angen cael ymgyrch trwy Gymru gyfan ac ymgyrch dramor i recriwtio mwy o feddygon teulu i Gymru ac yna rhoi’r meddygon teulu hynny sy'n dod o dramor ar y llwybr carlam er mwyn eu helpu i oresgyn y rhwystrau a’r tramgwyddau y mae’r system bresennol yn eu rhoi yn eu ffordd. Mae meddygon teulu profiadol a chlinigwyr profiadol hyd yn oed yn wynebu’r rhwystrau a’r anawsterau hyn wrth ddod i weithio yng Nghymru. Yn y tymor hwy, mae'n ymddangos bod y problemau yn waeth yn y gogledd a'r gorllewin. Nid wyf yn siŵr ai dim ond natur wledig yr ardaloedd yw’r broblem. Yn sicr, ceir problemau yn Wrecsam y clywsom amdanynt heddiw, er enghraifft. Nid yw honno’n sicr yn ardal wledig, ond rydym yn gwybod bod rhai rhannau o Gymru yn wynebu mwy o bwysau, a tybed a allai’r cylchdroadau hyfforddiant y mae'r ddeoniaeth yn eu gweithredu ar sail Cymru gyfan yn hytrach nag ar sail gogledd-orllewin/gogledd Cymru fod yn rhywbeth y dylid ei ystyried?

16:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call Elin Jones to move amendment 6 tabled in her name.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 6 a gyflwynwyd yn ei henw hi.

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod mwy a mwy o feddygon teulu yn nesáu at oed ymddeol, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu cynllun clir i gael meddygon teulu newydd yn eu lle.*

*Notes the increasing numbers of GPs nearing retirement age, particularly in our most deprived communities, and regrets that no clear plan to replace them has been adopted by the Welsh Government.*

16:33

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf welliant 6.

I move amendment 6.

Rydym i gyd yn deall pwysigrwydd gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a'r cysylltiad amlwg â gofal cymdeithasol. Mae'r ddadl hon heddiw yn cwmpasu'r tair agwedd hon o ofal. Mae dadl i ddweud y dylid integreiddio'r gwasanaethau hyn yn llawn yn hytrach na dim ond gorfodi neu gymell cydweithio ar draws y ffiniau gweinyddol a sefydliadol sy'n bodoli drwy greu cronfa ariannol, fel y dêl gyllideb rhyngom ni, Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol—y gronfa sy'n cael ei chyfeirio ati yng ngwelliant 1, y gronfa gofal integredig. Mae honno'n gam pwysig ymlaen yn y gwaith o integreiddio gwasanaethau, ond mae'n bosibl nad yw'n mynd yn ddigon pell a bod angen creu integreiddiad llawn a chreu cyllideb benodol glir i ddatblygu'r gwaith hwn a gwahanu'r gyllideb a'r cyfrifoldeb oddi wrth yr ysbytai cyffredinol ac arbenigol. Ar hyn o bryd, mae tueddiad i'r ysbytai cyffredinol ac arbenigol lyncu'r gyllideb oddi wrth y sector sylfaenol a chymunedol, a dyna un o'r rhesymau pam fod cymunedau yn aml mor wrthwynebus i golli gwasanaethau A&E llawn gan nad oes ganddynt ffydd y bydd y gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn ddigon cynhwysfawr ac yn ddigon hygyrch i gwrdd ag anghenion cymunedau.

We all understand the importance of primary and community healthcare and the clear links with social care. This debate today actually encompasses all three aspects of care. One could argue that these services should be fully integrated rather than just requiring or encouraging collaboration across the administrative and institutional boundaries that exist by creating a fund such as the deal done between us, Labour and the Liberal Democrats—the fund referred to in amendment 1, the intermediate care fund. That is an important step forward in the work of integrating services, but perhaps it does not go far enough and we need to establish full integration and create a clear budget line to develop this work and to separate the budget and the responsibility from the general and specialist hospitals. At present, there is a tendency for general hospitals and specialist hospitals to take over the budget from the primary and community sector, and that is one of the reasons why communities are so often so opposed to losing full A&E services as they do not have confidence that the primary and community care services are comprehensive and accessible enough to meet the needs of communities.

Pan nad yw gofal sylfaenol neu apwyntiad gyda'r meddyg teulu ar gael yn weddol gyflym, y lle nesaf i'r unigolyn fynd yw i wasanaeth A&E. Mae'n rhaid creu gwell cyfundrefn lle bod GPs yn gallu rhoi apwyntiadau brys i gleifion o fewn 24 awr a gwneud hynny'n gyson drwy Gymru. Er taw contractwyr annibynnol yw'r GPs, fel y maent wedi bod ers sefydlu'r NHS, mae'n rhaid cofio eu bod yn cael eu talu bron yn gyfan gwbl lawn o'r pwrs cyhoeddus. Mae angen, felly, i Lywodraeth Cymru greu fframwaith apwyntiadau GPs sy'n gyson drwy Gymru, nid ei adael i fyrddau iechyd neu i bractisiau unigol.

When primary care and an appointment with a GP are not available relatively swiftly, the next port of call for an individual is the A&E service. We must create a better system where GPs can provide emergency appointments to patients within 24 hours and do that consistently throughout Wales. Although GPs are independent contractors, as they have been since the establishment of the NHS, we must bear in mind that they are paid almost entirely from the public purse. We need, therefore, for the Welsh Government to create an appointments framework for GPs that is consistent across Wales, and not leave it to individual health boards or practices.

Rôl arall lle y dylid defnyddio gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn fwy effeithiol i leihau'r pwysau ar ysbytai acíwt yw drwy ofalu am gleifion hŷn gyda chymhlethdodau iechyd dwys—pobl sy'n agosáu at ddiwedd oes yw'r garfan hon, pobl sy'n dueddol, yn eu hoedran, i gwympo ac i gael pob math o 'infections' meddygol. Pe bai meddygon teulu, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol yn medru darparu gofal 24 awr i'r unigolion hyn, fe ellid lleihau'n sylweddol, o bosib, defnydd dwys y garfan hon o'r boblogaeth o'r gwasanaeth ambiwlans ac o wasanaethau A&E ac ysbytai acíwt yn fwy cyffredinol. Rydym yn gwybod bod Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, er enghraifft, yn awr yn rhoi ystyriaeth benodol iawn i argymell fod GPs yn cychwyn rhoi gwasanaeth 24 awr o'r fath hwn i'r sector hwn.

Another role where primary and community care services should be used more effectively to reduce pressures on acute hospitals is by caring for older patients with acute health complications—these are people who are nearing the end of their lives and who tend to fall and suffer all sorts of medical infections. If GPs, community services and social services could provide 24-hour care for those individuals, we could possibly reduce significantly the intensive use made by this cohort of the population of the ambulance services and A&E services and acute hospitals more generally. We know that the Royal College of General Practitioners, for example, is now giving specific consideration to recommending that GPs start to provide 24-hour care of this kind in this sector.

Yn hyn o beth hefyd, mae gwelyau mewn ysbytai cymunedol yn bwysig a gallu'r meddyg teulu i fedru cyfeirio person i wely cymunedol am gyfnod byr yn hytrach na gwely ar ward acíwt. Felly, mae mwy y gall meddygon teulu, nyrsys practis, nyrsys cymunedol, gweithwyr gofal a gweithwyr iechyd ail-alluogi ei wneud, ond mae angen yr adnoddau arnynt ac mae angen y capasiti yn y sector hwn i fedru tyfu'r gwaith. Y ffactor a all danseilio hyn, wrth gwrs, yw nad yw'r capasiti, y staff na'r gweithlu sydd ei angen ar gael pan fydd galw am y gwasanaeth yn dod yn rhan o bolisi cyhoeddus.

Also, beds in community hospitals are important as is the ability of GPs to refer individuals to a community care bed for a brief period, rather than a bed on an acute ward. So, there is more that GPs, practice nurses, community nurses, care workers and re-enabling health workers can do, but they need resources and they need the capacity within this sector to develop this work. The factor that can undermine all of this, of course, is the issue of not having the necessary capacity, staff or workforce in place when the demand for these services becomes part of public policy.

Yn hyn o beth, rydym wedi clywed eisoes wrth gwrs am y 'crisis' sydd i'w weld o ran recriwtio a hyfforddi digon o feddygon teulu. Mae 23% o feddygon teulu Cymru ar hyn o bryd dros 55 oed a 31% o feddygon teulu ardal Cwm Taf dros 55 oed. Nid ffactor wledig yn unig yw hon; mae'n ffactor drefol ac yn ffactor yn y Cymoedd yn enwedig. Felly, mae gan Blaid Cymru'r syniad o greu rhaglen ragweithiol, genedlaethol o hyfforddi a recriwtio 1,000 yn fwy o feddygon i'r gwasanaeth iechyd dros y 10 mlynedd nesaf. Ni chlywais y Dirprwy Weinidog yn rhoi amlinelliad i ni o beth yw rhaglen ragweithiol y Llywodraeth i recriwtio mwy o feddygon. Byddwn i'n licio clywed mwy o fanylion i fy argyhoeddi bod unrhyw beth yn digwydd o fewn y Llywodraeth i recriwtio a hyfforddi mwy o'r gweithlu hwn sy'n mynd i fod yn gynyddol bwysig i'r sector iechyd a gofal.

In this regard, we have already heard about the crisis in terms of recruiting and training adequate numbers of GPs. Currently, 23% of GPs in Wales are over 55 years of age and 31% of GPs in the Cwm Taf area are over 55. This is not just a rural factor; it is a factor in urban areas and in the Valleys in particular. Therefore, Plaid Cymru has a concept of creating a proactive programme on a national level to recruit and train 1,000 additional doctors for the health service over the next 10 years. I did not hear the Deputy Minister outlining what the proactive approach of Government is to be to recruit greater numbers of doctors. I would like to hear more details to convince me that something at least is happening within Government to recruit and train more of this workforce that is going to be increasingly important for the health and care sectors.

16:38

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that this is an interesting debate and there is a danger of consensus breaking out, which is a good thing. I am a little puzzled as to where this evidence comes from for the crisis in the number of GPs. It may well be that the age profile of GPs is, of course, a future concern, but at the moment we have the lowest number of patients to GPs that we have had for a decade. The number of patients per GP is just over 1,500, which is quite low compared with other areas that I have worked on—

Credaf fod hon yn ddadl ddiddorol ac mae perygl o gael consensws, sy'n beth da. Rwyf ychydig yn ddryslyd ynghylch o ble y daw'r dystiolaeth hon am yr argyfwng yn nifer y meddygon teulu. Mae'n ddigon posibl bod proffil oedran meddygon teulu, wrth gwrs, yn bryder yn y dyfodol, ond ar hyn o bryd mae nifer y cleifion i bob meddyg teulu yn is nag y mae wedi bod gennym ers degawd. Mae nifer y cleifion fesul meddyg teulu ychydig dros 1,500, sy'n eithaf isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill yr wyf wedi gweithio arnynt—

16:39

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:39

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will take an intervention.

Byddaf yn derbyn ymyriad.

16:39

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Just to clarify, they are not my words that this is a crisis in terms of GP recruitment. They were the words of the chair of the local medical council only today, in the Assembly, to not just me, but a number of Assembly Members. One of the issues that he referred to in terms of patient ratios was that, in his own practice, it is one GP to over 3,800 patients, I think, which is obviously significantly higher than the figure you quoted.

Diolch. Dim ond i egluro, nid fy ngeiriau i ydynt bod gennym argyfwng o ran recriwtio meddygon teulu. Geiriau cadeirydd y cyngor meddygol lleol heddiw yw'r rhain, yn y Cynulliad, nid yn unig i mi, ond i nifer o Aelodau'r Cynulliad. Un o'r materion y cyfeiriodd atynt o ran cymarebau cleifion oedd bod un meddyg teulu, yn ei bractis ei hun, i dros 3,800 o gleifion, rwy'n credu, sydd yn amlwg yn sylweddol uwch na'r ffigur a ddyfynnwyd gennych chi.

16:39 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That would certainly be very significant, but I do not think that that is the case across Wales and, therefore, we need to drill down into the statistics. The ratio of 1,500 patients per GP is deemed to be adequate to good, so I am still unclear as to where that particular anxiety is coming from, although there may be particular problems in particular places. Both rurality and deprivation may be an issue and a challenge for us in ensuring that we have the right number of GPs across Wales.

Byddai hynny'n sicr yn sylweddol iawn, ond nid wyf yn credu bod hynny'n wir ar draws Cymru ac, felly, mae angen archwilio'r ystadegau'n fanwl. Ystyrir bod y gymhareb o 1,500 o gleifion i bob meddyg teulu yn ddigonol i dda, felly rwy'n dal yn aneglur o ble y daw'r pryder penodol, er y gall fod problemau penodol mewn mannau penodol. Gall natur wledig rhai ardaloedd a lefelau amddifadedd fod yn broblem ac yn her inni o ran sicrhau bod gennym y nifer cywir o feddygon teulu ar draws Cymru.

However, as Darren Millar already referred to, the fact that we have integrated health boards is a real opportunity for us to get it right and to ensure that we have the right balance between services in the community and services in hospitals. Darren Millar, you say that no-one is arguing for taking money away from hospitals, but in the real world, there is always going to be a limited pot of money, and in my experience the age-old conundrum is always how to liberate money from hospitals that is not necessarily best spent there and ensure that services are there in the community to prevent people having to go to hospital unnecessarily.

Fodd bynnag, fel y dywedodd Darren Millar eisoes, mae'r ffaith ein bod wedi integreiddio byrddau iechyd yn gyfle gwirioneddol inni gael pethau'n iawn a sicrhau bod gennym y cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau yn y gymuned a gwasanaethau mewn ysbytai. Darren Millar, rydych yn dweud nad oes neb yn dadlau y dylid cymryd arian oddi wrth ysbytai, ond yn y byd go iawn, cronfa gyfyngedig o arian fydd ar gael bob amser, ac yn fy mhrofiad i, y benbleth oesol bob amser yw sut i ryddhau arian o ysbytai pan nad dyna o reidrwydd yw'r lle gorau i'w wario, a sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn y gymuned i atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn ddiangen.

I just wanted to use this opportunity to talk a little about the way that we care for people with diabetes, because it is a burgeoning problem. We now have double the number of patients with diabetes that we had 10 or 15 years ago. If we do not do anything about it, we will have double that number again in the next 10 to 15 years. To me, it is essential that we spend more time and money on prevention, not just on treating people in primary care, but on preventing people getting type 2 diabetes in the first place. The European commissioner for health pointed out recently that the developed world eats too much and the developing world eats too much of the wrong thing, just because it is cheap. That would also apply to poor communities in Wales, as well as the rest of the developed world. Unless and until we have concerted political will to tackle food manufacturers who systematically adulterate food to increase their profits, more needs to be done now to ensure that we promote good food and that people understand what food is good for them. There is great work going on in schools around Appetite for Life, during lessons, through the eco-committees that pupils have established and through things like the community food schemes that are funded by the rural development plan, but there is an awful lot more that public health could be doing to get the message across.

Rwyf eisiau ddefnyddio'r cyfle hwn i siarad ychydig am y ffordd yr ydym yn gofalu am bobl â diabetes, oherwydd ei bod yn broblem gynyddol. Erbyn hyn mae gennym ddwbl y nifer o gleifion â diabetes ag oedd gennym 10 neu 15 mlynedd yn ôl. Os nad ydym yn gwneud rhywbeth am y peth, bydd gennym ddwbl y rhif hwnnw eto yn y 10 i 15 mlynedd nesaf. I mi, mae'n hanfodol ein bod yn treulio mwy o amser ac yn gwario mwy o arian ar atal, nid dim ond ar drin pobl mewn gofal sylfaenol, ond ar atal pobl rhag cael diabetes math 2 yn y lle cyntaf. Nododd y comisiynydd Ewropeaidd ar gyfer iechyd yn ddiweddar fod y byd datblygedig yn bwyta gormod a'r byd sy'n datblygu yn bwyta gormod o'r peth anghywir, dim ond oherwydd ei fod yn rhad. Byddai hynny hefyd yn berthnasol i gymunedau tlawd yng Nghymru, yn ogystal â gweddill y byd datblygedig. Oni bai a hyd nes y bydd gennym yr ewyllys gwleidyddol ar y cyd i fynd i'r afael â gweithgynhyrchwyr bwyd sydd yn llygru bwyd yn systematig i gynyddu eu helw, mae angen gwneud mwy yn awr i sicrhau ein bod yn hyrwyddo bwyd da a bod pobl yn deall pa fwyd sy'n dda iddynt. Mae gwaith gwych yn digwydd mewn ysgolion o gwmpas Blas am Oes, yn ystod gwersi, drwy eco-bwyllgorau y mae disgyblion wedi'u sefydlu a thrwy bethau fel cynlluniau bwyd cymunedol sy'n cael eu hariannu gan y cynllun datblygu gwledig, ond mae llawer iawn mwy y gallai iechyd y cyhoedd fod yn ei wneud i gyfleu'r neges.

In the diabetes cross-party group this lunchtime, we had a presentation from somebody called Kamila Hawthorne, who is a GP in Butetown, about the HeartLink project. It was a three-year health inequalities project that was funded by the first and second Assemblies to target 13 primary care practices around Cardiff with significant numbers of ethnic minority communities, where there is also a high prevalence of diabetes. What we learned is that we need to do a lot more work with communities to promote healthy lifestyles. They are really hungry for information to make sure that they are doing the right thing. The referrals to podiatrists and nutritionists that the project's outreach work generated indicated the numbers of people who can see those sorts of professionals, who are not then falling into diabetes or the complications of diabetes. We also learned that link workers are effective peer supporters and that you do not have to have health professionals to do that sort of health promotion work. It underlines the fact that we need not just good GPs who are good at working with their patients, but multidisciplinary teams that work alongside those health professionals to ensure that, where possible, people are prevented from having to go to hospital and having the complications from diabetes that lead to—

Yn y grŵp trawsbleidiol ar ddiabetes amser cinio heddiw, cawsom gyflwyniad gan rywun o'r enw Kamila Hawthorne, sy'n feddyg teulu yn Butetown, am y prosiect HeartLink. Prosiect anghydraddoldebau iechyd tair blynedd oedd hwn a ariannwyd gan y Cynulliad cyntaf a'r ail Gynulliad i dargedu 13 o bractisau gofal sylfaenol o amgylch Caerdydd sydd â nifer sylweddol o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, a lle ceir hefyd gyfradd uchel o ddiabetes. Yr hyn a ddysgwyd gennym yw bod angen inni wneud llawer mwy o waith gyda chymunedau i hybu ffyrdd iach o fyw. Maent wir yn awchu am wybodaeth i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud y peth iawn. Roedd yr atgyfeiriadau at bodiatryddion a maethegwyr a gynhyrchwyd gan waith allgymorth y prosiect yn dangos nifer y bobl a oedd yn gallu gweld y mathau hynny o weithwyr proffesiynol, ac nad ydynt wedyn wedi datblygu diabetes neu gymhlethdodau diabetes. Dysgwyd hefyd bod gweithwyr cyswllt yn gefnogwyr cymheiriaid effeithiol ac nad oes rhaid i chi gael gweithwyr iechyd proffesiynol i wneud y math hwnnw o waith hybu iechyd. Mae'n tanlinellu'r ffaith bod arnom angen timau amlddisgyblaethol sy'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr iechyd proffesiynol, yn ogystal â meddygon teulu sy'n dda am weithio gyda'u cleifion, i sicrhau, lle bo modd, bod pobl yn cael eu hatal rhag gorfod mynd i'r ysbyty a chael cymhlethdodau diabetes sy'n arwain at—

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish with this, please.

Gorffennwch â hyn, os gwelwch yn dda.

16:44

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—blindness and amputations, which, in most cases, lead to premature death.

[Parhau.]—ddallineb a cholli coesau, a hynny, yn y rhan fwyaf o achosion, yn arwain at farwolaeth gynamserol.

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch.

16:44

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very proud of the services that we have, but we need to do a lot more.

Rwy'n falch iawn o'r gwasanaethau sydd gennym, ond mae angen inni wneud llawer mwy.

16:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mark Isherwood.

Galwaf ar Mark Isherwood.

16:44

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. As previously indicated, BMA Cymru hosted a briefing session in the Assembly this lunchtime to hear from the chair of the north Wales local medical committee on why general practice in north Wales is in crisis. They said that,

Diolch. Fel y nodwyd yn flaenorol, cynhaliodd BMA Cymru sesiwn friffio yn y Cynulliad amser cinio heddiw i glywed gan gadeirydd pwyllgor meddygol lleol gogledd Cymru pam y mae practisau cyffredinol yng ngogledd Cymru mewn argyfwng. Maent yn dweud fod

'several practices have been unable to fill vacancies and many GPs are seriously considering retirement because of the current expanding workload'.

sawl practis wedi methu â llenwi swyddi gwag a llawer o feddygon teulu yn ystyried o ddifrif ymddeol oherwydd y llwyth gwaith sy'n ehangu ar hyn o bryd.

They added that

Roeddent yn ychwanegu bod

'this is a huge issue for the NHS in general and your constituents in particular'.

hyn yn fater enfawr i'r GIG yn gyffredinol ac i'ch etholwyr yn arbennig.

So, the timing of this Welsh Government debate on improving primary and community healthcare might seem to some coincidental or even diversionary.

Felly, efallai y bydd amseriad y ddadl hon gan Lywodraeth Cymru ar wella gofal iechyd sylfaenol a chymunedol yn ymddangos i rai fel cyd-ddigwyddiad neu hyd yn oed yn ffordd o dynnu sylw.

The Royal College of General Practitioners Wales 'Put Patients First: Back General Practice' campaign reports that real-terms spending on GP practices in Wales has dropped by more than £27 million over three years. It highlighted a major concern in primary care, with the average age of GPs in north Wales now over 50, described by the royal college as 'a ticking time bomb'.

Mae ymgyrch Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru 'Put Patients First: Back General Practice' yn adrodd bod gwariant termau real ar bractisau meddygon teulu yng Nghymru wedi gostwng mwy na £27 miliwn dros dair blynedd. Tynnodd sylw at bryder mawr mewn gofal sylfaenol, gydag oed cyfartalog meddygon teulu yng ngogledd Cymru bellach dros 50, a'r coleg brenhinol yn disgrifio hynny fel 'bom sy'n ticio'.

After meeting a group of north Wales GPs in January, I wrote to the Minister for health, outlining their serious concerns. They talked about their inability to recruit primary care staff and doctors, about community services having deviated over 10 years so that they now cannot contact community nurses, district nurses and health visitors in the way that they could previously, as part of a team. The GPs talked about the shortage of beds at the remaining community hospitals because of a shortage of staff, and about the need for improved communication with secondary care, about the damage to cross-border services, about waiting lists and about constant changes, which are disruptive to their provision of healthcare. Instead of responding to these concerns, the Minister's reply passed the buck back to the local health boards charged with implementing his Government's policies.

Ar ôl cwrdd â grŵp o feddygon teulu o ogledd Cymru ym mis Ionawr, ysgrifennais at y Gweinidog iechyd, yn amlinellu eu pryderon difrifol. Roeddent yn siarad am eu hanallu i recriwtio staff gofal sylfaenol a meddygon, am y ffaith bod gwasanaethau cymunedol wedi newid dros 10 mlynedd fel nad ydynt yn awr yn gallu cysylltu â nyrsys cymunedol, nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd yn y ffordd y gallent yn flaenorol, fel rhan o dîm. Soniodd y meddygon teulu am y prinder gwelyau yn yr ysbytai cymuned sy'n weddill oherwydd prinder staff, ac am yr angen i gyfathrebu'n well gyda gofal eilaidd, am y difrod i wasanaethau traws-ffiniol, am restrau aros ac am newidiadau cyson, sy'n tarfu ar eu darpariaeth o ofal iechyd. Yn hytrach nag ymateb i'r pryderon hyn, roedd ateb y Gweinidog yn taflu'r baich yn ôl ar y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am weithredu polisïau ei Lywodraeth.

As one north Wales GP told me:

Fel y dywedodd un meddyg teulu o ogledd Cymru wrthyf:

'over 90% of NHS contacts take place in Primary Care yet funding from Welsh Government into Primary Care keeps falling, in real terms, every year.... If the Welsh Government wants to transfer more services into the community, then they have to ensure manpower and resources in place. It's all very well paying lip service to this, but the stark reality is that Primary care is at breaking point in Wales...and expecting more from a demoralised and overstretched workforce is a recipe for failure.'

mae dros 90% o gysylltiadau â'r GIG yn digwydd mewn Gofal Sylfaenol ac eto mae cyllid gan Lywodraeth Cymru i Ofal Sylfaenol yn dal i ostwng, mewn termau real, bob blwyddyn .... Os yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i drosglwyddo mwy o wasanaethau i'r gymuned, yna rhaid iddi sicrhau bod gweithlu ac adnoddau yn eu lle. Mae'n ddigon hawdd siarad am hyn, ond y gwir plaen yw bod gofal sylfaenol wedi cyrraedd pen ei dennyn yng Nghymru ... ac mae disgwyl mwy gan weithlu sydd wedi'i orymestyn ac wedi digalonni yn sicr o arwain at fethiant.

Those are a GP's comments. There has been anger at community hospital closures. At the request of campaigners, I formed CHANT Cymru—Community Hospitals Acting Nationally Together—during the last Assembly, promoting at national level the role of community hospitals in providing quality healthcare.

Dyna sylwadau meddyg teulu. Bu dicter ynghylch cau ysbytai cymunedol. Ar gais ymgyrchwyr, ffurfiais CHANT Cymru—Ysbytai Cymuned yn Gweithredu'n Genedlaethol Gyda'i Gilydd—yn ystod y Cynulliad diwethaf, er mwyn hyrwyddo ar lefel genedlaethol y rôl sydd gan ysbytai cymuned o ran darparu gofal iechyd o ansawdd.

The Royal College of Nursing in Wales had expressed its concern that primary and community health services required further investment to develop the community and district nursing service, independent prescribing, palliative care and respite care alongside primary care resource centres and nurse-led community hospitals with beds. Then, as now, Labour Ministers pointed the finger of blame at local health boards for the consequences of their own policies.

Roedd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn mynegi ei bryder bod ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol angen rhagor o fuddsoddiad i ddatblygu'r gwasanaeth nyrsio cymunedol ac ardal, rhagnodi annibynnol, gofal lliniarol a gofal seibiant ochr yn ochr â chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol ac ysbytai cymuned gyda gwelyau a arweinir gan nyrsys. Bryd hynny, fel yn awr, roedd Gweinidogion Llafur yn beio byrddau iechyd lleol am ganlyniadau eu polisïau eu hunain.

This Minister has stated again recently in the press that the decisions to close the community hospitals at Flint, Llangollen, Blaenau Ffestiniog and Prestatyn were supported by the local community health council. However, a letter that I received from the community health council last August stated that:

Mae'r Gweinidog wedi datgan unwaith eto yn ddiweddar yn y wasg bod y cyngor iechyd cymuned lleol yn cefnogi'r penderfyniadau i gau ysbytai cymuned yn y Fflint, Llangollen, Blaenau Ffestiniog a Phrestatyn. Fodd bynnag, mae llythyr a gefais gan y cyngor iechyd cymuned fis Awst diwethaf yn datgan:

'when Mr Drakeford says Betsi Cadwaladr Community Health Council (CHC) supports the Health Board's proposals for the closure of a number of community hospitals in North Wales, he fails to mention that the CHC has recently written to him expressing concerns about the robustness of the information provided by Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB) and which we used to inform our decision making process.'

pan fo Mr Drakeford yn dweud bod Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Betsi Cadwaladr yn cefnogi cynigion y Bwrdd Iechyd i gau nifer o ysbytai cymuned yng Ngogledd Cymru, nid yw'n sôn bod y CIC wedi ysgrifennu yn ddiweddar ato yn mynegi pryderon am gadernid y wybodaeth a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein proses o wneud penderfyniadau.

Campaigners in north Wales described the consultation on these closures as 'a sham'. Flint campaigners said, 'They're picking the figures that they want', despite thousands marching in protest at the proposals. Llangollen campaigners expressed fury that the analysis dismissed thousands who signed petitions. E-mail evidence proves Labour Welsh Government direction behind this.

Mae ymgyrchwyr yng ngogledd Cymru wedi disgrifio'r ymgynghoriad ar gau'r ysbytai hyn fel proses 'ffug'. Dywedodd ymgyrchwyr y Fflint eu bod nhw'n dewis y ffigurau y mae arnyn nhw eu heisiau, er bod miloedd wedi gorymdeithio mewn protest yn erbyn y cynigion. Mynegodd ymgyrchwyr Llangollen gynddaredd bod y dadansoddiad wedi diystyru miloedd a oedd wedi llofnodi deisebau. Mae tystiolaeth e-bost yn profi bod cyfarwyddyd Llywodraeth Lafur Cymru tu ôl i hyn.

Speaking at packed Flint community hospital group meetings in Flint town hall, I emphasised that hospital beds were needed in Flint because of high bed occupancy rates in surrounding hospitals. We heard several tragic stories about local people already affected by the hospital closure, and about the negative experiences of residents denied closer health services in England that they had previously accessed. Flint campaigners want, as a minimum, a replacement—a primary care centre with beds.

Wrth siarad mewn cyfarfodydd gorlawn grŵp ysbyty cymuned y Fflint yn neuadd tref y Fflint, pwysleisiais fod angen gwelyau ysbyty yn y Fflint oherwydd bod cyfraddau'r gwelyau sy'n llawn mewn ysbytai cyfagos yn uchel. Clywsom sawl stori drasig am bobl leol yr effeithiwyd arnynt eisoes gan gau'r ysbyty, ac am brofiadau negyddol y trigolion nad yw gwasanaethau iechyd agosach yn Lloegr yr oeddent yn arfer eu defnyddio, ar gael iddynt bellach. Mae ymgyrchwyr y Fflint eisiau, fel isafswm, ysbyty newydd—canolfan gofal sylfaenol gyda gwelyau.

As the new head of the NHS in England said last week:

Fel y dywedodd pennaeth newydd y GIG yn Lloegr yr wythnos diwethaf:

'Smaller community hospitals should play a bigger role, particularly in the care of older patients'.

Dylai ysbytai cymunedol llai chwarae mwy o ran, yn enwedig o ran gofal cleifion hŷn.

16:49

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think I am, well I know I am, very proud of the way that the Welsh Government set out its primary care strategy way back in 1999, when we all first joined the Assembly. I see the Minister for health sitting there now, but I think that he was very much involved in the background; perhaps he will tell us that. However, I thought that we had looked at that and that we were taking the two-pronged approach of saying that we would look at primary healthcare, but we would look at the causes of why people in Wales, in areas such as my own, have great inequalities in health, and that we must address that, so that people do not just keep on going around the revolving door of a district general hospital.

Rwy'n meddwl fy mod, wel rwy'n gwybod fy mod, yn falch iawn o'r modd y nododd Llywodraeth Cymru ei strategaeth gofal sylfaenol yn ôl ym 1999, pan wnaethom i gyd ymuno â'r Cynulliad cyntaf. Rwy'n gweld y Gweinidog iechyd yn eistedd fan acw yn awr, ond rwy'n meddwl ei fod wedi ymwneud llawer iawn yn y cefndir; efallai y bydd yn dweud hynny wrthym. Fodd bynnag, roeddwn yn meddwl ein bod wedi edrych ar hynny a'n bod yn gweithio mewn dull deublyg trwy ddweud y byddem yn edrych ar ofal iechyd sylfaenol, ond y byddem yn ystyried hefyd pam fod anghydraddoldebau mawr mewn iechyd ymhlith pobl yng Nghymru, mewn ardaloedd fel fy un i, a bod yn rhaid inni roi sylw i hynny, rhag i bobl barhau i fynd i mewn ac allan o ysbyty cyffredinol dosbarth yn ddi-baid.

I think that that was the strategy that we took and embarked on. A lot of that had to revolve around the GP surgeries, and GP surgeries understanding that that was the message that was coming from the Welsh Government. I have had a number of GP surgery closures in my patch, as many other Members will have had. The score stands at 2-1 in my favour. I have had three practices that have wanted to close branch surgeries and to do so unilaterally, with no consultation whatsoever. The very last one, which I lost, I still have not given up hope on. I still think that the health board may want to look at ways in which we can provide a service for people in their own town. It is not good enough for GPs to say that there is a problem and to unilaterally want to go and close branch surgeries without discussing it with the public or their patients. It is not good enough to say to people, 'Well, you will come to the main surgery, irrespective of that.' If you have a sick child and you have two other children who are not well, you cannot do two bus journeys with the sick child. You cannot do two bus journeys with an elderly relative who needs to get to the GP. GPs have to bear some of that responsibility as well. However, as I say, I am 2-1 up, and it is still extra time on the third one, so I am still hoping that I will get a resolution.

Rwy'n meddwl mai dyna oedd y strategaeth a fabwysiadwyd gennym ac y dechreuwyd arni. Roedd llawer o hynny'n gorfod ymwneud â meddygfeydd meddygon teulu, a gofalu bod meddygfeydd meddygon teulu yn deall mai dyna oedd y neges a oedd yn dod gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o feddygfeydd wedi cau yn fy ardal i, a bydd llawer o Aelodau eraill wedi gweld yr un peth yn digwydd. Saif y sgôr yn 2-1 o fy mhlaid. Mae tri phractis yn fy ardal i wedi bod yn awyddus i gau meddygfeydd cangen ac i wneud hynny yn unochrog, heb ymgynghori o gwbl. Rwy'n dal heb roi'r gorau i obeithio ynghylch yr un olaf, a gollais. Rwy'n dal i feddwl y gall y bwrdd iechyd fod yn awyddus i edrych ar ffyrdd y gallwn ddarparu gwasanaeth ar gyfer pobl yn eu tref eu hunain. Nid yw'n ddigon da i feddygon teulu ddweud bod problem a bwrw ymlaen yn unochrog i gau meddygfeydd cangen heb drafod gyda'r cyhoedd na'u cleifion. Nid yw'n ddigon da i ddweud wrth bobl, 'Wel, bydd yn rhaid i chi ddod i'r brif feddygfa, waeth am hynny.' Os oes gennych blentyn sâl a bod gennych ddau o blant eraill nad ydynt yn dda, ni allwch wneud dwy daith bws gyda'r plentyn sâl. Ni allwch wneud dwy daith bws gyda pherthynas oedrannus sydd angen gweld y meddyg teulu. Rhaid i feddygon teulu ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb hwnnw hefyd. Fodd bynnag, fel y dywedais, rwyf 2-1 i fyny, ac mae'n dal i fod yn amser ychwanegol ar y trydydd un, felly rwy'n dal i obeithio y byddaf yn cael penderfyniad.

I am very proud as well to see that this Welsh Government is working hard to get that commitment from GPs that we will improve access to surgeries, and that we will look at the way in which out-of-hours services work. Minister, I know that you accompanied me—or I accompanied you; I do not know which way around it was, but anyway we were both there—to the new emergency quadrant, which is what they call it now, at Glan Clwyd Hospital. I think that it goes live on Thursday. I was very impressed with what they were telling us. The ethos of that will be 'access to admit' rather than 'admit to access'—no, sorry, it is 'assess to admit', rather than 'admit to assess'. I knew that I would get that wrong. I was impressed with it, and I have remembered it, but I still get it wrong. I think that that is the answer to how we tell people about how we use GP surgeries. It is no good my GP surgery holding a diabetic clinic on a Tuesday afternoon, thank you. Where am I, as a diabetic? I am down here. End of story. They have to accept that, if they want to do these things, they have to look at their patient books and patient numbers, and they have to fit it all around the patients, rather than around what suits them best.

Rwy'n falch iawn hefyd o weld bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i gael yr ymrwymiad hwnnw gan feddygon teulu y byddwn yn gwella mynediad at feddygfeydd, ac y byddwn yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau tu allan i oriau arferol yn gweithio. Weinidog, rwy'n gwybod eich bod wedi dod gyda mi—neu roeddwn i wedi dod gyda chi; wn i ddim pa ffordd yr oedd hi, ond beth bynnag roeddem ill dau yno—i'r cwadrant achosion brys newydd, sef yr hyn y maent yn ei alw nawr, yn Ysbyty Glan Clwyd. Rwy'n meddwl ei bod yn mynd yn fyw ddydd Iau. Roeddwn yn llawn edmygedd o'r hyn yr oeddent yn ei ddweud wrthym. Ethos hynny fydd 'rhoi mynediad i dderbyn' yn hytrach na 'derbyn i roi mynediad'—na, mae'n ddrwg gennyf, 'asesu i dderbyn ' ydyw, yn hytrach na 'derbyn i asesu'. Roeddwn i'n gwybod y byddwn yn ei gael yn anghywir. Roeddwn yn llawn edmygedd ohono, ac rwyf wedi cofio hynny, ond rwy'n dal i'w gael yn anghywir. Rwy'n meddwl mai dyna'r ateb i sut yr ydym yn dweud wrth bobl am y ffordd yr ydym yn defnyddio meddygfeydd meddygon teulu. Nid oes diben i fy meddygfa gynnal clinig diabetig ar brynhawn dydd Mawrth, diolch i chi. Ble'r ydw i, fel diabetig? Rwyf i lawr yma. Diwedd y stori. Mae'n rhaid iddynt dderbyn hynny, os ydynt am wneud y pethau hyn, mae'n rhaid iddynt edrych ar eu llyfrau cleifion a niferoedd cleifion, a rhaid iddynt ofalu bod popeth yn gweddu i'r cleifion, yn hytrach nag yn gweddu orau iddynt hwy.

I did not attend the BMA briefing at lunchtime. I was elsewhere doing other things. However, there are times when GPs have to come in and be a part of what we are trying to do here, as a Welsh Government. I would like to see some more emphasis put on salaried GPs. I know that GPs are probably sitting there, thinking, 'Crikey, what is she on about now?' However, in those areas where it is difficult to recruit and where we have the ticking time bomb of surgeries that are still single-handed—those surgeries with GPs, predominantly men, who are reaching retirement age—we should be doing more with salaried GPs. There seems to be very little said about salaried GPs. Salaried GP posts offer women an opportunity to promote themselves within the medical profession.

Doeddwn i ddim yn bresennol yn sesiwn friffio'r BMA amser cinio. Roeddwn yn rhywle arall yn gwneud pethau eraill. Fodd bynnag, mae adegau pan fydd yn rhaid i feddygon teulu ddod i mewn a bod yn rhan o'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yma, fel Llywodraeth Cymru. Hoffwn weld mwy o bwyslais ar feddygon teulu cyflogedig. Gwn fod meddygon teulu fwy na thebyg yn eistedd yno, yn meddwl, 'Am beth ar y ddaear y mae hi'n siarad nawr?' Fodd bynnag, yn yr ardaloedd hynny lle mae'n anodd recriwtio a ble mae gennym y bom amser o feddygfeydd sy'n dal ar eu pennau'u hunain—y meddygfeydd hynny gyda meddygon teulu, dynion yn bennaf, sy'n cyrraedd oedran ymddeol—dylem fod yn gwneud mwy â meddygon teulu cyflogedig . Mae'n ymddangos mai ychydig iawn sy'n cael ei ddweud am feddygon teulu cyflogedig. Mae swyddi meddygon teulu cyflogedig yn cynnig cyfle i fenywod hyrwyddo eu hunain yn y proffesiwn meddygol.

I just want to very briefly mention the new north Denbighshire project that is, hopefully, about to come online. That will provide some community beds. What it will not do—hopefully, it will not—is just replace the community hospital for the sake of replacing the community hospital, but it will instead offer a service to those members of the community who will need to operate or to go there to have blood tests or a nurse-prescribing event, rather than trailing up to Glan Clwyd. I welcome that, and I would like to know more from the Minister about how—

Rwyf eisiau sôn yn gryno iawn am brosiect newydd gogledd Sir Ddinbych sydd, gobeithio, ar fin dod ar-lein. Bydd hwnnw'n darparu rhai gwelyau cymunedol. Yr hyn na fydd yn ei wneud—gobeithio, na fydd—yw disodli'r ysbyty cymunedol dim ond er mwyn disodli'r ysbyty cymunedol. Yn hytrach, bydd yn cynnig gwasanaeth i'r aelodau hynny o'r gymuned a fydd angen triniaeth neu fynd yno i gael profion gwaed neu gael pregripsiwn gan nyrsys, yn hytrach na llusgo i Glan Clwyd. Rwy'n croesawu hynny, a hoffwn wybod mwy gan y Gweinidog ynglŷn â sut—

16:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Finish now.

Gorffennwch yn awr.

16:54

## Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—we take forward primary care.

[Parhau.]—yr ydym yn bwrw ymlaen â gofal sylfaenol.

16:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister for Health and Social Services to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl.

16:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I thank all those Members who have taken part in what has been an interesting and thoughtful debate. Ann Jones opened her remarks by reminding us that anyone who has followed health policy making in Wales in the devolution period will know just how hard it has been to shift the terms of the debate to persuade people that health is far more than hospitals, and far more than doctors, too. Around the Chamber this afternoon, there is clearly some work still to be done in that regard. Today's motion has been a conscious attempt to focus on those parts of the system where patients have the vast majority of their contacts with health and social care. The scale of activity undertaken in such services is absolutely striking: there were 19 million appointments in primary care alone in Wales last year, without taking into account the 0.75 million eye tests carried out, the more than 1 million appointments in dentistry, and the tens of millions of contacts in community pharmacy, where the vast bulk of the 74.2 million items prescribed by GPs in Wales alone last year are dispensed. Against the background of activity on this industrial scale, we have a system that continues to command the widespread support and admiration of those who use it. What commercial organisation would not give its eye teeth to be able to say that more than nine out of 10 of those people who use its services remain highly satisfied with it?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r holl Aelodau hynny sydd wedi cymryd rhan mewn dadl ddiddorol a meddylgar. Agorodd Ann Jones ei sylwadau trwy ein hatgoffa y bydd unrhyw un sydd wedi dilyn y broses o lunio polisi iechyd yng Nghymru yn y cyfnod ers datganoli yn gwybod yn union pa mor anodd y mae wedi bod i symud telerau'r ddadl i ddarbwyllo pobl bod iechyd yn llawer mwy nag ysbytai, ac yn llawer mwy na meddygon, hefyd. O gwmpas y Siambr brynhawn heddiw, mae'n amlwg bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd yn hynny o beth. Mae'r cynnig heddiw wedi bod yn ymdrech ymwybodol i ganolbwyntio ar y rhannau hynny o'r system lle mae cleifion yn cael y mwyafrif llethol o'u cysylltiadau gydag iechyd a gofal cymdeithasol. Mae graddfa'r gweithgaredd mewn gwasanaethau o'r fath yn gwbl drawiadol: roedd 19 miliwn o apwyntiadau mewn gofal sylfaenol yn unig yng Nghymru y llynedd, heb ystyried y 0.75 miliwn o brofion llygaid a gynhaliwyd, y miliwn a mwy o apwyntiadau mewn deintyddiaeth, a'r degau o filiynau o gysylltiadau mewn fferylliaeth gymunedol, lle y cafodd y rhan helaethaf o'r 74.2 miliwn o eitemau a ragnodwyd gan feddygon teulu yng Nghymru y llynedd eu dosbarthu. Yn erbyn y cefndir o weithgaredd ar y raddfa ddiwydiannol hon, mae gennym system sy'n parhau i ennyn cefnogaeth ac edmygedd eang y rhai sy'n ei defnyddio. Pa sefydliad masnachol na fyddai'n rhoi ei law dde i allu dweud bod mwy na naw o bob 10 o'r bobl sy'n defnyddio ei wasanaethau yn dal i fod yn fodlon iawn ag ef?

We have quite rightly talked this afternoon about the challenges faced by the service, and they are real, but let us not forget the achievements of primary, community and social care in Wales, because they are very real too. Over recent years, we have seen a sustained reduction in the use of residential care, despite the growing numbers of very elderly people in our population. We have seen sustained reductions in emergency hospital admissions, and re-admissions too, for chronic conditions. These successes have been achieved by bringing services together. I very much agreed with what Kirsty Williams said: integrated services are about services working closer together, and not about imposing new structural solutions and upheavals on services that simply get in the way of their being able to go on doing what they have already begun to demonstrate their ability to do.

Rydym wedi siarad yn gwbl briodol brynhawn heddiw am yr heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu, ac maent yn real, ond gadewch inni beidio ag anghofio'r hyn y mae gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol yng Nghymru wedi'i gyflawni, gan fod y rhain yn real iawn hefyd. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld gostyngiad cyson yn y defnydd o ofal preswyl, er gwaethaf y nifer cynyddol o bobl oedrannus iawn yn ein poblogaeth. Rydym wedi gweld gostyngiadau parhaus yn nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty, ac ail-dderbyniadau hefyd, ar gyfer cyflyrau cronig. Cyflawnwyd y llwyddiannau hyn trwy ddod â gwasanaethau at ei gilydd. Roeddwn yn cytuno i raddau helaeth iawn â'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams: mae gwasanaethau integredig yn ymwneud â gwasanaethau yn gweithio'n nes at ei gilydd, ac nid â gorfodi atebion a chwyldro strwythurol newydd ar wasanaethau sydd ond yn eu rhwystro rhag mynd ati i wneud yr hyn y maent eisoes wedi dechrau dangos y gallant ei wneud.

We have also heard a great deal this afternoon about challenges in GP recruitment, and there are parts of Wales where those challenges are real, and I will say something in a moment about what is being done to address those challenges. However, it is important to put some basic facts on the record: the number of GPs working in the Welsh NHS continues to rise, not fall. It rose again in 2013, and last year, for the first time ever, the number of GPs working in the Welsh NHS went through the 2,000 barrier. As Jenny Rathbone has told us, the number of—

Rydym hefyd wedi clywed llawer brynhawn heddiw ynghylch heriau o ran recriwtio meddygon teulu, ac mae rhannau o Gymru lle mae'r heriau hynny yn real, a byddaf yn dweud rhywbeth mewn eiliad am yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig i nodi rhai ffeithiau sylfaenol: mae nifer y meddygon teulu sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru yn parhau i godi, nid disgyn. Cododd eto yn 2013, a'r llynedd, am y tro cyntaf erioed, aeth nifer y meddygon teulu sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru heibio'r 2,000. Fel y mae Jenny Rathbone wedi dweud wrthym, mae nifer y—

16:58 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:58 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course.

Wrth gwrs.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

16:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, I am very grateful. I accept that the number of GPs working in Wales has increased, but, given the demographic changes, given the age profile, and given that more people are living with chronic conditions, do you accept that the pace of growth is being outstripped by patient demand?

Diolch i chi, rwy'n ddiolchgar iawn. Rwy'n derbyn bod nifer y meddygon teulu sy'n gweithio yng Nghymru wedi cynyddu, ond o ystyried y newidiadau demograffig, o ystyried y proffil oedran, ac o ystyried bod mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau cronig, a ydych yn derbyn bod y galw gan gleifion yn cynyddu'n gyflymach na'r twf yn y niferoedd?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

16:58 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a sensible point that the Member makes, in that you have to balance increasing demand with supply, but the relish with which some Members of the Conservative party have used the word 'crisis' really—

Mae'n bwynt synhwyrol y mae'r Aelod yn ei wneud, gan fod yn rhaid i chi gydbwyso galw cynyddol a chyflenwad, ond mae awch rhai aelodau o'r blaid Geidwadol wrth ddefnyddio'r gair 'argyfwng' wir yn—

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

16:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They are not my words; I was quoting other people's words.

Nid fy ngeiriau i ydynt; roeddwn yn dyfynnu geiriau pobl eraill.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

16:58 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, well, it is with relish that they use that word, and it simply is not borne out by those basic facts, because, as Jenny Rathbone said, the number of registered patients per GP is falling in Wales, not rising, and that helps to address the point that Darren Millar made about the nature of demand.

Ie, wel, maent yn defnyddio'r gair hwnnw gydag awch, ac nid yw'r ffeithiau sylfaenol hynny yn ategu'r ffaith, oherwydd bod nifer y cleifion cofrestredig fesul meddyg teulu, fel y dywedodd Jenny Rathbone, yn gostwng yng Nghymru, nid yn codi, ac mae hynny'n helpu i fynd i'r afael â'r pwynt a wnaeth Darren Millar am natur y galw.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

16:59 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

16:59 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

16:59 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The term 'crisis' is not one that we used; it was one that was used to us, and we are simply quoting it. The figures that we were given are that, in the home counties, four GPs apply for each vacancy, in the north of England, it is one for each vacancy, and, in north Wales, it is just 0.3 of an applicant per vacancy. That is why they are describing it as a crisis.

Diolch. Nid ni a ddefnyddiodd y term 'argyfwng'; roedd yn un a ddefnyddiwyd wrth siarad â ni, a'i ddyfynnu rydym ni, a dim mwy. Y ffigurau a gawsom yw, bod pedwar o feddygon teulu yn gwneud cais am bob swydd wag yn siroedd de-ddwyrain Lloegr, un ar gyfer pob swydd wag yng ngogledd Lloegr, ac, yng ngogledd Cymru, dim ond 0.3 ymgeisydd sydd am bob swydd wag. Dyna pam eu bod yn ei ddisgrifio fel argyfwng.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

16:59 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I would like Mark Isherwood to think about how he reconciles some of the things that he has said with the fact that there are more GPs in Wales today than there have ever been in the past. If there is that much of a recruitment crisis, how is it that there are more GPs year-on-year than before? Let me also say that the incomes of GPs in Wales have been growing at a time when GP income in Scotland and in England has been in decline.

Wel, hoffwn i Mark Isherwood feddwl am sut y mae'n cysoni rhai o'r pethau y mae wedi'u dweud â'r ffaith fod mwy o feddygon teulu yng Nghymru heddiw nag y bu erioed yn y gorffennol. Os oes cymaint â hynny o argyfwng recriwtio, sut mae mwy o feddygon teulu flwyddyn ar ôl blwyddyn nag yn y gorffennol? Gadewch imi hefyd ddweud bod incwm meddygon teulu yng Nghymru wedi bod yn cynyddu ar adeg pan fo incwm meddygon teulu yn yr Alban ac yn Lloegr wedi bod yn gostwng.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

While the GP age profile is an important point for us to take seriously, the number of GPs aged over 55 in Wales is within a percentage point of those in England and in Northern Ireland. It simply is not a Welsh issue. Nevertheless, there are places where GP recruitment is a challenge. The Welsh Government's response is being led at the highest level because it is being directly led by the chief medical officer. Among the actions we are taking are: making the GP training programme more attractive to doctors, particularly to bring them into rural Wales; expanding the GP retainer scheme; simplifying GP returner processes; making locum recruitment easier; adopting new GP contract models to encourage, for example, new federations of GP practices; making it clear to the deanery that there is absolutely no objection from this Minister to them organising GP rotations on a cross-north Wales and north-west basis, where that will help; and providing more salaried GPs, to answer Ann Jones's point.

Er bod proffil oedran meddygon teulu yn bwynt pwysig inni ei gymryd o ddifrif, mae nifer y meddygon teulu dros 55 oed yng Nghymru o fewn un pwynt canran i'r nifer yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Nid problem i Gymru'n unig yw hon. Serch hynny, mae yna fannau lle mae recriwtio meddygon teulu yn her. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn cael ei arwain ar y lefel uchaf am ei fod yn cael ei arwain yn uniongyrchol gan y prif swyddog meddygol. Mae'r camau yr ydym yn eu cymryd yn cynnwys: gwneud y rhaglen hyfforddi meddygon teulu yn fwy deniadol i feddygon, yn enwedig i ddod â nhw i mewn i Gymru wledig; ehangu'r cynllun cadw meddygon teulu; symleiddio prosesau i ddenu meddygon teulu yn ôl i'r proffesiwn; ei gwneud yn haws recriwtio locwm; mabwysiadu modelau contract newydd ar gyfer meddygon teulu i annog ffederasiynau newydd o bractisau meddygon teulu, er enghraifft; ei gwneud yn glir i'r ddeoniaeth nad oes unrhyw wrthwynebiad gan y Gweinidog hwn iddynt drefnu cylchdroadau meddygon teulu ar draws gogledd Cymru a'r gogledd-orllewin, lle bydd hynny'n helpu; a darparu mwy o feddygon teulu cyflogedig, i ateb pwynt Ann Jones.

Alongside all the efforts to secure the services of more GPs, we also need to remodel the primary care workforce. The way in which primary care services are provided in the future will not be identical to the way in which they have been provided in the past. Ann Jones pointed to what we saw in Glan Clwyd last week, where I was definitely accompanying her, rather than the other way around. [Laughter.] We will need to bolster GP practice with a wider range of professional workers who are able to undertake things that GPs have needed to do in the past, thus freeing up GPs to do what only GPs can do. We have a new series of drivers in the system to help us to do that: the new three-year planning framework for the NHS, and the new GP contract, negotiated for this year, putting new powers in the hands of primary care in their 64 clusters. There is the additional investment, which, even in these really difficult times, we are able to provide through the Welsh Government—extra investment in revenue and extra investment in capital. There is extra investment in innovation, including examples such as the one that Darren Millar used of Age UK's work in Cornwall. Dr Bernie Hughes, who worked here in the Welsh Government at the time when Jane Hutt was the Minister for health, is leading work in Age Cymru in Wales to make sure that we learn exactly those lessons and, as Jenny Rathbone said, to provide a new relationship between the service and the public. The NHS is free from charges at the point of use, but it is not free of obligation. We have to do more to help educate patients to use the services that we have in a fully co-productive way.

Ochr yn ochr â'r holl ymdrechion i sicrhau mwy o feddygon teulu, mae angen inni hefyd ailfodelu'r gweithlu gofal sylfaenol. Ni fydd gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu darparu yn y dyfodol yn union yr un fath â'r ffordd y maent wedi cael eu darparu yn y gorffennol. Cyfeiriodd Ann Jones at yr hyn a welsom yn Glan Clwyd yr wythnos diwethaf, lle'r oeddwn i yn bendant gyda hi, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. [Chwerthin.] Bydd angen inni gryfhau practisau meddyg teulu gydag ystod ehangach o weithwyr proffesiynol sy'n gallu ymgymryd â phethau yr oedd angen i feddygon teulu eu gwneud yn y gorffennol, gan felly ryddhau meddygon teulu i wneud yr hyn na all neb ond meddygon teulu eu gwneud. Mae gennym gyfres newydd o sbardunau yn y system i'n helpu ni i wneud hynny: y fframwaith cynllunio tair blynedd newydd ar gyfer y GIG, a'r contract newydd i feddygon teulu, y trafodwyd ar ei gyfer eleni, sy'n rhoi pwerau newydd yn nwylo gofal sylfaenol yn eu 64 clwstwr. Ceir buddsoddiad ychwanegol, y gallwn, hyd yn oed yn y cyfnod anodd iawn hwn, ei ddarparu drwy Lywodraeth Cymru—buddsoddiad ychwanegol mewn refeniw a buddsoddiad ychwanegol mewn cyfalaf. Ceir buddsoddiad ychwanegol mewn arloesedd, gan gynnwys enghreifftiau fel yr un a ddefnyddiodd Darren Millar am waith Age UK yng Nghernyw. Mae'r Dr Bernie Hughes, a oedd yn gweithio yma yn Llywodraeth Cymru pan oedd Jane Hutt yn Weinidog iechyd, yn arwain gwaith yn Age Cymru yng Nghymru i wneud yn siŵr ein bod yn dysgu'r union wersi hynny ac, fel y dywedodd Jenny Rathbone, i ddarparu perthynas newydd rhwng y gwasanaeth a'r cyhoedd. Mae'r GIG yn rhad ac am ddim ar y pwynt defnyddio, ond nid yw'n rhydd rhag dyletswydd. Mae'n rhaid inni wneud mwy i helpu i addysgu cleifion i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd gennym mewn ffordd gwbl gyd-gynhyrchiol.

This Government recognises, as has been agreed in many parts of the Chamber, that the future of the NHS lies in a stronger set of primary and community services, closely linked to social care and delivered in new ways by a widened professional workforce. The age of austerity makes that shift more urgent and I am glad that we have had the opportunity to address it here this afternoon.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod, fel y mae sawl rhan o'r Siambr wedi cytuno, bod dyfodol y GIG yn gorwedd mewn cyfres gryfach o wasanaethau sylfaenol a chymunedol sy'n cael eu cyflwyno mewn ffyrdd newydd gan weithlu proffesiynol wedi'i ehangu, a chysylltiad agos rhyngddynt â gofal cymdeithasol. Mae mwy o frys i wneud y newid hwnnw mewn cyfnod o lymder ac rwy'n falch ein bod wedi cael y cyfle i ymdrin â hynny yma brynhawn heddiw.

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection. I defer all voting under this item until voting time.

Diolch ichi, Weinidog. Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Llywodraethu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Paul Davies.*

## Governance of National Parks and Areas of Outstanding Natural Beauty in Wales

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Paul Davies.*

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i gynnig y cynnig—John Griffiths.

I call on the Minister for Culture and Sport to move the motion—John Griffiths.

Cynnig NDM5516 Lesley Griffiths

Motion NDM5516 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod gwerth presennol a gwerth posibl tirweddau dynodedig Cymru i amgylchedd, economi, iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl Cymru.

2. Yn nodi'r adolygiad sydd yn yr arfaeth o drefniadau llywodraethu ar gyfer tirweddau dynodedig yng Nghymru.

1. Recognises the current and potential value of Wales' designated landscapes to the environment, economy, health, well-being and quality of life of the people of Wales.

2. Notes the forthcoming review of governance arrangements for designated landscapes in Wales.

17:03 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

In 1949, 65 years ago, as part of our post-war reconstruction, an Act of Parliament established our designated landscapes. The intention was twofold: to preserve and enhance our areas of natural beauty and to provide opportunities for public recreation. In Wales, we now have eight areas with landscape designations: three national parks and five areas of outstanding natural beauty. All share the common purpose of conserving and enhancing the natural beauty that makes them so special. Our national parks have a second purpose: to promote opportunities for understanding and enjoyment of their special qualities. These purposes have served us well. Our designated landscapes and seascapes are iconic and loved at home and abroad. They are important national, natural and cultural assets, underpinning our wealth and helping to define us as a nation, projecting Wales on the world stage. Some 18 million people visit them each year, generating over £1.5 billion pounds, spent across Wales, contributing to the national economy and local communities. This is reflected in the 95% of people in Wales who consider designated landscapes important to them, and the 96% of people who think that children should experience a national park first-hand. Also studies have highlighted benefits to mental and physical wellbeing from taking exercise in the natural environment.

Ym 1949, 65 mlynedd yn ôl, yn rhan o'n hailadeiladu ar ôl y rhyfel, sefydlodd Deddf Seneddol ein tirweddau dynodedig. Roedd y bwriad yn ddeublyg: i gadw a gwella ein hardaloedd o harddwch naturiol ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer hamdden i'r cyhoedd. Yng Nghymru, mae gennym wyth ardal â dynodiadau tirwedd: tri pharc cenedlaethol a phum ardal o harddwch naturiol eithriadol. Maent i gyd yn rhannu'r diben cyffredin o warchod a gwella'r harddwch naturiol sy'n eu gwneud mor arbennig. Mae gan ein parciau cenedlaethol ail bwrpas: hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dealltwriaeth a mwynhad o'u rhinweddau arbennig. Mae'r dibenion hyn wedi bod yn fuddiol iawn i ni. Mae ein tirweddau a’n glannau dynodedig yn eiconig ac yn ennyn cariad gartref a thramor. Maent yn asedau cenedlaethol, naturiol a diwylliannol pwysig, sy'n ategu ein cyfoeth ac yn helpu i’n diffinio ni fel cenedl, gan roi Cymru ar lwyfan y byd. Mae tua 18 miliwn o bobl yn ymweld â hwy bob blwyddyn, gan gynhyrchu dros £1.5 biliwn o bunnoedd, a werir ledled Cymru, gan gyfrannu at yr economi genedlaethol a chymunedau lleol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y 95% o bobl yng Nghymru sy'n ystyried bod tirweddau dynodedig yn bwysig iddynt, a’r 96% o bobl sy'n credu y dylai plant gael profiad uniongyrchol o barc cenedlaethol. Hefyd mae astudiaethau wedi amlygu manteision i les meddyliol a chorfforol drwy wneud ymarfer corff yn yr amgylchedd naturiol.

So, we have to understand this importance and ensure that our strategy and structures are effective and fit for purpose. The Commission on Public Service Governance and Delivery put forward three recommendations regarding national park authorities, and I am considering these at the current time. I am also committed to undertaking a governance review of Wales’s designated landscapes, carried out by an independent body appointed by me and supported by officials from my department. Given this ongoing work, it would be premature to accept amendments 2 and 3, but we will support amendment 1.

Felly, mae'n rhaid i ni ddeall y pwysigrwydd hwn a sicrhau bod ein strategaeth a’n strwythurau yn effeithiol ac yn addas at i'w diben. Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyflwyno tri argymhelliad o ran awdurdodau parc cenedlaethol, ac rwy’n ystyried y rhain ar hyn o bryd. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llywodraethu o dirweddau dynodedig Cymru, a gynhelir gan gorff annibynnol a benodir gennyf i ac a gefnogir gan swyddogion fy adran i. O ystyried y gwaith parhaus hwn, byddai'n gynamserol i dderbyn gwelliannau 2 a 3, ond byddwn yn cefnogi gwelliant 1.

I will be asking this review body to consider the purposes of our national parks and our areas of outstanding natural beauty. I want to ensure that they are equipped to meet the challenges we face now and in the future. There is a direct link between the purposes and Welsh Government’s commitment to sustainability—environmental, economic and social. An integrated ecosystems approach to landscape, marine conservation and socioeconomic issues can be used to further organisational planning.

Byddaf yn gofyn i’r corff adolygu ystyried dibenion ein parciau cenedlaethol a’n hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Rwyf am sicrhau bod ganddynt y gallu i ymdrin â'r heriau a wynebwn yn awr ac yn y dyfodol. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y dibenion ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynaliadwyedd—amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Gellir defnyddio ymagwedd ecosystemau integredig at dirwedd, cadwraeth forol a materion economaidd-gymdeithasol ar gyfer cynllunio sefydliadol pellach.

It is crucial to maintain the values and integrity of these important places, and the wellbeing of those who live in or use them. Given this, we will consider the possibility of creating a single type of designation for Wales—a designation encompassing both national parks and areas of outstanding natural beauty. Following this, I will ask the review body to consider different governance arrangements to best deliver statutory purposes, promoting collaboration and joint working and avoiding duplication and waste. It will examine how relationships with local authorities, Visit Wales, Natural Resources Wales, third sector groups and others can be made more effective in delivering for the people of Wales.

Mae'n hanfodol i gynnal gwerthoedd ac uniondeb y lleoedd pwysig hyn, a lles y rhai sy'n byw ynddynt neu’n eu defnyddio. O gofio hyn, byddwn yn ystyried y posibilrwydd o greu un math o ddynodiad i Gymru—dynodiad yn cwmpasu parciau ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Yn dilyn hyn, byddaf yn gofyn i'r corff adolygu ystyried trefniadau llywodraethu gwahanol i gyflawni dibenion statudol yn y ffordd orau, gan hyrwyddo cydweithio a gweithio ar y cyd ac osgoi dyblygu a gwastraff. Bydd yn edrych ar sut y gellir gwneud cysylltiadau gydag awdurdodau lleol, Croeso Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, grwpiau'r trydydd sector ac eraill yn fwy effeithiol wrth gyflawni ar gyfer pobl Cymru.

17:08 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister give way?

A wnaiff y Gweinidog ildio?

17:08 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will give way.

Rwyf yn ildio.

17:08 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for giving way. I very much welcome what he just said about the possibility of unifying designations in Wales. Although this debate will be a lot about governance, does he also accept that many of those areas, particularly areas of outstanding natural beauty, do have depressed wage levels at the moment? One of the things that we need to do is work better together to make the link between the area that people live in and the economy and how they can benefit from the promotion of that area. Is that something that he will take on board when looking at governance arrangements?

Rwy’n diolch i'r Gweinidog am ildio. Rwy’n croesawu'n fawr yr hyn y mae newydd ei ddweud am y posibilrwydd o uno dynodiadau yng Nghymru. Er y bydd y ddadl hon yn ymwneud yn helaeth â llywodraethu, a yw ef hefyd yn derbyn bod llawer o'r ardaloedd hynny, yn enwedig ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, â lefelau cyflog isel ar hyn o bryd? Un o'r pethau y mae angen i ni ei wneud yw gweithio'n well gyda'n gilydd i wneud y cysylltiad rhwng yr ardal y mae pobl yn byw ynddi a'r economi a sut y gallant elwa o ganlyniad i hybu'r ardal honno. A yw hynny'n rhywbeth y bydd yn ei ystyried wrth edrych ar drefniadau llywodraethu?

17:08 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Very much so. It is very important that we consider sustainable development in a rounded way when we look at these matters, and, of course, economic benefits and the needs of a rural economy are central to a rounded approach of sustainable development. That will very much be at the forefront of the work that takes place.

Yn bendant iawn. Mae'n bwysig iawn ein bod yn ystyried datblygu cynaliadwy mewn modd cyflawn pan fyddwn yn edrych ar y materion hyn, ac, wrth gwrs, mae manteision economaidd ac anghenion economi wledig yn ganolog i ddull cyflawn o ddatblygiad cynaliadwy. Bydd hynny’n flaenllaw iawn yn y gwaith a fydd yn cael ei wneud.

I intend that any review of governance will ensure that these living, working landscapes will be preserved for future generations. They must be exemplars for sustainability, and as I have just said, they must foster vibrant rural communities as well as providing those extensive recreational opportunities, thriving ecosystems and a rich biodiversity. There should be effective participation in decision making and sustainable management.

Rwy’n bwriadu y bydd unrhyw adolygiad o lywodraethu’n sicrhau y bydd y tirweddau hyn ar gyfer byw a gweithio yn cael eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n rhaid iddynt fod yn enghreifftiau patrymol ar gyfer cynaliadwyedd, ac fel yr wyf newydd ei ddweud, mae'n rhaid iddynt feithrin cymunedau gwledig bywiog yn ogystal â darparu cyfleoedd hamdden eang, ecosystemau ffyniannus a bioamrywiaeth gyfoethog. Dylai fod cyfranogiad effeithiol wrth wneud penderfyniadau ac o ran rheoli cynaliadwy.

These designated landscapes will be areas where new solutions to environmental issues are tried, tested and shared, with consideration of the challenges for rural areas in driving innovation. Action for the environment and rural communities will exemplify that true collaboration, reducing regulation and targeting investment appropriately.

Bydd y tirweddau a ddynodwyd yn ardaloedd lle y bydd atebion newydd i faterion amgylcheddol yn cael eu cynnal, eu profi a’u rhannu, gan ystyried yr heriau ar gyfer ardaloedd gwledig wrth sbarduno arloesedd. Bydd camau gweithredu ar gyfer yr amgylchedd a chymunedau gwledig yn batrwm ar gyfer y cydweithio gwirioneddol hwnnw, gan leihau rheoleiddio a thargedu buddsoddiad yn briodol.

Managing positive landscape change for the benefit of people and landscapes will be evident in plans, activities and communication. To function effectively, they must adapt, be flexible and strive to link together to meet national priorities, statutory purposes and local community interests.

Bydd rheoli newid cadarnhaol yn y dirwedd er budd pobl a thirweddau yn amlwg mewn cynlluniau, gweithgareddau a chyfathrebu. Er mwyn gweithio'n effeithiol, mae'n rhaid iddynt addasu, bod yn hyblyg ac ymdrechu i gysylltu â'i gilydd i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, dibenion statudol a buddiannau cymunedol lleol.

We have achieved much in the last 65 years. The time is now right to revisit the ideas that drove our predecessors to designate these areas, to build upon what has been achieved and to make sure that we put in place the structures and ideas that will enable the people of Wales to be as proud of the parks of the next 65 years as we are today.

Rydym wedi cyflawni llawer yn y 65 mlynedd diwethaf. Dyma'r amser iawn i edrych eto ar y syniadau a sbardunodd ein rhagflaenwyr i ddynodi’r ardaloedd hyn, er mwyn adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ac i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi ar waith y strwythurau a'r syniadau a fydd yn galluogi pobl Cymru i fod mor falch o’r parciau am y 65 mlynedd nesaf ag yr ydym heddiw.

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the three amendments to the motion. I call on William Powell to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn dathlu cyfraniad tri pharc cenedlaethol Cymru at ein treftadaeth ac yn cefnogi'r rôl y maent yn parhau i'w chwarae yn hybu hunaniaeth unigryw Cymru.*

*Celebrates the contribution of Wales' three National Parks to our heritage and supports the role they continue to play in fostering Wales' unique identity.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn credu y byddai mwy o atebolrwydd democrataidd yn arwain at wella'r modd y mae'r parciau cenedlaethol yn cael eu llywodraethu ac yn gwella'r berthynas rhwng awdurdodau'r parciau a'r trefi a'r cymunedau sydd o fewn eu ffiniau.*

*Believes that increased democratic accountability would lead to the betterment of National Park governance and enhance the relationship between park authorities and the towns and communities which fall within their boundaries.*

17:10

## William Powell

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

I am grateful to the Minister for indicating Government support for one of those two amendments. However, I am somewhat disappointed about his reserve with regard to our second amendment.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am nodi cefnogaeth y Llywodraeth i un o'r ddau welliant hynny. Fodd bynnag, rwyf braidd yn siomedig am ei dawedogrwydd o ran ein hail welliant.

It gives me great pleasure to contribute to this debate today, as a long-term resident of one of Wales's national parks, indeed as a former member of the relevant national park authority, and as a regional Member for a region that contains the vast majority of the land mass of our three national parks and several of the AONBs. It remains clear to me that while reform is necessary, the arguments for the continued existence of these protected landscapes are more important than ever.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gyfrannu at y ddadl hon heddiw, fel preswylydd tymor hir un o barciau cenedlaethol Cymru, yn wir fel cyn aelod o'r awdurdod parc cenedlaethol perthnasol, ac fel Aelod rhanbarthol ar gyfer rhanbarth sy'n cynnwys y mwyafrif helaeth o dirfas ein tri pharc cenedlaethol a sawl un o'r ardaloedd harddwch naturiol eithriadol. Mae'n parhau i fod yn amlwg i mi, er bod diwygio yn angenrheidiol, bod y dadleuon dros fodolaeth barhaus y tirweddau gwarchodedig hyn yn fwy pwysig nag erioed.

To understand the value that sites such as our national parks add to our economy, history and heritage, we need to look no further than what has already been stated in the ARUP report 'Valuing Wales' National Parks', which was published recently. It reminds us that unlike those in many other countries, our national parks are places of human habitation and have, within their boundaries, many hundreds of established communities and businesses that must be allowed to sustain and to thrive. Such interests contribute more than £0.5 billion pounds to Wales's gross value added and represent 1.2% of the overall Welsh economy. More than 80,000 people have their homes in our national parks, and almost 30,000 are employed within their boundaries. They are visited by more than 12 million people from the UK and much further afield every year. They cost the Welsh taxpayer less than £5 per person per year to fund. With such figures in mind, it is easy to understand why our national parks are considered so important and why it is that I have continually called for reform of their governance arrangements. However, in doing so, I have also stressed how important it is that we do not throw out the baby with the bath water and fatally erode our hierarchy of protected landscapes, to the point where they are no longer capable of being protected and where the enhancement of the environments that we hold so dear is not possible. It is interesting, indeed, to hear the proposals that the Minister is coming forward with today in connection with this.

I ddeall y gwerth y mae safleoedd fel ein parciau cenedlaethol yn ei ychwanegu at ein heconomi, ein hanes a'n treftadaeth, mae angen i ni edrych ymhellach na'r hyn sydd eisoes wedi ei nodi yn yr adroddiad ARUP 'Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru', a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'n ein hatgoffa bod ein parciau cenedlaethol, yn wahanol i'r rhai mewn llawer o wledydd eraill, yn fannau lle mae pobl yn byw ynddynt a lle y ceir, o fewn eu ffiniau, cannoedd o gymunedau a busnesau sefydledig y mae'n rhaid caniatáu iddynt barhau a ffynnu. Mae buddiannau o'r fath yn cyfrannu dros £0.5 biliwn at werth ychwanegol gros Cymru ac yn cynrychioli 1.2% o economi Cymru yn gyffredinol. Mae mwy na 80,000 o bobl â'u cartrefi yn ein parciau cenedlaethol, ac mae bron i 30,000 yn cael eu cyflogi o fewn eu ffiniau. Mae mwy na 12 miliwn o bobl o'r DU a thu hwnt yn ymweld â nhw bob blwyddyn. Maent yn costio llai na £5 y person y flwyddyn i drethdalwyr Cymru i'w hariannu. Wrth feddwl am ffigurau o'r fath, mae'n hawdd deall pam y mae ein parciau cenedlaethol yn cael eu hystyried mor bwysig, a pham fy mod wedi galw yn barhaus am ddiwygio eu trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, rwyf hefyd wedi pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ni beidio â thaflu'r babi allan gyda dŵr y bath ac erydu'n angheuol ein hierarchaeth o dirweddau gwarchodedig, i'r pwynt lle nad yw'n bosibl eu bellach, a lle nad yw gwella'r amgylcheddau sydd mor annwyl i ni yn bosibl. Mae'n ddiddorol, yn wir, i glywed y cynigion y mae'r Gweinidog yn eu cyflwyno heddiw mewn cysylltiad â hyn.

In calling for these reforms, I very much welcome the contribution so far made by the Williams commission. While I may not agree with all of its recommendations, it makes it abundantly clear that the present system can and must be improved. In a climate where we are seeing changes across the whole local government sector, there is every argument for our protected landscapes to be part of that wider process.

Wrth alw am y diwygiadau hyn, rwy'n croesawu'n fawr y cyfraniad a wnaed hyd yn hyn gan gomisiwn Williams. Er nad wyf efallai'n cytuno â phob un o'i argymhellion, mae'n ei gwneud yn gwbl glir y gellir a bod rhaid gwella'r system bresennol. Mewn hinsawdd lle'r ydym yn gweld newidiadau ar draws y sector llywodraeth leol cyfan, mae dadl gref dros weld ein tirweddau gwarchodedig yn rhan o'r broses ehangach honno.

I have been campaigning on this along with Liberal Democrats across the UK for a number of years, and it seems that we are, possibly, within sight of real progress in this area. As things stand, our park authorities are made up, as we know, of a combination of Welsh Government appointees and local government representatives who are chosen largely on a basis of political balance, and regardless of whether they live within or without national park boundaries. In making this point, I am not casting doubt for one moment on the important contribution that is made by Welsh Government appointees. Indeed, over the years, I have worked with a number of them and I have been impressed by the contribution that they have made. However, we must ensure that our national park authorities include a proportion of representatives who are directly accountable to the communities that they serve and that they are responsive to the views and life experience of local citizens. What level of direct election would be best is not a matter for today. However, at the very least, we should enact reforms that ensure that representatives come exclusively from wards within national park boundaries and that they are elected for fixed terms, thus banishing forever the prospect of park authorities being influenced by the whim of political balance and crude horse-trading.

Rwyf wedi bod yn ymgyrchu am hyn, ynghyd â Democratiaid Rhyddfrydol ar draws y DU am nifer o flynyddoedd, ac mae'n ymddangos ein bod, o bosibl, o fewn golwg cynnydd gwirioneddol yn y maes hwn. Fel y mae pethau'n sefyll, mae ein hawdurdodau parciau yn cynnwys, fel y gwyddom, cyfuniad o benodedigion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr llywodraeth leol sy'n cael eu dewis i raddau helaeth ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ac ni waeth a ydynt yn byw oddi mewn neu y tu allan i ffiniau parc cenedlaethol. Wrth wneud y pwynt hwn, nid wyf yn bwrw amheuaeth am eiliad ar y cyfraniad pwysig a wneir gan benodedigion Llywodraeth Cymru. Yn wir, dros y blynyddoedd, rwyf wedi gweithio gyda nifer ohonynt ac maent wedi creu argraff arnaf gyda'r cyfraniad y maent wedi'i wneud. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni sicrhau bod ein hawdurdodau parciau cenedlaethol yn cynnwys cyfran o gynrychiolwyr sy'n uniongyrchol atebol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'u bod yn ymatebol i farn a phrofiad bywyd dinasyddion lleol. Nid yw pa lefel o ethol uniongyrchol fyddai orau yn fater ar gyfer heddiw. Fodd bynnag, dylem, o leiaf, ddeddfu diwygiadau a fydd yn sicrhau bod y cynrychiolwyr i gyd yn dod o wardiau o fewn ffiniau parciau cenedlaethol a'u bod yn cael eu hethol am gyfnodau penodol, gan gael gwared am byth ar y posibilrwydd o awdurdodau'r parciau yn cael eu dylanwadu gan fympwy cydbwysedd gwleidyddol a bargeinio amrwd.

Turning to national park structures, it is clear that much remains to be established as a result of the review that the Minister has referred to today.

Gan droi at strwythurau parc cenedlaethol, mae'n amlwg bod llawer eto i'w sefydlu o ganlyniad i'r adolygiad y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ato heddiw.

In terms of areas of outstanding natural beauty, it is essential that we highlight the role that they play and that that role is better understood. Potentially, the reforms that the Minister is advocating could help to foster that, and that is to be encouraged. This is an important debate, and I am very glad to have contributed to it today.

O ran ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, mae'n hanfodol ein bod yn tynnu sylw at y rhan y maent yn ei chwarae, a bod y rhan honno'n cael ei deall yn well. O bosibl, gallai'r diwygiadau y mae'r Gweinidog yn eu hargymell helpu i feithrin hynny, ac mae hynny i'w annog. Mae hon yn ddadl bwysig, ac rwy'n falch iawn o fod wedi cyfrannu ati heddiw.

17:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Russell George i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I call on Russell George to move amendment 3, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r argymhellion yn ymwneud â pharciau cenedlaethol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn credu bod angen rhoi pecyn cynhwysfawr o ddiwygiadau ar waith cyn gynted ag y bo modd.*

*Notes the recommendations relating to National Parks in the report published by the Commission on Public Service Governance and Delivery and believes that a comprehensive package of reform needs to be implemented as soon as possible.*

17:15

## Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 3.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 3.

There is not a great deal that I can disagree with in what the Minister said in his opening remarks, nor is there a great deal to disagree with in what William Powell has said, either. Therefore, I believe that we are in danger of breaking out into consensus this afternoon. There is no question that our designated landscapes—our three national parks and our six areas of outstanding natural beauty—are national assets that we must cherish and enjoy. However, they are also assets that need to be strategically utilised not only to lever in a range of additional benefits for our citizens, but to deliver a range of key public policy objectives.

Nid oes llawer y gallaf anghytuno ag ef yn yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol, ac nid oes llawer i anghytuno ag ef yn yr hyn a ddywedodd William Powell, ychwaith. Felly, rwy'n credu ein bod mewn perygl o gael consensws y prynhawn yma. Nid oes unrhyw gwestiwn o ran bod ein tirweddau dynodedig—ein tri pharc cenedlaethol a'n chwe ardal o harddwch naturiol eithriadol—yn asedau cenedlaethol y mae'n rhaid inni eu trysori a'u mwynhau. Fodd bynnag, maent hefyd yn asedau y mae angen eu defnyddio'n strategol, nid yn unig i ddenu amrywiaeth o fuddion ychwanegol ar gyfer ein dinasyddion, ond i ddarparu ystod o amcanion polisi cyhoeddus allweddol.

I am sure that many here attended the Why Landscapes Matter event organised by the Campaign for the Protection of Rural Wales back in March, which focused very much on the health and wellbeing agenda that a range of organisations are pursuing in order to try to use our national landscapes as part of a therapeutic process to aid healing and improve mental wellbeing. The Government is looking to bring forward a public health Bill for Wales with the principal aim of improving the health of the nation, yet there is no mention of the natural environment as a vehicle to do that. Therefore, I hope that the Government will re-evaluate that point before it brings the Bill before this Chamber.

Rwy'n siŵr bod llawer sydd yma yn bresennol hefyd yn y digwyddiad Pam y Mae Tirweddau'n Bwysig a drefnwyd gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn ôl ym mis Mawrth, a oedd yn canolbwyntio i raddau helaeth ar yr agenda iechyd a lles y mae ystod o sefydliadau yn mynd ar ei thrywydd er mwyn ceisio defnyddio ein tirweddau cenedlaethol yn rhan o broses therapiwtig i gynorthwyo iachâd a gwella lles meddyliol. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Bil iechyd cyhoeddus i Gymru gyda'r prif nod o wella iechyd y genedl, ond eto nid oes sôn am yr amgylchedd naturiol fel cyfrwng i wneud hynny. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ail-werthuso'r pwynt hwnnw cyn iddi ddod â'r Bil gerbron y Siambr hon.

In terms of economic benefits, there is a natural high-level economic value that our designated landscapes provide in relation to being a tourism draw. That is something that has benefited Wales considerably over the last seven decades and will no doubt continue to do so in the future. However, we also have to remember that our national parks and, as Visit Wales describes our areas of outstanding natural beauty, their six little brothers, are more than just tourism destinations or weekend retreats from our urban areas, they are living areas where people live and work on a daily basis, and they have their own social and economic capital. Therefore, in terms of seeing their future potential, we must also keep that notion in our minds, because national parks have a duty to seek and foster the economic and social wellbeing of the communities within their boundaries. However, from the many that I have spoken to across all three national park areas, there appears to be a strong view that that is not being done—either because they are not properly geared up to fulfil that function, or they have become overly cautious, hedging on the side of protection, rather than development.

O ran manteision economaidd, mae gwerth economaidd lefel uchel naturiol y mae ein tirweddau a ddynodwyd yn ei ddarparu o ran eu bod yn denu twristiaid. Mae hynny'n rhywbeth sydd wedi bod o les sylweddol i Gymru dros y saith degawd diwethaf ac yn sicr bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid inni gofio hefyd bod ein parciau cenedlaethol ac, fel y mae Croeso Cymru yn disgrifio ein hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, eu chwe brawd bach, yn fwy na dim ond cyrchfannau twristiaeth neu encilion penwythnos o'n hardaloedd trefol, maent yn ardaloedd byw lle mae pobl yn byw ac yn gweithio o ddydd i ddydd, ac mae ganddynt eu cyfalaf cymdeithasol ac economaidd eu hunain. Felly, o ran gweld eu potensial ar gyfer y dyfodol, mae'n rhaid inni hefyd gadw'r syniad hwnnw yn ein meddyliau, oherwydd bod gan barciau cenedlaethol ddyletswydd i geisio a meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau sydd o fewn eu ffiniau. Fodd bynnag, o'r nifer helaeth yr wyf wedi siarad â hwy ar draws y tair ardal parc cenedlaethol, mae'n ymddangos bod barn gref nad yw hynny'n cael ei wneud—naill ai am nad ydynt yn addas iawn i gyflawni'r swyddogaeth honno, neu eu bod wedi mynd yn rhy ofalus , gan dueddu i gefnogi gwarchodaeth, yn hytrach na datblygiad.

The areas need to be carefully managed, and they need to grow, develop and prosper, and they need to be properly enabled to do that, or effectively reformed to do that. Williams, in his report on public service governance and delivery in Wales did a pretty good job of analysing some of the key issues affecting our designated landscapes, particularly the three national park authorities. Critics of the three authorities would say that they are unrepresentative and overly bureaucratic bodies that fail to deliver key targets and are prone to duplicate work that is being done by neighbouring local authorities, other organisations and delivery bodies. However, their advocates consistently stress their unique value and expertise in protecting the parks as national assets while also being flexible enough to respond to local needs. What is clear to me is that the governance structure and arrangements for NPAs cannot continue as they currently are. There must be coherent and streamlined governance arrangements within properly facilitated and effective collaboration with various multi-agencies, and there must be strengthened local accountability. Their performance in areas such as planning and compliance must also drastically improve, and I think that the majority of Williams's recommendations addressed those concerns.

Mae angen i'r ardaloedd gael eu rheoli'n ofalus, ac mae angen iddynt dyfu, datblygu a ffynnu, ac mae angen iddynt gael eu galluogi'n briodol i wneud hynny, neu eu diwygio'n effeithiol i wneud hynny. Gwnaeth Williams, yn ei adroddiad ar lywodraethu gwasanaethau cyhoeddus a chyflawni yng Nghymru waith da iawn o ddadansoddi rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar ein tirweddau dynodedig, yn enwedig y tri awdurdod parc cenedlaethol. Byddai beirniaid y tri awdurdod yn dweud eu bod yn gyrff anghynrychioladol ac yn or-fiwrocrataidd sy'n methu â chyflawni targedau allweddol ac yn dueddol o ddyblygu gwaith sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol cyfagos, sefydliadau eraill a chyrff darparu. Fodd bynnag, mae eu heiriolwyr yn pwysleisio yn gyson eu gwerth a'u harbenigedd unigryw o ran diogelu parciau fel asedau cenedlaethol gan fod yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion lleol ar yr un pryd. Yr hyn sy'n amlwg i mi yw na all y strwythur a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol barhau fel y maent ar hyn o bryd. Mae'n rhaid cael trefniadau llywodraethu cydlynol a syml o fewn cydweithio wedi'i hwyluso'n briodol ac yn effeithiol gyda gwahanol amlasiantaethau, ac mae'n rhaid cryfhau atebolrwydd lleol. Mae'n rhaid i'w perfformiad mewn meysydd megis cynllunio a chydymffurfio hefyd wella'n sylweddol, a chredaf fod y rhan fwyaf o argymhellion Williams wedi mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Williams states that there is no overt desire to abolish our national park authorities, but the debate needs to be had against the backdrop of local authority reform, and I think it is right to have that debate now. However, the elephant in the room in relation to the future of local authorities is whether national park authorities should retain their current planning functions when reorganisation takes place. I have pushed the Minister and other Ministers about that in the past, and I have had some fudged answers on that.

Mae Williams yn datgan nad oes awydd amlwg i ddiddymu ein hawdurdodau parciau cenedlaethol, ond mae angen cael y ddadl yn erbyn cefndir o ddiwygio awdurdodau lleol, ac rwy'n meddwl ei bod yn iawn i gael y ddadl honno yn awr. Fodd bynnag, yr eliffant yn yr ystafell o ran dyfodol awdurdodau lleol yw a ddylai awdurdodau parciau cenedlaethol gadw eu swyddogaethau cynllunio cyfredol pan fydd ad-drefnu yn digwydd. Rwyf wedi rhoi pwysau ar y Gweinidog a Gweinidogion eraill ynglŷn â hynny yn y gorffennol, ac rwyf wedi cael rhai atebion niwlog ar y mater.

17:21 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf yn croesawu'r sylwadau a wnaethpwyd gan y Gweinidog wrth agor y ddadl hon heddiw. Rydym wedi clywed o sawl cyfeiriad yn awr am werth amgylcheddol ac economaidd diamheuol y tiroedd dynodedig sydd gennym yng Nghymru, ond, cyn newid, mae angen bod yn gwbl glir lle mae lle i weithio'n well, ac mae angen i'r Llywodraeth, gyda chymorth eraill, fod yn glir ynglŷn â'r achos dros newid. Rydym wedi clywed o sawl cyfeiriad sut mae'r parciau cenedlaethol yn cael eu gweld fel rhwystr i gynllunio yn aml iawn. Os edrychwch chi ar yr ystadegau, maent yn caniatáu llawn cymaint o geisiadau â nifer o awdurdodau cynllunio eraill. Mae cyhuddiad bod mwy o fiwrocratiaeth a bod y drefn yn fwy anhylaw. I raddau helaeth, nid yw hynny'n ddim gwahanol i nifer o awdurdodau cynllunio eraill, ac rydym yn edrych i'r Bil cynllunio i fynd i'r afael â llawer o hynny.

I welcome the comments made by the Minister in opening this debate today. We have heard from many quarters now about the undoubted environmental and economic value of the designated land that we have in Wales, but, before any changes are made, we need to be clear on where there is scope for better working, and the Government, with the assistance of others, needs to be clear about the case for change. We have heard from many quarters how national parks are often seen as an obstacle to planning. If you look at the statistics, they grant just as many planning applications as other planning authorities. There is an accusation that there is greater bureaucracy and that procedures are more cumbersome. To a great extent, that is no different to many other planning authorities, and we are looking to the planning Bill to address many of those issues.

Cyfeiriodd y Gweinidog wrth agor y ddadl at y consýrn sydd am ddyblygu gwaith. Mae pobl yn sôn am ddyblygu ym maes cynllunio, hyrwyddo'r ardaloedd y maent yn gyfrifol amdanynt, gwasanaethau i ymwelwyr, rheolaeth cefn gwlad, a datblygu rhwng y parciau, awdurdodau lleol, Croeso Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill. Y gwir yw y gellir gwneud mwy yn wastad er mwyn cydweithio. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod y lefel o gydweithio sydd eisoes yn digwydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn fy rhanbarth i. Rydym yn gwybod am y cydweithio ar ddŵr, ar fawn, ar daclo rhododendron a hefyd ym maes twristiaeth, gyda chanolfannau rhagoriaeth Eryri, gwasanaeth sherpa, ac yn y blaen. Mewn rhai achosion, y parc sydd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer y cydweithio hynny. Felly, mae angen cydnabod hynny yn ogystal.

The Minister referred in opening the debate to the concern that exists about duplication of work. People talk about duplication in the field of planning, promoting the areas for which they are responsible, visitor services, countryside management, and development between the parks, local authorities, Visit Wales, Natural Resources Wales and others. The truth is that more can always be done in order to collaborate. However, we must also acknowledge the level of collaboration that is already happening in the Snowdonia National Park in my region. We are aware of the collaboration on water, on peat bogs, on tackling rhododendron and in the field of tourism, with the Eryri Centre of Excellence, the sherpa service, and so on. In some cases, it is the park that acts as a catalyst for collaboration. Therefore, we need to acknowledge that as well.

Ar fater diffyg atebolrwydd, rwy'n cytuno y byddai etholiadau uniongyrchol i awdurdodau parciau cenedlaethol yn gam positif, neu o leiaf byddai'n sicrhau bod aelodau awdurdodau lleol sydd ar yr awdurdodau hynny yn cynrychioli ardaloedd sydd o fewn ffiniau parciau. Fel rydym wedi clywed, mae comisiwn Williams yn gwneud sylwadau i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, ni ddylem colli golwg ar y swyddogaethau craidd a pham y gosodwyd y dynodiadau hyn yn y lle cyntaf. Mater o sut maent yn cael eu rheoli a'u llywodraethu ydyw yn hytrach na'r hyn yr ydym yn trio ei gyflawni.

On the issue of lack of accountability, I agree that having direct elections to national park authorities would be a positive step, or at least it would ensure that local authority members on those authorities represent areas that are within park boundaries. As we have heard, the Williams commission has made representations to that end. However, we should not lose sight of the core functions and why these designations were established in the first place. It is a matter of how they are managed and governed, rather than what we are trying to achieve.

Nid yw hyn oll i ddweud nad oes lle i newid; yn sicr, mae lle i newid, ac roedd yn ymrwymiad maniffesto gan Blaid Cymru i'r Cynulliad hwn i sefydlu comisiwn i edrych ar y tirweddau dynodedig sydd gennym yn eu cyfanrwydd. Felly, rwy'n croesawu'r cadarnhad unwaith eto gan y Gweinidog ynglŷn â'r adolygiad o lywodraethiant. Rwy'n falch iawn hefyd y bydd hwnnw'n adolygiad annibynnol, achos mae angen datblygu'r drafodaeth ac ystyried yr opsiynau yn llawn. A yw'r model a etifeddwyd gan Gymru o'r Deyrnas Unedig yn sgîl datganoli yn addas, neu a ydyw'n amser i ni gael rhywbeth mwy penodol i Gymru? Rydym wedi gweld beth sy'n digwydd yn yr Alban, ac rydym yn gwybod am y drefn o ran y parciau rhanbarthol yn Ffrainc, ac mae rôl datblygu economaidd benodol yn rhai o'r cyd-destunau hynny. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried yng Nghymru. Mae'r cyfeiriad at greu un awdurdod neu gorff cenedlaethol hefyd yn rhywbeth sydd yn ein tywys i'r cyfeiriad iawn.

All this is not to say that there is no scope for change; there is scope for change, and it was a Plaid Cymru manifesto commitment for this Assembly to set up a commission to look at our designated landscapes in their entirety. Therefore, I welcome the confirmation by the Minister regarding the governance review. I am very pleased that that review will be independent, because we need to develop the discussion and consider the options in full. Is the model inherited by Wales from the United Kingdom as a result of devolution appropriate, or is it time for us to have something more specific to Wales? We have seen what happens in Scotland, and we know about the regional parks in France and that there is a specific economic development role in some of those contexts. That is something that we need to consider in Wales. The reference to the creation of a single national authority or body is also something that is taking us in the right direction.

Fodd bynnag, peidied neb ag anghofio fod yr ardaloedd a'r cymunedau hyn yr ydym yn sôn amdanynt yn lleoedd byw sy'n gartref, fel rydym wedi ei glywed, i dros 80,000 o bobl, dros 5,000 o fusnesau a bron 30,000 o weithwyr yn gweithio, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i'r busnesau hynny. Felly, mae angen taro cydbwysedd rhwng pobl a'r economi a natur a thirweddau, a bydd y cydbwysedd hwnnw yn amrywio o ardal i ardal. Nid oes ateb 'one size fits all'. Os ydym ni'n edrych ar un corff neu un endid cenedlaethol, mae angen sicrhau, o fewn y strwythurau gwneud penderfyniadau, fod y llais lleol mor gryf â phosibl, bod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn cael eu cymryd mor agos â phosibl i'r cymunedau hynny a bod atebolrwydd lleol yn dod yn sgîl hynny. Y cymunedau hynny fydd yn talu'r pris am unrhyw fethiannau, ond byddant hefyd, rwy'n mawr hyderu, yn mwynhau'r budd a'r llewyrch cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a ddaw o'i gael yn iawn.

However, let us not forget that the areas and communities that we are talking about are living areas that are home, as we have heard, to more than 80,000 people, more than 5,000 businesses and almost 30,000 employees who work, either directly or indirectly, for those businesses. Therefore, there is a need to strike a balance between the people and the economy and the nature and the landscapes, and that balance will vary from area to area. There is no one-size-fits-all solution. If we look at one national body or entity, it is necessary to ensure, within the decision-making structures, that the local voice is as strong as possible, that the decisions made are taken as close as possible to those communities and that, therefore, there is local accountability. Those communities will pay the price for any failures, but they will also, I very much hope, enjoy the social, environmental and economic benefits and prosperity that will follow if we get it right.

Byddwn ni'n cefnogi gwelliannau 1 a 2. O safbwynt gwelliant 3, rydym ni hefyd yn ddiamynedd ynglŷn â'r angen i fynd i'r afael â'r mater hwn, ond rwy'n teimlo bod angen yr adolygiad llywodraethiant annibynnol yma yn gyntaf er mwyn cael trafodaeth lawnach cyn mynd ati i gyflwyno diwygiadau.

We will support amendments 1 and 2. With regard to amendment 3, we are also impatient about the need to address this issue, but I feel that we need this independent governance review first in order to have a fuller discussion before we proceed to introduce reforms.

17:26 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am really pleased to speak in this debate today. I have all three national parks in my region, as has been mentioned by Bill Powell, who shares that region with me in covering it. Our national parks do indeed cover—I think it is worth noting—20% of the land mass of this country. I suppose I could have asked the Research Service to calculate the proportion of Mid and West Wales that they cover, but I know that it will be hugely significant. They are, as has been mentioned, our natural heritage, our gift and our responsibility. That is really what we are talking about here today.

Rwy'n wirioneddol falch i siarad yn y ddadl hon heddiw. Mae pob un o'r tri pharc cenedlaethol yn fy rhanbarth i, fel y crybwyllwyd gan Bill Powell, sy'n rhannu'r rhanbarth hwnnw gyda mi o ran ei gwmpasu. Mae ein parciau cenedlaethol wir yn cwmpasu—rwy'n meddwl ei bod yn werth nodi—20% o dirfas y wlad hon. Mae'n debyg y gallwn i fod wedi gofyn i'r Gwasanaeth Ymchwil i gyfrifo'r gyfran o'r Canolbarth a Gorllewin Cymru y maent yn eu cwmpasu, ond rwy'n gwybod y bydd yn hynod sylweddol. Y nhw, fel y crybwyllwyd, yw ein treftadaeth naturiol, ein rhodd a'n cyfrifoldeb. Dyna mewn gwirionedd yr hyn yr ydym yn siarad amdano yma heddiw.

There will always be tensions and competing interest where conservation meets everyday life. The American writer John Steinbeck described the parks in his country as nature's Disneyland. However, our parks are not playgrounds. They are living communities and they have within them thriving businesses. It is the case that national parks support, through the planning system, the growth of the economy, where people can come along. The Bluestone venture in Pembrokeshire demonstrates that extremely well; it is a holiday development that brings in significant numbers of visitors to that area, who then also go outside the national park area and spend their money—which is very welcome, of course—in the wider economy of Pembrokeshire, where there is an opportunity gained to other businesses in that area to showcase and promote what they do. So, I do not think that I can agree with some of the comments that I have read and heard about the planning process within the national park always being a negative and always standing in the way of development. That is why I cite that particular issue.

Bydd bob amser densiynau a budd cystadleuol lle mae cadwraeth yn dod i gysylltiad â bywyd bob dydd. Disgrifiodd yr awdur Americanaidd John Steinbeck y parciau yn ei wlad fel Disneyland natur. Fodd bynnag, nid meysydd chwarae yw ein parciau. Cymunedau byw ydynt ac mae ganddynt fusnesau ffyniannus oddi mewn iddynt. Mae'n wir bod parciau cenedlaethol yn cefnogi, drwy'r system gynllunio, twf yr economi, lle y gall pobl ddod draw. Mae'r fenter Carreg Las yn Sir Benfro yn dangos hynny'n eithriadol o dda; mae'n ddatblygiad gwyliau sy'n dod â niferoedd sylweddol o ymwelwyr i'r ardal honno, sydd wedyn hefyd yn mynd y tu allan i ardal y parc cenedlaethol ac yn gwario eu harian—sydd i'w groesawu'n fawr, wrth gwrs—yn economi ehangach Sir Benfro, lle mae cyfle wedi'i ennill i fusnesau eraill yn yr ardal honno arddangos a hyrwyddo'r hyn y maent yn ei wneud. Felly, nid wyf yn meddwl fy mod yn gallu cytuno â rhai o'r sylwadau yr wyf wedi'u darllen a'u clywed am y broses gynllunio o fewn y parc cenedlaethol bob amser yn bod yn negyddol a bob amser yn sefyll yn ffordd datblygiad. Dyna pam yr wyf yn sôn am y mater penodol hwnnw.

The governance review that the Minister, John Griffiths, has announced will consider whether there is a need to improve the accountability of national park authorities and how that might be achieved. In terms of that governance review, about which I understand you quite rightly cannot say much today, the governance structures of national parks and areas of outstanding natural beauty do set the policy framework, and not self-interest. I am somewhat astounded to hear that Bill Powell does not think that political balance is important, yet the Liberal Democrats agree with proportional representation, which serves them well to ensure that they have seats around here. So, I am just a little bit confused by that statement.

Bydd yr adolygiad o lywodraethu y mae'r Gweinidog, John Griffiths, wedi'i gyhoeddi yn ystyried pa un a oes angen gwella atebolrwydd awdurdodau parciau cenedlaethol a sut y gellid cyflawni hynny. O ran yr adolygiad llywodraethu, ac rwy'n deall yn gwbl briodol na allwch ddweud llawer amdano heddiw, strwythurau llywodraethu'r parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol sy'n gosod y fframwaith polisi, ac nid hunan-les. Rwy'n synnu'n arw clywed nad yw Bill Powell yn credu bod cydbwysedd gwleidyddol yn bwysig, ac eto mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno â chynrychiolaeth gyfrannol, sy'n eu gwasanaethu yn dda i sicrhau bod ganddynt seddau yn y fan yma. Felly, rwyf ychydig yn ddryslyd ynglŷn â'r datganiad hwnnw.

I do think that we cannot pre-empt any conclusions that the review might reach on the matter, but I do ask the Minister to consider two issues as part of the inquiry. I believe that the importance of transparent and democratic oversight and the days of web casting play a big part in that. I mentioned only last week, I think, that Brecon Beacons National Park enables members of the public to watch proceedings online, while Snowdonia and Pembrokeshire coast park authorities do not. I will suggest, Minister, that it might be worth your looking at that.

Rwy'n credu na ddylem geisio rhagweld unrhyw gasgliadau y gallai'r adolygiad ddod iddynt ar y mater, ond rwy'n gofyn i'r Gweinidog ystyried dau fater yn rhan o'r ymchwiliad. Rwy'n credu bod pwysigrwydd goruchwyliaeth dryloyw a democrataidd a dyddiau gweddarlledu'n chwarae rhan fawr yn hynny. Soniais yr wythnos diwethaf, rwy'n credu, fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i wylio trafodaethau ar-lein, er nad yw awdurdodau parciau Eryri ac arfordir Sir Benfro yn gwneud hynny. Rwyf yn awgrymu, Weinidog, y gallai fod yn werth i chi edrych ar hynny.

On housing, constituents have contacted me expressing concerns that the Brecon beacons authority could withdraw from an affordable housing partnership run by Powys County Council, which links registered social landlords and the park authority. Given that Powys County Council is the housing authority for the area, such a move would be problematic, and I hope that the review panel will also look at that role within the review.

O ran tai, mae etholwyr wedi cysylltu â mi yn mynegi pryderon y gallai awdurdod bannau Brycheiniog dynnu'n ôl o bartneriaeth dai fforddiadwy sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor Sir Powys, sy'n cysylltu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdod y parc. O gofio mai Cyngor Sir Powys yw'r awdurdod tai ar gyfer yr ardal, byddai symudiad o'r fath yn achosi problem, ac rwy'n gobeithio y bydd y panel adolygu yn edrych ar y swyddogaeth honno hefyd yn yr adolygiad.

However, I certainly welcome this debate. I will hold my hands up as one of those people who very much enjoys the national parks and areas of outstanding natural beauty. You only have to look at my Facebook page to see that.

Fodd bynnag, rwy'n sicr yn croesawu'r ddadl hon. Rwyf yn cyfaddef fy mod yn un o'r bobl hynny sydd yn mwynhau'r parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yn fawr iawn. Does dim ond rhaid i chi edrych ar fy nhudalen Facebook i weld hynny.

17:31

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peth pleserus iawn yw cael dod yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol i godi i siarad ar yr union bwnc y siaradais i arno pan adewais i'r lle hwn cyn y toriad, yn y ddadl fer gan Bill Powell ar y mater hwn. Treuliais i'r cyfnod hwnnw yn Eryri ac yn Llŷn, ac rwyf am sôn yn fyr iawn am hynny ac am y personoliaethau allweddol bellach sydd yng ngofal y parc a'r ardal o harddwch naturiol eithriadol.

It is a great pleasure to return to the National Assembly to speak on the very issue that I spoke on when I left this place before the recess, in the short debate brought forward by Bill Powell. I spent that time in Snowdonia and Llŷn, and I want to very briefly mention that and the key personalities who are now responsible for the park and the area of outstanding natural beauty.

Ond cyn gwneud hynny, rwyf am ddiolch i'r Gweinidog, unwaith eto, oherwydd pan cefais fy ad-drefnu o ran yr ardal roeddwn yn ei chynrychioli, a dod yn Aelod etholedig dros Ddwyfor, fel un a oedd wedi byw ar hyd y blynyddoedd yn Eryri, ac sy'n parhau i fyw yno ac i gynrychioli y rhan fwyaf o ardal y parc, gwelais fod rhaid imi fod o blaid cael yr un fath o adnoddau i ardal o harddwch naturiol eithriadol Llŷn, a'r ardaloedd tebyg eraill yng Nghymru, ac a oedd i'w cael, ac roeddwn wedi'u gweld yn cael eu defnyddio mor effeithiol, yn y parc cenedlaethol. Mae'r Gweinidog wedi gwneud hynny heddiw. Mae wedi cyhoeddi heddiw y bydd yr adolygiad y mae'n ei drefnu yn gallu edrych ar y mater hwn. Mae'n emosiynol, bron, i mi. Un o'r prif resymau pam roeddwn am weld datganoli oedd i'r bobl sy'n byw yng Nghymru allu rheoli eu hadnoddau eu hunain. Rwyf wedi bod yn gorfod rhoi tystiolaeth, mynegi barn a siarad mewn dadleuon ar hyd y blynyddoedd—o adroddiad ymgynghoriad y Parchedig Arglwydd Sandford ymlaen—ynglŷn â'r parciau cenedlaethol i gyrff ac i bobl nad oeddynt, mewn gwirionedd, yn deall beth oedd y gwahaniaeth rhwng byw yn Eryri a byw mewn unrhyw barc cenedlaethol nad oedd yng Nghymru.

However, before that, I want to thank the Minister, once again, because when there was reorganisation in the area that I represent and I became the elected Member for Dwyfor, as one who had lived over the years in Snowdonia, and one who continues to do so and to represent most of the park area, I realised that I had to be in favour of having the same sort of resources for the area of outstanding natural beauty in Llŷn, and other similar areas in Wales, as were available and as I had seen used so effectively in the national park itself. The Minister has done that today. He has announced today that the inquiry that he has put in place will look at this issue. It is almost an emotional thing for me. One of the main reasons why I wanted to see devolution was so that people living in Wales could manage their own resources. I have had to give evidence, express my views and take part in debates over the years—from the Reverend Lord Sandford's consultation onwards—on the national parks to all sorts of organisations and people who did not truly understand the difference between living in Snowdonia and living in any national park outwith Wales.

Mae cyrraedd hynny yn rhoi cysur a phleser mawr i mi. Rwy'n hyderus felly y gallwn berswadio'r adolygiad hwn mai'r ffordd i symud ymlaen yw i symleiddio dynodiadau a dod â gweithgaredd pobl at ei gilydd. Gweithgaredd pobl fel yr ardderchog Emyr Williams, sydd wedi'i benodi yn brif swyddog Eryri—gŵr y mae ei holl waith wedi bod mewn amaeth amgylcheddol ar hyd y blynyddoedd, yn cychwyn o Goleg Glynllifon drwodd i'r holl waith gyda'r parc. Gwn fod croeso mawr—rwyf wedi cael sawl trafodaeth dros yr wythnosau diwethaf—i'w arweiniad, nid yn unig o fewn y parc ond drwy'r gogledd a thrwy Gymru.

Getting to that point gives me great pleasure. I am confident therefore that we can persuade this review that the way to move forward is to simplify the designations and bring people's activities together. I refer to the activities of people such as the excellent Emyr Williams, who has been appointed chief officer of Snowdonia National Park. His whole career has been in environmental issues and I know, because I have had a number of discussions over the past few weeks, that there will be a warm welcome for the leadership that he will bring not only to the park but to north Wales and the whole of Wales.

Hefyd pobl fel Bleddyn Prys Jones ac Elin Wyn Hughes, roeddwn yn ceisio cydweithio â nhw fore Sul fel rhan o waith yr ardal o harddwch naturiol eithriadol yn Llŷn, gyda chefnogaeth Lee Oliver o Gadw Cymru'n Daclus, i lanhau ffynnon Aelrhiw ar fynydd Rhiw yn Llŷn. Nid wyf yn dweud fy mod gyda'r gorau am lanhau ffynhonnau, ond daeth y dŵr yn lân erbyn inni orffen. Mae hon yn un o'r ffynhonnau sydd ar lwybrau'r pererinion ac yn un o brosiectau'r ardal o harddwch naturiol eithriadol. Byddai cael adnoddau a brwdfrydedd pobl felly at ei gilydd ar draws Dwyfor Meirionnydd ac ar draws y gogledd yn rhywbeth hollol lwyddiannus.

Also, people like Bleddyn Prys Jones and Elin Wyn Hughes, with whom I endeavoured to work on Sunday morning as part of the work of the area of outstanding natural beauty in Llŷn, with the support of Lee Oliver of Keep Wales Tidy, to clear Holy well at Rhiw in Llŷn. I am not saying that I am the best person at clearing wells, but the water was running clean by the time we finished. This is one of the wells on the pilgrims' path and one of the projects that the AONB is responsible for. Bringing the resources and the enthusiasm of these people together across Dwyfor Merionnydd and the whole of north Wales would be an entirely successful venture.

Y peth arall rwyf eisiau'i weld yw hyder a balchder gan bob un ohonom bod ein parciau ni yn wahanol. Byddaf yn cario'r llyfryn hwn gyda mi i bob man y byddaf yn mynd. Mae tua 100 o barciau cenedlaethol yn Ewrop ac mae gan bob un ohonynt lywodraethiad gwahanol ac amcanion gwahanol. Mae gan rai reolaeth gynllunio—awn ni ddim i drafod hynny y prynhawn yma—ond, maent i gyd yn wahanol. Mae cyfle i ni bigo'r gorau o barciau Ewrop a'u gosod ar dir Cymru fel rhywbeth a fydd yn ddeniadol ac yn atyniadol i bawb. Mae hynny wedi bod yn genhadaeth i mi mewn gwleidyddiaeth amgylcheddol ers blynyddoedd ac rwyf mor ddiolchgar fy mod wedi clywed Gweinidog Cymru—rwy'n gwybod ei fod yn siarad ar ran ei gyd Weinidogion—yn symud ymlaen yn y cyfeiriad hwn. Ar ran pobl Llŷn a phobl Eryri, diolch yn fawr, John; dal ati.

The other thing that I want to see is confidence and pride from all of us that our parks are different. I carry this booklet with me everywhere I go. There are some 100 national parks in Europe and they all have different governance and different objectives. Some have responsibility for planning—we will not go there this afternoon—but they are all different. There is an opportunity for us to pick the best of the parks of Europe and bring it to Wales as something that will be appealing and attractive to everyone. That has been my mission in environmental politics for years and I am so grateful that I have heard the Welsh Minister—I know that he spoke on behalf of his fellow Ministers—progressing in this direction. On behalf of the people of Llŷn and Snowdonia, thank you, John; keep up the good work.

17:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call the Minister to respond to the debate.

17:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. May I begin by thanking Members very much for their contributions? It is very encouraging and heartening that there is so much agreement in terms of national parks and areas of outstanding natural beauty, as we embark on a period of significant and important work that will shape the structure, functions and governance for a considerable period to come. I think that we will draw on the views of Members as we take this work forward and progress it.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Aelodau yn fawr iawn am eu cyfraniadau? Mae'n braf ac yn galonogol iawn bod cymaint o gytundeb o ran parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, wrth i ni ddechrau ar gyfnod o waith arwyddocaol a phwysig a fydd yn llunio strwythur, swyddogaethau a llywodraethu am gyfnod helaeth i ddod. Rwy'n meddwl y byddwn yn tynnu ar farn yr Aelodau wrth i ni symud y gwaith hwn yn ei flaen a'i ddatblygu.

A number of Members, Dirprwy Lywydd, made clear that they see sustainable development as very important to the future work of our designated landscapes and striking the right balance will obviously be absolutely crucial. I think that we have some good examples of work taking place in our national parks and our areas of outstanding natural beauty that are very much based on the principles of sustainable development. If we look at some of the hydro power schemes, for example, particularly in the Brecon beacons, and the way that they have involved and empowered communities to understand how they can help support a rural community and a thriving community cohesion picture, that is a very good example indeed. There are many others right across our national parks and areas of outstanding natural beauty.

Mae nifer o Aelodau, Ddirprwy Lywydd, yn ei gwneud yn glir eu bod yn gweld datblygiad cynaliadwy yn bwysig iawn i waith ein tirweddau dynodedig yn y dyfodol a bydd taro'r cydbwysedd cywir yn amlwg yn gwbl hanfodol. Credaf fod gennym rai enghreifftiau da o waith sy'n digwydd yn ein parciau cenedlaethol a'n hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol sy'n seiliedig i raddau helaeth ar egwyddorion datblygu cynaliadwy. Os edrychwn ar rai o'r cynlluniau ynni dŵr, er enghraifft, yn enwedig ym mannau Brycheiniog, a'r modd y maent wedi cynnwys a grymuso cymunedau i ddeall sut y gallant helpu i gefnogi'r gymuned wledig a darlun o gydlyniant cymunedol ffyniannus, mae hynny'n enghraifft dda iawn yn wir. Mae llawer o rai eraill ar draws ein parciau cenedlaethol a'n hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol.

A number of Members understandably raised issues around accountability, democratic accountability and scrutiny and I think that, obviously, those matters will be very important and central to the governance review. In terms of those members nominated by local authorities and the need to have them representing wards wholly or partly, at least, within national park boundaries, there is an existing memorandum of understanding in place with local authorities by which that should be the case. However, it is not universally observed across Wales, and those are matters to which we need to give some thought—the reasons why it is not universally observed and how those issues can be overcome.

Mae nifer o Aelodau wedi codi materion ynghylch atebolrwydd, atebolrwydd democrataidd a chraffu, ac rwy'n meddwl, yn amlwg, y bydd y materion hynny'n bwysig iawn ac yn ganolog i'r adolygiad o lywodraethu. O ran yr aelodau hynny a enwebwyd gan awdurdodau lleol a'r angen eu bod yn cynrychioli wardiau yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o leiaf, o fewn ffiniau parc cenedlaethol, mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth presennol ar waith gydag awdurdodau lleol sy'n golygu y dylai hynny fod yn digwydd. Fodd bynnag, ni chedwir at hynny ym mhob rhan o Gymru, ac mae'r rheini'n faterion y mae angen i ni feddwl rhywfaint amdanynt—y rhesymau pam na chedwir at hyn yn gyffredinol a sut y gellir goresgyn y materion hynny.

I hear what Members say about the importance of direct elections and, obviously, that will be considered as we take the governance review forward, and will be a very important element of it.

Rwy'n clywed yr hyn y mae Aelodau yn ei ddweud am bwysigrwydd etholiadau uniongyrchol ac, yn amlwg, bydd hynny'n cael ei ystyried wrth i ni ddatblygu'r adolygiad llywodraethu, a bydd yn elfen bwysig iawn ohono.

Dirprwy Lywydd, other matters such as webcasting, for example—I know of many examples of what is currently taking place and might be introduced in the future—will be considered again as part of taking forward democratic accountability and proper scrutiny. Members rightly pointed out that there is considerable collaboration taking place currently between national parks, areas of outstanding natural beauty and many other organisations, but, of course, there is considerably more that can and should be done. That will also be an important part of future work.

Ddirprwy Lywydd, bydd materion eraill megis gweddarlledu, er enghraifft—gwn am lawer o enghreifftiau o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd ac y gellid ei gyflwyno yn y dyfodol—yn cael eu hystyried eto yn rhan o'r gwaith o ddatblygu atebolrwydd democrataidd a chraffu priodol. Nododd yr Aelodau yn briodol bod cydweithio sylweddol yn digwydd ar hyn o bryd rhwng parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a llawer o sefydliadau eraill, ond, wrth gwrs, mae llawer mwy y gellir ac y dylid ei wneud. Bydd hynny hefyd yn rhan bwysig o waith yn y dyfodol.

When it comes to the scope for change, there is significant opportunity to drive forward the sort of change that I think Members would like to see, and upon which many Members touched. However, we have to go through these important processes. The First Minister will respond to Williams and set out the across-Welsh-Government response. I will take forward the governance review and I think that it would be wise to do it in two stages, dealing very much with functions, initially, recognising that there are important decisions to be made with regard to planning, for example, and to have a second stage that deals with governance, when we have clarity on functions. That is the approach that I intend to take.

Wrth sôn am y cwmpas ar gyfer newid, mae cyfle arwyddocaol i sbarduno'r math o newid rwy’n credu y byddai'r Aelodau yn hoffi ei weld, ac y mae llawer o Aelodau wedi ei grybwyll. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fynd trwy’r prosesau pwysig hyn. Bydd y Prif Weinidog yn ymateb i Williams a nodi'r ymateb ar draws Llywodraeth Cymru. Byddaf innau'n bwrw ymlaen â'r adolygiad o lywodraethu ac rwy’n credu y byddai'n ddoeth i wneud hynny mewn dau gam, gan ymdrin i raddau helaeth â swyddogaethau, i ddechrau, gan gydnabod bod penderfyniadau pwysig i'w gwneud o ran cynllunio, er enghraifft, ac i gael ail gam sy'n ymdrin â llywodraethu, pan fydd gennym eglurder ynghylch swyddogaethau. Dyna'r dull y bwriadaf ei ddilyn.

I think that sustainable development will be at the heart of all of this work. I think that there is a great deal of agreement in this Chamber and across our national parks and areas of outstanding natural beauty as to the need for that prominence and that focus.

Credaf y bydd datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr holl waith hwn. Credaf fod llawer iawn o gytundeb yn y Siambr hon ac ar draws ein parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol o ran yr angen am y pwysigrwydd a’r pwyslais hwnnw.

It will be very useful to look at international comparisons, as Dafydd Elis-Thomas stated, and I think that we will want the work that will take place to look way beyond our borders at examples of what might work in Wales and how we can draw on that best practice.

Bydd yn ddefnyddiol iawn i edrych ar gymariaethau rhyngwladol, fel y dywedodd Dafydd Elis-Thomas, ac rwy’n meddwl y byddwn eisiau i’r gwaith a fydd yn digwydd edrych ymhell y tu hwnt i'n ffiniau ni ar enghreifftiau o'r hyn a allai weithio yng Nghymru a sut y gallwn dynnu ar yr arfer gorau hwnnw.

The physical activity executive group that I sit on, along with Mark Drakeford, as the Minister for health, and with Public Health Wales, Sport Wales and a variety of other organisations, as well as other Ministers, as we take the work forward, very much understands the importance of our great outdoors and how it can deliver on health and wellbeing. That will be an important element of the week as we go forward. Therefore, I very much recognise the points made as far as that is concerned as well.

Mae'r grŵp gweithredol gweithgarwch corfforol yr wyf yn eistedd arno, ynghyd â Mark Drakeford, fel y Gweinidog iechyd, a gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru ac amrywiaeth o sefydliadau eraill, yn ogystal â Gweinidogion eraill, wrth i ni ddatblygu’r gwaith, yn deall yn iawn bwysigrwydd ein hawyr agored a sut y gall gyflawni ar gyfer iechyd a lles. Bydd hynny'n elfen bwysig o'r wythnos wrth inni symud ymlaen. Felly, rwy’n cydnabod y pwyntiau a wnaed cyn belled ag y mae hynny yn y cwestiwn hefyd.

In essence, Dirprwy Lywydd, I think that it is clear from today’s debate that there is a bedrock of agreement on much of the work that needs to be taking place, much of the new focus that we need to strive towards, and much of the collaboration and important work that is already taking place. We know that these organisations have not stood still: our areas of outstanding natural beauty and our national parks have forged new partnerships and new networks. They have understood the challenges that face them and that face Wales since devolution. However, there is much more that can be done, and it is timely, in reflecting on the 65 years that we have had these designations, to look at the progress that has been made and the new challenges that devolution has brought and then set in train the work of the governance review and, indeed, the response to Williams. Therefore, I can give this commitment today: I will continue to work very closely with Members across this Chamber, as we take this important work forward and build the future for the next 65 years.

Yn ei hanfod, Ddirprwy Lywydd, rwy’n credu ei bod yn glir o'r ddadl heddiw bod gennym sylfaen o gytundeb ar lawer o'r gwaith y mae angen ei wneud, llawer o'r pwyslais newydd y mae angen i ni ymdrechu tuag ato, a llawer o'r cydweithio a’r gwaith pwysig sydd eisoes yn digwydd. Rydym yn gwybod nad yw'r sefydliadau hyn wedi sefyll yn llonydd: mae ein hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a’n parciau cenedlaethol wedi meithrin partneriaethau newydd a rhwydweithiau newydd. Maent wedi deall yr heriau sy'n eu hwynebu ac sy’n wynebu Cymru ers datganoli. Fodd bynnag, mae llawer mwy y gellir ei wneud, ac mae'n amserol, wrth fyfyrio ar y 65 mlynedd y bu'r dynodiadau hyn gennym, i edrych ar y cynnydd a wnaed a'r heriau newydd a ddaeth gyda datganoli ac yna dechrau gwaith yr adolygiad llywodraethu ac, yn wir, yr ymateb i Williams. Felly, gallaf roi'r ymrwymiad hwn heddiw: Byddaf yn parhau i weithio'n agos iawn gydag Aelodau ar draws y Siambr hon, wrth i ni ddatblygu’r gwaith pwysig hwn ac adeiladu'r dyfodol ar gyfer y 65 mlynedd nesaf.

17:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw bod cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

The question is that amendment 1 be agreed. Is there any objection? There are no objections, therefore amendment 1 agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw bod cytuno ar welliant 2. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais arall ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 2 be agreed. Is there any objection? There is objection, therefore, all voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will move straight to voting time.

Mae amser pleidleisio yn dilyn nawr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly symudwn yn syth i'r cyfnod pleidleisio.

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5515.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5515.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 37, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 37, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5515.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5515.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5515.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5515.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5515.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5515.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5515.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5515.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 29, Ymatal 9.*

*Amendment not agreed: For 10, Against 29, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5515

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5515

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 23, Against 25, Abstain 0.*

Cynnig NDM5515 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5515 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella a pharhau i integreiddio gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

1. Notes the actions taken by the Welsh Government to improve and further integrate primary, community and social care in Wales.

2. Yn croesawu'r cyllid ychwanegol y cytunwyd arno gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol yng nghyllideb 2014/15.

2. Welcomes the additional funding agreed by the Welsh Liberal Democrats, Plaid Cymru and the Welsh Government for the Intermediate Care Fund in the 2014/15 budget.

3. Yn nodi pryderon Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu ynghylch yr angen am fuddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, sef yr hyn a nodir yn eu hymgyrch Patients First: Back General Practice.

3. Notes the concerns of the Royal College of GPs regarding the need for additional investment in primary care services as highlighted by their Put Patients First: Back General Practice campaign.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella trefniadau cynllunio'r gweithlu gofal sylfaenol ac i weithredu ar frys i roi sylw i'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio meddygon teulu ledled Cymru.

4. Calls upon the Welsh Government to improve primary care workforce planning arrangements and take urgent action to address GP recruitment challenges across Wales.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5515 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5515 as amended

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 38, Against 10, Abstain 0.*

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now vote on the debate on the governance of national parks and areas of outstanding natural beauty. Amendment 1 to NDM5516 has already been agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Pleidleisiwn yn awr ar y ddadl ar lywodraethu parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Mae gwelliant 1 i NDM5516 eisoes wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5516

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5516

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 23, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 23, Against 25, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5516

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5516

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 34, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 14, Against 34, Abstain 0.*

Cynnig NDM5516 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5516 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn dathlu cyfraniad tri pharc cenedlaethol Cymru at ein treftadaeth ac yn cefnogi'r rôl y maent yn parhau i'w chwarae yn hybu hunaniaeth unigryw Cymru.

1. Celebrates the contribution of Wales' three National Parks to our heritage and supports the role they continue to play in fostering Wales' unique identity.

2. Yn cydnabod gwerth presennol a gwerth posibl tirweddau dynodedig Cymru i amgylchedd, economi, iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl Cymru.

2. Recognises the current and potential value of Wales' designated landscapes to the environment, economy, health, well-being and quality of life of the people of Wales.

3. Yn nodi'r adolygiad sydd yn yr arfaeth o drefniadau llywodraethu ar gyfer tirweddau dynodedig yng Nghymru.

3. Notes the forthcoming review of governance arrangements for designated landscapes in Wales.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5516 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5516 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

17:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business. Thank you, team.

Dyna ddiwedd busnes heddiw. Diolch i chi, dîm.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:46.*

*The meeting ended at 17:46.*